

Cofnod y Trafodion

The Record of Proceedings

17/11/2015

Cynnwys Contents

[Datganiad gan y Llywydd](#)
[Statement by the Presiding Officer](#)

[1. Datganiad: Yr Ymosodiadau ym Mharis](#)
[1. Statement: The Paris Attacks](#)

[2. Cwestiynau i'r Prif Weinidog](#)
[2. Questions to the First Minister](#)

[Cwestiwn Brys: Swyddfeydd Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yng Nghymru](#)
[Urgent Question: Her Majesty's Revenue and Customs Offices in Wales](#)

[3. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes](#)
[3. Business Statement and Announcement](#)

[4. Rheoliadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015 \(Darpariaethau Trosiannol\) 2015](#)
[4. The Well-being of Future Generations \(Wales\) Act 2015 \(Transitional Provisions\) Regulations 2015](#)

[Cynnig i Atal Rheolau Sefydlog](#)
[Motion to Suspend Standing Orders](#)

[5. Rheoliadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015 \(Darpariaethau Canlyniadol\) 2015](#)
[5. The Well-being of Future Generations \(Wales\) Act 2015 \(Consequential Provisions\) Regulations 2015](#)

[6. Dadl ar Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru 2014-15](#)
[6. Debate on the Children's Commissioner for Wales's Annual Report 2014-15](#)

[7. Dadl ar yr Ardoll Prentisiaethau](#)
[7. Debate on the Apprenticeship Levy](#)

[Datganiad y Gweinidog ynghylch Cydsyniad Ei Mawrhydi y Frenhines](#)
[Minister's Statement regarding Her Majesty the Queen's Consent](#)

[8. Cyfnod 4 o'r Bil Rhentu Cartrefi \(Cymru\)](#)
[8. Stage 4 of the Renting Homes \(Wales\) Bill](#)

[9. Cyfnod Pleidleisio](#)
[9. Voting Time](#)

[10. Dadl Cyfnod 3 y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol \(Cymru\)](#)
[10. Stage 3 Debate on the Regulation and Inspection of Social Care \(Wales\) Bill](#)

Cyfarfu'r Cynulliad am 13:30 gyda'r Llywydd (y Fonesig Rosemary Butler) yn y Gadair.

The Assembly met at 13:30 with the Presiding Officer (Dame Rosemary Butler) in the Chair.

13:30 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Good afternoon. The National Assembly for Wales is now in session.

Prynhawn da. Dyma ddechrau trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

13:30 **Datganiad gan y Llywydd**
Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Before we start, we are all aware of the terrible events of recent weeks, most recently in Paris, but also in Beirut, Egypt and elsewhere. I'm sure Members will wish to join me in remembering those that have been killed or injured in these attacks, and in sending our condolences to those that are grieving.

Statement by the Presiding Officer

Cyn i ni ddechrau, rydym i gyd yn ymwybodol o'r digwyddiadau ofnadwy yn ystod yr wythnosau diwethaf, yn fwyaf diweddar ym Mharis, ond hefyd yn Beirut, yr Aifft ac mewn manau eraill. Rwy'n siŵr y bydd yr Aelodau'n dymuno ymuno â mi i gofio am y rhai sydd wedi eu lladd neu eu hanafu yn yr ymosodiadau hyn, ac i anfon ein cydymdeimladau i'r rhai hynny sy'n galaru.

13:30

1. Datganiad: Yr Ymosodiadau ym Mharis

And, now, I have a statement by the First Minister.

13:30

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Diolch, Lywydd. Mae Cymru yn sefyll ochr wrth ochr gyda phobl Ffrainc yn sgil y digwyddiadau ffaidd ym Mharis nos Wener. Mae pobl Paris wedi talu'n ddrud am yr hawl i fyw mewn rhyddid, ac mae dyletswydd arnom ni i gyd i warchod gwerthoedd rhyddid a democratiaeth ar bob cyfrif.

I know that all Members will want to join in expressing our sorrow and revulsion at the atrocities in Paris on Friday night. The people of Wales stand shoulder to shoulder in solidarity with the French people in this time of mourning. The people of Paris have paid a heavy price for exercising the right to live freely. Freedom is a value we share and a cause we must all defend, everywhere and all of the time. Lywydd, I wrote yesterday to the French ambassador, expressing our sorrow and support, and I attached a copy of that letter to the written statement tabled to Members yesterday.

Les gens du Pays de Galles souhaitent montrer leur solidarité pendant cette période difficile pour le peuple français.

Flags on Welsh Government buildings across Wales were flown at half mast yesterday and again today as a mark of our respect. I know, Lywydd, that Members and staff who were here yesterday gathered on the steps of the Senedd to mark the Europe-wide minute's silence and that other groups across Wales have shown their respects in their own ways.

Security and intelligence are clearly UK Government competences, but, over the weekend, I participated in the UK Government security briefing, chaired by the Prime Minister—the so-called COBRA committee. The Welsh Government remains in active contact with UK colleagues on security issues, and the Minister for Public Services today met the police for further briefings. Lywydd, I would like to place on record our appreciation for the work of the police and the security services who work day in and day out to protect people across our country.

1. Statement: The Paris Attacks Llywydd / The Presiding

Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

A nawr mae gennyf ddatganiad gan y Prif Weinidog.

Thank you, Presiding Officer. The people of Wales stand shoulder to shoulder with the people of France following the atrocities in Paris on Friday evening. The people of Paris have paid a heavy price for exercising the right to live in freedom, and we have a duty to protect the values of freedom and democracy on all counts.

Gwn y bydd pob Aelod yn awyddus i ymuno i fynegi ein tristwch a'n harswyd ynglŷn â'r erchyllterau ym Mharis nos Wener. Mae pobl Cymru yn sefyll ysgwydd wrth ysgwydd mewn undod gyda phobl Ffrainc yn y cyfnod hwn o alaru. Mae pobl Paris wedi talu pris mawr am arfer yr hawl i fyw yn rhydd. Mae rhyddid yn un o'r gwerthoedd yr ydym yn ei rannu ac y mae'n rhaid i ni i gyd ei amddiffyn, ym mhob man bob amser. Lywydd, ysgrifennais ddoe at lysgennad Ffrainc, i fynegi ein tristwch a'n cefnogaeth, ac atodais gopi o'r llythyr hwnnw i'r datganiad ysgrifenedig a gyflwynwyd i'r Aelodau ddoe.

Les gens du Pays de Galles souhaitent montrer leur solidarité pendant cette période difficile pour le peuple français.

Roedd y baneri ar adeiladau Llywodraeth Cymru ledled Cymru yn hedfan ar hanner mast ddoe ac eto heddiw fel arwydd o'n parch. Rwyf yn gwybod, Lywydd, fod yr Aelodau a'r staff a oedd yma ddoe wedi ymgynnull ar risiau'r Senedd i nodi'r munud o dawelwch ledled Ewrop, a bod grwpiau eraill ledled Cymru wedi nodi teyrnged yn eu ffyrdd eu hunain.

Cymwyseddau Llywodraeth y DU yn amlwg yw diogelwch a chudd-wybodaeth, ond, dros y penwythnos, cymerais ran ym mriif diogelwch Llywodraeth y DU, dan gadeiryddiaeth y Prif Weinidog— y pwyllgor COBRA fel y'i gelwir. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fod mewn cysylltiad gweithredol â chydweithwyr yn y DU ar faterion diogelwch, ac mae'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus wedi cyfarfod heddiw â'r heddlu ar gyfer sesiynau briffio pellach. Lywydd, hoffwn gofnodi ein gwerthfawrogiad am waith yr heddlu a'r gwasanaethau diogelwch sy'n gweithio bob un dydd i ddiogelu pobl ledled ein gwlad.

Y Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The United Kingdom has itself suffered from terrorism. We know for a fact that a number of other attacks have been foiled at the planning stage. Arrests have been made here in Wales in the past, and we know that individuals have travelled from here to Syria. We cannot be complacent about our own back yard. The public should remain vigilant and should not hesitate to contact the police if they have suspicious or unusual activity to report. Llywydd, I would also like to place on record my support and solidarity for the Muslim community here in Wales, the overwhelming majority of whom share our revulsion at the terrorism carried out in the name of a corrupted view of their religion. Muslims make a powerful and positive contribution to Welsh society and we will all stand together in opposing extremism and aggression in our community.

Mae'r Deyrnas Unedig ei hun wedi dioddef o derfysgaeth. Rydym yn gwybod fel ffaith bod nifer o ymosodiadau eraill wedi eu hatal yn y cyfnod cynllunio. Mae pobl wedi'u harestio yma yng Nghymru yn y gorffennol, ac rydym yn gwybod bod unigolion wedi teithio oddi yma i Syria. Ni allwn fod yn hunanfodlon ynghylch ein hiard gefn ein hunain. Dylai'r cyhoedd barhau i fod yn wyliadwrus a dylid cysylltu'n ddi-oed â'r heddlu os oes ganddynt ymddygiad amheus neu anarferol i'w adrodd. Lywydd, hoffwn hefyd gofnodi fy nghefnogaeth a fy undod â'r gymuned Fwslimaidd yma yng Nghymru, mae'r mwyafrif llethol ohonynt yn rhannu ein harswyd â'r gweithredoedd terfysgaeth a gyflawnwyd yn enw safbwynt llygredig ar eu crefydd. Mae Mwslimiaid yn gwneud cyfraniad grymus a chadarnhaol i gymdeithas yng Nghymru a byddwn i gyd yn sefyll gyda'n gilydd i wrthsefyll eithafiaeth a bygythiad yn ein cymuned.

13:34

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition

Thank you, First Minister, for making this statement this afternoon, which enables us to put our own thoughts on the record, and also pose some questions to you about the role the Welsh Government can play in supporting the efforts of the UK Government and the international community in facing down these dastardly crimes, acts—call them what you will—that are so abhorrent.

On Friday night, in my own household, we were welcoming home my son from his placement in college, and it was a happy household, and many households in Paris would have seen their loved ones go off to sporting events, to take a meal, or just to enjoy the life in Paris. But, sadly, unlike our household, where our son came home, many sons, daughters, loved ones did not return from that tragic series of events that were taking place in Paris. We stand shoulder to shoulder with the French people; we stand shoulder to shoulder with the Egyptian people and anyone who faces the abhorrent acts of terrorism that are undertaken to pervert the cause of Islam.

I agree entirely with what you have said, First Minister, about the Muslim faith—the Muslim faith is a faith of peace. It is not a faith of war, it is not a faith of terrorism, it is not a faith that should be abused. But, sadly, there are people on the extremities of that faith who have chosen to do that. It is incumbent on us to stand shoulder to shoulder with the French people; it is incumbent on us to stand shoulder to shoulder with people across the world, to face down that evil. I do hope that the solidarity that has been shown on the steps of the Senedd here over the last couple of days, the remarks that have been made in London, Edinburgh and Belfast, show that, across the United Kingdom, we are as one with the French people in their hour of need.

Diolch yn fawr, Brif Weinidog, am wneud y datganiad hwn y prynhawn yma, sy'n ein galluogi i nodi ein meddyliau ein hunain ar y cofnod, a hefyd i ofyn rhai cwestiynau i chi am swyddogaeth bosibl Llywodraeth Cymru wrth gefnogi ymdrechion Llywodraeth y DU a'r gymuned ryngwladol wrth frwydro yn erbyn y troseddau, gweithredoedd llwfr hyn—galwch nhw beth a fynnwch—sydd mor warthus.

Nos Wener, ar fy aelwyd fy hun, roeddem yn croesawu fy mab adref o'i leoliad yn y coleg, ac roedd yn aelwyd hapus, a byddai llawer o aelwydydd ym Mharis wedi gweld eu hanwyliaid yn gadael i fynd i ddigwyddiadau chwaraeon, i gael pryd o fwyd, neu dim ond i fwynhau'r bywyd ym Mharis. Ond, yn drist, yn wahanol i'n haelwyd ni, lle daeth ein mab ni adref, ni wnaeth llawer o feibion, merched, anwyliaid ddychwelyd o'r gyfres o ddigwyddiadau trasig a oedd yn digwydd ym Mharis. Rydym yn sefyll ysgwydd wrth ysgwydd â phobl Ffrainc; rydym yn sefyll ysgwydd wrth ysgwydd a phobl yr Aiff ac unrhyw un sy'n wynebu gweithredoedd gwarthus o derfysgaeth a gyflawnir i wrydroi achos Islam.

Rwy'n cytuno'n llwyr â'r hyn yr ydych wedi'i ddweud, Brif Weinidog, am y ffydd Fwslimaidd—mae'r ffydd Fwslimaidd yn ffydd heddychlon. Nid yw'n ffydd ryfelgar, nid yw'n ffydd derfysgol, nid yw'n ffydd y dylid ei chamddefnyddio. Ond, yn anffodus, mae pobl ar eithafoedd y ffydd honno sydd wedi dewis gwneud hynny. Mae'n ddyletswydd arnom ni i sefyll ysgwydd wrth ysgwydd â phobl Ffrainc; mae'n ddyletswydd arnom i sefyll ysgwydd wrth ysgwydd â phobl ledled y byd, i wrthsefyll y grymoedd diefflig hynny. Rwy'n gobeithio y bydd yr undod a ddangoswyd ar risiau'r Senedd hon yn ystod yr ychydig ddiwrnodau diwethaf, y sylwadau a wnaed yn Llundain, Caeredin a Belfast, yn dangos ein bod, ledled y Deyrnas Unedig, mewn undod â phobl Ffrainc yn y cyfnod hwn.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

There are two points I would like to make to you, First Minister, if I may. The first point is in the field of education, and what help and support we can give our education system in relation to any hint of radicalisation that people might find is coming through the education system. That has been shown as being a route in to trying to take out vulnerable people and show them an alternative course than should be taken on by adopting the radical ways that people have chosen, to take people out to Syria and other parts of the middle east, as we've seen from people going from Cardiff. That is not the way forward. We are responsible in this institution for the education system, and I'd be grateful to understand what protocols are in place to make sure that Welsh Government are supporting schools, supporting colleges, to make sure young people are offered an alternative route to radicalisation.

The second point I would make to you, First Minister, is that it is vital we offer role models in the Muslim community so that they can be used to show that there are so many positive aspects to the Muslim faith across all communities, so that we do stand shoulder to shoulder and people do not feel that they are marginalised by society and that they are victims of harassment, whether it be in Cardiff or other towns and cities across Wales. We did hear that in the 'Sunday Supplement' programme on Sunday, that there were various Muslims who said that they do face that level of intimidation. That should not be allowed. We do not recognise Islam as a faith that turns to terrorism; it is a faith of peace, and we should make sure we should do all we can to offer the role models that, ultimately, can show that we are one united society, facing down these terrible acts that have been inflicted not just in Paris, but in other countries around the world.

Mae dau bwynt yr hoffwn eu nodi, Brif Weinidog, os caf. Mae'r pwynt cyntaf ym maes addysg, a pha gymorth a chefnogaeth y gallwn ni ei roi i'n system addysg yn gysylltiedig ag unrhyw awgrym o radialeiddio y gallai pobl ei ganfod yn dod drwy'r system addysg. Mae hwnnw wedi ei ddangos fel bod yn llwybr i geisio cymryd pobl sy'n agored i niwed a dangos llwybr arall iddynt nag y dylid ei ddilyn trwy fabwysiadu'r ffyrdd radical y mae pobl wedi eu dewis, i fynd â phobl allan i Syria a rhannau eraill o'r dwyrain canol, fel yr ydym wedi gweld gyda phobl yn mynd o Gaerdydd. Nid dyna'r ffordd ymlaen. Rydym yn gyfrifol yn y sefydliad hwn am y system addysg, a byddwn yn ddiolchgar i ddeall pa brotocolau sydd ar waith i sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn cefnogi ysgolion, yn cefnogi colegau, i sicrhau bod pobl ifanc yn cael cynnig llwybr amgen i radialeiddio.

Yr ail bwynt yr wyf am ei nodi wrthy, Brif Weinidog, yw ei bod yn hanfodol ein bod yn cynnig pobl sy'n gosod esiampl dda yn y gymuned Fwslimaidd fel y gellir eu defnyddio i ddangos bod cymaint o agweddau cadarnhaol ar y ffydd Fwslimaidd ym mhob cymuned, fel ein bod ni yn sefyll ysgwydd wrth ysgwydd ac nad yw pobl yn teimlo eu bod yn cael eu gwrthio i'r cyrion gan gymdeithas a'u bod yn dioddef o aflonyddu, boed hynny yng Nghaerdydd neu drefi a dinasoedd eraill ledled Cymru. Clywsom hynny ar y rhaglenn 'Sunday Supplement' ddydd Sul, bod nifer o Fwslimiaid sy'n dweud eu bod yn wynebu'r lefel honno o fygwth. Ni ddylid caniatáu hynny. Nid ydym yn cydnabod Islam fel ffydd sy'n troi at derfysgaeth; mae'n ffydd o heddwch, a dylem wneud yn siŵr ein bod yn gwneud popeth yn ein gallu i gynnig yr esiampl dda sydd, yn y pen draw, yn gallu dangos ein bod yn un gymdeithas unedig, yn gwrthsefyll y gweithredoedd ofnadwy hyn sydd wedi digwydd nid yn unig ym Mharis, ond mewn gwledydd eraill ledled y byd.

13:38

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

I thank the leader of the opposition for his comments. We do, of course, have community cohesion co-ordinators whose role it is to encourage cohesion and to help to identify issues as they arise. We have the faith communities forum, which represents a number of different faiths, and the forum itself is a place where difficulties can be raised and identified, and eventually, of course, dealt with. When it comes to schools, Estyn, of course, has a role in terms of monitoring and inspecting all schools in Wales, and it is for Estyn, of course, to determine whether a school is delivering the curriculum as it should. I think we should emphasise, of course, that we are talking here about a very small minority. All religions in their time have had extremists who have sought to use that religion in order to kill others. The people who carried out the attacks on Friday in Paris are no more representative of Islam than the Ku Klux Klan is of Christianity. They are an extreme fringe, and the vast majority of people who describe themselves and think of themselves as true Muslims would be and are appalled by the attacks that took place on Friday.

Diolch i arweinydd yr wrthblaid am ei sylwadau. Mae gennym, wrth gwrs, gydgysylltwyr cydlyniant cymunedol sydd â'r swyddogaeth o annog cydlyniant a helpu i nodi materion wrth iddynt godi. Mae gennym y fforwm cymunedau ffydd, sy'n cynrychioli nifer o wahanol grefyddau, ac mae'r fforwm ei hun yn fan lle y gellir codi a nodi anawsterau, ac yn y pen draw, wrth gwrs, lle gellir ymdrin â hwy. Pan ddaw i ysgolion, mae gan Estyn, wrth gwrs, swyddogaeth o ran monitro ac arolygu pob ysgol yng Nghymru, a mater i Estyn, wrth gwrs, yw penderfynu a yw ysgol yn cyflwyno'r cwricwlwm fel y dylai. Rwy'n credu y dylem bwysleisio, wrth gwrs, ein bod yn sôn yma am leiafrif bach iawn. Mae pob crefydd yn eu tro wedi cael eithafwyr sydd wedi ceisio defnyddio'r grefydd honno er mwyn lladd pobl eraill. Nid oedd y bobl a gyflawnodd yr ymosodiadau ddydd Gwener ym Mharis yn cynrychioli Islam mwy nag yr oedd y Ku Klux Klan yn cynrychioli Cristnogaeth. Elfen ymylol eithafol ydynt, ac mae'r mwyafrif helaeth o bobl sy'n disgrifio eu hunain ac yn ystyried eu hunain yn wir Fwslimiaid wedi'u brawychu gan yr ymosodiadau a gyflawnwyd ddydd Gwener.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

In terms of role models, there are role models in British society that show that it's more than possible to rise to the heights of civic society through politics or, indeed, through sport. What's important, of course, is to ensure that the kind of role models that young men—not exclusively young men, but particularly young men—are attracted to in Syria, in Iraq, and beyond, are people who should lose the appeal that they have to some young men and young women, and to show that what they are, in effect, are gangsters, no more than that, with a bloodlust. They are not representative of Islam. They are not representative of progress. They represent only themselves, and they represent only murder and mayhem.

O ran pobl yn gosod esiampl, mai rhai yng nghymdeithas Prydain sy'n dangos ei bod yn fwy na phosibl i godi i uchafion cymdeithas ddinesig drwy wleidyddiaeth neu, yn wir, drwy chwaraeon. Yr hyn sy'n bwysig, wrth gwrs, yw sicrhau bod y math o esiampl y mae dynion ifanc—nid dynion ifanc yn unig, ond dynion ifanc yn enwedig—yn cael eu denu ati yn Syria, yn Iraq, a thu hwnt, yn bobl a ddylai gollir apêl sydd ganddynt i rai dynion ifanc a menywod ifanc, ac i ddangos mai'r hyn ydynt, mewn gwirionedd, yw gangsteriaid, dim mwy na hynny, gyda chwant am waed. Nid ydynt yn gynrychioladol o Islam. Nid ydynt yn gynrychioladol o gynnydd. Nid ydynt yn cynrychioli dim ond eu hunain, ac nid ydynt yn cynrychioli dim ond llofruddiaeth ac anhrefn.

13:40

Leanne Wood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru

First Minister, I'd like to take the opportunity to add Plaid Cymru's support to the sentiments that you've expressed in response to these attacks in Paris. Plaid Cymru's thoughts and condolences are with the families of those murdered and injured in Paris last weekend. Our sympathies and thoughts are also with the victims of terror attacks that have and are occurring all over the world on a regular basis.

First Minister, over the weekend I listened to your remarks as to how Wales should respond. Obviously, we have very important attractions and events that take place in this country and people will want assurances that such places are made as safe as possible. So, I'd appreciate to hear your thoughts on that point. We're also having to endure significant cuts to policing, and so I'd be interested to hear your thoughts about how we can reassure people that the threat that we face can be met in the light of these cuts to policing budgets.

I'm sure that you're aware that, today, the Prime Minister has announced further counter-terrorism measures, so I'd be interested to hear what role the Welsh Government is playing in such a process, in order to ensure that there is a Welsh perspective into that.

Finally, First Minister, as you've already alluded to, it is more important than ever for Welsh communities to pull together at a time like this. I am concerned about a potential backlash and hay, potentially, being made by far-right parties. Welsh Muslims are a part of our society and, of course, the vast majority would reject extremism and violence. So, would the First Minister agree with me that we should not allow what the preachers of hate want us to do, and that is to turn on one another?

Brif Weinidog, hoffwn achub ar y cyfle i ychwanegu cefnogaeth Plaid Cymru i'r teimladau yr ydych wedi'u mynegi mewn ymateb i'r ymosodiadau hyn ym Mharis. Mae meddyliau a chydymdeimlad Plaid Cymru gyda theuluoedd y rhai a lofruddiwyd ac a anafwyd ym Mharis y penwythnos diwethaf. Mae ein cydymdeimlad a'n meddyliau hefyd â dioddefwyr ymosodiadau terfysgol sydd wedi digwydd ac sydd yn digwydd yn rheolaidd ledled y byd.

Brif Weinidog, dros y penwythnos gwrandewais ar eich sylwadau ynglŷn â sut y dylai Cymru ymateb. Yn amlwg, mae gennym atyniadau a digwyddiadau pwysig iawn sy'n cael eu cynnal yn y wlad hon a bydd pobl eisiau sicrwydd bod lleoedd o'r fath yn cael eu gwneud mor ddiogel â phosibl. Felly, byddwn yn gwerthfawrogi clywed eich barn ar y pwynt hwnnw. Rydym ni hefyd yn gorfod dioddef toriadau sylweddol i blismona, ac felly byddai gennyf ddiddordeb mewn clywed eich barn am sut y gallwn dawelu meddyliau pobl y gellir mynd i'r afael â'r bygythiad sy'n ein hwynebu o ystyried y toriadau hyn i gyllidebau plismona.

Rwy'n siŵr eich bod yn ymwybodol bod y Prif Weinidog, heddiw, wedi cyhoeddi camau gwrthderfysgaeth ychwanegol, felly byddai gennyf ddiddordeb mewn clywed pa ran mae Llywodraeth Cymru yn ei chwarae mewn proses o'r fath, er mwyn sicrhau bod safbwynt Cymru wedi'i gynnwys.

Yn olaf, Brif Weinidog, fel yr ydych eisoes wedi'i grybwyll, mae'n bwysicach nag erioed i gymunedau Cymru dynnu at ei gilydd ar adeg fel hon. Rwyf yn pryderu am adwaith posibl, a allai ddigwydd gan bleidiau asgell dde eithafol. Mae Mwslimiaid Cymru yn rhan o'n cymdeithas ac wrth gwrs, byddai'r mwyafrif llethol yn gwrthod eithafiaeth a thrais. Felly, a yw'r Prif Weinidog yn cytuno â mi na ddylem ganiatáu yr hyn y mae pregethwyr casineb am i ni ei wneud, sef troi ar ein gilydd?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I thank the leader of Plaid Cymru for those comments. I particularly agree with the comment that she made at the end, that there is no greater victory for terrorists than for people to give up their freedoms and for people to turn against each other within their own communities. That's exactly what they want, and she is right, of course, to point that out.

The Welsh counter-terrorism unit has the role of examining security in Wales. I do receive briefings from that unit. Its role, of course, is to ensure that, where there is a particular level of threat, that level is understood, respected and, of course, that action can be taken regarding that level of threat. It is worth emphasising that the level of threat has not changed since the events in Paris; it remains at 'severe'. What we have said to people is that people should carry on with their lives as normal. There is no need to change the way that people live their lives but, again, we ask people to be vigilant, as they have been over the course of the last few months, and to report any suspicious activity to the authorities.

COBRA is the committee that has been meeting to examine the issues arising from Paris. I was part of the meeting, as was the First Minister of Scotland, on Saturday morning. Officials from the Welsh Government are part of those meetings and we do get briefings back in terms of what those meetings are discussing.

I, too, have been worried about the prospect of a backlash against the peaceful and law-abiding Muslim community that we have here in Wales, and I have received briefings in that regard. Whilst it is true to say that individual Muslims are more fearful of their safety, there's been no suggestion so far of any violent backlash. I sincerely hope it stays that way. Unfortunately, we are aware that there are plans by some far-right groups to organise demonstrations, particularly outside mosques. They have their own reasons for doing that. But thus far, as I've said, the people of Wales have stayed together and we as a Government—I'm sure I speak for all in this Chamber—will do all that we can to ensure that cohesion continues in the future.

Diolch i arweinydd Plaid Cymru am y sylwadau yna. Rwy'n arbennig yn cytuno â'r sylw a wnaeth ar y diwedd, mai'r fuddugoliaeth fwyaf i derfysgwyr yw pan fydd pobl yn rhoi'r gorau i'w rhyddid ac i bobl droi yn erbyn ei gilydd yn eu cymunedau eu hunain. Dyna'r union beth y maent ei eisiau, ac mae hi'n iawn, wrth gwrs, i nodi hynny.

Swyddogaeth uned gwrthderfysgaeth Cymru yw archwilio diogelwch yng Nghymru. Rwy'n cael fy mriffio gan yr uned honno. Ei swyddogaeth, wrth gwrs, yw sicrhau, pryd y ceir lefel benodol o fygythiad, bod y lefel honno yn cael ei deall, ei pharchu ac, wrth gwrs, y gellir cymryd camau ynghylch y lefel honno o fygythiad. Mae'n werth pwysleisio nad yw lefel y bygythiad wedi newid ers y digwyddiadau ym Mharis; mae'n parhau i fod yn 'ddifrifol'. Yr hyn yr ydym wedi ei ddweud wrth bobl yw y dylai pobl barhau â'u bywydau fel arfer. Nid oes angen newid y ffordd y mae pobl yn byw eu bywydau, ond, unwaith eto, rydym yn gofyn i bobl fod yn wyladwrs, fel y maent wedi bod yn ystod y misoedd diwethaf, ac i roi gwybod i'r awdurdodau am unrhyw beth amheus.

COBRA yw'r pwyllgor sydd wedi bod yn cyfarfod i archwilio'r materion sy'n codi o Baris. Roeddwn yn rhan o'r cyfarfod, fel yr oedd Prif Weinidog yr Alban, fore Sadwrn. Mae swyddogion o Lywodraeth Cymru yn rhan o'r cyfarfodydd hynny ac rydym yn cael ein briffio o ran yr hyn y mae'r cyfarfodydd hynny yn ei drafod.

Rwyf innau, hefyd, wedi bod yn poeni am y posibilrwydd o adwaith yn erbyn y gymuned Fwslimaidd heddychlon sy'n parchu'r gyfraith sydd gennym yma yng Nghymru, ac yr wyf wedi cael fy mriffio yn hynny o beth. Er ei bod yn wir i ddweud bod Mwslimiaid unigol yn fwy ofnus am eu diogelwch, nid oes unrhyw awgrym wedi bod hyd yn hyn o unrhyw adwaith treisgar. Rwyf yn mawr obeithio y bydd yn aros felly. Yn anffodus, rydym yn ymwybodol bod cynlluniau gan rai grwpiau asgell dde eithafol i drefnu protestiadau, yn enwedig y tu allan i foscgiau. Mae ganddynt eu rhesymau eu hunain dros wneud hynny. Ond hyd yn hyn, fel yr wyf wedi ei ddweud, mae pobl Cymru wedi aros gyda'i gilydd a byddwn ni fel Llywodraeth—rwy'n siwr fy mod yn siarad dros bawb yn y Siambr hon—yn gwneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau bod y cydlyniant hwnnw yn parhau yn y dyfodol.

Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats

Could I thank the First Minister for his statement to the Chamber this afternoon? Presiding Officer, it was with an initial sense of disbelief and then a growing sense of horror that I watched the events in Paris unfold on Friday night. On behalf of the Welsh Liberal Democrats, I would like to express our sincere condolences to the families of those affected, the communities in and around Paris affected, and, indeed, the entire French nation. But, Presiding Officer, we mustn't forget that the whole point of terrorism is to intimidate and to terrify, and the horrors of Friday night were indeed terrifying, but it's how we respond now as a nation and as an international community that matters the most. We cannot let those terrorists win. We must never allow them and their actions to change our way of life. We must never allow them and their actions to turn people against one another. We must never allow them and their actions to diminish our values of freedom and of fairness. We must stand up, we must be strong, and we must be united in our response.

Could I concur with what the First Minister said about the contribution of the Muslim community to our country? The perpetrators of these horrific crimes preach a perverse corruption of the faith of Islam that bears absolutely no resemblance to what the vast majority of Muslims in Wales and across the UK actually believe in. So, can I ask the First Minister what additional steps the Welsh Government can take to support the Muslim community in Wales not just from the potential backlash that may occur, but to actually support them within their communities to try and fight this perverse corruption, so that they can be resilient communities and they can protect their young people from the messages of hate that some people would like to infiltrate and infect their young people with? Thank you.

A gaf i ddiolch i'r Prif Weinidog am ei ddatganiad i'r Siambr y prynhawn yma? Lywydd, gydag ymdeimlad o anghrediniaeth i ddechrau ac yna ymdeimlad cynyddol o arswyd y gwyliais y digwyddiadau ym Mharis yn datblygu nos Wener. Ar ran Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, hoffwn fynegi ein cydymdeimlad diffuant â theuluoedd y rhai yr effeithiwyd arnynt, y cymunedau ym Mharis a'r cyffiniau yr effeithiwyd arnynt, ac, yn wir, Ffrainc gyfan fel cenedl. Ond, Lywydd, ni ddylem anghofio mai holl bwynt terfysgaeth yw codi ofn a dychryn, ac roedd erchyllterau nos Wener yn wirioneddol frawychus, ond y modd yr ydym yn ymateb yn awr fel cenedl ac fel cymuned ryngwladol sydd bwysicaf. Ni allwn ganiatáu i'r terfysgwyr hyn ennill. Rhaid i ni beidio byth â chaniatáu iddynt hwy a'u gweithredoedd newid ein ffordd o fyw. Rhaid i ni beidio byth â chaniatáu iddynt hwy a'u gweithredoedd droi pobl yn erbyn ei gilydd. Rhaid i ni beidio byth â chaniatáu iddynt hwy a'u gweithredoedd wanhau ein gwerthoedd o ryddid a thegwch. Mae'n rhaid i ni sefyll i fyny, rhaid i ni fod yn gryf, a rhaid i ni fod yn unedig yn ein hymateb.

A gaf i gytuno â'r hyn a ddywedodd y Prif Weinidog am gyfraniad y gymuned Fwslimaidd i'n gwlad? Mae'r sawl sy'n cyflawni'r troseddau erchyll hyn yn pregethu fersiwn lygredig wrthnysig o'r ffydd Islamaidd nad yw'n cynnwys unrhyw debygrwydd o gwbl i'r hyn y mae'r mwyafrif llethol o Fwslimiaid yng Nghymru ac ar draws y DU mewn gwirionedd yn ei gredu. Felly, a gaf i ofyn i'r Prif Weinidog pa gamau ychwanegol y gall Llywodraeth Cymru eu cymryd i gefnogi'r gymuned Fwslimaidd yng Nghymru, nid yn unig rhag yr adwaith posibl a allai ddigwydd, ond i'w cefnogi o ddifrif yn eu cymunedau i geisio ymladd y llygredd gwrthnysig hwn, fel y gallant fod yn gymunedau cydnerth ac y gallant ddiogelu eu pobl ifanc rhag y negeseuon o gasineb y byddai rhai pobl yn hoffi ymdreiddio a heintio eu pobl ifanc â hwy? Diolch.

13:47

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

I thank the leader of the Liberal Democrats for her comments. I know that the Muslim community in Wales is working hard to counter the attraction that there is for some in supporting or joining Islamic State. They fight, of course, against what is available online and the work of those who may be undetected who preach hatred. But I know that much work is done via community cohesion co-ordinators, via community groups, and via the representative organisations of Muslims in Wales, to seek to identify issues as quickly as possible so that they might be dealt with. Thus far, that has worked. We will continue, of course, to work very closely with the Muslim community and the community at large to make sure that the terrorists—because that’s what they are—do not succeed in their aim of setting people against each other. That would be a tragedy for all of us in Wales, and I am sure that the people of Wales will not allow these terrorists to fulfil their aim of setting people against each other because of religion, but also, of course, setting people of the same religion against each other. We mustn’t forget, of course, that these people who carried out the attacks on Friday would not hesitate to carry out those attacks on Muslims who didn’t share their particular view of Islam, and they are as much a threat to the Muslim community as they are to the community at large.

Diolch i arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol am ei sylwadau. Gwn fod y gymuned Fwslimaidd yng Nghymru yn gweithio'n galed i wrthsefyll yr atyniad sydd i rai o gefnogi neu ymuno ag IS. Maent yn ymladd, wrth gwrs, yn erbyn yr hyn sydd ar gael ar-lein a gwaith y rhai hynny a allai fod heb eu canfod sy'n pregethu casineb. Ond rwy'n gwybod bod llawer o waith yn cael ei wneud trwy gydgyssylltwyr cydlyniant cymunedol, trwy grwpiau cymunedol, a thrwy'r sefydliadau sy'n cynrychioli Mwslimiaid yng Nghymru, er mwyn ceisio nodi materion cyn gynted â phosibl er mwyn mynd i'r afael â nhw. Hyd yn hyn, mae hynny wedi gweithio. Byddwn, wrth gwrs, yn parhau i weithio'n agos iawn gyda'r gymuned Fwslimaidd a'r gymuned yn gyffredinol i wneud yn siŵr nad yw'r terfysgwyr—oherwydd dyna beth ydynt—yn llwyddo yn eu nod o droi pobl yn erbyn ei gilydd. Byddai hynny'n drychineb i bob un ohonom yng Nghymru, ac rwyf yn sicr na fydd pobl Cymru yn caniatáu i'r terfysgwyr hyn gyflawni eu nod o droi pobl yn erbyn ei gilydd oherwydd crefydd, ond hefyd, wrth gwrs, troi pobl o'r un grefydd yn erbyn ei gilydd. Rhaid i ni beidio ag anghofio, wrth gwrs, na fyddai'r bobl hyn a gyflawnodd yr ymosodiadau ddydd Gwener yn oedi rhag cyflawni'r ymosodiadau hynny ar Fwslimiaid nad oeddent yn rhannu eu barn benodol hwy ar Islam, ac maent yn gymaint o fgythyad i'r gymuned Fwslimaidd ag y maent i'r gymuned yn gyffredinol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:48

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you very much.

Diolch yn fawr iawn.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

2. Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Mae [R] yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant. Mae [W] yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

2. Questions to the First Minister

[R] signifies the Member has declared an interest. [W] signifies that the question was tabled in Welsh.

13:48

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move to item 2, which is questions to the First Minister, and question 1 this afternoon is Andrew R.T. Davies.

Symudwn at eitem 2 nawr, sef cwestiynau i'r Prif Weinidog, a daw cwestiwn 1 y prynhawn yma gan Andrew R.T. Davies.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Gwydnwch Darpariaeth Iechyd dros y Gaeaf

The Winter Resilience of Health Provision

13:49

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

1. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am wydnwch darpariaeth iechyd yng Nghanol De Cymru dros y gaeaf? OAQ(4)2560(FM)

1. Will the First Minister make a statement on the winter resilience of health provision in South Wales Central? OAQ(4)2560(FM)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:49

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Yes. Health boards, local authorities and the ambulance service have developed integrated plans for the forthcoming winter. Positive actions implemented by health and social care organisations include stronger joint working with general practitioner out-of-hours services and extended working hours, to include weekends and evenings.

Gwnaf. Mae byrddau iechyd, awdurdodau lleol a'r gwasanaeth ambiwlans wedi datblygu cynlluniau integredig ar gyfer y gaeaf sydd i ddod. Mae camau cadarnhaol a gymerwyd gan sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol yn cynnwys cydweithio cryfach gyda gwasanaethau meddyg teulu y tu allan i oriau ac oriau gwaith estynedig, gan gynnwys penwythnosau a min nos.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:49

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, First Minister, for that answer. I appreciate that many of these plans, in their initial stages, are the responsibility of the local health boards, but, having two health boards covering my electoral region—Cwm Taf and Cardiff and Vale—one of the things that always seems to happen whenever we have inclement weather, particularly very cold weather, is that the roadways within the health estate, shall we say, and the car parks, freeze over because of lack of gritting and lack of preparation for that cold weather, and, therefore, the hospitals themselves come to a stop because, for obvious reasons, you can't get people in and out of those hospitals. That's happened on numerous occasions since I was elected here in 2007. I appreciate, again, that the local health boards determine the initial plans, but what role is Welsh Government taking to make sure that the plans put forward are robust enough to deal with this particular problem that, ultimately, has the whole hospital on shutdown because the outside estate hasn't been maintained?

Diolch yn fawr, Brif Weinidog, am yr ateb yna. Rwy'n sylweddoli mai cyfrifoldeb y byrddau iechyd lleol yw llawer o'r cynlluniau hyn, ar eu camau cynnar, ond, gyda dau fwrdd iechyd yn fy rhanbarth etholiadol—Cwm Taf a Chaerdydd a'r Fro—un o'r pethau y mae'n ymddangos sy'n digwydd bob amser pryd bynnag y bydd gennym ni dywydd garw, a thywydd oer iawn yn arbennig, yw bod y ffyrdd o fewn yr ystâd iechyd, gadewch i ni ddweud, a'r meysydd parcio, yn rhewi oherwydd diffyg graeanu a diffyg paratoi ar gyfer y tywydd oer hwnnw, ac, felly, mae'r ysbytai eu hunain yn dod i stop oherwydd, am resymau amlwg, ni allwch chi gael pobl i mewn ac allan o'r ysbytai hynny. Mae hynny wedi digwydd ar sawl achlysur ers i mi gael fy ethol yma yn 2007. Rwy'n sylweddoli, eto, mai'r byrddau iechyd lleol sy'n penderfynu ar y cynlluniau cychwynnol, ond pa swyddogaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chyflawni i sicrhau bod y cynlluniau a gynigir yn ddigon cadarn i ymdrin â'r broblem benodol hon sydd, yn y pen draw, yn cau'r ysbyty cyfan gan nad yw'r ystâd y tu allan wedi ei gynnal a'i gadw?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:50

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

I can say that all integrated winter plans will be published on LHB websites by the end of this month. Welsh Government officials have scrutinised the draft integrated winter plans and provided feedback to the health and social care organisations, seeking further assurances where necessary. All NHS organisations have in place arrangements to help maintain services in the event of severe weather. I would expect that to include, of course, access to hospitals and ensuring that the car parks are kept accessible and safe.

Gallaf ddweud y bydd yr holl gynlluniau gaeaf integredig yn cael eu cyhoeddi ar wefannau BILlau erbyn diwedd y mis hwn. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi craffu ar y cynlluniau gaeaf integredig a chynnig adborth i'r sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol, yn gofyn am ragor o sicrwydd pan fo angen hynny. Mae gan bob sefydliad y GIG drefniadau ar waith i helpu i gynnal gwasanaethau os bydd tywydd garw. Byddwn yn disgwyl i hynny gynnwys, wrth gwrs, mynediad at ysbytai a sicrhau bod y meysydd parcio'n cael eu cadw'n hygyrch ac yn ddiogel.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Cytundeb Dinas Caerdydd

Cardiff City Deal

13:50

Eluned Parrott [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

2. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gytundeb dinas Caerdydd? OAQ(4)2577(FM)

2. Will the First Minister make a statement on the Cardiff city deal? OAQ(4)2577(FM)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:51

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Yes. City deals present an opportunity for Welsh local authorities to drive regional economic growth. I was pleased to support the Cardiff bid and look to the UK Government now to provide its support and funding.

Gwnaf. Mae cytundebau dinas yn cynnig cyfle i awdurdodau lleol Cymru hybu twf economaidd rhanbarthol. Roeddwn yn falch o gefnogi cais Caerdydd ac rwyf yn disgwyl i Lywodraeth y DU ddarparu ei chefnogaeth a'i chyllid nawr.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:51

Eluned Parrott [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, First Minister. I welcome your statement and the agreement on a funding package from the UK Government. However, city deals were never just about money. They are, of course, about empowering local authorities and city regions to drive their own economic regeneration, as you've said. What powers are the Welsh Government looking to devolve to the Cardiff capital region, alongside this funding package that you hope to obtain from the UK Treasury?

Diolch yn fawr, Brif Weinidog. Rwy'n croesawu eich datganiad a'r cytundeb ar becyn cyllid gan Lywodraeth y DU. Fodd bynnag, nid oedd cytundebau erioed yn ymwneud ag arian yn unig. Maen nhw, wrth gwrs, yn ymwneud â rhoi grym i awdurdodau lleol a dinas-ranbarthau fwrw ymlaen â'u hadfywio economaidd eu hunain, fel yr ydych chi wedi ei ddweud. Pa bwerau y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu eu datganoli i brifddinas-ranbarth Caerdydd, ochr yn ochr â'r pecyn cyllid hwn yr ydych chi'n gobeithio ei gael gan Drysorlys y DU?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

- 13:51 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
At this moment in time, what we have said to local authorities is that we would expect them to administer the match funding that will come from UK Government. It would be for them to decide how that money is spent. Of course, we'd want to work with them to ensure that they weren't duplicating what we were doing or that there wasn't competition between each other in terms of the provision of services. That would represent a substantial amount of money that will be available to local authorities and a substantial amount of leeway to them in terms of being able to spend it.
Ar hyn o bryd, yr hyn yr ydym ni wedi ei ddweud wrth yr awdurdodau lleol yw y byddem yn disgwyl iddyn nhw weinyddu'r arian cyfatebol a fydd yn dod gan Lywodraeth y DU. Eu penderfyniad nhw fyddai sut y bydd yr arian hwnnw'n cael ei wario. Wrth gwrs, byddem eisiau gweithio â nhw i sicrhau nad oeddent yn ailadrodd yr hyn yr ydym ni'n ei wneud neu nad oedd cystadleuaeth rhyngom ein gilydd o ran darparu gwasanaethau. Byddai hynny'n cynrychioli swm sylweddol o arian a fydd ar gael i awdurdodau lleol a llawer iawn o hyblygrwydd iddyn nhw o ran gallu ei wario.
- 13:52 **Jenny Rathbone** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Obviously the announcement yesterday by the BBC that they've signed a contract to move to Central Square in Cardiff is very welcome news, because that secures the bus and tram station to fit in with the train station. How will this city deal enable us to fast-forward phase 2 of the metro scheme?
Yn amlwg mae'r cyhoeddiad ddoe gan y BBC ei fod wedi arwyddo cytundeb i symud i'r Sgwâr Canolog yng Nghaerdydd yn newyddion da iawn, gan fod hynny'n sicrhau'r orsaf fysiau a thramiau i gyd-fynd â'r orsaf drenau. Sut bydd y cytundeb dinas hwn yn ein galluogi i gyflymu cam 2 y cynllun metro?
- 13:52 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
Well, with regard to the metro, we are putting money on the table for an integration fund. That would include the metro. We have to bear in mind, of course, that the metro has been talked about as a concept, but we have not identified money for the metro. As part of the city deal we are prepared to put new money into the city deal; the metro will be part of that. We trust that that will then attract the match funding from the UK Treasury.
Wel, o ran y metro, rydym ni'n rhoi arian ar y bwrdd ar gyfer cronfa integreiddio. Byddai hynny'n cynnwys y metro. Mae'n rhaid i ni gofio, wrth gwrs, fod y metro wedi cael ei drafod fel cysyniad, ond nid ydym wedi nodi arian ar gyfer y metro. Yn rhan o'r cytundeb dinas, rydym ni'n barod i gyfrannu arian newydd at y cytundeb dinas; bydd y metro'n rhan o hynny. Hyderwn y bydd hynny wedyn yn denu'r arian cyfatebol gan Drysorlys y DU.
- 13:53 **William Graham** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
First Minister, I've had the privilege to meet with members of the Cardiff capital region, and I'm very impressed, as I'm sure you are, by their depth of vision for the region. I'm hopeful that what they have proposed can take place. It's also, perhaps, a first to get 10 local authorities to come to actually combine and engage in such a visionary project. I would assure you of support from the Welsh Conservatives in this matter and we will do our bit to influence Government where we can.
Brif Weinidog, rwyf wedi cael y fraint o gyfarfod ag aelodau o brifddinas-ranbarth Caerdydd, ac mae dyfnder eu gweledigaeth ar gyfer y rhanbarth wedi gwneud cryn argraff arnaf, fel rwy'n siŵr y mae wedi ei wneud arnoch chithau. Rwy'n obeithiol y gall yr hyn y maen nhw wedi ei gynnig ddigwydd. Hwn hefyd, efallai, yw'r tro cyntaf y cafwyd 10 awdurdod lleol i ddod â chyfuno a chymryd rhan mewn prosiect mor llawn gweledigaeth o'r fath. Rwyf yn eich sicrhau y bydd cefnogaeth gan Geidwadwyr Cymru yn y mater hwn a byddwn yn chwarae ein rhan i ddylanwadu ar y Llywodraeth lle y gallwn.
- 13:53 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
I'm grateful to the Member for his comments. This is an opportunity to show that the UK Government, Welsh Government and local authorities can work together for Wales, despite party differences. We have done our bit, local authorities have done their bit, and we now look to the UK Government to do its bit.
Rwy'n ddiolchgar i'r Aelod am ei sylwadau. Mae hwn yn gyfle i ddangos y gall Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol weithio gyda'i gilydd dros Gymru, er gwaethaf gwahaniaethau rhwng y pleidiau. Rydym ni wedi chwarae ein rhan, mae awdurdodau lleol wedi chwarae eu rhan, ac rydym ni'n disgwyl i Lywodraeth y DU chwarae ei rhan nawr.

13:54 **Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, you'll be aware that I've raised on numerous occasions the importance of schemes such as the metro—economically and socially transformational for areas such as Taff Ely, Pontypridd and for the south Wales Valleys. I wonder if you could outline the discussions you may have had with local authorities such as Rhondda Cynon Taf and how you actually see the Cardiff city deal, despite the perhaps slightly misleading name, being of benefit to the whole of that area, and transformational for Taff Ely, for Pontypridd and for the Valleys of south Wales.

Brif Weinidog, byddwch yn ymwybodol fy mod i wedi codi ar sawl achlysur pwysigrwydd cynlluniau fel y metro—sy'n weddnewidiol yn economaidd ac yn gymdeithasol i ardaloedd fel Taf Elái, Pontypridd ac i gymoedd y de. Tybed a allech chi amlinellu'r trafodaethau y gallech chi fod wedi eu cael gydag awdurdodau lleol fel Rhondda Cynon Taf a sut yr ydych chi'n gweld y bydd cytundeb dinas Caerdydd, er gwaethaf yr enw sydd efallai braidd yn gamarweiniol, o fudd i'r ardal gyfan honno, ac yn weddnewidiol i Daf Elái, i Bontypridd ac i gymoedd y de, mewn gwirionedd.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:54 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Very much so. The metro would be delivered in three phases. That is our intention. It would include a number of options in terms of transport, particularly with regard, in the future, to new light rail connections, and to bus rapid transit as well, to extend the current network. It is right to say that this is a once-in-a-generation opportunity to transform not the capital, but the areas around Cardiff—to connect the area far more closely than is the case at the moment—in order not just for people to travel more quickly into Cardiff, but of course to attract investment out of Cardiff, through improving transport links to our communities further north, west and east.

Yn sicr. Byddai'r metro yn cael ei gyflwyno mewn tri cham. Dyna ein bwriad. Byddai'n cynnwys nifer o ddewisiadau o ran trafniadaeth, yn enwedig o ran, yn y dyfodol, cysylltiadau rheilffordd ysgafn newydd, a bws cludo cyflym hefyd, i ymestyn y rhwydwaith presennol. Mae'n iawn i ddweud bod hwn yn gyfle unwaith mewn cenhedlaeth i weddnewid nid y brifddinas, ond yr ardaloedd o amgylch Caerdydd—i gysylltu'r ardal yn llawer agosach nag sy'n wir ar hyn o bryd—nid yn unig er mwyn i bobl allu teithio'n gyflymach i mewn i Gaerdydd, ond wrth gwrs, i ddenu buddsoddiad allan o Gaerdydd, trwy wella cysylltiadau trafniadaeth i'n cymunedau ymhellach i'r gogledd, y gorllewin a'r dwyrain.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Cwestiynau Heb Rybudd gan Arweinwyr y Pleidiau

Questions Without Notice from the Party Leaders

13:55 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move to questions from the party leaders and first this afternoon is the leader of the opposition, Andrew R.T. Davies.

Symudwn at gwestiynau gan arweinwyr y pleidiau nawr, ac arweinydd yr wrthblaid, Andrew R.T. Davies, sydd gyntaf y prynhawn yma.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:55 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition

Thank you, Presiding Officer. First Minister, last Thursday I think it was, you held a Carwyn Connect meeting in Holyhead, I believe it was. As usual in north Wales—quite rightly so—many of the questions that you took were on health. In answer to one of the questions, you talked about Betsi Cadwaladr University Local Health Board and that one single health board—these were your words:

'may not be necessarily the right option going forward'.

That is, one health board delivering health services across the whole of north Wales. We've had two health reorganisations under Labour already in the last 12 years. Is it your thinking as First Minister, and the current Government's thinking, that there do need to be more health boards in Wales, delivering health services, and in particular in north Wales? If that isn't the case, why did you respond in that way to the question?

Diolch i chi, Lywydd. Brif Weinidog, ddydd lau diwethaf rwy'n credu oedd hi, cynhaliwyd cyfarfod Carwyn Connect gennyhych yng Nghaerdybi, rwy'n credu oedd hyn. Yn ôl yr arfer yn y gogledd—a hynny'n ddigon teg—roedd llawer o'r cwestiynau a gawsoch yn ymwneud ag iechyd. Mewn ateb i un o'r cwestiynau, soniasoch am Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr—a dyma oedd eich geiriau:

efallai nad un bwrdd iechyd unigol fydd y dewis cywir yn y dyfodol o reidrydd.

Hynny yw, un bwrdd iechyd yn darparu gwasanaethau iechyd ar draws y gogledd cyfan. Rydym ni wedi cael dau ad-drefniad iechyd dan Lafur eisoes yn y 12 mlynedd diwethaf. Ai eich barn chi Brif Weinidog, a barn y Llywodraeth bresennol, yw bod angen mwy o fyrdau iechyd yng Nghymru, yn darparu gwasanaethau iechyd, ac yn y gogledd yn arbennig? Os nad yw hynny'n wir, pam wnaethoch chi ymateb i'r cwestiwn yn y ffordd honno?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

- 13:56 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
There are no plans to change anything before the election. I can say that. But there is an issue with regard to whether one single board is the way forward for the whole of the north, or whether alternative options should be looked at. Those issues will need to be explored in the future.
- 13:56 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
That's interesting thinking and I'm not quite sure how that helps the health board up there that is currently in special measures, being told that it's going to be placed in special measures for two years and, at the end of it, it will emerge as an organisation fit for purpose. I think that's the language I've heard spoken by your Deputy Minister and the Minister for health himself. So, you clearly say that there are other plans being formulated by the Welsh Government. But also, what's come forward today is the announcement that, obviously, Betsi are paying the salary of the former chief executive to be seconded into the English NHS. Can you understand how frustrating, how annoying, that must be for residents, for patients and for clinicians the length and breadth of north Wales, who are finding that £200,000-worth of taxpayer money that was allocated for health services in north Wales is paying for someone who the Welsh Government didn't deem a fit-and-proper person to run the health services in north Wales?
- 13:57 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
Let me be clear: ultimately, this is a matter for the employer, but I will provide some further information this afternoon for Members. First of all, there's been no severance package for Trevor Purt. He has stepped down from his role as chief executive. By mutual agreement, he has been seconded from Betsi Cadwaladr to work with the NHS in England, but, as part of that secondment, he will produce a lessons learned report to Betsi Cadwaladr and the chief executive of the NHS in Wales on integration across partner organisations and the NHS more generally. At the end of that secondment period, in October of next year, he will cease to be an employee of the board.
- 13:58 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
First Minister, that's pretty expensive homework in anyone's exercise book, to be honest with you. But I hope you can share my understanding of the complete frustration that many people in north Wales will feel when they see this package put together and, ultimately, question how the hell it's come about.
- Nid oes unrhyw gynlluniau i newid unrhyw beth cyn yr etholiad. Gallaf ddweud hynny. Ond mae cwestiwn o ran ai un bwrdd seagl yw'r ffordd ymlaen i'r gogledd cyfan, neu a ddylid ystyried dewisiadau eraill. Bydd angen archwilio'r materion hynny yn y dyfodol.
- Mae honno'n farn ddi-ddorol ac nid wyf yn hollol siŵr sut mae hynny'n helpu'r bwrdd iechyd i fyny yno sy'n destun mesurau arbennig ar hyn o bryd, gan ddweud wrtho ei fod yn mynd i fod yn destun mesurau arbennig am ddwy flynedd ac, ar ddiwedd y cyfnod hwnnw, bydd yn sefydliad addas i'w ddi-ben. Rwy'n credu mai dyna'r iaith yr wyf wedi ei chlywed yn cael ei defnyddio gan eich Dirprwy Weinidog a'r Gweinidog iechyd ei hun. Felly, rydych chi'n dweud yn eglur bod cynlluniau eraill yn cael eu llunio gan Lywodraeth Cymru. Ond hefyd, yr hyn a gyflwynwyd heddiw yw'r cyhoeddiad bod Betsi, yn talu cyflog y cyn-brif weithredwr i gael ei secondio i'r GIG yn Lloegr. A allwch chi ddeall pa mor rhwystredig allai hynny fod, a faint y gallai gythruddo trigolion, cleifion a chlinigwyr ar hyd a lled y gogledd, sy'n canfod bod gwerth £200,000 o arian trethdalwyr a ddyrannwyd ar gyfer gwasanaethau iechyd yn y gogledd yn talu am rywun nad oedd Llywodraeth Cymru'n credu oedd yn unigolyn addas a phriodol i redeg y gwasanaethau iechyd yn y gogledd?
- Gadewch i mi fod yn eglur: mater i'r cyflogwr yw hwn yn y pen draw, ond byddaf yn rhoi rhywfaint o wybodaeth bellach i'r Aelodau y prynhawn yma. Yn gyntaf oll, ni fu unrhyw becyn diswyddo i Trevor Purt. Mae wedi gadael ei swydd fel prif weithredwr. Trwy gytundeb y ddwy ochr, mae wedi cael ei secondio o Betsi Cadwaladr i weithio gyda'r GIG yn Lloegr, ond, yn rhan o'r secondiad hwnnw, bydd yn llunio adroddiad o wersi a ddysgwyd i Betsi Cadwaladr a phrif weithredwr y GIG yng Nghymru ar integreiddio ar draws partner sefydliadau a'r GIG yn fwy cyffredinol. Ar ddiwedd cyfnod y secondiad, ym mis Hydref y flwyddyn nesaf, ni fydd yn un o weithiwr cyflogedig y bwrdd mwyach.
- Brif Weinidog, mae hynny'n waith cartref eithaf drud o unrhyw safbwynt, a bod yn onest gyda chi. Ond rwy'n gobeithio y gallwch chi rannu fy nealltwriaeth o'r rhwystredigaeth lwy y bydd llawer o bobl yn y gogledd yn ei deimlo pan fyddant yn gweld y pecyn hwn yn cael ei roi at ei gilydd ac, yn y pen draw, yn cwestiynu sut ar y ddaear y mae wedi digwydd.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

But I'd also like to raise with you the issue that 'Week In Week Out' are covering tonight on health matters closer to home, around the Princess of Wales Hospital and, in particular, the families that have taken part in that programme, who have said that what they require to bring closure to many of the issues that they, as grieving families or patients who have had poor treatment at the hospital, are having to deal with—. To bring closure to those issues, they require a public inquiry—an independent public inquiry. Indeed, experts connected with this particular field, Dr Bill Kirkup and Julie Bailey, who've dealt with these types of issues across the whole of the UK, say that the only way to address the historical problems that blight ABMU and the Princess of Wales from being able to move on is to have that independent inquiry. I've asked you several times to commission such an inquiry. Will you, based on the evidence that keeps coming forward, and to allow these families to have closure on the episodes of care that they refer to, commission such an independent inquiry, so that families, clinicians and the Princess of Wales Hospital can move on?

Ond hoffwn hefyd godi gyda chi y mater y mae 'Week In Week Out' yn rhoi sylw iddo heno ar faterion iechyd nes at adref, yn ymwneud ag Ysbyty Tywysoges Cymru ac, yn benodol, y teuluoedd sydd wedi cymryd rhan yn y rhaglen honno, sydd wedi dweud yr hyn sydd ei angen arnynt i roi terfyn ar lawer o'r materion y maen nhw, fel teuluoedd sy'n galaru neu gleifion sydd wedi cael triniaeth wael yn yr ysbyty, yn gorfod ymdrin â nhw—. I roi terfyn ar y materion hynny, mae angen ymchwiliad cyhoeddus arnynt nhw—ymchwiliad cyhoeddus annibynnol. Yn wir, mae arbengigwyr sy'n gysylltiedig â'r maes penodol hwn, Dr Bill Kirkup a Julie Bailey, sydd wedi ymdrin â'r mathau hyn o faterion ar draws y DU gyfan, yn dweud mai'r unig ffordd o fynd i'r afael â'r problemau hanesyddol sy'n atal PABM a Thywysoges Cymru rhag gallu symud ymlaen fyddai cael yr ymchwiliad annibynnol hwnnw. Rwyf wedi gofyn i chi sawl gwaith i gomisiynu ymchwiliad o'r fath. A wnewch chi, ar sail y dystiolaeth sy'n dal i gael ei chyflwyno, ac i alluogi'r teuluoedd hyn i roi terfyn ar yr achosion o ofal y maen nhw'n cyfeirio atynt, gomisiynu ymchwiliad annibynnol o'r fath, fel y gall teuluoedd, clinigwyr ac Ysbyty Tywysoges Cymru symud yn eu blaenau?

13:59 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Firstly, I haven't seen the programme. Secondly, the programme makers obviously have to be careful, given the fact that there is still a current legal process being gone through against three of the nurses. They must be careful what they say in terms of the programme tonight, but that's a matter for them. We have recognised the issues at the Princess of Wales Hospital. That is why, of course, we commissioned the Andrews report. That gave us the recommendations that we needed to move forward with. They have led to more stringent checks on hospitals, particularly unannounced checks, and we believe that in dealing with it in this way, the issue has been dealt with. No new evidence has come forward to suggest that Professor Andrews was in any way wrong, so it wouldn't be the intention of the Government to commission a public inquiry at this stage.

Yn gyntaf, nid wyf wedi gweld y rhaglen. Yn ail, mae'n amlwg bod yn rhaid i wneuthurwyr y rhaglen fod yn ofalus, o ystyried y ffaith bod proses gyfreithiol gyfredol sy'n dal i fynd rhagddi yn erbyn tair o'r nyrsys. Rhaid iddyn nhw fod yn ofalus o'r hyn maen nhw'n ei ddweud o ran y rhaglen heno, ond mater iddyn nhw yw hwnnw. Rydym ni wedi cydnabod y problemau yn Ysbyty Tywysoges Cymru. Dyna pam, wrth gwrs, y comisiynwyd adroddiad Andrews gennym. Rhoddodd hwnnw'r argymhellion yr oedd eu hangen arnom i symud ymlaen â nhw. Maen nhw wedi arwain at archwiliadau llymach o ysbytai, yn enwedig archwiliadau dirybudd, ac rydym ni'n credu bod y mater wedi ei ddatrys trwy ymdrin ag ef yn y modd hwn. Nid oes unrhyw dystiolaeth newydd wedi ymddangos i awgrymu bod yr Athro Andrews yn anghywir mewn unrhyw ffordd, felly nid comisiynu ymchwiliad cyhoeddus fyddai bwriad y Llywodraeth ar hyn o bryd.

14:00 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

We now move to the leader of Plaid Cymru, Leanne Wood.

Symudwn nawr at arweinydd Plaid Cymru, Leanne Wood.

14:00 **Leanne Wood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Diolch, Lywydd. I'd like to return to events over the weekend and the aftermath, and in particular to drill down on this question of community cohesion, First Minister. An important point that you made over the weekend and that you've reiterated again here this afternoon is the need to pull together, to stand together, and not to allow ourselves to be divided by terror. I agree wholeheartedly with what you've said on that, but I'd like to ask what measures you intend to take to help unite Welsh communities to ensure that there is no backlash against the many thousands of Muslims in this country who live here in peace and who find terror as repulsive as the rest of the population. You mentioned earlier the community cohesion co-ordinators that you have. I wonder if you can tell us what kind of work those co-ordinators can do to help prevent such a backlash.

Diolch, Lywydd. Hoffwn ddychwelyd at ddiwyddiadau dros y penwythnos a'r canlyniadau, ac yn benodol i ymchwilio'n drylwyr i'r cwestiwn hwn o gydlyniant cymunedol, Brif Weinidog. Pwynt pwysig a wnaethoch dros y penwythnos ac yr ydych chi wedi ei ailadrodd eto yma y prynhawn yma yw'r angen i dynnu at ein gilydd, i sefyll gyda'n gilydd, ac i beidio â chaniatáu ein hunain i gael ein rhannu gan derfysg. Rwy'n cytuno'n llwyr â'r hyn yr ydych chi wedi ei ddweud am hynny, ond hoffwn ofyn pa fesurau yr ydych chi'n bwriadu eu cymryd i helpu i uno cymunedau Cymru i sicrhau nad oes adlach yn erbyn y miloedd lawer o Fwslimiaid yn y wlad hon sy'n byw yma mewn heddwch ac sydd o'r farn bod terfysgaeth yr un mor wrthun â gweddill y boblogaeth. Soniasoch yn gynharach am y cydgyssylltwyr cydlyniant cymunedol sydd gennych chi. Tybed a allwch chi ddweud wrthym pa fath o waith y gall y cydgyssylltwyr hynny ei wneud i helpu i atal adlach o'r fath.

14:01

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

The first thing that I did was to ask for more information regarding any potential threats to the Muslim community. I received that information. Secondly, we do have a close network that enables us to work with the Muslim community to identify problems early on, whether that's done through the community cohesion co-ordinators as part of their role, whether it's done through the faith communities forum, or whether it's done informally with officials. So, I'm content with the pipeline that we have in order for information to be fed back and forth, but I did feel it was important to satisfy myself that all is being done that could be done in order to protect our communities, and particularly, of course, law-abiding and peace-loving Muslims who make up the vast majority of that community.

Y peth cyntaf a wneuthum oedd gofyn am ragor o wybodaeth ynglŷn ag unrhyw fygythiadau posibl i'r gymuned Fwslimaidd. Derbyniais y wybodaeth honno. Yn ail, mae gennym ni rwydwaith agos sy'n ein galluogi i weithio gyda'r gymuned Fwslimaidd i nodi yn gynnar, pa un a yw hynny'n cael ei wneud drwy'r cydgyssylltwyr cydlyniant cymunedol yn rhan o'u swyddogaeth, pa un a yw'n cael ei wneud drwy'r fforwm cymunedau ffydd, neu ba un a yw'n cael ei wneud yn anffurfiol gyda swyddogion. Felly, rwy'n fodlon â'r llwybr sydd gennym i'r wybodaeth gael ei bwydo'n ôl ac ymlaen, ond roeddwn i'n teimlo ei bod yn bwysig bodloni fy hun bod popeth yn cael ei wneud y gellid ei wneud er mwyn amddiffyn ein cymunedau, ac yn enwedig, wrth gwrs, Mwslimiaid sy'n ufuddhau i'r gyfraith ac yn heddychlon, sef mwyafrif llethol y gymuned honno.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:02

Leanne Wood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, without a doubt, people are going to be increasingly fearful of the threat posed by ISIS/Daesh, and there will be a need to work on promoting unity and cohesion within our communities. Of course, the current conflict is linked as well to many other issues, such as the refugees and the pressures on the EU in trying to cope with that particular crisis. Do you agree with me that, as we are trying to accommodate those people who are fleeing the horrors of war, we must at all times ensure that local people are treated fairly and are seen to be treated fairly in terms of access to services and housing and that we must have a programme of integration that promotes cohesion and fair play to all? Would you agree with me that, if we fail on that front, there's a real risk that bad feeling and resentment in communities could grow if public bodies are not seen to be acting in the most sensitive way that they possibly can?

Brif Weinidog, nid oes amheuaeth bod pobl yn mynd i fod yn gynyddol ofnus o'r bygythiad a berir gan ISIS/Daesh, a bydd angen gweithio ar hyrwyddo undod a chydlyniant yn ein cymunedau. Wrth gwrs, y mae'r gwrthdaro presennol wedi'i gysylltu â llawer o faterion eraill hefyd, fel y ffoaduriaid a'r pwysau ar yr UE wrth geisio ymdopi â'r argyfwng penodol hwnnw. A ydych chi'n cytuno â mi, gan ein bod yn ceisio derbyn y bobl hynny sy'n ffoi erchyllterau rhyfel, bod yn rhaid i ni sicrhau bob amser bod pobl leol yn cael eu trin yn deg ac y gwelir eu bod yn cael eu trin yn deg o ran mynediad at wasanaethau a thai a bod yn rhaid i ni gael rhaglen o integreiddio sy'n hybu cydlyniant a chwarae teg i bawb? A fydddech chi'n cytuno â mi, os byddwn yn methu yn hynny o beth, bod perygl gwirioneddol y gallai drwgdeimlad a dicter mewn cymunedau dyfu os na welir bod cyrff cyhoeddus yn ymddwyn yn y modd mwyaf sensitif y gallant?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:03

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Yes. Our point of view is that, as refugees arrive in Wales, the funding to support them should come from the UK Government, rather than coming from the Welsh Government budget, because this is a non-devolved issue. There is one point that I think is worth emphasising, and that is that there will be some, no doubt, who will be concerned that, amongst those people arriving as refugees, there will be some people who arrive with ill intent, who are using the refugee crisis as a cloak to hide under as they arrive in Europe. What I can say is that the office of the UN High Commissioner for Refugees is involved in screening refugees. There is a security process in place, and the vast majority of people of course are just fleeing war, at the end of the day. So, it is important to emphasise that in case people are fearful as a result of the flow of refugees into Europe. It is right to say that, where we resettle ultimately very small numbers of people, extra funding is made available so that they can be resettled as quickly as possible, so their needs can be met, yes, but also, of course, so that their skills can be utilised, because so many of the people who are refugees are highly skilled, and to be able to utilise their skills in our economy will be important.

Byddwn. Ein safbwynt ni, wrth i ffoaduriaid gyrraedd Cymru, yw y dylai'r arian i'w cynorthwyo ddod gan Lywodraeth y DU, yn hytrach nag o gyllideb Llywodraeth Cymru, gan fod hwn yn fater nad yw wedi ei ddatganoli. Ceir un pwynt rwy'n meddwl sy'n werth ei bwysleisio, sef bydd rhai, yn ddiâu, a fydd yn pryderu y bydd rhai pobl, ymhlith y bobl hynny sy'n cyrraedd fel ffoaduriaid, yn cyrraedd â bwriad drwg, sy'n defnyddio'r argyfwng ffoaduriaid fel clogyn i guddio oddi tano wrth iddyn nhw gyrraedd Ewrop. Yr hyn y gallaf ei ddweud yw bod swyddfa Uchel Gomisiynydd y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Ffoaduriaid yn rhan o'r broses o sgrinio ffoaduriaid. Mae proses ddiogelwch ar waith, ac mae mwyafrif llethol y bobl, wrth gwrs, ddim ond yn ffoi rhag rhyfel, yn y pen draw. Felly, mae'n bwysig pwysleisio hynny rhag ofn bod pobl yn ofnus o ganlyniad i lif y ffoaduriaid i mewn i Ewrop. Mae'n iawn dweud, lle'r ydym yn ailgyfhanheddu nifer fach iawn o bobl yn y pen draw, bod cyllid ychwanegol ar gael fel y gellir eu hailgyfhanheddu cyn gynted â phosibl, fel y gellir diwallu eu hanghenion, ie, ond hefyd, wrth gwrs, fel y gellir defnyddio eu sgiliau, gan fod cynifer o'r bobl sy'n ffoaduriaid yn fedrus iawn, a bydd gallu defnyddio eu sgiliau yn ein heconomi yn bwysig.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:04

Leanne Wood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you for that answer, First Minister. I think that there is no doubt that there are some people who will try to make political capital out of this situation, and you're right to say what you've just said. I think it's right to say that, at times like this, we can all feel pretty helpless. However, I think there is something practical that we can do from Wales. Would you agree that, as representatives and leaders of political parties, we have a crucial role to play in promoting unity in our communities and that we should take every opportunity to stand against allowing people to turn against each other as citizens of Wales, as united we stand, divided we fall? Muslims in Wales are an integral part of our society—that's already been established this afternoon. Therefore, would you be prepared to initiate some sort of statement to be signed by all party leaders in this place, which aims to show unity, not division, between all communities in Wales, so that we can demonstrate that we are, indeed, one Wales?

Diolch i chi am yr ateb yna, Brif Weinidog. Credaf nad oes unrhyw amheuaeth y bydd rhai pobl a fydd yn ceisio elwa'n wleidyddol ar y sefyllfa hon, ac rydych chi'n iawn i ddweud yr hyn yr ydych chi newydd ei ddweud. Rwy'n meddwl ei bod yn iawn i ddweud, ar adegau fel hyn, y gall pob un ohonom ni deimlo braidd yn ddiymadferth. Fodd bynnag, rwy'n meddwl bod rhywbeth ymarferol y gallwn ni ei wneud o Gymru. A fyddech chi'n cytuno bod gennym ni, fel cynrychiolwyr ac arweinwyr pleidiau gwleidyddol, swyddogaeth hanfodol i'w chyflawni o ran hybu undod yn ein cymunedau ac y dylem ni achub ar bob cyfle i sefyll yn erbyn caniatáu i bobl droi yn erbyn ei gilydd fel dinasyddion Cymru, gan ei bod yn wir mai mewn undod y mae nerth? Mae Mwslimiaid yng Nghymru yn rhan annatod o'n cymdeithas—nodwyd hynny eisoes y prynhawn yma. Felly, a fyddech chi'n barod i lunio rhyw fath o ddatganiad i'w lofnodi gan arweinwyr pob plaid yn y lle hwn, sydd â'r nod o ddangos undod, nid rhaniad, rhwng pob cymuned yng Nghymru, fel y gallwn ddangos ein bod, yn wir, yn un Gymru?

14:05

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Building on the statement that I've given this afternoon—what's been suggested will build upon that statement. I think it's important. Sometimes, people question me, as, indeed, they will all Members in this Chamber, about immigration. I ask them, 'What percentage of the population of Wales is descended from immigrants?' The answer, of course, is 100 per cent. All of our families came from somewhere, at some point. Where do you draw the line? That does get people thinking and others dismiss it, as we know, with these things. But yes, I think it's important over the coming days for us all to consider, as party leaders, how we continue to ensure cohesion amongst our communities, and particularly to ensure that the terrorists do not get their wish, namely to divide people.

Gan adeiladu ar y datganiad yr wyf wedi ei wneud y prynhawn yma—bydd yr hyn a awgrymwyd yn adeiladu ar y datganiad hwnnw. Rwy'n credu ei bod yn bwysig. Weithiau, mae pobl yn fy holi, fel, yn wir, y byddant yn holi pob Aelod yn y Siambr hon, am fewnfudo. Rwy'n gofyn iddyn nhw, "Pa ganran o boblogaeth Cymru sy'n ddisgynyddion mewnfudwyr?" Yr ateb, wrth gwrs, yw 100 y cant. Daeth pob un o'n teuluoedd o rywle, ar ryw adeg. Ble ydych chi'n tynnu'r llinell? Mae hynny'n gwneud i bobl feddwl ac mae eraill yn ei wrthod, fel y gwyddom, gyda'r pethau hyn. Ond ydw, rwy'n credu ei bod yn bwysig dros y diwrnodau nesaf i ni i gyd ystyried, fel arweinwyr y pleidiau, sut yr ydym ni'n parhau i sicrhau cydlynid ymhlith ein cymunedau, ac yn benodol i sicrhau na fydd y terfysgwyr yn cael eu dymuniad, sef rhannu pobl.

14:06

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Finally, the leader of the Welsh Liberal Democrats, Kirsty Williams.

Yn olaf, arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Kirsty Williams.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:06

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you, Presiding Officer. First Minister, does your Government believe that children learn better in larger classes?

Diolch i chi, Lywydd. Brif Weinidog, a yw eich Llywodraeth yn credu bod plant yn dysgu'n well mewn dosbarthiadau mwy?

14:06

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

It rather depends on a number of factors—the teacher, the facilities, the school or the facilities that the school has, sometimes the age of the building, and it will depend on the particular skills or particular specialists within a school. As long as a school delivers the curriculum in the way that parents would expect, then that is the determining factor.

Mae'n dibynnu braidd ar nifer o ffactorau—yr athro neu athrawes, y cyfleusterau, yr ysgol neu'r cyfleusterau sydd gan yr ysgol, oedran yr adeilad weithiau, a bydd yn dibynnu ar sgiliau penodol neu arbenigwyr penodol mewn ysgol. Cyn belled â bod ysgol yn darparu'r cwricwlwm yn y ffordd y byddai rhieni yn ei disgwyl, yna dyna'r factor sy'n penderfynu.

14:06

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, the school inspector here in Wales, Estyn, says that

'there is much evidence to suggest that teaching and learning are much better in classes under 30'.

Two years ago, there were 218 classes with more than 30 pupils in them. Now, today, there are 246 classes with more than 30 pupils in them. Why is your Government allowing the number of classes over 30—when the evidence suggests that learning is better below that number, why are you allowing that number to grow?

Brif Weinidog, mae'r arolygydd ysgolion yma yng Nghymru, Estyn, yn dweud bod

llawer o dystiolaeth i awgrymu bod addysgu a dysgu yn llawer gwell mewn dosbarthiadau o lai 30.

Ddwly flynedd yn ôl, roedd 218 dosbarth â thros 30 o ddisgyblion ynnddynt. Nawr, heddiw, mae 246 dosbarth â thros 30 o ddisgyblion ynnddynt. Pam mae eich Llywodraeth yn caniatáu nifer y dosbarthiadau dros 30—pan fo'r dystiolaeth yn awgrymu bod dysgu yn well yn is na'r nifer honno, pam ydych chi'n caniatáu i'r nifer hwnnw dyfu?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:07

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Well, you must ask the local authorities that. As you know full well, local authorities are responsible for delivering education. We have done our bit; we've protected education spending relative to the block grant that we have received and it's a question that's best answered by them.

Wel, mae'n rhaid i chi ofyn hynny i'r awdurdodau lleol. Fel y gwyddoch yn iawn, awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am ddarparu addysg. Rydym ni wedi gwneud ein rhan ni; rydym ni wedi diogelu gwariant addysg o'i gymharu â'r grant bloc yr ydym ni wedi ei dderbyn ac mae'n gwestiwn y gallan nhw ei ateb orau.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:07

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Oh, that's all right then. We'll just wash our hands and let it happen, will we, First Minister? What parents want is to know that teachers have the time to give the appropriate amount of attention to children in a class. There are 7,835 children in classes that contain over 30 pupils. Yet, this year, over 800 teachers and support staff are being made redundant in Wales. How many more pupils are you willing to sit back and see be taught in classes over 30 if it's not your responsibility?

O, popeth yn iawn felly. Fe wnawn ni olchi ein dwylo a gadael iddo ddigwydd ie, Brif Weinidog? Yr hyn y mae rhieni eisiau ei wybod yw bod gan athrawon yr amser i roi'r sylw priodol i blant mewn dosbarth. Ceir 7,835 o blant mewn dosbarthiadau â mwy na 30 o ddisgyblion ynnddynt. Er hyn, eleni, mae dros 800 o athrawon a staff cymorth yn cael eu diswyddo yng Nghymru. Faint yn rhagor o ddisgyblion ydych chi'n barod i eistedd yn ôl a'u gweld yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau o dros 30 os nad eich cyfrifoldeb chi yw e?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:08

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Well, it shows the Liberal Democrats don't care about outcomes, doesn't it? It's all about figures. If you look at the outcomes, we see prospects improving for Welsh children, we've seen GCSE results improve, we've seen A-level results improve, we've seen extra money being put into schools, and we've seen the pupil deprivation grant that her party suggested. Welsh education is moving in the right direction with a level of resources that has been improving. We saw last week the public expenditure statistical analyses figures when they came out. They said that spending in Wales is 4 per cent higher than in England when it comes to education. Incidentally, it was 7 per cent higher when it came to health and social services and 1 per cent higher per head than health. So, we see that the resources are in place. The teachers who are working with us are delivering for our pupils and that is what counts. We are proud of our record on education and the opportunities it gives to so many of our young people.

Wel, mae'n dangos nad oes ots gan y Democratiaid Rhyddfrydol am ganlyniadau, onid yw? Mae'r cwbl yn ymwneud â ffigurau. Os edrychwch chi ar y canlyniadau, rydym ni'n gweld rhagolygon yn gwella i blant Cymru, rydym ni wedi gweld canlyniadau TGAU yn gwella, rydym ni wedi gweld canlyniadau Safon Uwch yn gwella, rydym ni wedi gweld cyllid ychwanegol yn cael ei roi i ysgolion, ac rydym ni wedi gweld y grant amddifadedd disgyblion a awgrymwyd gan ei phlaid hi. Mae addysg yng Nghymru yn symud i'r cyfeiriad cywir gyda lefel o adnoddau sydd wedi bod yn gwella. Gwelsom yr wythnos diwethaf ffigurau'r dadansoddiadau ystadegol o wariant cyhoeddus pan gawsant eu cyhoeddi. Roeddent yn nodi bod gwariant yng Nghymru 4 y cant yn uwch nag yn Lloegr pan ddaw i addysg. Gyda llaw, roedd 7 y cant yn uwch wrth ystyried iechyd a gwasanaethau cymdeithasol ac 1 y cant y pen yn uwch nag iechyd. Felly, rydym ni'n gweld bod yr adnoddau ar gael. Mae'r athrawon sy'n gweithio gyda ni yn darparu ar gyfer ein disgyblion a dyna beth sy'n cyfrif. Rydym ni'n falch o'n hanes ar addysg a'r cyfleoedd y mae'n eu rhoi i gyfnifer o'n pobl ifanc.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:08	<p>Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>We now move back to questions on the paper and question 3 is Keith Davies.</p>	<p>Symudwn yn ôl at gwestiynau ar y papur nawr, a daw cwestiwn 3 gan Keith Davies.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
Y Cyfryngau yng Nghymru		The Media in Wales	
14:09	<p>Keith Davies Bywgraffiad Biography</p> <p>3. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y cyfryngau yng Nghymru? OAQ(4)2575(FM)[W]</p>	<p>3. Will the First Minister make a statement on the media in Wales? OAQ(4)2575(FM)[W]</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography</p> <p><i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>Rydym yn ymwneud yn llawn â datblygiadau'r cyfryngau yng Nghymru. Rydym wedi sicrhau rôl ffurfiol yn adolygiad siartr y BBC. Fis diwethaf, ysgrifennaiis ddwywaith at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn galw am adolygiadau brys o S4C a sut mae'r BBC yn gweithredu ar gyfer Cymru.</p>		<p>We are fully involved in media developments in Wales. We have secured a formal role in the BBC charter review. Last month, I wrote twice to the Secretary of State for Culture, Media and Sport calling for urgent reviews of S4C and the BBC's delivery for Wales.</p>	
14:09	<p>Keith Davies Bywgraffiad Biography</p> <p>Mae gan S4C record ardderchog wrth gynhyrchu rhaglenni teledu Cymraeg ar gyfer pobl ifanc. Fodd bynnag, mae llai a llai o leisiau Cymreig ar raglenni teledu iaith Saesneg ar gyfer pobl ifanc. Beth allwn ni ei wneud yng Nghymru i gynnig allbwn iaith Saesneg perthnasol ar y teledu a chyfryngau eraill i bobl ifanc yng Nghymru?</p>	<p>S4C has an excellent record in producing Welsh-language television programmes for young people. However, there are fewer and fewer Welsh voices on English-language programming for young people. What can we do in Wales to increase English-language output which is relevant to young people on our television and on other media in Wales?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:09	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography</p> <p><i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>Wel, beth mae'n rhaid inni ei wneud, wrth gwrs, yw sicrhau bod mwy o arian yn cael ei hala ar ddarledu a rhaglenni sy'n cael eu gwneud yng Nghymru—yn Gymraeg, wrth gwrs, ond hefyd yn Saesneg, achos beth sydd wedi digwydd dros y blynyddoedd yw bod tynnu nôl wedi bod o greu a gwneud rhaglenni drwy gyfrwng y Saesneg am Gymru. Felly, beth rŷm ni fel Llywodraeth wedi ei ddweud yw y dylai Llywodraeth y Deyrnas Unedig sicrhau £30 miliwn ychwanegol er mwyn sicrhau bod yna fwy o raglenni ar gael i bobl Cymru—yn Gymraeg, wrth gwrs, ond hefyd yn Saesneg.</p>	<p>Well, what we must do, of course, is to ensure that more money is spent on broadcasting and on programmes that are produced in Wales—in Welsh, of course, but also in English, because what has happened over the years is that there's been a withdrawal from producing and making English-medium programmes about Wales. So, we've said that the UK Government should ensure an additional £30 million to ensure that there are more programmes available for the people of Wales—in Welsh, of course, but also in English.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:10	<p>Suzy Davies Bywgraffiad Biography</p> <p>Un o ddatblygiadau dymunol y 18 mis diwethaf yw'r cytundeb y dylai darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus sy'n gweithredu yng Nghymru fod yn atebol i'r Cynulliad hwn yn ogystal â Senedd y Deyrnas Unedig. A ydych chi wedi cael unrhyw drafodaethau rhagarweiniol am sut y gallai hyn weithio yn ymarferol? Yn benodol, beth fyddai dylanwad adroddiad gan y Cynulliad mewn cyd-destun heb ei ddatganoli?</p>	<p>One of the pleasing developments over the past 18 months is the agreement that public service broadcasters operating in Wales should be accountable to this Assembly, as well as the UK Parliament. Have you had any preliminary negotiations on how this could work in practice? Specifically, what influence would an Assembly report have in a non-devolved context?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

14:10

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Fy marn i yw ei bod yn berffaith bosib i sicrhau bod yna atebolrwydd i'r Cynulliad ei hun ac nid dim ond i Senedd y Deyrnas Unedig. Rydym ni wedi cael rôl ffurfiol ynglŷn â'r siatr ei hun, ond nid oes rheswm pam na ddylai peth cyfrifoldeb gael ei roi i'r Cynulliad ynglŷn â nid dim ond S4C, ond darlledu yng Nghymru, er mwyn sicrhau bod yna rôl i'r Cynulliad hwn. Ynglŷn â datganoli darlledu, mae hynny, wrth gwrs, yn rhywbeth arall. Byddai'r arian yn gorfod dilyn ac rydym ni'n mynd wedyn i mewn i'r cwestiwn a ddylem ni ddim ond edrych ar ddatganoli darlledu yn Gymraeg neu a ddylai fod rhyw fath o ddatganoli darlledu yn Saesneg am Gymru hefyd. Ond mae yna gwestiynau cyllidebol yn codi o hynny.

My view is that it's perfectly possible to ensure that there is accountability to the Assembly itself and not just to the UK Parliament. We have, of course, secured a formal role as regards to the charter itself, but there is no reason why some responsibility could not be given to the Assembly, not only for S4C but for broadcasting in Wales, to ensure that this Assembly has a role. As regards the devolution of broadcasting, that, of course, is another matter. The funding would have to follow, and we would have to look at the question of whether we should just look at broadcasting in Welsh or should there be some devolution of broadcasting through the medium of English about Wales. But there are financial questions relating to that.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:11

Bethan Jenkins [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Brif Weinidog, a ydych chi wedi cael unrhyw drafodaethau gyda Llywodraeth San Steffan neu gyda chwmnïau megis Trinity Mirror, sydd, yn ddiweddar, wedi prynu allan Local World ac sydd nawr yn dominyddu'r farchnad papurau newydd yma yng Nghymru? Beth yw'ch barn chi fel Llywodraeth am y ffaith nad oes plwraliaeth yn y system oherwydd bod hyn wedi digwydd? A oes gennych chi gonsyrn, yn hynny o beth, fod yna botensial y bydd swyddi lleol yn cael eu colli? Dyna yw 'track record' blaenorol Trinity Mirror gan gau swyddfeydd ym Merthyr, y 'Neath Guardian' ac yn y blaen, sydd yn tanseilio'r hyn y mae papurau newydd lleol yn ceisio ei wneud.

First Minister, have you had any discussions with the UK Government or with companies such as Trinity Mirror, who have recently bought out Local World and now dominate the newspaper market here in Wales? What is your view as a Government that there is no plurality in the system, because of the fact that this has happened? Do you have concerns in that regard, that there is a potential that jobs could be lost at a local level? That is the previous track record of Trinity Mirror with closing offices in Merthyr, the 'Neath Guardian' and so on, which undermines what local newspapers are trying to achieve.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:12

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Wrth weld beth sydd wedi digwydd gyda phapurau yn y gorllewin—sef y 'Carmarthen Journal' a'r 'Llanelli Star'—maen nhw'n bapurau sydd yng nghalon y gymuned, ac ni fyddem ni'n moyn gweld unrhyw fath o leihad yn y newyddion na'r staff sydd ganddyn nhw. Rydym ni wedi gweld papurau'n cau yn gyfan gwbl mewn rhai rhannau o Gymru, toriadau wedi cael eu gwneud o ran newyddiadurwyr ac, wrth gwrs, llai o newyddion lleol. Un o'r pwyntiau rwy'n eu gwneud yw bod trefn yn cael ei chreu fan hyn lle nad yw papurau lleol, er enghraifft, yn creu storïau am gynghorau lleol. Nawr, os nad ydyn nhw'n mynd i'w wneud e, pwy sydd yn mynd i'w wneud e? Ni fyddwn i'n moyn gweld rhai o'r pethau sydd wedi digwydd, sef cau papurau a llai o straeon lleol, yn cael eu gwneud i bapurau sydd wedi cael eu prynu gan Trinity Mirror.

In observing what's happened as regards the newspapers in west Wales—the 'Carmarthen Journal' and the 'Llanelli Star'—those newspapers are at the heart of the community and I wouldn't wish to see any reduction in the coverage or the staff that they have. But we have seen newspapers close altogether in some parts of Wales, there have been cuts in the number of journalists and less local news. One of the points that I would like to make is that a system is being established here where local papers aren't reporting stories about local councils. Now, if they don't do it, who will? I would not like to see some of the things that have happened, namely newspapers being closed down and less local coverage, happening to papers that have been bought by Trinity Mirror.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:13

Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, with the comprehensive spending review due next week, and with the BBC charter up for renewal, there are increasing messages coming out of Westminster about the future of S4C and its funding. What discussions have the Welsh Government had with the UK Government about the future of S4C and whether we can continue to have sustainable funding for the future?

Brif Weinidog, â'r adolygiad cynhwysfawr o wariant ar ei ffordd yr wythnos nesaf, a chyda siarter y BBC ar fin cael ei adnewyddu, mae negeseuon cynyddol yn dod allan o San Steffan am ddyfodol S4C a'i chyllid. Pa drafodaethau mae Llywodraeth Cymru wedi eu cael gyda Llywodraeth y DU am ddyfodol S4C a pha un a allwn ni barhau i gael cyllid cynaliadwy ar gyfer y dyfodol?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

- 14:13 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
There have been discussions, and it's certainly an issue that I've raised with S4C as well in the discussions I've had with them. S4C does not have a sustainable base of funding at the moment. It's all very ad hoc and there is no certainty, going forward. We have urged the UK Government to provide that certainty; we will have to wait and see, of course, what the CSR brings in terms of news in that regard.
- Bu trafodaethau, ac mae'n sicr yn fater yr wyf wedi ei godi gyda S4C hefyd yn y trafodaethau yr wyf wedi eu cael gyda nhw. Nid oes gan S4C sail gynaliadwy o gyllid ar hyn o bryd. Mae'r cwbl yn ad hoc iawn ac nid oes unrhyw sicrwydd, wrth symud ymlaen. Rydym ni wedi annog Llywodraeth y DU i roi'r sicrwydd hwnnw; bydd yn rhaid i ni aros i weld, wrth gwrs, yr hyn y mae'r adolygiad cynhwysfawr o wariant yn ei gynnig o ran newyddion yn hynny o beth.
- Adroddiad Comisiwn y Gyfraith** **Law Commission Report**
- 14:14 **Julie Morgan** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
4. Pa asesiad y mae'r Prif Weinidog wedi'i wneud o adroddiad Comisiwn y Gyfraith a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar gyfraith bywyd gwyllt? OAQ(4)2573(FM)
4. What assessment has the First Minister made of the recently published Law Commission report on wildlife law? OAQ(4)2573(FM)
- 14:14 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
The Law Commission published its work on 10 November. I do welcome the work that has been done on this subject, and careful consideration will now be given to the recommendations before deciding on the way forward.
- Cyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith ei waith ar 10 Tachwedd. Rwy'n croesawu'r gwaith sydd wedi ei wneud ar y pwnc hwn, a bydd ystyriaeth ofalus cael ei rhoi i'r argymhellion nawr, cyn penderfynu ar y ffordd ymlaen.
- 14:14 **Julie Morgan** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
I thank the First Minister for that response. I'm sure the First Minister would agree that the practice of using snares to trap animals can be very cruel and often results in injuries to animals that are not considered pests, including domestic animals. Recent polling by the League Against Cruel Sports shows that 80 per cent of people in Wales support a ban on snares. Given that animal welfare is a devolved issue, what will the impact of this change in the law in England be on the Welsh Government's powers to regulate or, ultimately, ban the use of snares in Wales?
- Diolchaf i'r Prif Weinidog am yr ymateb yna. Rwy'n siŵr y byddai'r Prif Weinidog yn cytuno y gall yr arfer o ddefnyddio maglau i ddal anifeiliaid fod yn greulon iawn ac mae'n aml yn arwain at anafiadau i anifeiliaid nad ydynt yn cael eu hystyried yn blâu, gan gynnwys anifeiliaid domestig. Mae arolwg diweddar gan y Gynghrair yn Erbyn Chwaraeon Creulon yn dangos bod 80 y cant o bobl yng Nghymru yn cefnogi gwaharddiad ar faglau. O ystyried bod lles anifeiliaid yn fater datganoledig, beth fydd effaith y newid hwn yn y gyfraith yn Lloegr ar bwerau Llywodraeth Cymru i reoleiddio neu, yn y pen draw, i wahardd y defnydd o faglau yng Nghymru?
- 14:15 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
Well, we have, of course, published an improved code of practice on the use of snares in fox control, which places the welfare of animals at its core, but of course what the Law Commission's recommendations will allow us to do is to consider what primary legislation may be needed in the next Assembly in order to ensure that the welfare of animals remains paramount.
- Wel, rydym ni wedi, wrth gwrs, cyhoeddi cod ymarfer gwell ar ddefnyddio maglau i reoli llwynogod, sy'n rhoi lles anifeiliaid wrth ei graidd, ond wrth gwrs yr hyn y bydd argymhellion Comisiwn y Gyfraith yn ein galluogi i wneud yw ystyried pa ddeddfwriaeth sylfaenol allai fod ei hangen yn y Cynulliad nesaf er mwyn sicrhau bod lles anifeiliaid yn parhau i fod yn hollbwysig.
- 14:15 **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
First Minister, in its report the Law Commission recommends the creation of a single set of provisions that consolidate and rationalise all relevant wildlife legislation in England and Wales. Can I ask how you intend to take this recommendation forward, perhaps in conjunction with the UK Government?
- Brif Weinidog, mae Comisiwn y Gyfraith yn argymhell yn ei adroddiad y dylid creu un gyfres o ddarpariaethau sy'n atgyfnerthu ac yn rhesymoli'r holl ddeddfwriaeth bywyd gwyllt berthnasol yng Nghymru a Lloegr. A gaf i ofyn sut yr ydych chi'n bwriadu bwrw ymlaen â'r argymhelliad hwn, mewn cydweithrediad â Llywodraeth y DU efallai?

14:15 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
We would not see England-and-Wales legislation as the way forward in areas that are devolved. Welsh legislation is considered first and foremost. That's not to say, of course, that there will be some areas, particularly with regard to secondary legislation, where it makes sense to have England-and-Wales legislation, for example, and the control of invasive species being one example. But certainly, in a devolved area, we would not normally look to pursue an England-and-Wales Bill where a Wales Bill in a devolved area would be more appropriate.

Ni fyddem yn gweld deddfwriaeth Cymru a Lloegr fel y ffordd ymlaen mewn meysydd sydd wedi'u datganoli. Ystyrir deddfwriaeth Cymru yn gyntaf ac yn bennaf. Nid yw hynny'n golygu, wrth gwrs, y bydd rhai meysydd, yn enwedig o ran is-ddeddfwriaeth, lle mae'n gwneud synnwyr cael deddfwriaeth Cymru a Lloegr, er enghraifft, ac mae rheoli rhywogaethau ymledol yn un enghraifft. Ond yn sicr, mewn maes sydd wedi'i ddatganoli, ni fyddem fel rheol yn edrych i ddilyn Bil Cymru a Lloegr pan fyddai Bil Cymru mewn maes datganoledig yn fwy priodol.

14:16 **Jocelyn Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
First Minister, your recently published code of practice on the use of snares in fox control may very well give the impression that the Welsh Government approves of the use of snares in controlling foxes. Can you clarify whether the Government does in fact approve of the use of snares?

Brif Weinidog, efallai'n wir fod eich cod ymarfer a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar ddefnyddio maglau i reoli llwynogod yn rhoi'r argraff bod Llywodraeth Cymru yn cymeradwyo'r defnydd o flaglau i reoli llwynogod. A allwch chi egluro a yw'r Llywodraeth yn cymeradwyo'r defnydd o flaglau mewn gwirionedd?

14:16 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
No. There's no way with current legislation, to our thinking, of banning the use of snares. That would probably require primary legislation. That would be for the next Assembly. But where snares are used, it is important, of course, that the highest standards of animal welfare are respected in their use. It will be a matter then based on what the Law Commission has said for the next Assembly as to how to take forward further provisions with regard to animal welfare.

Nac ydy. Nid oes unrhyw ffordd gyda'r ddeddfwriaeth gyfredol, yn ein barn ni, o wahardd y defnydd o flaglau. Mae'n debyg y byddai hynny'n gofyn am ddeddfwriaeth sylfaenol. Byddai hynny ar gyfer y Cynulliad nesaf. Ond lle mae maglau'n cael eu defnyddio, mae'n bwysig, wrth gwrs, bod y safonau uchaf o les anifeiliaid yn cael eu parchu wrth eu defnyddio. Bydd yn fater wedyn i'r Cynulliad nesaf, yn seiliedig ar yr hyn y mae Comisiwn y Gyfraith wedi ei ddweud, o ran sut i fwrw ymlaen â darpariaethau pellach ynglŷn â les anifeiliaid.

Cymru Fwy Heini ac Iach

A More Active and Healthier Wales

14:17 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
5. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bolisi Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru fwy heini ac iach? OAQ(4)2568(FM)

5. Will the First Minister make a statement on Welsh Government policy for a more active and healthier Wales? OAQ(4)2568(FM)

14:17 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
The evidence shows that physical activity makes a significant contribution to maintaining good health and wellbeing. In recognition of this, the Welsh Government, Public Health Wales and Sport Wales have made a joint appointment of a physical activity champion to develop and implement a cross-sector, all-Wales physical activity plan.

Mae'r dystiolaeth yn dangos bod gweithgarwch corfforol yn gwneud cyfraniad sylweddol at gynnal iechyd a lles da. Gan gydnabod hyn, mae Llywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Chwaraeon Cymru wedi penodi ar y cyd hyrwyddwr gweithgarwch corfforol i ddatblygu a chyflwyno cynllun gweithgarwch corfforol traws sector, Cymru gyfan.

14:17

John Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'm very pleased to hear that, First Minister. I think it's entirely in keeping with the Welsh Government's stress on a preventative approach to healthcare. In Newport East, I'm working to bring together the health board, Newport City Council, the leisure trust and different sports organisations and bodies, along with others, to develop a joint agenda and collective approach to having a more active and healthier population. It seems to me, First Minister, that the one key aspect of that is the health budget being used more for that preventative approach rather than being overly reactive. Would you support that use of health budgets to hopefully take that more preventative and, I would say, progressive approach?

Rwy'n falch iawn o glywed hynny, Brif Weinidog. Rwy'n credu ei fod yn cyd-fynd yn llwyr â phwyslais Llywodraeth Cymru ar agwedd ataliol at ofal iechyd. Yn Nwyrain Casnewydd, rwy'n gweithio i ddod â'r bwrdd iechyd, Cyngor Dinas Casnewydd, yr ymddiriedolaeth hamdden a gwahanol sefydliadau a chyrrff chwaraeon, ac eraill, at ei gilydd i ddatblygu agenda ar y cyd a dull cyfunol o gael poblogaeth fwy egniol ac iach. Mae'n ymddangos i mi, Brif Weinidog, mai'r un agwedd allweddol ar hynny yw defnyddio'r gyllideb iechyd yn fwy ar gyfer y dull ataliol hwnnw yn hytrach na bod yn rhy adweithiol. A fydddech chi'n cefnogi'r defnydd hwnnw o gyllidebau iechyd i fabwysiadu, gobeithio, y dull mwy ataliol a, byddwn i'n dweud, blaengar hwnnw?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:18

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

It's a very sensible approach. The Member is right, and let me point to one area where that is happening. We have the national exercise referral programme. That's funded to the tune of £3.4 million. Those sections are running leisure and community centres. That's one example of the preventative agenda. We have, of course, as well, the physical activity executive group. I suppose that this is also drawn into the concept of prudent healthcare, encouraging people to look after their own health. It's not just, of course, within the field of health. There is the Active Travel (Wales) Act 2013, which, of course, will help to promote cycling and walking, not just as a means of exercise but as a means of travelling and getting to work. That, of course, has the added benefit of ensuring that people's health is improved.

Mae'n ddull synhwyrol iawn. Mae'r Aelod yn iawn, a gadewch i mi nodi un maes lle mae hynny'n digwydd. Mae gennym ni'r rhaglen atgyfeirio ymarfer corff genedlaethol. Rhoddir cymaint â £3.4 miliwn i'r rhaglen honno. Mae'r adrannau hynny'n rhedeg canolfannau hamdden a chymunedol. Dyna un enghraifft o'r agenda ataliol. Mae gennym ni, wrth gwrs, hefyd, y grŵp gweithgarwch corfforol gweithredol. Mae'n debyg bod hyn hefyd yn cael ei dynnu i mewn i'r cysyniad o ofal iechyd doeth, gan annog pobl i ofalu am eu hiechyd eu hunain. Nid ym maes iechyd yn unig y mae hyn, wrth gwrs. Ceir Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, a fydd, wrth gwrs, yn helpu i hyrwyddo beicio a cherdded, nid yn unig fel modd o ymarfer corff, ond fel modd o deithio a chyrraedd y gwaith. Mae gan hynny, wrth gwrs, y fantais ychwanegol o sicrhau bod iechyd pobl yn well.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:19

Mohammad Asghar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, one of the aims stated in your document, 'Creating an Active Wales', is to increase participation in sport by all sections of the population. The lack of basic English and Welsh has been identified as a major barrier to people from an ethnic minority background, particularly older people taking part in sports and recreation. What is the Welsh Government doing to support the teaching of English and Welsh to adults from ethnic minority groups to promote integration and encourage greater participation in sports in Wales? Thank you.

Brif Weinidog, un o'r amcanion a nodir yn eich dogfen, 'Creu Cymru Egniol', yw cynyddu cyfranogiad mewn chwaraeon ymhlith bob rhan o'r boblogaeth. Nodwyd diffyg Cymraeg a Saesneg sylfaenol fel rhwystr mawr i bobl o gefndir lleiafrifoedd ethnig, yn enwedig pobl hŷn, rhag cymryd rhan mewn chwaraeon a hamdden. Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gynorthwyo'r gwaith o addysgu Cymraeg a Saesneg i oedolion o grwpiau lleiafrifoedd ethnig i hybu integreiddiad ac annog mwy o gyfranogiad mewn chwaraeon yng Nghymru? Diolch.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:19

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Of course, we work with schools, particularly, to ensure that young people are able to acquire the languages that they need. We also work with communities to make sure that the availability of lessons, usually in English, particularly in this part of Wales, are concerned—. But if there is an issue with regard to being able to promote sport in our ethnic minority communities because of a language issue, the Member is welcome to write to me with evidence of that, and that would be something, of course, that would be taken up with the physical activity champion.

Wrth gwrs, rydym ni'n gweithio gydag ysgolion, yn arbennig, i sicrhau y gall pobl ifanc gaffael yr ieithoedd sydd eu hangen arnynt. Rydym ni hefyd yn gweithio gyda chymunedau i wneud yn siŵr bod gwersi, Saesneg fel rheol, yn enwedig yn y rhan hon o Gymru, ar gael—. Ond os oes problem o ran gallu i hyrwyddo chwaraeon yn ein cymunedau lleiafrifoedd ethnig oherwydd rhyw fater ieithyddol, mae croeso i'r Aelod ysgrifennu ataf gyda thystiolaeth o hynny, a byddai hynny'n rhywbeth, wrth gwrs, a fyddai'n cael ei drafod gyda'r hyrwyddwr gweithgarwch corfforol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:20

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Brif Weinidog, mae'n anodd byw yn fwy iach os yw'n amhosibl trefnu apwyntiad gyda meddyg teulu i drafod iechyd. Rwy'n cael nifer o gwynion, yn enwedig yn ardaloedd megis Penfro, Doc Penfro a Dinbych-y-pysgod, am bobl yn gorfod aros pythefnos o leiaf erbyn hyn i gael trefniant gyda meddyg teulu ar gyfer apwyntiad cyffredinol o'r math hwn—nid rhywbeth brys ond rhywbeth cyffredinol i drafod problemau iechyd. Pa gamau ydych chi'n eu cymryd, felly, i ehangu gofal sylfaenol yn y maes hwn, ac yn enwedig i ehangu gallu ymarferwyr nyrsio uwch i fod yn rhan o'r broses hon gyda meddygon teulu?

First Minister, it's difficult to live a healthier lifestyle if it isn't possible to make an appointment with a GP to discuss health. I receive a number of complaints, particularly in areas such as Pembroke, Pembroke Dock and Tenby, where people are having to wait at least a fortnight by now to come to an arrangement for a general appointment with a GP—not an urgent appointment but a general issue to discuss health problems. What steps are you taking, therefore, to enhance primary care in this area, and also to enhance senior nursing practitioners to become part of this process with GPs?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:21

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Wel, wrth gwrs, mae meddygon teulu, mwy neu lai, yn fusnesau preifat sy'n cael eu contractio i mewn i'r gwasanaeth iechyd—er nad yw rhai ohonynt, wrth gwrs. Rydym yn gwybod bod rhai meddygon teulu yn llawer mwy effeithiol ynglŷn â sicrhau bod pobl yn gallu cael apwyntiadau—gan ddefnyddio'r we, er enghraifft, os yw pobl am gael presgripsiwn newydd neu wneud apwyntiad ar-lein neu dros y ffôn. Mae rhai eraill, wedyn, nad ydynt yn gwneud hynny o gwbl.

Well, of course, GPs are more or less private companies and they're being contracted into the health service—some are not, of course. We know that some GPs are much more effective in the way that they ensure that people can secure appointments—using the internet, for example, if people want a new prescription or make an appointment online or over the phone. Others don't do that at all.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Rydym yn annog meddygon teulu i sicrhau eu bod yn datblygu technoleg newydd, i fod yn fwy effeithiol, ac i sicrhau nad ydynt yn gadael pobl i aros am amser rhy hir. Rwyf wedi gweld hyn yn gweithio mewn sawl rhan o Gymru, lle mae pethau llawer yn well i bobl, a lle maent yn gallu trefnu apwyntiadau mewn sawl ffordd wahanol. Mae hynny'n sicrhau ei bod yn haws ac yn gynt, felly, iddynt gael apwyntiad hefyd. Mae hi lan i unrhyw feddygfa i esbonio'r ffordd y mae'n gweithredu, wrth gwrs, ond byddwn yn erfyn i bawb ystyried ffordd newydd a thechnoleg newydd er mwyn sicrhau bod pobl yn gallu gweld meddyg yn gynt.

We urge GPs, of course, to develop new technology, to be more effective and efficient, and ensure that they don't allow people to wait far too long. I've seen this working in many parts of Wales, where things are better for people, and where it's possible for them to make appointments in various ways. That ensures that it's quicker and easier, therefore, for them to get an appointment. It's up to any surgery to explain their methods of working, but we would expect everybody to consider new ways of working and new technology in order to ensure that people are able to see a GP more quickly.

Monitro Cyllidebau

Budget Monitoring

14:22

Llyr Gruffydd [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

6. Sut y mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod cyllidebau'n cael eu monitro'n effeithiol? OAQ(4)2576(FM) [W]

6. How does the Welsh Government ensure effective budget monitoring? OAQ(4)2576(FM)[W]

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:22

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Mae gan Lywodraeth Cymru brosesau sydd wedi'u hen sefydlu ar gyfer cynllunio a monitro gwariant, er mwyn sicrhau ein bod yn cael y gwerth gorau posibl am arian.

The Welsh Government has well-established processes in place for planning and monitoring expenditure, so that value for money is maximised.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:22

Llyr Gruffydd [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch am eich ateb. Wrth gwrs, mae nifer o gyllidebau Llywodraeth Cymru—neu mae gweithio agos o ran adrannau gydag adrannau yn Llywodraeth San Steffan. Rydym yn ymwybodol o nifer o doriadau sydd wedi digwydd yn y cyd-destun yna, ond rydym hefyd bellach wedi dysgu y bydd DEFRA, er enghraifft, yn cael toriad o ryw 30 y cant i'w chyllideb y flwyddyn nesaf. Mae DEFRA yn gweithio'n agos iawn gyda Llywodraeth Cymru ar faterion, yn enwedig ar bethau fel bioddiogelwch, er enghraifft, a physgodfeydd a'r amgylchedd, ac yn y blaen. A allwch chi ddweud wrthyf pa drafodaethau yr ydych chi fel Llywodraeth wedi'u cael gyda DEFRA a Llywodraeth y Deyrnas Unedig cyn dod i'r penderfyniad ei bod hi'n addas i dorri 30 y cant o'r gyllideb honno? Sut y byddwch chi'n monitro effaith hynny ar wasanaethau Llywodraeth Cymru, oherwydd mi fydd, yn ddiarnheul, yn rhoi pwysau ychwanegol ar eich cyllidebau chi?

Thank you for that response. Of course, a number of Welsh Government budgets—or there is close working in terms of departments with Westminster Government departments. We're aware of a number of cuts that have happened in that context, but we have also now learnt that the Department for Environment, Food and Rural Affairs, for example, will see a cut of around 30 per cent in its budget for next year. DEFRA works very closely with the UK Government on issues such as biosecurity, for example, fisheries, the environment, and so on. Can you tell us what discussions you as a Government have had with DEFRA and the UK Government before the decision was taken that it was appropriate to cut 30 per cent of that budget? How will you monitor the impact of that on Welsh Government services, because without doubt it will put additional pressures on your budgets?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:23

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Nid ydym wedi bod yn rhan o'r trafodaethau hynny. Maent yn drafodaethau sydd wedi cymryd lle rhwng adrannau yn Whitehall a'r Trysorlys yn Whitehall. Rydym wedi clywed beth sydd wedi cael ei ddweud ynglŷn â DEFRA. Mae'n wir i ddweud, wrth gwrs, fod DEFRA yn cynnig gwasanaethau i Gyfoeth Naturiol Cymru ac wrth gwrs, byddwn yn gwneud asesiad unwaith y byddwn yn gwybod beth yn union fydd natur y toriadau i gyllideb DEFRA.

We haven't been part of those discussions. They have been discussions between Whitehall departments and the Treasury in Whitehall. We hear what has been said about DEFRA. It's true to say, of course, that DEFRA does offer services to Natural Resources Wales and of course we'll carry out an assessment once we know exactly the nature of those cuts in the DEFRA budget.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:23

Angela Burns [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, with regard to budgets, I would like to raise a point regarding the 1 per cent additional funding to schools in Wales. We know that the increase in funding for schools via the revenue support grant for 2010-11 to 2015-16 was actually 0.83 per cent, not 1 per cent. However, during the scrutiny session by the Children, Young People and Education Committee, the Minister for Education and Skills told us that authorities will continue to be required to evidence the 1 per cent commitment being built into their budgets for 2015-16. First Minister, does this mean that the revenue support grant—which is, to my understanding, supposed to be unhypothecated—is, indeed, not unhypothecated after all? If so, how will you actually monitor that they really are reserving 1 per cent as per your election manifesto commitments?

Brif Weinidog, o ran cyllidebau, hoffwn godi pwynt yn ymwneud â'r cyllid ychwanegol o 1 y cant i ysgolion yng Nghymru. Rydym ni'n gwybod mai 0.83 y cant oedd y cynnydd i gyllid ar gyfer ysgolion drwy'r grant cynnal referniw ar gyfer 2010-11 i 2015-16 mewn gwirionedd, nid 1 y cant. Fodd bynnag, yn ystod y sesiwn graffu gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, fe'n hysbyswyd gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau y byddai'n parhau i fod yn ofynnol i awdurdodau gynnog tystiolaeth bod yr ymrwymiad o 1 y cant wedi ei gynnwys yn eu cyllidebau ar gyfer 2015-16. Brif Weinidog, a yw hyn yn golygu nad yw'r grant cynnal referniw—sydd, yn ôl a ddeallaf, i fod i fod heb ei neilltuo—wedi ei neilltuo wedi'r cwbl mewn gwirionedd? Os felly, sut gwnewch chi fonitro eu bod wir yn neilltuo 1 y cant yn unol ag ymrwymadau eich maniffesto etholiad?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:24

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

We monitor it by looking at their budgets. We expect them to deliver on the pledge that the Government was elected on in 2011, and we see that pledge being evidenced in the fact that the public expenditure statistical analyses figures last week showed that 4 per cent per head more is spent in Wales on education than is the case in England.

Rydym ni'n ei fonitro trwy edrych ar eu cyllidebau. Rydym ni'n disgwyl iddyn nhw gyflawni'r addewid y cafodd y Llywodraeth ei ethol yn seiliedig arno yn 2011, ac rydym ni'n gweld tystiolaeth o'r addewid hwnnw yn y ffaith fod ffigurau'r dadansoddiadau ystadegol o wariant cyhoeddus yr wythnos diwethaf yn dangos bod 4 y cant yn fwy y pen yn cael ei wario yng Nghymru ar addysg na'r hyn sy'n wir yn Lloegr.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Newidiadau i'r System Gyfiawnder

Changes to the Justice System

14:24 **Jenny Rathbone** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

7. Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael ynghylch newidiadau i'r system gyfiawnder yng Nghymru? OAQ(4)2574(FM)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

7. What discussions has the First Minister had about changes to the justice system in Wales? OAQ(4)2574(FM)

14:25 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

We have regular discussions with the UK Government, with the judiciary and with others about changes to the justice system. We've made strong representations regarding the likely impact of proposed court closures in Wales, and there have been discussions on the need for training for the judiciary as Welsh law develops.

Rydym ni'n cael trafodaethau rheolaidd gyda Llywodraeth y DU, gyda'r farnwriaeth a chydag eraill am newidiadau i'r system gyfiawnder. Rydym ni wedi gwneud sylwadau cryf ynghylch effaith debygol achosion arfaethedig o gau llysoedd yng Nghymru, a bu trafodaethau ar yr angen am hyfforddiant i'r farnwriaeth wrth i gyfraith Cymru ddatblygu.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:25 **Jenny Rathbone** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, I'm sure you're aware that there are now increasing charges for anybody who appears in court for that privilege, so that somebody up for a very minor offence is charged at least £150, even if they plead guilty, and up to £1,000 if they are convicted having pleaded not guilty, and the charges are even higher if it goes to the Crown Court. And because it costs far less to plead guilty than it does to plead not guilty, there is obviously a perverse incentive to plead guilty, even if the defendant is not guilty. Many magistrates have actually resigned from the bench as a result of having to uphold the law, but they're feeling very concerned about this flat-rate application of fees regardless of the circumstances of the individual. It seems to me it undermines Magna Carta, and I just wondered what, if anything, the Welsh Government can do about it.

Brif Weinidog, rwy'n siŵr eich bod yn ymwybodol bod ffioedd cynyddol erbyn hyn i unrhyw un sy'n ymddangos yn y llys am y fraint honno, fel y codir o leiaf £150 ar rywun sydd gerbron llys am drosedd fach iawn, hyd yn oed os yw'n pledio'n euog, a hyd at £1,000 os caiff ei ddyfarnu'n euog ar ôl pledio'n ddiheuog, ac mae'r ffioedd hyd yn oed yn uwch os bydd yn mynd i Lys y Goron. A chan ei fod yn costio llawer llai i bledio'n euog nag y mae i bledio'n ddiheuog, mae'n amlwg bod cymhelliad rhyfedd i bledio'n euog, hyd yn oed os nad yw'r diffynnydd yn euog. Mae llawer o ynadon wedi ymddiswyddo o'r fainc o ganlyniad i orfod cynnal y gyfraith, ond maen nhw'n teimlo'n bryderus iawn am y defnydd cyfradd safonol hwn o ffioedd waeth beth yw amgylchiadau'r unigolyn. Mae'n ymddangos i mi ei fod yn tansellio Magna Carta, ac roeddwn i'n meddwl tybed beth, os unrhyw beth, all Llywodraeth Cymru ei wneud am y peth.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:26 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

I've put my view on the record—I've put my view strongly on the record—that this measure makes our justice system look more like a racket to raise money, and that is hugely unfortunate, to say the least. Whilst it has been the case for many years that a guilty plea, particularly at an early stage, attracts a lower sentence, it's never been the case that there's an increase in the financial penalties simply for having the effrontery to seek a trial, which is what this proposal is about. On a practical level, of course, as somebody who worked in the system, the vast majority of people who come through the criminal justice system are in no position to pay this money; they won't be able to pay it. So, in fact, what is seen as a money-raising or revenue-raising measure by the Ministry of Justice is not going to raise much by way of money because so many of the people who come before the courts have no money. So, it's a double penalty: it imposes an unaffordable burden on those who can afford the least, and if you look at it from the way the Ministry of Justice looks at it, it won't raise money either.

Rwyf wedi rhoi fy marn ar y cofnod—rwyf wedi rhoi fy marn ar y cofnod yn gryf—bod y mesur hwn yn gwneud i'n system gyfiawnder edrych mwy fel twyll i godi arian, ac mae hynny'n hynod anffodus, a dweud y lleiaf. Er y bu'n wir ers nifer o flynyddoedd bod ple euog, yn enwedig ar gam cynnar, yn denu dedfryd is, nid yw erioed wedi bod yn wir bod cynnydd i'r cosbau ariannol dim ond am fod yn ddigon haerllug i ofyn am achos llys, sef diben y cynnig hwn. Ar lefel ymarferol, wrth gwrs, fel rhywun a oedd yn gweithio yn y system, nid yw mwyafrif llethol y bobl sy'n dod drwy'r system cyfiawnder troseddol mewn unrhyw sefyllfa i dalu'r arian hwn; ni fyddant yn gallu ei dalu. Felly, mewn gwirionedd, nid yw'r hyn y mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ei ystyried fel mesur codi arian neu godi referniw yn mynd i godi llawer o arian o gwbl gan nad oes gan gymaint o'r bobl sy'n dod gerbron y llysoedd unrhyw arian. Felly, mae'n gosb ddwbl: mae'n cyflwyno baich anfforddiadwy ar y rhai sy'n gallu ei fforddio leiaf, ac os edrychwch chi arno yn y ffordd y mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn edrych arno, ni fydd yn codi arian ychwaith.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:27 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
First Minister, in revising the Mental Health Act 1983 code of practice for Wales, what considerations will your Welsh Government be giving to the recommendations of the latest report on North Wales Police custody suites, in particular the need for the services of mental health practitioners to be available to all detainees in north Wales?
Brif Weinidog, wrth ddiwygio cod ymarfer Cymru o ran Deddf Iechyd Meddwl 1983, pa ystyriaethau fydd eich Llywodraeth Cymru yn eu rhoi i argymhellion yr adroddiad diweddaraf ar ddalfeydd Heddlu Gogledd Cymru, yn enwedig yr angen i wasanaethau ymarferwyr iechyd meddwl fod ar gael i bob carcharor yn y gogledd?

14:27 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
We would be more than happy to do that if policing was devolved, but your party, unfortunately, stands against that.
Byddem yn fwy na pharod i wneud hynny pe byddai plismona wedi'i ddatganoli, ond mae eich plaid chi, yn affodus, yn sefyll yn erbyn hynny.

Gwelliannau i'r A55

Improvements to the A55

14:27 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
8. A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynllunio o flaen llaw ar gyfer gwelliannau i'r A55? OAQ(4)2571(FM)[W]
8. Will the First Minister provide an update regarding forward planning in relation to improvements to the A55? OAQ(4)2571(FM)[W]

14:28 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
Rŷm ni bob amser yn ceisio cyfuno gwaith pan fo modd er mwyn tarfu cyn lleied â phosibl. Mae gwaith ffordd yn cael ei hysbysebu ymlaen llaw yn y wasg leol ac mae diweddariadau i'w cael bob amser ar ein gwefan Traffig Cymru.
We always try to combine works wherever possible to minimise disruption. Works are advertised in advance in the local press and updates are always available on our Traffic Wales website.

14:28 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Mae'n rhaid imi ddweud bod y rhan fwyaf o bobl y gogledd yn gresynu wrth rai o'r datganiadau sydd wedi cael eu gwneud gan y Gweinidog yn ystod yr wythnos diwethaf yma yn dweud mai natur y gyrru ar y A55 sy'n creu rhai o'r anawsterau. Er hynny, rwyf yn croesawu'r ffaith bod yna waith yn mynd ymlaen sydd â chost o ryw £40 miliwn, ond wrth gofio bod yna welliannau i'r cylchfannau ym Mhenmaen-mawr a Llanfairfechan yn ystod y flwyddyn sydd i ddod, a'r ffaith bod yr asiantaeth gefnffyrdd wedi cael ei chymryd i mewn i'r Llywodraeth, a ydych chi'n hollol sicr bod yr holl drefniadau sydd angen eu gwneud yn cael eu gwneud, ac a wnewch chi sicrhau nad ydy'r holl drafferthion yr ydym ni wedi eu gweld yn ystod y ddeufis olaf yma yn mynd i gael eu hadlewyrchu'r flwyddyn nesaf?
I have to say that most people in north Wales regret some of the statements that have been made by the Minister during this past week saying that it's the nature of the driving on the A55 that has caused some of the difficulties. However, I do welcome the fact that work is ongoing at a cost of some £40 million, but given that there are improvements to be made to the roundabouts in Penmaen-mawr and Llanfairfechan during the coming year, and the fact that the highways agency has been taken into Government, are you entirely convinced that all of the arrangements that need to be made are being made, and will you ensure that all the difficulties that we've seen over these past two months aren't repeated next year?

14:29

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Fe wnawn ni, wrth gwrs, ddysgu o'r profiad. Nid oes modd peidio â gwneud y gwaith—mae hynny'n bwysig i'w ddweud. Mae hwn yn fuddsoddiad sylweddol i'r A55. Mae'n rhaid cofio i'r A55 gael ei hadeiladu 'ar y tsiêp' yn yr 1980au. Fyddem ni byth yn adeiladu heol fel hynny nawr, gyda chylchfannau a thwneli sydd dim ond yn ddwy lôn. Felly, mae'n rhaid inni ddelio â'r sefyllfa sydd gyda ni ar hyn o bryd, ond mae'r twneli'n gorfod cael eu gwneud. Rŷm ni yn ystyried, wrth gwrs, ym mha ffordd y gallwn ni wella cyffyrdd 15 ac 16, ac ystyried nid yn unig yr A55, ond lle mae'r A55 yn dod yn rhan o'r A494 hefyd. Mae hynny'n waith sylweddol, ac yn fuddsoddiad sylweddol, a fydd yn cael ei roi i mewn i economi gogledd Cymru ac, wrth gwrs, i rwydwaith economi Cymru. Felly, na, nid yw'n rhwydd i bobl; y rheswm y mae yna giwiau yno yw'r gwaith sy'n cael ei wneud yn twneli—rydym i gyd yn gwybod hynny. Ond, beth gallaf ei ddweud yw: rwy'n gwybod eu bod nhw yn gweithio 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos, er mwyn sicrhau bod y gwaith yn dod i ben cyn gynted ag sy'n bosib.

We will, of course, learn from the experience. It's not possible to avoid doing this work—that's important to say. This is a significant investment in the A55. We must remember that the A55 was built on the cheap in the 1980s. We would never build such a road now, with the roundabouts and tunnels that have only two lanes. Therefore, we have to deal with the situation that we have at present, but the tunnels do have to be maintained. We are considering, of course, in what way we can improve junctions 15 and 16, and consider not just the A55, but where the A55 merges with the A494, too. That is another piece of significant work and investment that will be put into the economy of north Wales and, of course, the network of north Wales. So, no, it's not easy for people; the reason why there are queues there is because of the work being undertaken in the tunnels the work being undertaken in the tunnels—we all know that. But, what I will say is that I know that they're working 24 hours a day, seven days a week, in order to ensure that the work is completed as soon as possible.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:30

Janet Haworth [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, I recently attended the north Wales coastal mayors summit, and they came together to discuss the disruption and economic cost of the ongoing improvements and roadworks on the A55 along the north Wales coast. First Minister, these mayors expressed grave concern about the lack of community consultation. With further works planned to remove three roundabouts and erect three flyovers along this stretch of road, what guarantees can you offer to the people living along the north Wales coast that thorough consultations will now take place in a timely fashion?

Brif Weinidog, roeddw'n i'n bresennol yn uwchgynhadledd meiri arfordirol gogledd Cymru yn ddiweddar, a daethant at ei gilydd i drafod tarfu a chost economaidd y gwelliannau a'r gwaith ffordd parhaus ar yr A55 ar hyd arfordir y gogledd. Brif Weinidog, mynegodd y meiri hyn bryder difrifol am y diffyg ymgynghori cymunedol. Gyda rhagor o waith wedi'i gynllunio i gael gwared ar dri chylchfan ac adeiladu tair trosffordd ar hyd y rhan hon o'r ffordd, pa sicrwydd allwch chi ei gynnig i'r bobl sy'n byw ar hyd arfordir y gogledd y bydd ymgynghoriadau trwyadl yn cael eu cynnal yn brydlon nawr?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:31

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

I spoke to the mayors of Llanfairfechan and Penmaen-mawr last week. They understood the need for the work to be done. They simply asked to be kept updated, amongst other things, in terms of how the work would progress. Yes, I think people know what's proposed is important, but we can't escape the fact that the A55 does need extensive maintenance because it was built to a standard below the standard that we would have built that road now. But, nevertheless, as a Government, we have shown that we are willing to put in the substantial investment that is needed, whether it's through the tunnels, whether it's through junctions 15 to 16, or whether it's through the Deeside corridor, where the A55 meets the A494.

Siaradais â meiri Llanfairfechan a Phenmaenmawr yr wythnos diwethaf. Roedden nhw'n deall yr angen i'r gwaith gael ei wneud. Y cwbl a ofynnwyd ganddynt oedd iddynt gael eu diweddar, ymhlith pethau eraill, ar sut y byddai'r gwaith yn cael ei wneud. Ydw, rwy'n credu ei bod yn bwysig bod pobl yn gwybod beth sy'n cael ei gynnig, ond ni allwn ddianc rhag y ffaith bod angen gwaith cynnal a chadw helaeth ar yr A55 oherwydd iddi gael ei hadeiladu i safon is na'r safon y byddem ni wedi adeiladu'r ffordd honno nawr. Ond, serch hynny, fel Llywodraeth, rydym ni wedi dangos ein bod yn barod i wneud y buddsoddiad sylweddol sydd ei angen, pa un a yw drwy'r twneli, pa un a yw trwy gyffyrdd 15 i 16, neu ba un a yw trwy goridor Glannau Dyfrdwy, lle mae'r A55 yn cysylltu â'r A494.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:31 **Rhun ap Iorwerth** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Ni allaf orbwysleisio'r rhwystredigaeth sy'n cael ei theimlo gan ddefnyddwyr yr A55, ac mae profiad yn dweud wrthym ni pan fydd un darn o waith yn cael ei gwblhau ar y ffordd fod darn arall o waith ffordd ar fin dechrau. A ydy'r Prif Weinidog yn cytuno â fi y gallai'r Llywodraeth fod yn llawer iawn mwy rhagweithiol yn y ffordd y maen nhw yn hysbysu pobl sy'n defnyddio'r A55 ynglŷn â gwaith sydd yn digwydd, ac sydd yn mynd i fod yn digwydd yn y dyfodol—yr amseru ag ati; yr amserlenni—fel bod pobl, drwy gyfathrebu, yn gallu cael gwell darlun o'r hyn sy'n mynd i fod yn digwydd ar y ffordd i'r dyfodol?

I can't overemphasise the frustration that's felt by the users of the A55 and experience tells us that when one section of the road is completed, another section of work is about to start. Does the First Minister agree with me that the Government could be far more proactive in the way they inform people who use the A55 about the work that is ongoing and is going to be happening in future, in terms of the timing and the timetabling, so that people, through effective communication, can have a better picture of what's going to be happening on the road in the future?

14:32 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Rydym wastad yn ceisio gwneud hynny. Os oes pwyntiau gan bobl i'w gwneud ynglŷn â'r gwaith ar y twneli, rydym yn ddigon parod i ystyried beth y gallwn ni ei wneud yn y pen draw er mwyn gwella pethau.

We always endeavour to do that. If there are points that people wish to make about the work on the tunnels, we are perfectly willing to consider what we can do in the long run to improve things.

14:32 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you, First Minister.

Diolch yn fawr, Brif Weinidog.

Cwestiwn Brys: Swyddfeydd Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yng Nghymru

Mae [R] yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant. Mae [W] yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

Urgent Question: Her Majesty's Revenue and Customs Offices in Wales

[R] signifies that the Member has declared an interest. [W] signifies that the question was tabled in Welsh.

14:32 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I have accepted an urgent question under Standing Order 12.66 and I call on Rhun ap Iorwerth to ask the urgent question.

Rwyf wedi derbyn cwestiwn brys o dan Reol Sefydlog 12.66 a galwaf ar Rhun ap Iorwerth i ofyn y cwestiwn brys.

14:32 **Rhun ap Iorwerth** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cynnal am ddyfodol swyddfeydd Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yng Nghymru? EAQ(4)0640(EST)[W]

What discussions has the Welsh Government held regarding the future of HMRC offices in Wales? EAQ(4)0640(EST)[W]

14:32 **Kenneth Skates** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth / The Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism

The First Minister wrote to the Prime Minister last year, expressing concern when Her Majesty's Revenue and Customs announced the proposed closures in Carmarthen, Colwyn Bay, Merthyr Tydfil and Pembroke Dock, and we are calling on the Prime Minister to do everything in his power to avoid compulsory redundancies.

Ysgrifennodd y Prif Weinidog at Brif Weinidog y DU y llynedd, yn mynegi pryder pan gyhoeddodd Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi y bwriad i gau swyddfeydd yng Nghaerfyrddin, Bae Colwyn, Merthyr Tudful a Doc Penfro, ac rydym ni'n galw ar y Prif Weinidog i wneud popeth yn ei allu i osgoi diswyddiadau gorfodol.

14:33

Rhun ap Iorwerth [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The announcement of the closure of the Wrexham, Swansea and Porthmadog sites last week came as a heavy blow to those working there, but does the Deputy Minister agree that, in addition to the almost 800 employees directly affected, for every 100 public sector job, around 30 more are supported in the private sector? Does the Deputy Minister also agree that it's an important matter of principle, as well as a matter of economic importance in terms of spreading employment opportunities, that Government employment is not centralised and is spread out among the population? The people of Wales now expect the Welsh Government to act in their interests, to fight for these jobs, and to insist that there is no degradation of the ability of tax office staff in Wales to deal with the tax affairs of Welsh businesses and Welsh citizens, especially in the context of the advent of a new Welsh treasury. So, will the Deputy Minister make it a priority to put the case for a reversal of this decision?

Daeth y cyhoeddiad yr wythnos ddiwethaf y byddai safleoedd Wrecsam, Abertawe a Phorthmadog yn cau fel ergyd drom i'r rhai sy'n gweithio yno, ond a yw'r Dirprwy Weinidog yn cytuno, yn ogystal â'r bron i 800 o weithwyr yr effeithir arnynt yn uniongyrchol, ar gyfer pob 100 o swyddi yn y sector cyhoeddus, caiff tua 30 arall eu cefnogi yn y sector preifat? A yw'r Dirprwy Weinidog hefyd yn cytuno ei fod yn fater pwysig o egwyddor, yn ogystal â mater o bwysigrwydd economaidd o ran lledaenu cyfleoedd cyflogaeth, nad yw cyflogaeth y Llywodraeth yn cael ei ganoli ond yn cael ei wasgaru allan ymhlith y boblogaeth? Mae pobl Cymru yn disgwyl i Lywodraeth Cymru weithredu er eu lles erbyn hyn, i ymladd am y swyddi hyn, ac i fynnu nad oes unrhyw ddirywiad i allu staff swyddfeydd treth yng Nghymru i ymdrin â materion treth busnesau Cymru a dinasyddion Cymru, yn enwedig yng nghyd-destun dyfodiad trysorlys newydd i Gymru. Felly, a fydd y Dirprwy Weinidog yn ei gwneud yn flaenoriaeth i gyflwyno'r achos dros wrthdroi'r penderfyniad hwn?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:34

Kenneth Skates [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Indeed I will, yes. I am bitterly disappointed that the UK Government might allow offices in north Wales, and indeed west Wales, to close, and that jobs could be lost, not just from Wrexham, Porthmadog and Swansea, but also from Wales, if they are transferred to Liverpool. Centralising of this nature goes against the grain of what the Welsh Government is attempting to do, which is to create better jobs, closer to home. I believe that it's unreasonable to expect staff in Porthmadog, Wrexham and Swansea to relocate to Liverpool or Cardiff. Again, it's a trend, unfortunately, by the UK Government to centralise in large urban areas.

Gwnaf yn wir. Rwy'n hynod siomedig y gallai Llywodraeth y DU ganiatáu i swyddfeydd yng ngogledd Cymru, a gorllewin Cymru yn wir, i gau, ac y gallai swyddi gael eu colli, nid yn unig o Wrecsam, Porthmadog ac Abertawe, ond hefyd o Gymru, os cânt eu trosglwyddo i Lerpwl. Mae canoli o'r math hwn yn mynd yn groes i'r graen o ran yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ceisio ei wneud, sef creu gwell swyddi, yn nes at adref. Credaf ei bod yn afresymol disgwyl i staff ym Mhorthmadog, Wrecsam ac Abertawe symud i Lerpwl neu Gaerdydd. Unwaith eto, mae'n duedd, yn anffodus, gan Lywodraeth y DU i ganoli mewn ardaloedd trefol mawr.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:34

Mike Hedges [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I have many constituents working at HMRC in Swansea, and though it's not in my constituency—it's in that of Julie James—it's probably about 150 yd over the border. So the news that it's going to close is very disappointing, and it'll mean a number of my constituents will be in serious danger of losing their jobs. Has the Welsh Government had any discussions regarding the right to transfer to HMRC in Cardiff, or redeployment within the wider civil service? Whilst this would reduce the number of job opportunities in the civil service in Wales, for those people who are in employment, many of whom were looking forward to Christmas last week and are probably worrying about Christmas today, anything that can give them a situation that makes them less concerned about their own personal future would be of benefit.

Mae gen i lawer o etholwyr sy'n gweithio yn CThEM yn Abertawe, ac er nad yw yn fy etholaeth i—mae yn etholaeth Julie James—mae'n debyg ei fod tua 150 llath dros y ffin. Felly mae'r newyddion ei fod yn mynd i gau yn siomedig iawn, a bydd yn golygu y bydd nifer o fy etholwyr mewn perygl difrifol o gollu eu swyddi. A yw Llywodraeth Cymru wedi cael unrhyw drafodaethau ynghylch yr hawl i drosglwyddo CThEM i Gaerdydd, neu adleoli o fewn y gwasanaeth sifil ehangach? Er y byddai hyn yn lleihau nifer y cyfleoedd am swyddi yn y gwasanaeth sifil yng Nghymru, i'r bobl hynny sydd mewn cyflogaeth, yr oedd llawer ohonynt yn edrych ymlaen at y Nadolig yr wythnos diwethaf ac yn ôl pob tebyg yn poeni am y Nadolig heddiw, byddai unrhyw beth a allai roi sefyllfa iddyn nhw sy'n eu gwneud yn llai pryderus am eu dyfodol personol eu hunain o fudd.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:35

Kenneth Skates [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Can I thank Mike Hedges for his question? I understand that he, like the local Member for Wrexham, has written to the UK Government to express extreme displeasure at this announcement. It's not clear exactly what these closures mean for jobs in Wales overall, but we are calling on the Prime Minister, of course, to do everything in his power to avoid any compulsory redundancies, and in terms of redeployment, this is certainly something that the Welsh Government will be discussing with HMRC. We'll look for opportunities, but, crucially, we need significantly more information from HMRC on location, on expertise and so forth before we can come to any conclusions.

A gaf i ddiolch i Mike Hedges am ei gwestiwn? Rwy'n deall ei fod ef, fel yr Aelod lleol dros Wrecsam, wedi ysgrifennu at Lywodraeth y DU i fynegi anfodlonrwydd mawr â'r cyhoeddiad hwn. Nid yw'n eglur yn union beth mae'r achosion hyn o gau yn ei olygu i swyddi yng Nghymru yn gyffredinol, ond rydym ni'n galw ar Brif Weinidog y DU, wrth gwrs, i wneud popeth yn ei allu i osgoi unrhyw ddiswyddiadau gorfodol, ac o ran adleoli, mae hyn yn sicr yn rhywbeth y bydd Llywodraeth Cymru yn ei drafod gyda CThEM. Byddwn yn chwilio am gyfleoedd, ond, yn hollbwysig, mae angen llawer mwy o wybodaeth arnom gan CThEM am leoliad, am arbenigedd ac yn y blaen cyn y gallwn ddod i unrhyw gasgliadau.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:36

William Graham [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Clearly, we join with the Deputy Minister in regretting the closure of these offices, but I would respectfully remind the Deputy Minister that this is part of a process started by HMRC under a Labour Government. Their own press release shows they are halfway through a programme originally agreed by your party in Government in 2008. We remain concerned about the loss of jobs, as I have said. We also remain concerned about the lost provision for the Welsh language. No doubt the Minister will make appropriate representations on that point. I also remind the Minister that, in terms of indignation on closure, your own Government has closed the rural affairs offices in your department.

Yn amlwg, rydym ni'n ymuno â'r Dirprwy Weinidog i resynu cau'r swyddfeydd hyn, ond byddwn yn barchus yn atgoffa'r Dirprwy Weinidog bod hyn yn rhan o broses a ddechreuwyd gan CThEM o dan Lywodraeth Lafur. Mae eu datganiad eu hunain i'r wasg yn dangos eu bod hanner ffordd trwy raglen y cytunwyd arni'n wreiddiol gan eich plaid chi mewn Llywodraeth yn 2008. Rydym ni'n dal i fod yn bryderus am y golled o swyddi, fel y dywedais. Rydym ni'n dal i bryderu hefyd am y ddarpariaeth a gollir ar gyfer yr iaith Gymraeg. Mae'n siŵr y bydd y Gweinidog yn gwneud sylwadau priodol ar y pwynt hwnnw. Rwyf hefyd yn atgoffa'r Gweinidog, o ran dicter at yr achosion o gau, bod eich Llywodraeth eich hun wedi cau'r swyddfeydd materion gwledig yn eich adran.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:37

Kenneth Skates [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, if we get back to the here and the now, I think it's absolutely essential that we oppose the closure of these crucial offices across Wales. These offices not only employ significant numbers of people in areas where jobs are needed urgently; these offices also provide supply chains with opportunities that are needed. We've already alerted, in north Wales, some employer contacts to the possibility of skilled staff becoming available. But I think it's absolutely essential that we continue, whilst that work is taking place, to put pressure on the UK Government to have this decision reversed.

Wel, os dychwelwn ni i'r presennol, rwy'n meddwl ei bod yn gwbl hanfodol ein bod yn gwrthwynebu cau'r swyddfeydd hanfodol hyn ledled Cymru. Nid yn unig y mae'r swyddfeydd hyn yn cyflogi nifer sylweddol o bobl mewn ardaloedd lle mae angen swyddi ar frys; mae'r swyddfeydd hyn hefyd yn darparu cyfleoedd ar gyfer cadwyni cyflenwi sydd eu hangen. Rydym ni eisoes wedi rhybuddio rhai cysylltiadau cyflogwyr yn y gogledd am y posibilrwydd y bydd staff medrus ar gael. Ond rwy'n credu ei bod yn gwbl hanfodol ein bod yn parhau, tra bod y gwaith hwnnw'n cael ei wneud, i roi pwysau ar Lywodraeth y DU i gael gwrthdroi'r penderfyniad hwn.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:37

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Wel, pan gaewyd y swyddfa yng Nghaerfyrddin y llynedd, o dan y Llywodraeth Doriaidd, fe symudwyd 90 o swyddi o Gaerfyrddin, o dref Gymraeg ei hiaith, i Abertawe. Mae'r 90 o swyddi sydd wedi symud o Gaerfyrddin i Abertawe nawr yn cael eu symud i Gaerdydd, ond, ar y pryd, fe ddywedwyd nad oedd modd symud y swyddi o Gaerfyrddin i Gaerdydd achos roedd hi'n rhy bell. Sut y mae swyddi yr oedd hi'n rhy bell i'w symud i Gaerdydd blwyddyn yn ôl nawr yn gallu cael eu symud i Gaerdydd? Nid wyf yn deall beth sydd y tu ôl i'r meddylfryd yma, na chwaith yr 20 o swyddi sy'n cael eu symud yn y gwasanaeth iaith Gymraeg o Borthmadog i Gaerdydd. Ie, cadw'r gwasanaeth Gymraeg, ond tanselio'r iaith mewn cymuned lle mae'r iaith yn cael ei siarad o hyd.

Well, when the office in Carmarthen was closed last year, under the Conservative Government, 90 posts were moved from Carmarthen, from a Welsh-speaking town, to Swansea. The 90 posts that were moved from Carmarthen to Swansea are now being shifted to Cardiff, but, at the time, it was said that it wasn't possible to move those jobs from Carmarthen to Cardiff because it was too far. If it was too far to move the jobs to Cardiff last year, how can they be moved to Cardiff now? I simply don't understand what's behind this mindset or the 20 posts that are being moved in the Welsh-language service from Porthmadog to Cardiff. Yes, retaining the Welsh-language service, but undermining the language in a community where the language is still spoken on a day-to-day basis.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

A fedrwrch chi gael y sgwrs gyda Llywodraeth San Steffan sy'n gofyn iddyn nhw, pan rŷm ni'n gallu gwneud ein trethi ni ar-lein, ac mae pawb yn gallu eistedd wrth eu desgiau lle bynnag y maen nhw ym Mhrydain Fawr a gwneud y gwaith yna ar-lein, pam nad yw'n bosibl i gadw swyddi mewn ffordd ddatganoledig hefyd?

Could you have a conversation with the Westminster Government and ask them when we can work on our own taxes online, and everyone can sit at their desks wherever they are within the UK and actually do that work online, why isn't it possible to retain jobs in a devolved manner too?

14:38 **Kenneth Skates** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Indeed. I agree entirely with the Member, and as I've already stated, I think it's wrong that jobs should be taken away from rural areas, from areas where Welsh is widely spoken, particularly at this time when we need to ensure that communities do build up resilience against what are often real pressures on the Welsh language. So, I think it's absolutely essential that we maintain these jobs and oppose the closure of the offices.

Yn wir. Rwy'n cytuno'n llwyr gyda'r Aelod, ac fel yr wyf wedi ei ddatgan eisoes, rwy'n credu ei bod yn anghywir y dylid cymryd swyddi oddi ar ardaloedd gwledig, o ardaloedd lle siaredir y Gymraeg yn eang, yn enwedig ar yr adeg hon pan fo angen i ni sicrhau bod cymunedau yn datblygu cydnheredd yn erbyn yr hyn sy'n aml yn bwysau gwirioneddol ar yr iaith Gymraeg. Felly, rwy'n meddwl ei bod yn gwbl hanfodol ein bod yn cynnal y swyddi hyn ac yn gwrthwynebu cau'r swyddfeydd.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:39 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, can I associate myself with the comments everyone has spoken on this side of the Chamber expressing concern about the jobs in HMRC, particularly in Swansea? Can I also draw your attention to the fact that the Government has now re-opened the possibility of privatising the Land Registry in Swansea as well—a further threat to jobs in that particular area? Minister, in the letter to AMs on Friday, HMRC said that there was no guarantee that the people currently employed in those other offices would be relocated to Cardiff, which I found particularly concerning given the impact that is going to have on the 300 jobs in the Swansea area. Can I ask you, if you haven't yet had discussions with the UK Government, to raise this particular issue with them: if they are going to centralise this, and I think that is a shame and should not happen, will they look at automatically moving the personnel to Cardiff to take up jobs there?

Weinidog, a gaf i gysylltu fy hun â'r sylwadau a wnaed gan bawb ar yr ochr hon i'r Siambr yn mynegi pryder am y swyddi yn CThEM, yn enwedig yn Abertawe? A gaf i dynnu eich sylw hefyd at y ffaith fod y Llywodraeth wedi ailagor y posibilrwydd o breifateiddio'r Gofrestrfa Tir yn Abertawe hefyd erbyn hyn—bygythiad pellach i swyddi yn yr ardal benodol honno? Weinidog, yn y llythyr at ACau ddydd Gwener, dywedodd CThEM nad oedd unrhyw sicrwydd y byddai'r bobl a gyflogir yn y swyddfeydd eraill hynny ar hyn o bryd yn cael eu hadleoli i Gaerdydd, a oedd yn peri pryder arbennig i mi o ystyried yr effaith y mae'n mynd i'w chael ar y 300 o swyddi yn ardal Abertawe. A gaf i ofyn i chi, os nad ydych wedi cael trafodaethau gyda Llywodraeth y DU eto, i godi'r mater penodol hwn gyda nhw: os ydynt yn mynd i ganoli hyn, a chredaf fod hynny'n drueni ac na ddylai ddigwydd, a wnânt ystyried symud y personél i Gaerdydd yn awtomatig i gymryd swyddi yno?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:40 **Kenneth Skates** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Absolutely, as I mentioned to Mike Hedges, we are in discussions to ascertain exactly what the implications are of this announcement in terms of the locations and the skills that are going to be emerging and the issues around transferral.

Yn sicr, fel y soniais wrth Mike Hedges, rydym ni mewn trafodaethau i ddarganfod beth yn union yw goblygiadau'r cyhoeddiad hwn o ran y lleoliadau a'r sgiliau sy'n mynd i fod yn dod i'r amlwg a'r materion yn ymwneud â throsglwyddo.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:40 **Joyce Watson** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Of course, during the discussions, Minister, and your ongoing discussions between the two Governments, the main point here is that this is going to cost jobs. This is going to affect the local economies, and these are well-paid, high-skilled jobs that those communities can't afford to lose. We're going to be in a position where there's no service whatsoever in north Wales and there's no service in west Wales either. I notice that there's an offer loosely on the table to relocate. Are they serious about people from mid and west Wales working in Cardiff, and people from Porthmadog travelling every day to Cardiff? If they are, I invite them to try it.

Wrth gwrs, yn ystod y trafodaethau, Weinidog, a'ch trafodaethau parhaus rhwng y ddwy Lywodraeth, y prif bwynt yma yw bod hyn yn mynd i gostio swyddi. Mae hyn yn mynd i effeithio ar yr economïau lleol, ac mae'r rhain yn swyddi hynod fedrus sy'n talu'n dda na all y cymunedau hynny fforddio eu colli. Rydym ni'n mynd i fod mewn sefyllfa lle nad oes gwasanaeth o gwbl yn y gogledd ac nad oes gwasanaeth yn y gorllewin ychwaith. Sylwaf fod cynnig bras ar y bwrdd i adleoli. A ydyn nhw o ddirif am bobl o'r canolbarth a'r gorllewin yn gweithio yng Nghaerdydd, a phobl o Borthmadog yn teithio bob dydd i Gaerdydd? Os ydyn nhw, rwy'n eu gwahodd i roi cynnig arni.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

- 14:41 **Kenneth Skates** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- As would I. I think the Member, Joyce Watson, is absolutely right to throw that challenge to those who have announced this proposal. I think what we've discovered now is that the northern powerhouse and the very idea of it will involve sucking out wealth and opportunities from north Wales and transferring them elsewhere. This is simply unacceptable.
- A minnau hefyd. Rwy'n meddwl bod yr Aelod, Joyce Watson, yn llygad ei lle i wneud yr her honno i'r rhai sydd wedi cyhoeddi'r cynnig hwn. Rwy'n credu mai hyn yr ydym ni wedi ei ddarganfod nawr yw y bydd y pwerdy gogleddol a'r syniad ohono yn golygu sugno cyfoeth a chyfleoedd allan o ogledd Cymru a'u symud i rywle arall. Mae hyn yn gwbl annerbyniol.
- 14:41 **Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Fonesig Lywydd, rwy'n credu mai dyma'r bedwaredd ymdrech i gau'r swyddfa HMRC ym Mhorthmadog. Ar yr achlysuron blaenorol, fe lwyddodd y sawl sy'n gweithio yno a'r undeb a'r rhai ohonom a oedd yn ymgyrchu dros gynnal y swyddi i gadw'r swyddi, gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru, oherwydd yr arbenigedd ynglŷn â gweinyddu dwyieithog. Felly, er nad wyf yn dadlau o angenrheidiolrwydd fod yn rhaid i weinyddu dwyieithog ddigwydd yn fy etholaeth i, rwy'n meddwl bod cynnal arbenigedd dwyieithog o fewn y gwasanaeth nid yn unig yn hanfodol ac yn gywir, ond yn statudol angenrheidiol. Felly, a wnaiff y Gweinidog sicrhau bod hynny'n digwydd?
- Dame Presiding Officer, I think this is the fourth attempt to close the HMRC office in Porthmadog. When the previous attempts were made, those working there, their unions, and those of us who campaigned to maintain those jobs did manage to keep those jobs in place, with the support of the Welsh Government, because of the expertise in terms of bilingual administration. So, whilst I'm not arguing necessarily that bilingual administration has to happen in my own constituency, I do think that maintaining bilingual expertise within the service is not only crucial and the right thing to do, but statutorily necessary. So, would the Minister ensure that that does occur?
- 14:42 **Kenneth Skates** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Yes, I will.
- Gwnaf, mi wnaif.
- 14:42 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Ddirprwy Weinidog, a ydych hefyd yn cytuno bod hyn yn tansailio'r strategaethau ieithyddol sydd gennym fel Cynulliad? Achos, os ydym yn cael gwared ar y swyddi Cymraeg yma o fewn y cadarnleoedd ac yn denu pobl ifanc i lawr i Gaerdydd, mae hynny'n dad-wneud yr holl drafodaethau rydym wedi'u cael. Hefyd, a gaf i ofyn, wrth ystyried bod llawer iawn mwy o swyddi yn cael eu canoli o fewn y dinasoedd mawrion ar hyn o bryd, i chi ailedrych ar bolisi eich Llywodraeth eich hunain, achos mae nifer y swyddi yn y gogledd a'r gorllewin erbyn hyn yn llawer iawn llai? Rwy'n meddwl ei bod yn ofynnol arnoch chi i sicrhau hefyd fod yna swyddi Llywodraeth yn y gogledd-ddwyrain a manau tebyg, os ydych wir yn credu beth y dywedasocho ar y cychwyn.
- Deputy Minister, do you also agree that this undermines the linguistic strategies that we have as an Assembly? Because if we do get rid of these Welsh-speaking posts within our hinterlands and then attract people to Cardiff, then that actually undoes all the negotiations that we've had. Also, may I ask you, in considering that very many more posts are now centralised within the large cities at present, to look at your own Government's policy, because the number of posts in north and west Wales is much reduced by now? I think it's incumbent upon you to ensure that there are Government posts in the north-east and similar places, if you truly believe what you said at the outset.
- 14:43 **Kenneth Skates** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- The Welsh Government does have offices right across the length and breadth of Wales, but I think the Member is absolutely right about the office in Porthmadog. It's simply wrong to believe that you can transfer jobs away from that community without depriving that community of opportunities for Welsh speakers to be employed. It's also very damaging to the community, should people be redeployed from that area, to find that the population of the area is much reduced and that, therefore, economic wealth is being drawn away from it.
- Mae gan Lywodraeth Cymru swyddfeydd ar hyd a lled Cymru, ond rwy'n meddwl bod yr Aelod yn hollol gywir am y swyddfa ym Mhorthmadog. Mae'n gwbl anghywir credu y gallwch chi drosglwyddo swyddi o'r gymuned honno heb amddifadu'r gymuned honno o gyfleoedd i siaradwyr Cymraeg gael eu cyflogi. Mae hefyd yn niweidiol iawn i'r gymuned, os bydd pobl yn cael eu hadleoli o'r ardal honno, i ganfod fod poblogaeth yr ardal yn llawer llai ac, felly, bod cyfoeth economaidd yn cael ei dynnu oddi arni.

- 14:43 **Julie Morgan** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- At the moment, there are over 2,000 civil servants working in HMRC in the tax offices in Tŷ Glas in my constituency in Cardiff North. Under these proposals, the site will be shut and moved to a central location in Cardiff, and I understand that the numbers may be increased. Although this may mean more jobs in Cardiff, I deeply regret the loss of jobs in other parts of Wales. I think this is a very damaging policy, a very divisive policy, and very upsetting and disturbing for the staff. As chair of the PCS group here, I've already had fears expressed by members about what their future is going to be. So, does the Minister have any knowledge of the timescale for these plans? The tax office have mentioned this central location in Cardiff. Does he have any more information about that, or any information about what would happen to the very big site in Llanishen, where it's been one of the major employers in my constituency?
- Ar hyn o bryd, mae dros 2,000 o weision sifil yn gweithio yn CThEM yn y swyddfeydd treth yn Nhŷ Glas yn fy etholaeth i yng Ngogledd Caerdydd. Yn ôl y cynigion hyn, bydd y safle'n cael ei gau a'i symud i leoliad canolog yng Nghaerdydd, ac rwy'n deall y gallai'r niferoedd gael eu cynyddu. Er y gallai hyn olygu mwy o swyddi yng Nghaerdydd, rwy'n gresynu'n fawr y golled o swyddi mewn rhannau eraill o Gymru. Rwy'n credu bod hwn yn bolisi niweidiol iawn, polisi ymrannol iawn, ac yn annifyr iawn i'r staff gan darfu'n fawr arnynt. Fel cadeirydd y grŵp PCS yma, mynegwyd ofnau i mi eisoes gan yr aelodau am yr hyn fydd yn digwydd yn y dyfodol. Felly, a oes gan y Gweinidog unrhyw wybodaeth am yr amserlen ar gyfer y cynlluniau hyn? Mae'r swyddfa dreth wedi crybwyll y lleoliad canolog hwn yng Nghaerdydd. A oes ganddo ragor o wybodaeth am hynny, neu unrhyw wybodaeth am yr hyn a fyddai'n digwydd i'r safle mawr iawn yn Llanisien, lle mae wedi bod yn un o'r prif gyflogwyr yn fy etholaeth i?
- 14:45 **Kenneth Skates** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Well, we are trying to ascertain all of that information. We simply don't know. I know someone suggested that there may be additional jobs in Cardiff, but we simply don't know how many of those additional jobs in Cardiff will be created from the loss of the many, many jobs elsewhere in Wales. I say again, the northern powerhouse is meant to be an opportunity for north Wales to be able to thrive in the twenty-first century, and unfortunately what the UK Government is doing is using the guise of a northern powerhouse to centralise services in large urban areas and deprive north Wales of opportunities for job creation and job growth.
- Wel, rydym ni'n ceisio cael gafaél ar yr holl wybodaeth honno. Yn syml, nid ydym yn gwybod. Gwn fod rhywun wedi awgrymu y gallai fod swyddi ychwanegol yng Nghaerdydd, ond nid ydym yn gwybod faint o'r swyddi ychwanegol hynny yng Nghaerdydd fydd yn cael eu creu o gollir nifer fawr o swyddi mewn mannau eraill yng Nghymru. Dywedaf eto, mae'r pwerdy gogleddol i fod yn gyfle i'r gogledd allu ffynnu yn yr unfed ganrif ar hugain, ac, yn anffodus, yr hyn y mae Llywodraeth y DU yn ei wneud yw defnyddio cochl pwerdy gogleddol i ganoli gwasanaethau mewn ardaloedd trefol mawr ac amddifadu'r gogledd o gyfleoedd ar gyfer creu swyddi a thwf swyddi.
- 14:45 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you, Deputy Minister. Diolch, Ddirprwy Weinidog.
- 14:45 **3. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes** **Y** [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
- 3. Business Statement and Announcement**
- Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
- We now move to the next item, which is the business statement, and I call on the Minister for Finance and Government Business, Jane Hutt. Symbudwn yn awr at yr eitem nesaf, sef y datganiad busnes, a galwaf ar y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth, Jane Hutt.
- 14:45 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Finance and Government Business*
- Diolch, Lywydd. There have been two changes to the business statement for this week's business: a motion to suspend Standing Orders will be moved by the Minister for Natural Resources, allowing the scheduling of a debate on the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015 (Consequential Provisions) Regulations 2015. The debate on the apprenticeship levy has been withdrawn by the Deputy Minister for Skills, who will be making a written statement instead, in due course. Business for the next three weeks is as shown on the business statement and announcement, which can be found among the agenda papers available to Members electronically.
- Diolch, Lywydd. Bu dau newid i'r datganiad busnes ar gyfer busnes yr wythnos hon: bydd cynnig i atal Rheolau Sefydlog yn cael ei gynnis gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol, gan ganiatáu trefnu dadl ar Reoliadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Darpariaethau Canlyniadol) 2015. Mae'r drafodaeth ar yr ardoll prentisiaeth wedi ei dynnu'n ôl gan y Dirprwy Weinidog Sgiliau, a fydd yn gwneud datganiad ysgrifenedig yn hytrach, maes o law. Mae'r busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf fel y'i dangosir ar y datganiad a'r cyhoeddiad busnes, y gellir ei weld ymhlith papurau'r agenda sydd ar gael i'r Aelodau yn electronig.

14:46

Mark Isherwood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Can I call for a single statement on carbon monoxide poisoning in this, the tenth national Carbon Monoxide Awareness Week from the Carbon Monoxide Awareness charity? The objective is to join people, organisations and businesses of all sizes to help raise awareness of the dangers of carbon monoxide. Although the charity acknowledges growing attention to the issue over recent years and that more people are fitting alarms in their homes, the industry feels there's further work to do and the charity feels that, despite many instances of increased discussion, an important area overlooked is the long-term effect of carbon monoxide poisoning and the urgent need for medical examinations to be conducted for everybody who has suffered carbon monoxide poisoning. They describe the lack of support as unbelievable, given the debilitating effect that exposure to carbon monoxide can have on the brain. Their comments are all-UK, but given that health is a devolved matter, this merits a statement in this place. Thank you.

A gaf i alw am ddatganiad unigol ar wenwyno carbon monocsid yn ystod hon, y ddegfed Wythnos Ymwybyddiaeth o Garbon Monocsid genedlaethol gan yr elusen Ymwybyddiaeth o Garbon Monocsid? Y nod yw dod â phobl, sefydliadau a busnesau o bob maint at ei gilydd er mwyn hybu ymwybyddiaeth o beryglon carbon monocsid. Er bod yr elusen yn cydnabod y sylw cynyddol i'r mater hwn dros y blynyddoedd diwethaf, a bod mwy o bobl yn gosod larymau yn eu cartrefi, mae'r diwydiant o'r farn bod rhagor o waith i'w wneud ac mae'r elusen yn credu, er gwaethaf y cynnydd o ran sawl gwaith y ceir y drafodaeth, un maes pwysig sy'n cael ei anwybyddu yw effaith hirdymor gwenwyno gan garbon monocsid a'r angen brys i gynnal archwiliadau meddygol ar gyfer pob un sydd wedi dioddef gwenwyno gan garbon monocsid. Maent yn disgrifio'r diffyg cefnogaeth fel bod yn anghredadwy, o ystyried yr effaith gwanychol y gall amlygiad i garbon monocsid ei gael ar yr ymennydd. Mae eu sylwadau yn ymwneud â'r DU gyfan, ond o ystyried y ffaith bod iechyd yn fater datganoledig, mae hyn yn haeddu datganiad yn y lle hwn. Diolch.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:47

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, I thank Mark Isherwood for that question. Clearly, the Minister needs to consider a response to that, particularly if this has been brought forward by the charity representing those affected by carbon monoxide poisoning, to see how we can respond appropriately in terms of our responsibilities.

Wel, diolch i Mark Isherwood am y cwestiwn yna. Yn amlwg, mae angen i'r Gweinidog ystyried ymateb i hynny, yn enwedig os yw hyn wedi ei ddwyn ymlaen gan yr elusen sy'n cynrychioli y rhai yr effeithwyd arnynt gan wenwyn carbon monocsid, i weld sut y gallwn ymateb yn briodol o ran ein cyfrifoldebau.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:47

Julie Morgan [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

When can we have a debate about the importance of eating a healthy breakfast and its impact on children's learning? I'm sure the Minister has seen the reports from Cardiff University in the newspapers today saying that children who eat a healthy breakfast before starting the school day achieve higher academic results than those who do not—and isn't that a great vindication of the Welsh Government's policy on free breakfasts? But, I'd also like to draw attention to the importance of a healthy breakfast for people who have diabetes, as a constituent of mine, Melanie Stephenson, reminded listeners on Radio Wales this morning. Melanie is a Diabetes UK Cymru ambassador, and said that eating a healthy breakfast helps blood sugar levels from getting too high throughout the day.

Pryd y gallwn ni gael dadl am bwysigrwydd bwyta brecwast iach a'i effaith ar ddsygu plant? Rwyf yn siŵr bod y Gweinidog wedi gweld yr adroddiadau gan Brifysgol Caerdydd yn y papurau newydd heddiw yn dweud bod plant sy'n bwyta brecwast iach cyn dechrau ar y diwrnod ysgol yn cyflawni gwell canlyniadau academiaidd na'r rhai nad ydynt—ac onid yw hynny'n gyfiawnhad gwych o bolisi Llywodraeth Cymru ar frecwast am ddim? Ond, hoffwn hefyd dynnu sylw at bwysigrwydd brecwast iach ar gyfer pobl â diabetes, fel yr atgoffwyd gwrandawyr gan un o fy etholwyr i, Melanie Stephenson, ar Radio Wales y bore yma. Mae Melanie yn gennad Diabetes UK Cymru, a dywedodd bod bwyta brecwast iach yn helpu i rwystro lefelau siwgr yn y gwaed rhag mynd yn rhy uchel drwy gydol y dydd.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:48

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Julie Morgan for that question. I think this has drawn attention, as she says, to the wider decision we made to invest in a nutritious, healthy free school breakfast for children in Wales in our primary schools and the fact that, despite tough times financially, we have maintained support through to local authorities, via the revenue support grant now, of course, for the maintenance of that healthy free school breakfast. But I think this is very important evidence. It shows how we need to look at, and can rely on our universities to provide, the kind of evidence that can help steer us in terms of difficult budgetary decisions and, indeed, health policy, as well as the wider issues in terms of schoolchildren's attainment in terms of education.

Diolchaf i Julie Morgan am y cwestiwn yna. Rwyf yn credu bod hyn wedi denu sylw, fel y mae hi'n dweud, at y penderfyniad ehangach a wnaethom i fuddsoddi mewn brecwast maethlon, iachus ac am ddim i blant Cymru yn ein hysgolion cynradd a'r ffaith, er gwaethaf y cyfnod ariannol anodd, ein bod wedi cynnal y gefnogaeth i awdurdodau lleol, drwy'r grant cynnal refeniw nawr, wrth gwrs, er mwyn cynnal y brecwast ysgol hwnnw am ddim. Ond rwyf yn credu bod hon yn dystiolaeth bwysig iawn. Mae'n dangos ein bod angen edrych ar y math o dystiolaeth, a gallwn ddibynnu ar ein prifysgolion i'w darparu, sy'n gallu helpu i'n harwain o ran penderfyniadau cyllidebol anodd ac, yn wir, polisi iechyd, yn ogystal â'r materion ehangach o ran cyrhaeddiad plant ysgol o ran addysg.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:49

Kirsty Williams [Bywgraffiad Biography](#)

Minister, I believe we are currently in the third phase of the Welsh Government's strategy for older people, and that phase says that older people should be able to expect to participate as fully in society as they desire. That's quite hard to do if you've lost all your public transport services, as the people of Trecastle recently have done and the people living in Builth Wells have recently done. What steps can the Government take in practical terms to allow older people living in these communities to fulfil the potential of the older people's strategy by having bus routes that actually allow them to leave their homes and do the things that they would like to do? Would she agree with me the sight of people who are able walking along the A40 trunk road from Trecastle to Sennybridge is a disaster waiting to happen?

Weinidog, rwyf yn credu ein bod ni ar hyn o bryd yn nhrydydd cam strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer pobl hŷn, a bod y cam hwnnw yn dweud y dylai pobl hŷn allu disgwyl cael cymryd rhan mor lawn ac y dymunant yn y gymdeithas. Mae hynny'n eithaf anodd ei wneud os ydych wedi colli eich holl wasanaethau cludiant cyhoeddus, fel y digwyddodd i bobl Trecastell yn ddiweddar ac fel y digwyddodd i bobl sy'n byw yn Llanfair ym Muallt yn ddiweddar. Pa gamau y gall y Llywodraeth eu cymryd mewn termau ymarferol i alluogi pobl hŷn sy'n byw yn y cymunedau hyn i gyflawni potensial y strategaeth pobl hŷn drwy gael llwybrau bus sydd mewn gwirionedd yn eu galluogi i adael eu cartrefi a gwneud y pethau y byddent yn hoffi eu gwneud? A fyddai hi'n cytuno â mi bod gweld pobl sy'n gallu cerdded, yn gwneud hynny ar hyd cefnffordd yr A40 o Drecastell i Bontsenni yn drychineb sy'n aros i ddigwydd?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:50

Jane Hutt [Bywgraffiad Biography](#)

Thank you, Kirsty Williams, for that very important point about the fact that we have continued to invest in and support our older people strategy into its third phase and, indeed, throughout Wales, over-50s forums are actively engaging with their local authorities in terms of their responsibility for transport. But we are also acknowledging that we have, through European funding, secured a number of schemes to enable older people to access, for example, community bus services like the Bwcabus service and the Greenlinks service that happens to function in my constituency. It's very clear that we need to ensure that local authorities take stock of what this means in terms of accessibility and independence for older people.

Diolch i chi, Kirsty Williams, am y pwynt pwysig iawn yna am y ffaith ein bod wedi parhau i fuddsoddi yn ein strategaeth pobl hŷn ac wedi ei chefnogi i'w thrydydd cam, yn wir, ledled Cymru, mae fforymau i bobl dros 50 oed yn ymgysylltu'n weithredol â'u hawdurdodau lleol am eu cyfrifoldeb dros gludiant. Ond rydym hefyd yn cydnabod ein bod ni, drwy gyllid Ewropeaidd, wedi sicrhau nifer o gynlluniau i alluogi pobl hŷn i gael gafael ar, er enghraifft, gwasanaethau bus cymunedol megis y gwasanaeth Bwcabus a'r gwasanaeth Greenlinks sydd fel mae'n digwydd yn gweithredu yn fy etholaeth i. Mae'n amlwg iawn bod angen i ni sicrhau bod awdurdodau lleol yn ystyried yr hyn y mae hyn ei olygu o ran hygyrchedd ac annibyniaeth i bobl hŷn.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:51

Russell George [Bywgraffiad Biography](#)

Minister, last year I asked the Minister for Communities and Tackling Poverty to facilitate a discussion with interested parties to put in place a new model of community banking to safeguard rural communities from bank closures. She did say at that point that the meeting would be perhaps premature. One year on, there have been further bank closures in my own constituency in Montgomeryshire, so can I ask for a statement on the measures that the Welsh Government are taking alongside the banks, post offices and regulators to make improvements to inter-agency agreements that will enable banks to share services and safeguard rural banking? I do hope you'll agree with me that there is a role for Welsh Government to play; they're in an ideal position to facilitate these kinds of discussions.

Weinidog, y llynedd, gofynnais i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi hwyluso trafodaeth gyda phartion â budd i sefydlu model newydd o fancio cymunedol i ddiogelu cymunedau gwledig rhag cau banciau. Dywedodd hi ar yr adeg honno y byddai'r cyfarfod yn rhy fuan efallai. Flwyddyn yn ddiweddarach, caewyd mwy o fanciau yn fy etholaeth i yn Sir Drefaldwyn, felly a gaf fi ofyn am ddatganiad ar y camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd ochr yn ochr â'r banciau, swyddfeydd post a rheoleiddwyr i sicrhau gwelliannau i gytundebau rhwng asiantaethau a fydd yn galluogi banciau i rannu gwasanaethau a diogelu bancio gwledig? Rwyf wir yn gobethio y byddwch yn cytuno â mi bod gan Lywodraeth Cymru ran i'w chwarae; mae hi mewn sefyllfa ddelfrydol i hwyluso'r mathau hyn o drafodaethau.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:51

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I do hope, Russell George, that you have made strong representation to your Government about the unacceptable closures, for example, of the NatWest banks across Wales, particularly affecting rural areas. I recall when Kirsty Williams raised the issue about Crickhowell NatWest bank. Of course, we clearly need to look at ways in which we can support—post offices have a crucial role to play—but it is your Government, the UK Government, and it is banks, which we supported through the public sector and through a Labour Government, that are now withdrawing these crucial services. But, of course, we are looking at all ways in which we can promote other access points for community banking.

Rwyf yn gobeithio, Russell George, eich bod wedi gwneud sylwadau cryf i'ch Llywodraeth am y cau annerbyniol, er enghraifft, o fanciau NatWest ledled Cymru, yn enwedig y rhai sy'n effeithio ar ardaloedd gwledig. Rwyf yn cofio pan gododd Kirsty Williams y mater ynglŷn â banc NatWest yng Nghrŷcŷwel. Wrth gwrs, mae'n amlwg bod angen inni edrych ar ffyrdd y gallwn ni gynorthwyo—mae gan swyddfeydd post ran allweddol i'w chwarae—ond eich Llywodraeth chi, Llywodraeth y DU, a'r banciau, a gefnogwyd gennym ni drwy'r sector cyhoeddus a thrwy Lywodraeth Llafur, sydd bellach yn tynnu'r gwasanaethau hanfodol hyn yn ôl. Ond, wrth gwrs, rydym yn edrych ar yr holl ffyrdd y gallwn hyrwyddo mathau eraill o fynediad at fancio cymunedol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:52

Eluned Parrott [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, the Welsh Government through the Displaced People in Action charity funds a programme called WARD, which enables medical professionals who are refugees or asylum seekers to retrain and get the specific linguistic retraining they need to practice in the UK, and specifically in Wales. This is a fantastic programme; it's enabled 115 refugees and asylum seekers to work in Wales. However, this training would also be exactly what is needed for those people who have naturalised as British citizens but who are not specifically refugees and asylum seekers. There are many of those based in my region of South Wales Central and other parts of Wales who could contribute very valuably to our health service, and I know that the Minister is concerned about a shortage of junior doctors. So, could the Welsh Government please look at the possibility of extending this programme to other eligibilities and provide us with a statement on that report?

Weinidog, mae Llywodraeth Cymru drwy'r elusen Alltudion ar Waith yn ariannu rhaglen o'r enw Grŵp Meddygon Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid Cymru, sy'n galluogi gweithwyr meddygol proffesiynol sy'n ffoaduriaid neu'n geiswyr lloches i ailhyfforddi a chael yr ailhyfforddiant ieithyddol penodol sydd ei angen arnynt i weithio yn y DU, ac yn benodol yng Nghymru. Mae hon yn rhaglen wych; mae hi wedi galluogi 115 o ffoaduriaid a cheiswyr lloches i weithio yng Nghymru. Fodd bynnag, byddai'r hyfforddiant hwn yn union yr hyn sydd ei angen ar gyfer y bobl hynny sydd wedi eu derbyn yn ddinasyddion Prydeinig ond nad ydynt yn benodol yn ffoaduriaid a cheiswyr lloches. Mae llawer o'r rhain yn byw yn fy rhanbarth i yng Nghanol De Cymru a rhannau eraill o Gymru a gallant wneud cyfraniad gwerthfawr iawn i'n gwasanaeth iechyd, a gwn fod y Gweinidog yn pryderu am y prinder o ran meddygon iau. Felly, a wnaiff Lywodraeth Cymru edrych os gwelwch yn dda ar y posibilrwydd o ehangu'r rhaglen hon i rai eraill sy'n gymwys a rhoi datganiad i ni ar yr adroddiad hwnnw?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:53

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The Minister for Communities and Tackling Poverty has this at the forefront of actions that she is taking, and I will always recall also, when I was health Minister many years ago, that we developed a programme for refugee doctors. In fact, all over Wales, we now have doctors working in the health service who were refugees and had the skills, and we were able to then ensure we had a retraining programme, exactly as you say. But, also in the context of the Minister's role in terms of supporting the Syrian refugees and making sure that we have got that retraining programme in place—and this is, of course, in terms of the vulnerable persons' relocation scheme—this, of course, is crucial and for all those also who are already here in Wales, who we welcome.

Mae hyn ar flaen y gad o ran y camau gweithredu y mae'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi yn eu cymryd, ac rwyf bob amser yn cofio hefyd, pan oeddwn i'n Weinidog Iechyd flynyddoedd lawer yn ôl, ein bod wedi datblygu rhaglen i feddygon a oedd yn ffoaduriaid. Yn wir, ledled Cymru, mae gennym feddygon sydd bellach yn gweithio yn y gwasanaeth iechyd a oedd yn ffoaduriaid ac roedd y sgiliau ganddynt, ac roeddem yn gallu sicrhau wedyn bod gennym raglen ailhyfforddi, yn union fel y dywedwch. Ond, hefyd yng nghyd-destun swyddogaeth y Gweinidog o ran cefnogi ffoaduriaid Syria a gwneud yn siŵr bod y rhaglen ailhyfforddi hon ar waith gennym—ac mae hyn, wrth gwrs, yn ymwneud â'r cynllun adleoli unigolion agored i niwed—mae hyn, wrth gwrs, yn hanfodol ac i bob un hefyd sydd eisoes yma yng Nghymru, yr ydym yn eu croesawu.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:54

Nick Ramsay [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, Marie Curie, with their commitment to care and support through terminal illness, have been in the Assembly today; I know many Assembly Members have already visited them, and I've got their manifesto here, point 1 of which says

'We want the next Welsh Government to...commit to ensuring everyone who needs palliative care has access to it by the end of the next Assembly'

Weinidog, mae Marie Curie, gyda'u hymrwymiad i ofal a chefnogaeth yn ystod salwch angheuol, wedi bod yn y Cynulliad heddiw; Gwn fod nifer o Aelodau'r Cynulliad eisoes wedi ymweld â nhw, ac mae eu manifestio gennyf yn y fan yma, ac mae pwynt rhif 1 ohono'n dweud:

Rydym eisiau i Lywodraeth nesaf Cymru... ymrwymo i sicrhau bod pawb sydd angen gofal lliniarol yn gallu cael gafael arno, erbyn diwedd y Cynulliad nesaf.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

This isn't too much to ask, is it, Minister? It's something we should all be supporting. I know that they are looking four or five years hence, but would you look to bring forward an update as soon as possible from the Welsh Government on how you are looking to fulfil the call of Marie Curie and make sure that the current position, which states that seven out of 10 carers say they don't think the palliative care in Wales is up to scratch, is addressed as soon as possible?

Nid yw hyn yn ormod i ofyn amdano, nad yw, Weinidog? Mae'n rhywbeth y dylai bob un ohonom ei gefnogi. Gwn eu bod yn edrych bedair neu bum mlynedd ymlaen, ond a wnewch geisio cyflwyno diweddariad cyn gynted ag y bo modd gan Lywodraeth Cymru ar sut yr ydych yn bwriadu cyflawni galwad Marie Curie a gwneud yn siŵr bod y sefyllfa bresennol, sy'n nodi bod saith o bob 10 o ofalwyr yn dweud nad ydynt yn credu bod y gofal lliniarol yng Nghymru yn cyrraedd y safon, yn cael sylw cyn gynted â phosibl?

14:55 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Nick Ramsay, many of us did attend and were very pleased to attend the event today with Marie Curie and to meet the nurse who's undertaking pioneering work in terms of supporting people who need palliative care, but not just cancer patients, and learning also about the support for carers. Clearly, we are at the forefront in Wales in terms of the Welsh Government support for end-of-life care and, indeed, working in close partnership with Marie Curie.

Nick Ramsay, roedd llawer ohonom ni yn bresennol ac yn falch iawn o fynychu'r digwyddiad heddiw gyda Marie Curie ac i gwrrdd â'r nyrs sy'n ymgymryd â gwaith arloesol o ran cefnogi pobl sydd angen gofal lliniarol, ond nid cleifion cancer yn unig, a dysgu hefyd am y cymorth i ofalwyr. Yn amlwg, rydym ni ar flaen y gad yng Nghymru o ran y gefnogaeth gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gofal diwedd oes ac, yn wir, yn gweithio mewn partneriaeth agos â Marie Curie.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:55 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you very much, Minister.

Diolch yn fawr iawn, Weinidog.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:55 **4. Rheoliadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Darpariaethau Trosiannol) 2015**

Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Item 4 has been withdrawn.

4. The Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015 (Transitional Provisions) Regulations 2015

Mae eitem 4 wedi ei thynnu yn ôl.

Y Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:56 **Cynnig i Atal Rheolau Sefydlog**

Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now have a motion to suspend Standing Orders to bring forward the business under item 5. I call on the Minister for Natural Resources to move formally.

Cynnig NNDM5883 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheolau Sefydlog 33.6:

Yn atal rhan honno o Reol Sefydlog 11.16 sy'n ei gwneud yn ofynnol bod y datganiad a'r cyhoeddiad wythnosol o dan Reol Sefydlog 11.11 yn darparu'r amserlen ar gyfer busnes yn y Cyfarfod Llawn yr wythnos ganlynol, er mwyn caniatáu i NNDM5874 gael ei ystyried yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth 17 Tachwedd 2015.

Cynigiwyd y cynnig.

Motion to Suspend Standing Orders

Mae gennym gynnig yn awr i atal Rheolau Sefydlog i gyflwyno'r busnes o dan eitem 5. Galwaf ar y Gweinidog Cyfoeth Naturiol i gynnig yn ffurfiol.

Motion NNDM5883 Jane Hutt

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 33.6:

Suspends that part of Standing Order 11.16 that requires the weekly statement and announcement under Standing Order 11.11 to constitute the timetable for business in Plenary for the following week, to allow NNDM5874 to be considered in Plenary on Tuesday 17 November 2015.

Motion moved.

Y Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:56	Carl Sargeant Bywgraffiad Biography <i>Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol / The Minister for Natural Resources</i> Formally.	Yn ffurfiol.	Senedd.tv Fideo Video
14:56	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography Formally. The proposal is to suspend the Standing Orders. Does anyone object? No objections, therefore the motion is agreed in accordance with Standing Order 12.36.	Yn ffurfiol. Y cynnig yw atal y Rheolau Sefydlog. A oes unrhyw un yn gwrthwynebu? Dim gwrthwynebiad, felly mae'r cynnig wedi ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.	Senedd.tv Fideo Video
	<i>Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.</i>	<i>Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.</i>	
14:56	5. Rheoliadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Darpariaethau Canlyniadol) 2015 Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography So, we now move to item 5, which is the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015 (Consequential Provisions) Regulations 2015, and I call on the Minister for Natural Resources to move the motion—Carl Sargeant.	5. The Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015 (Consequential Provisions) Regulations 2015 Felly, symudwn yn awr at eitem 5, sef Rheoliadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Darpariaethau Canlyniadol) 2015, a galwaf ar y Gweinidog Cyfoeth Naturiol i gynnig y cynnig—Carl Sargeant.	Y Senedd.tv Fideo Video
	Cynnig NNDM5874 Jane Hutt	Motion NNDM5874 Jane Hutt	
	Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:	To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 27.5:	
	Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o'r Rheoliadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Darpariaethau Canlyniadol) 2015 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Hydref 2015.	Approves that the draft The Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015 (Consequential Provisions) Regulations 2015 is made in accordance with the draft laid in the Table Office on 20 October 2015.	
	<i>Cynigiwyd y cynnig.</i>	<i>Motion moved.</i>	
14:56	Carl Sargeant Bywgraffiad Biography <i>Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol / The Minister for Natural Resources</i> Thank you, Presiding Officer. These are technical regulations that change some of the time periods in the Act to reflect the practicalities of the implementation. The regulations will ensure that the duty on the Auditor General for Wales commences at the same time as the duties for public bodies. This will also ensure that the Future Generations Commissioner for Wales has sufficient time for her to prepare an estimate of income and expenditure. I formally move.	Diolch i chi, Lywydd. Rheoliadau technegol yw'r rhain sy'n newid rhai o'r cyfnodau amser yn y Ddeddf i adlewyrchu ymarferoldeb y gweithredu. Bydd y rheoliadau yn sicrhau bod y ddyletswydd ar Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cychwyn ar yr un pryd â'r dyletswyddau sydd ar gyrff cyhoeddus. Bydd hyn hefyd yn sicrhau bod gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol dros Gymru ddigon o amser i baratoi amcangyfrif o incwm a gwariant. Cynigiaf yn ffurfiol.	Senedd.tv Fideo Video

Janet Haworth [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, we're happy to support this motion that you've brought forward today. In providing clarity to the reporting deadlines, you help to provide some reassurance that some of our concerns raised when the Bill was passed have been listened to. My predecessor, Antoinette Sandbach MP, raised a number of concerns about this Bill, not least about the role of the future generations commissioner and the way that the public service boards fit in with local government reorganisation. It seems that many of these concerns still remain unanswered. I am, however, willing to give the newly appointed future generations commissioner time to settle into her role before making a judgment as to whether the position is worth the significant costs associated with it.

Minister, I know local authorities remain concerned about the cost of public service boards. Back in March, it was estimated that at least £9.5 million would be associated with establishing public service boards as statutory bodies. This, dare I say, was a low estimate. I still believe that these PSBs are going to create an unnecessary and additional level of bureaucracy that is going to be unaccountable and will remove decision making from local decision makers. I know that local authorities are still awaiting clarity about what will be expected of them in relation to this new Act and what costs they may be liable to be meeting as a result of them discharging their responsibilities under this new Act.

Minister, I know we can't turn back time, but we need to continue to work with this new structure to ensure that it delivers on the powers that have been granted. Thank you.

Weinidog, rydym yn hapus i gefnogi'r cynnig hwn yr ydych wedi ei ddwyn ymlaen heddiw. Wrth roi eglurder o ran y terfynau adrodd, rydych yn helpu i roi rhywfaint o sicrwydd y gwrandawyd ar rai o'r pryderon a godwyd gennym pan oedd y Bil yn cael ei basio. Cododd fy rhagflaenydd, Antoinette Sandbach AS, nifer o bryderon ynghylch y Bil hwn, nid yn unig am swyddogaeth comisiynydd cenedlaethau'r dyfodol a'r ffordd y mae byrddau gwasanaethau cyhoeddus yn cyd-fynd ag ad-drefnu llywodraeth leol. Mae'n ymddangos imi bod llawer o'r pryderon hyn yn dal i fod heb eu hateb. Rwyf, fodd bynnag, yn fodlon rhoi amser i'r comisiynydd cenedlaethau'r dyfodol sydd newydd ei phenodi i ymgyfarwyddo a'i swydd cyn beirniadu pa un a yw'r sefyllfa yn werth y costau sylweddol sy'n gysylltiedig â hi.

Weinidog, gwn bod awdurdodau lleol yn parhau i bryderu ynghylch cost byrddau gwasanaethau cyhoeddus. Yn ôl ym mis Mawrth, amcangyfrifwyd y byddai o leiaf £9.5 miliwn yn gysylltiedig â sefydlu byrddau gwasanaethau cyhoeddus yn gyrrff statudol. Roedd hwn, os caf feiddio dweud, yn amcangyfrif isel. Rwyf yn dal i gredu bod y byrddau gwasanaethau cyhoeddus hyn yn mynd i greu lefel diangen ac ychwanegol o fiwrocratiaeth na fydd yn atebol ac y byddant yn golygu nad y rhai sy'n penderfynu yn lleol fydd yn gwneud y penderfyniadau. Gwn fod awdurdodau lleol yn dal i aros am eglurder ynghylch yr hyn a ddisgwyllir ganddynt mewn cyswllt â'r Ddeddf newydd hon a pha gostau y byddant efallai yn gorfod eu talu o ganlyniad i gyflawni eu dyletswyddau o dan y Ddeddf newydd hon.

Weinidog, gwn na allwn droi'r cloc yn ôl, ond mae angen inni barhau i weithio â'r strwythur newydd hwn er mwyn sicrhau ei fod yn cyflawni ar y pwerau a ganiatwyd. Diolch.

William Powell [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I very much welcome the clarification that the Minister has brought today. The role of both the auditor general and the future generations commissioner are going to be very important indeed to the delivery and implementation of this Act. I welcome the clarity that is being given today on the reporting period for the auditor general's examinations and the time granted to the commissioner for submitting her financial assessment. The auditor general will be required, as we know, to carry out examinations into the extent to which public bodies set objectives and take steps to meet those objectives in accordance with the sustainable development principles. The duty on public bodies to embed the wellbeing goals into the day-to-day running of the organisation is one of the defining features of the future generations Act, and the auditor general's role in assessing that is very important indeed. It is good for the timing of this reporting period to be made absolutely crystal clear.

Croesawaf yn fawr iawn yr eglurder a gafwyd gan y Gweinidog heddiw. Mae swyddogaeth yr archwilydd cyffredinol a chomisiynydd cenedlaethau'r dyfodol yn mynd i fod yn bwysig iawn yn wir o ran cyflwyno a gweithredu'r Ddeddf hon. Rwyf yn croesawu'r eglurder a roddwyd heddiw am y cyfnod adrodd ar gyfer archwiliadau'r archwilydd cyffredinol a'r amser a roddwyd i'r comisiynydd ar gyfer cyflwyno ei hasesiad ariannol. Bydd gofyn i'r archwilydd cyffredinol, fel y gwyddom, gynnal archwiliadau ar i ba raddau y mae cyrff cyhoeddus yn gosod amcanion ac yn cymryd camau i ddiwallu'r amcanion hynny yn unol ag egwyddorion datblygu cynaliadwy. Mae'r ddyletswydd ar gyrrff cyhoeddus i ymgorffori'r nodau lles i fod yn rhan o redeg y sefydliad o ddydd i ddydd yn un o nodweddion diffiniol Ddeddf cenedlaethau'r dyfodol, ac mae swyddogaeth yr archwilydd cyffredinol o ran asesu hynny yn bwysig iawn yn wir. Mae'n dda bod yr amseru ar gyfer y cyfnod adrodd hwn yn cael ei wneud yn hollol a chwbl glir.

As the Minister will recall, it remained important for me and colleagues from other parties, some of them no longer in this Chamber, throughout the development of the Act, that the appointment of the future generations commissioner was truly independent from Welsh Ministers, and I tabled amendments at both Stages 2 and 3 to try and ensure this. I was pleased at the time that the Minister did show some movement on this issue and that the role of the Assembly was enshrined in the appointment process by including members from the Environment and Sustainability Committee in that selection process and, indeed, I was involved in that process.

I maintained at the time, however, that the wording did not go far enough and I can't help feeling that, if my amendments had been passed, and the true independence of the commissioner from the Welsh Government so guaranteed, perhaps the recent appointment would have been a little smoother and less controversial. Following on from that, given the significance of this role and the responsibility that comes with it, it is essential that the commissioner's advisory panel is appointed for the purposes of providing advice to the commissioner on the exercise of her wide-ranging functions, and that it's made up of the right people with the right level of expertise. The membership of that panel, as specified in the Act, was deliberately left open with, and I quote,

'such other person as the Welsh Ministers may appoint'

being specified last on the list. I hope that the Minister and the future generations commissioner will give that due thought and consideration, and ensure that the commissioner has the right level of expertise at her disposal.

Fel y bydd y Gweinidog yn cofio, roedd hi'n dal i fod yn bwysig i mi a chyd-aelodau o bleidiau eraill, ac nid yw rhai ohonynt bellach yn y Siambr hon, drwy gydol datblygiad y Ddeddf, fod penodi comisiynydd cenedlaethau'r dyfodol yn wirioneddol annibynnol oddi wrth Weinidogion Cymru, a chyflwynwyd gwelliannau gennyf yng Nghyfnodau 2 a 3 i geisio sicrhau hyn. Roeddwn yn falch ar y pryd bod y Gweinidog yn fodlon newid ei feddwl rhywfaint o ran y mater hwn ac yr ymgorfforwyd swyddogaeth y Cynulliad yn y broses benodi trwy gynnwys aelodau o'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd yn y broses ddewis honno ac, yn wir, roeddwn i'n rhan o'r broses honno.

Fy nadl ar y pryd, fodd bynnag, oedd nad oedd y geiriad yn mynd yn ddigon pell ac ni allaf osgoi'r teimlad, pe byddai fy ngwelliannau wedi eu derbyn, a phe byddai gwir annibyniaeth y comisiynydd oddi wrth Lywodraeth Cymru wedi ei gwarantu felly, efallai y byddai'r penodiad diweddar wedi bod ychydig yn llyfnach ac yn llai dadleuol. Yn dilyn ymlaen o hynny, o gofio pwysigrwydd y swyddogaeth hon a'r cyfrifoldeb sy'n dod gyda hi, mae'n hanfodol bod panel cyngori y comisiynydd yn cael ei benodi at ddibenion rhoi cyngor i'r comisiynydd ar weithrediad ei swyddogaethau eang, a'u bod yn cynnwys y bobl iawn sydd â'r lefel briodol o arbenigedd. Gadawyd aelodaeth y panel hwnnw, fel y'i nodir yn y Ddeddf, yn agored yn fwiadol, a, dyfynnaf,

'Y cyfryw berson arall ag y caiff Gweinidogion Cymru ei benodi'

yn cael ei nodi yn olaf ar y rhestr. Rwyf yn gobeithio y bydd y Gweinidog a chomisiynydd cenedlaethau'r dyfodol yn rhoi ystyriaeth briodol a sylw i hynny, ac yn sicrhau bod gan y comisiynydd y lefel gywir o arbenigedd ar gael iddi.

15:01 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on the Minister for Natural Resources to reply.

Galwaf ar y Gweinidog Cyfoeth Naturiol i ymateb.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:01 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol / The Minister for Natural Resources

I'm very grateful for the contributions of Members and their willingness to support these regulations today. As I said earlier, these are regarding some technical changes. I would say to the Conservative Member on her comments that, while I recognise that it's before the Member took her place in this Chamber—it was Antoinette Sandbach earlier—and her party's obsession about the Act and their unwillingness to support this proposal, can I say that the UN director of sustainable development said:

'We hope that what Wales is doing today the world will do tomorrow?'

So, I would encourage the Member to catch up on what the world is saying about the wellbeing of future generations Act.

Rwyf yn ddiolchgar iawn am gyfraniadau'r Aelodau a'u parodrwydd i gefnogi'r rheoliadau hyn heddiw. Fel y dywedais yn gynharach, mae'r rhain yn ymwneud â rhai newidiadau technegol. Byddwn yn dweud wrth yr Aelod Ceidwadol am ei sylwadau, er fy mod yn cydnabod bod hyn cyn i'r Aelod gymryd ei lle yn y Siambr hon—Antoinette Sandbach oedd yma yn gynharach—ac obsesiwn ei phlaid am y Ddeddf a'u hamharodrwydd i gefnogi'r cynnig hwn, a gaf i ddweud bod cyfarwyddwr datblygu cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig wedi dweud:

Gobeithiwn y bydd yr hyn mae Cymru'n ei wneud heddiw, yn cael ei wneud gan y byd yfory

Felly, byddwn yn annog yr Aelod i geisio dod o hyd i'r wybodaeth ddiweddaraf ar yr hyn y mae'r byd yn ei ddweud am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I thank the Member William Powell for his comments—again, well made and well informed in terms of the shaping of this Bill—and formally move these regulations today.

Diolch i'r Aelod William Powell am ei sylwadau—unwaith eto, sylwadau wedi eu cyflwyno'n dda ac yn llawn gwybodaeth o ran llunio'r Bil hwn—a chynigiad yn ffurfiol y rheoliadau hyn heddiw.

15:02 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? No objections, therefore the motion is agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Dim gwrthwynebiad, mae'r cynnig felly wedi ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Daeth Rhodri Glyn Thomas i'r Gadair.

Rhodri Glyn Thomas took the Chair.

6. Dadl ar Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru 2014-15

6. Debate on the Children's Commissioner for Wales's Annual Report 2014-15

Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliant 1 yn enw Paul Davies, a gwelliannau 2 a 3 yn enw Aled Roberts.

The following amendments have been selected: amendment 1 in the name of Paul Davies, and amendments 2 and 3 in the name of Aled Roberts.

15:03 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Dadl ar adroddiad blynyddol Comisiynydd Plant Cymru 2014-15. Galwaf ar y Gweinidog Cymunedau a Threchi Tlodi i wneud y cynnig—Lesley Griffiths.

Debate on the Children's Commissioner for Wales's annual report 2014-15. I call on the Minister for Communities and Tackling Poverty to move the motion—Lesley Griffiths.

Cynnig NDM5873 Jane Hutt

Motion NDM5873 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose the National Assembly of Wales:

Yn nodi Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru 2014-15.

Notes the Children's Commissioner for Wales' Annual Report 2014-15.

Cynigiwyd y cynnig.

Motion moved.

15:03 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi / The Minister for Communities and Tackling Poverty

Diolch, Chair. I welcome the opportunity to open this debate on the Children's Commissioner for Wales's annual report for 2014-15. It reminds us why we have a commissioner: to protect and promote the rights and wellbeing of children and young people.

Diolch, Gadeirydd. Rwyf yn croesawu'r cyfle i agor y ddadl hon ar adroddiad blynyddol Comisiynydd Plant Cymru ar gyfer 2014-15. Mae'n ein hatgoffa pam mae gennym gomisiynydd: i amddiffyn a hyrwyddo hawliau a lles plant a phobl ifanc.

Since taking up her post in April this year, the new commissioner has looked at the working practices of her organisation and has been working on the recommendations of the independent review that applied to her office. I understand the commissioner will be setting out her strategic goals in January 2016, including the organisational structure and working methods these will require.

Ers dechrau yn ei swydd ym mis Ebrill eleni, mae'r comisiynydd newydd wedi edrych ar arferion gwaith ei sefydliad ac wedi bod yn gweithio ar argymhellion yr adolygiad annibynnol a oedd yn gymwys i'w swyddfa. Rwyf yn deall y bydd y comisiynydd yn nodi ei hamcanion strategol ym mis Ionawr 2016, gan gynnwys y strwythur sefydliadol a'r dulliau gweithio gofynnol.

I would like to thank the commissioner and her office for the report and for continuing to raise the issues that are important to children and young people. It sits alongside another notable report, 'Young Wales Report to the UN Committee on the Rights of the Child'. Both of these reports highlight the issue of mental ill health, stressing the need for improvement in child and adolescent mental health services, greater support in schools, and better signposting to counsellors and advice services. To this end, we are supporting the NHS-led Together for Children and Young People programme to improve CAMHS, launched earlier in the year.

We've invested an additional £7.65 million in CAMHS from 2015-16 onwards. The commissioner is engaged in this work, as are Young Wales, to ensure ongoing input from children and young people. The commissioner also raises the issue of extending the 'When I am Ready' scheme to support care leavers who want to continue living in their placement once they turn 18 years old. We agree with the commissioner that young people in residential care have a particular need for stability as they make the transition from care to adult life.

There are practical and financial issues that we'll need to consider very carefully. However, we believe, over time, the costs of implementing 'When I am Ready' will be offset by savings as young people are supported to move to more independent living only when they are ready. We are committed to working through these issues with young people in residential care and the commissioner's office.

The commissioner raises the need for new legislation, supported by a robust code of practice, to meet the education, welfare and wellbeing needs of children and young people with additional learning needs. This is already being done. We are reforming the additional learning needs process for our most vulnerable children and young people. A draft additional learning needs and educational tribunal (Wales) Bill, an ALN code, and implementation plan, are currently out for consultation.

The commissioner draws attention to child poverty. Our child poverty strategy uses the UNCRC as a basis, recognising tackling poverty is as much about improving children's wellbeing as it is about addressing income poverty. This, in turn, is reflected in our tackling poverty action plan, which sets out key milestones and targets and major commitments that specifically focus on children and young people. As the Minister with lead responsibility for tackling poverty and for children and young people, I will continue to drive forward this important agenda.

Hoffwn ddiolch i'r comisiynydd a'i swyddfa am yr adroddiad ac am barhau i godi'r materion sy'n bwysig i blant a phobl ifanc. Mae'n eistedd ochr yn ochr ag adroddiad nodedig arall, 'Adroddiad Cymru Ifanc i Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn'. Mae'r ddau adroddiad hyn yn tynnu sylw at salwch meddwl, gan bwysleisio'r angen i wella gwasanaethau iechyd meddwl i blant a phobl ifanc, mwy o gymorth mewn ysgolion, a gwell cyfeirio at gwmselwyr a gwasanaethau cynghori. I'r perwyl hwn, rydym yn cefnogi rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc a arweinir gan y GIG i wella CAMHS, a lanswyd yn gynharach eleni.

Rydym wedi buddsoddi £7,650,000 ychwanegol yn CAMHS o 2015-16 ymlaen. Mae'r comisiynydd yn cymryd rhan yn y gwaith hwn, fel y mae Cymru Ifanc, i sicrhau cyfraniad parhaus gan blant a phobl ifanc. Mae'r comisiynydd hefyd yn codi'r mater o ymestyn y cynllun 'Pan fydda i'n Barod' i gefnogi pobl sy'n gadael gofal sydd eisiau parhau i fyw yn eu lleoliad ar ôl iddynt gyrraedd eu pen-blwydd yn 18 oed. Rydym yn cytuno â'r comisiynydd bod gan bobl ifanc mewn gofal preswyl angen penodol am sefydlogrwydd wrth iddynt drosglwyddo o ofal i fywyd fel oedolyn.

Mae materion ymarferol ac ariannol y bydd angen i ni eu hystyried yn ofalus iawn. Fodd bynnag, credwn, gydag amser, y bydd costau gweithredu 'Pan fydda i'n Barod' yn cael eu gwrthbwysio gan arbedion wrth i bobl ifanc gael eu cefnogi i symud i fyw'n fwy annibynnol dim ond pan fyddant yn barod. Rydym wedi ymrwymo i weithio trwy'r materion hyn gyda phobl ifanc mewn gofal preswyl a swyddfa'r comisiynydd.

Mae'r comisiynydd yn codi'r angen am ddeddfwriaeth newydd, a gefnogir gan god ymarfer cadarn, i ddiwallu anghenion addysg, lles a llesiant plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae hyn eisoes yn cael ei wneud. Rydym yn diwygio'r broses anghenion dysgu ychwanegol ar gyfer ein plant a'n pobl ifanc mwyaf agored i niwed. Mae Bil drafft anghenion dysgu ychwanegol a'r tribiwnlys addysg (Cymru), cod ADY, a chynllun gweithredu, yn destun ymgynghoriad ar hyn o bryd.

Mae'r comisiynydd yn tynnu sylw at dlodi plant. Mae ein strategaeth ar dlodi plant yn defnyddio Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn fel sylfaen, gan gydnabod bod trechu tlodi yn ymwneud cymaint â gwella lles plant ag y mae'n ymwneud ag ymdrin â thlodi incwm. Adlewyrchir hyn, yn ei dro, yn ein cynllun gweithredu ar gyfer trechu tlodi, sy'n nodi cerrig milltir a thargedau allweddol ac ymrwymadau mawr sy'n canolbwyntio'n benodol ar blant a phobl ifanc. Fel y Gweinidog sydd â'r cyfrifoldeb arweiniol dros drechu tlodi a thros blant a phobl ifanc, byddaf yn parhau i fwrw ymlaen â'r agenda bwysig hon.

We should also acknowledge the positive impact we've made to date: the number of workless households has fallen; we've already exceeded our 2017 target for reducing the educational attainment gap at the foundation phase; we are on track to achieve our target to reduce the number of young people aged 16 to 18 years not in employment, education or training; and we are helping parents improve skills and find work through programmes including Communities First, Lift and Families First. We are tackling poverty and improving outcomes for children and young people.

In the coming months, we will be reporting on implementation of the UNCRC to the UN Committee on the Rights of the Child. It is timely to reflect on our work for children and young people during this Government term. I will today be publishing our programme for children and young people, which sets out the extensive legislation, policies and programmes we've delivered across our programme for government to improve the outcomes of children and young people in Wales. It sets out how we've legislated to secure sufficient play opportunities for children in their locality. We are working with Sport Wales and other key partners, such as local authorities, to provide opportunities for young people to engage in sport and physical activity. We are continuing to invest in free swimming for those aged 16 and under.

The Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015 will ensure a safe and sustainable life for future generations. The Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 strengthens protection arrangements for children.

Our Flying Start programme supported 37,260 children and their families in 2014-15, exceeding, one year early, our commitment to double the number to 36,000. We've increased the uptake of immunisation among children. We launched Meic, the first advocacy and advice helpline of its kind for children and young people on a national level, which is free, 24 hours, seven days a week.

In education, we've reviewed the curriculum and continue to provide free healthy breakfasts in primary schools to help improve health and ability to learn. We've introduced the social housing grant funding to increase the supply of good-quality, affordable and safe housing, vital for children and young people's learning. This Friday, I will be launching our 'Parenting. Give it Time' campaign to support parents to adopt positive approaches to raising children. In a week when we will all be celebrating Universal Children's Day, I am confident this Government is working to make children's rights a reality in every part of Wales. I very much look forward to hearing the debate.

Dylem hefyd gydnabod yr effaith gadarnhaol rydym wedi ei chael hyd yn hyn: mae nifer yr aelwydydd di-waith wedi gostwng; rydym eisoes wedi rhagori ar ein targed ar gyfer 2017 i leihau'r bwch cyrhaeddiad addysgol yn y cyfnod sylfaen; rydym ar y trywydd iawn i gyrraedd ein targed i leihau nifer y bobl ifanc rhwng 16 a 18 oed nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant; ac rydym yn helpu rhieni i wella eu sgiliau a dod o hyd i waith drwy raglenni sy'n cynnwys Cymunedau yn Gyntaf, Esgyn a Theuluoedd yn Gyntaf. Rydym yn mynd i'r afael â thlodi ac yn gwella canlyniadau i blant a phobl ifanc.

Yn y misoedd nesaf, byddwn yn adrodd ar weithrediad Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn i Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Nawr yw'r amser, yn ystod tymor hwn y Llywodraeth, i fyfyrion ar y gwaith yr ydym yn ei wneud ar gyfer plant a phobl ifanc. Rwyf heddiw yn cyhoeddi ein rhaglen i blant a phobl ifanc, sy'n nodi'r ddeddfwriaeth, polisiau a rhaglenni helaeth rydym wedi eu darparu ym mhob rhan o'n rhaglen lywodraethu i wella canlyniadau plant a phobl ifanc yng Nghymru. Mae'n nodi sut rydym wedi deddfu i sicrhau cyfleoedd chwarae digonol i blant yn eu hardal leol. Rydym yn gweithio gyda Chwaraeon Cymru a phartneriaid allweddol eraill, megis awdurdodau lleol, i ddarparu cyfleoedd i bobl ifanc gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol. Rydym yn parhau i fuddsoddi mewn nofio am ddim i blant 16 oed ac iau.

Bydd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn sicrhau bywyd diogel a chynaliadwy ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn cryfhau'r trefniadau diogelu ar gyfer plant.

Cefnogodd ein rhaglen Dechrau'n Deg 37,260 o blant a'u teuluoedd yn ystod 2014-15, gan ragori, flwyddyn yn gynnar, ar ein hymrwymiad i ddyblu'r nifer i 36,000. Rydym wedi cynyddu nifer y plant sy'n cael eu himiwneiddio. Lanswyd Meic, y llinell gymorth eiriolaeth a chynghor gyntaf o'i math ar gyfer plant a phobl ifanc ar lefel genedlaethol, sy'n rhad ac am ddim, 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos.

Ym maes addysg, rydym wedi adolygu'r cwricwlwm ac rydym yn parhau i ddarparu brecwast iach am ddim mewn ysgolion cynradd i helpu i wella iechyd a'r gallu i ddysgu. Rydym wedi cyflwyno'r cyllid grant tai cymdeithasol i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy a diogel o ansawdd da, sy'n hanfodol i alluogi plant a phobl ifanc i ddysgu. Ddydd Gwener, byddaf yn lansio ein hymgyrch 'Magu Plant. Rhowch Amser Iddo' i gefnogi rhieni i fabwysiadu dulliau cadarnhaol o fagu plant. Yn ystod wythnos pan fyddwn i gyd yn dathlu Diwrnod Rhyngwladol y Plant, rwy'n hyderus bod y Llywodraeth hon yn gweithio i wireddu hawliau plant ym mhob rhan o Gymru. Rwy'n edrych ymlaen yn fawr at glywed y ddadl.

15:09

Rhodri Glyn Thomas [Bywgraffiad Biography](#)

Rwyf wedi dethol y tri gwelliant i'r cynnig a galwaf ar Angela Burns i gynnig gwelliant 1, a gyflwynwyd yn enw Paul Davies.

Gwelliant 1—Paul Davies

I have selected the three amendments to the motion and I call on Angela Burns to move amendment 1, tabled in the name of Paul Davies.

Amendment 1—Paul Davies

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Add as new point at the end of the Motion:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i dderbyn yr argymhelliad yn yr adolygiad annibynnol o Gomisiynydd Plant Cymru gan Dr Mike Shooter y dylid trosglwyddo'r cyfrifoldeb dros benodi a chyllido y comisiynydd plant i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Calls on the Welsh Government to accept the recommendation in the Independent Review of the Children's Commissioner for Wales by Dr Mike Shooter that the responsibility for the appointment and the funding of the Children's Commissioner should be transferred to the National Assembly for Wales.

Cynigiwyd gwelliant 1.

Amendment 1 moved.

15:09

Angela Burns [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you very much, acting Deputy Presiding Officer. I'd like to thank the children's commissioner and her staff for her annual report, and I'm delighted to be able to take part in this debate today. Minister, I'd like to move the amendment tabled in the name of my colleague Paul Davies, because, once again, I call upon you

Diolch yn fawr iawn, Ddirprwy Lywydd dros dro. Hoffwn ddiolch i'r comisiynydd plant a'i staff am ei hadroddiad blynyddol, ac rwy'n falch iawn o allu cymryd rhan yn y ddadl hon heddiw. Weinidog, hoffwn gynnig y gwelliant a gyflwynwyd yn enw fy nghydweithiwr, Paul Davies, oherwydd, unwaith eto, yr wyf yn galw arnoch

'to accept the recommendation in the Independent Review of the Children's Commissioner for Wales by Dr Mike Shooter that the responsibility for the appointment and the funding of the Children's Commissioner should be transferred to the National Assembly for Wales.'

'i dderbyn yr argymhelliad yn yr Adolygiad Annibynnol o Gomisiynydd Plant Cymru gan Dr Mike Shooter y dylid trosglwyddo cyfrifoldeb dros benodi a chyllido y Comisiynydd Plant i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.'

Now, Minister, I'm really well aware that we've discussed this matter in committee and I am aware of the views that you have taken, but I feel that it's important enough for me to raise this again as a point before all of the Members of the National Assembly for Wales, because this is an incredibly important issue about the question of perception. We had the children's commissioner herself, who would like to see that element of perception, and I quote her words:

Nawr, Weinidog, rwy'n ymwybodol iawn ein bod wedi trafod y mater hwn yn y pwyllgor, ac rwy'n ymwybodol o'ch safbwyntiau chi, ond rwy'n teimlo ei bod yn ddigon pwysig i mi godi hyn eto fel pwynt gerbron pob un o Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan fod hwn yn fater hynod bwysig am y cwestiwn o ganfyddiad. Dywedodd y comisiynydd plant ei hun yr hoffai weld yr elfen honno o ganfyddiad, ac rwy'n dyfynnu ei geiriau:

'there is a perception that the body that appoints me and funds me—that it would be difficult for me to hold them to account.'

'mae canfyddiad bod y corff sy'n fy mhenodi i ac yn fy nghyllido i—y byddai'n anodd imi eu dwyn nhw i gyfrif.'

Her words, not mine. She says,

Ei geiriau hi, nid fy rhai i. Mae hi'n dweud,

'in the general public, people often assume I'm part of Government as well, rather than independent.'

'mae pobl o'r cyhoedd yn gyffredinol yn aml yn cymryd yn ganiataol fy mod i hefyd yn rhan o'r Llywodraeth, yn hytrach nag yn annibynnol.'

She goes on to say there's a need for

Mae hi'n mynd ymlaen i ddweud bod angen

'perceptions of transparency and also for my accountability as well. If I was appointed by the Assembly, I could be held more formally to account by the Assembly as well.'

'canfyddiadau o dryloywder a hefyd ar gyfer fy atebolrwydd i. Pe byddwn yn cael fy mhenodi gan y Cynulliad, gallwn gael fy nwyn i gyfrif yn fwy ffurfiol gan y Cynulliad hefyd.'

Minister, it's not just the children's commissioner who thinks this. The United Nations and the United Nations Convention on the Rights of the Child talked about it in line with the Paris Principles. They want to say that all children's commissioners should be appointed by the legislature rather than the executive. Furthermore, Minister, the Presiding Officer of the National Assembly has made a comment—well, more than a comment; has made a recommendation—that all the commissioners should be appointments from the Assembly. My understanding is that all the opposition parties believe that the commissioners appointed should be independent of Government. Ninety-five per cent of the general public who responded to Dr Mike Shooter's survey supported the move that the children's commissioner should be appointed by the National Assembly for Wales. The Wales UNCRC monitoring group also reiterated that the children's commissioner should be accountable to the National Assembly for Wales. In fact, it's worth probably just reading out their quote, for a moment. They go on to say:

'Executive branch appointment can create difficulties for institutional independence, especially if institutions are called upon to monitor the body that appointed their leaders. There is a risk of politically influenced appointments that can cast doubt on the impartiality of the appointed candidate.'

Minister, with the greatest of respect, your Government's just recently lived through one such scandal, and I would like to recommend to you that you reconsider this move because it just seems to me—and I regret to call you obdurate, but it does seem to me that there is a degree of obduracy here, because everybody, but everybody, except the Welsh Government believes that the children's commissioner should be appointed by the National Assembly for Wales. I would like you to take that on board and really explain to us, if you are not moving from that position, why that should be so.

There are two other points that I'd like to bring up very briefly from the report of the children's commissioner. The first is that there's been a sharp increase in complaints or concerns in connection with education, and there's been an increase in issues being brought to the children's commissioner in regard to additional learning needs. This ties into a recent rapporteur session with a number of charities that support those with additional learning needs or their carers. The commissioner's report calls for, and thereby reinforces the need for, legislation to address better provision for ALN, and you know that this is an item that has cross-party support here. What does concern me is that, until that legislation is in place, there is a growing number of instances where local councils are no longer providing, or are slowing down the provision of, statements, because of the uncertainty surrounding additional learning needs. So, Minister, what actions can you take to support these children and their carers in getting the support that they need now? Otherwise I fear that the children's commissioner will have to deal with a further increase in educationally-based requests for help over the coming year.

Weinidog, nid dim ond y comisiynydd plant sy'n credu hyn. Mae'r Cenhedloedd Unedig a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wedi siarad am y peth yn unol ag Egwyddorion Paris. Maent am ddweud y dylai pob comisiynydd plant gael ei benodi gan y ddeddfwrfa yn hytrach na'r weithrediaeth. Ar ben hynny, Weinidog, mae Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol wedi nodi—wel, mwy na nodi; wedi gwneud argymhelliad—y dylai'r holl gomisiynwyr gael eu penodi gan y Cynulliad. Fy nealltwriaeth i yw bod pob un o'r gwrthbleidiau yn credu y dylai'r comisiynwyr a benodir fod yn annibynnol ar y Llywodraeth. Roedd naw deg pump y cant o aelodau'r cyhoedd a ymatebodd i arolwg Dr Mike Shooter yn cefnogi'r cynnig y dylai'r comisiynydd plant gael ei benodi gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Hefyd, ailbwybleisiodd grŵp monitro CCUHP Cymru y dylai'r comisiynydd plant fod yn atebol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Yn wir, mae'n siŵr ei bod yn werth darllen eu dyfyniad, am foment. Maent yn mynd ymlaen i ddweud:

'Gall penodiad gan y Weithrediaeth greu anawsterau i annibyniaeth sefydliadol, yn enwedig os gelwir ar sefydliadau i fonitro'r corff a benododd eu harweinwyr. Mae risg yma o benodiadau sydd wedi'u gwneud dan ddylanwad gwleidyddol a llwyr amheuaeth ar natur ddiuedd yr ymgeisydd a benodwyd.'

Weinidog, gyda'r parch mwyaf, mae eich Llywodraeth chi wedi byw trwy un sgandal o'r fath yn ddiweddar, a hoffwn argymhell wrthyhych eich bod yn ailystyried y cynnig hwn gan ei fod yn ymddangos i mi—ac mae'n ddrwg gennyf eich galw'n ystyfnig, ond mae'n ymddangos i mi fod yna elfen o ystyfnigrwydd yma, gan fod pawb, bron pawb, ar wahân i Lywodraeth Cymru o'r farn y dylai'r comisiynydd plant gael ei benodi gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Hoffwn i chi ystyried hynny ac egluro'n iawn i ni, os nad ydych yn symud oddi wrth y safbwynt hwnnw, pam hynny.

Mae dau bwynt arall y byddwn i'n hoffi eu codi'n fyr iawn o adroddiad y comisiynydd plant. Y cyntaf yw bod cynnydd sydyn wedi bod mewn cwynion neu bryderon sy'n ymwneud ag addysg, ac mae cynnydd wedi bod mewn materion sy'n cael eu dwyn gerbron y comisiynydd plant ynglŷn ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae hyn yn gysylltiedig â sesiwn rapporteur diweddar gyda nifer o elusennau sy'n cefnogi y bobl hynny sydd ag anghenion dysgu ychwanegol neu eu gofalwyr. Mae adroddiad y comisiynydd yn galw am, a thrwy hynny yn atgyfnerthu'r angen am, ddeddfwriaeth i fynd i'r afael â gwell darpariaeth ar gyfer ADY, ac rydych yn gwybod bod cefnogaeth drawsbleidiol i'r mater hwn yma. Yr hyn sy'n fy mhryderu i yw, hyd nes bod y ddeddfwriaeth honno ar waith, bod nifer gynyddol o achosion lle nad yw cynghorau lleol yn darparu datganiadau ar eu cyfer bellach, neu eu bod yn arafu'r ddarpariaeth o ddatganiadau, a hynny oherwydd yr ansicrwydd ynghylch anghenion dysgu ychwanegol. Felly, Weinidog, pa gamau y gallwch chi eu cymryd i gefnogi'r plant hyn a'u gofalwyr i gael y cymorth sydd ei angen arnynt yn awr? Fel arall mae arnaf ofn y bydd yn rhaid i'r comisiynydd plant ymdrin â chynnydd pellach mewn ceisiadau sy'n seiliedig ar addysg am gymorth yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.

We totally support the amendments made by the Welsh Liberal Democrats. I won't dwell on them, because I'm conscious of time, but I just wanted to raise very quickly that you gave us a long list of Government achievements just now, most of which are very welcome indeed. Nonetheless, I was very disturbed to see, in the children's commissioner's report, her concerns raised about the provision of advocacy and about how far the Government is down track on providing a national advocacy service model. Minister, I'd like to remind you that, in a previous Assembly, when I sat on a children's committee then, we raised the issue of advocacy. It's supposedly been on the top of the agenda of the Welsh Government for the last four or five years. We still haven't got it there. Can you please update us on when you're going to provide an independent national advocacy service that young people, usually the most vulnerable people in our society, can rely upon? Thank you.

Rydym yn llwyr gefnogi'r gwelliannau a wnaed gan Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru. Nid wyf am ymhelaethu ar y rhain, oherwydd rwy'n ymwybodol o amser, ond roeddwn i eisiau crybwyll yn gyflym iawn eich bod wedi rhoi rhestr hir i ni o lwyddiannau'r Llywodraeth ychydig yn ôl, y rhan fwyaf ohonynt yn cael eu croesawu'n fawr. Serch hynny, roeddwn yn anesmwyth iawn o weld, yn adroddiad y comisiynydd plant, ei phryderon ynghylch darparu eiriolaeth ac ynghylch pa mor bell y mae'r Llywodraeth wedi mynd o ran darparu model gwasanaeth eiriolaeth cenedlaethol. Weinidog, hoffwn eich atgoffa, mewn Cynulliad blaenorol, pan roeddwn i'n eistedd ar bwyllgor plant bryd hynny, codwyd mater eiriolaeth gennym. Yn ôl pob sôn, mae wedi bod ar frig agenda Llywodraeth Cymru dros y bedair neu bum mlynedd diwethaf. Nid yw yno hyd yn hyn. A allwch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni ynghylch pryd yr ydych yn mynd i ddarparu gwasanaeth eirioli cenedlaethol annibynnol y gall pobl ifanc, fel arfer y bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas, ddibynnu arno? Diolch.

15:14 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Galwaf ar Aled Roberts i gynnig gwelliannau 2 a 3, a gyflwynwyd yn ei enw ef.

Gwelliant 2—Aled Roberts

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi bod Swyddfa'r Comisiynydd yn 'dal i bryderu ynghylch y diffyg cynnydd parhaus mewn meysydd allweddol o CAMHS, gan gynnwys argaeledd gwasanaethau ymyrraeth gynnar; mynediad at CAMHS arbenigol cymunedol, gan gynnwys therapiau seicolegol; protocolau asesu ac argaeledd triniaeth a chymorth Anhwylderau Sbectwm Awstistig; darpariaeth mewn lleoliadau cyfiawnder ieuentid; a lefel yr adnoddau a ddyrannwyd i CAMHS'.

Gwelliant 3—Aled Roberts

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflawni ei rhaglen i wella Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed fel mater o frys.

Cynigiwyd gwelliannau 2 a 3.

I call on Aled Roberts to move amendments 2 and 3, tabled in his name.

Amendment 2—Aled Roberts

Add as new point at end of motion:

Notes that the Commissioner's Office 'remains concerned at the continued lack of progress within key areas of CAMHS including the availability of early intervention services; access to community specialist CAMHS, including psychological therapies; assessment protocols and the availability of Autistic Spectrum Disorder treatment and support, provision within youth justice settings; and the level of resources allocated to CAMHS'.

Amendment 3—Aled Roberts

Add as new point at end of motion:

Calls on the Welsh Government to deliver their improvement programme on CAMHS as a matter of urgency.

Amendments 2 and 3 moved.

15:15 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch, Ddirprwy Lywydd dros dro.

Thank you, temporary Deputy Presiding Officer.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Rwyf yn falch iawn o'r cyfle i gael cyfrannu at y ddatl hon heddiw. Rwyf yn cynnig yn ffurfiol welliannau 2 a 3 ar ran y grŵp yma. Nid wyf yn ymddiheuro am y ffaith ein bod ni wedi talu sylw i CAMHS. Roedd y Gweinidog yn dweud ei bod hi'n falch iawn bod cymaint o hawliau plant yn cael eu nodi, a'r cynnydd sydd wedi cael ei wneud ar ran y Llywodraeth. Fodd bynnag, rwy'n meddwl ei bod hi'n bwysig ein bod ni'n tanlinellu'r sefyllfa ynglŷn â CAMHS. Dim ond yr wythnos diwethaf, cyhoeddwyd ffigurau a oedd yn dangos mewn un mis bod yna gynnydd o 11 y cant yn nifer ein plant a'n pobl ifanc sy'n aros mwy na 16 wythnos am driniaeth. Nid yw hynny'n dderbyniol. Hefyd, mae'n rhaid imi ddweud, os ydym yn sôn am hawliau plant, nid wyf yn gweld—os yw'r Llywodraeth yn ymfalchio yn y ffaith ei bod wedi gwneud datganiadau i dorri amseroedd aros ar gyfer triniaethau iechyd meddwl—pam nad yw'r targedau hynny'n ymwneud â gwasanaethau i blant. Dro ar ôl tro, mae yna deimlad ein bod yn trafod, mewn rhai achosion—fel y dwedodd Angela Burns—yr un pynciau. Mae CAMHS wedi bod yn destun pryder, nid yn unig i Sally Holland yn yr adroddiad hwn, ond hefyd i'w rhagflaenydd hi. Mae'n rhaid imi ddweud fy mod i'n gresynu. Rwyf yn derbyn bod arian ychwanegol wedi cael ei roi i'r gwasanaeth. Rwy'n derbyn bod adolygiad ar hyn o bryd. Er hynny, mae'n destun pryder ein bod ni'n edrych ar y sefyllfa hon ac yn dweud nad oes gwelliant wedi bod. Mae'r pwyllgor plant wedi cynnal ymchwiliad llawn i'r gwasanaeth yma ac wedi cyhoeddi adroddiad ym mis Tachwedd 2014. Er hynny, mae'r comisiynydd unwaith eto yn gorfod galw ar Lywodraeth Cymru i ddelio â hyn fel achos brys.

Wrth gwrs, mae Llywodraeth Cymru wedi cael yn union yr un adroddiadau ers 2009, a dweud y gwir. Mae'n rhaid imi ddweud, pe byddwn yn cael fy nhalu punt bob tro yr wyf wedi clywed Llywodraeth Cymru'n dweud eu bod nhw wedi delio efo hyn achos bod strategaeth wedi cael ei chyhoeddi, byddwn yn ddyd eithaf cyfoethog erbyn hyn. Hyd yn oed ar ôl inni gael cyhoeddiad ynglŷn â'r adolygiad, roedd rhyw fath o ddrysych ynglŷn â beth yn union oedd cyfrifoldebau Sue Bailey. Rwy'n meddwl bod achos inni ddweud, os byddwn yn yr un sefyllfa yn ystod y Cynulliad nesaf, o ran derbyn adroddiad sy'n sôn am CAMHS yn yr un modd, y byddwn yn edrych fel ein bod yn gwastraffu ein hamser yma. Mae hefyd yn destun, wrth gwrs, sy'n cael ei nodi yn yr adroddiad—er bod y Llywodraeth wedi rhoi arian ychwanegol i mewn eleni—fod canran y gyllideb, o ran gwariant ar iechyd meddwl plant a phobl ifanc, wedi gostwng ers 2009.

I am very pleased to have the opportunity to contribute to this debate. I formally move amendments 2 and 3 on behalf of my group. I do not apologise for the fact that we have concentrated on CAMHS. The Minister stated that she was very pleased that so many children's rights were noted, and the progress that's been made by Government. But I do think it's important that we do highlight the situation surrounding CAMHS. Just last week, figures were published that showed, in one month, that there had been an increase of 11 per cent in the number of our children and young people who are waiting longer than 16 weeks for treatment. That is unacceptable. I must also say that, if we are talking about children's rights, I don't see why—if the Government is taking pride in the fact that they have made statements on cutting waiting times for mental health treatment—those targets don't extend to services for children. As Angela Burns said, there is a feeling that we are discussing the same issues time and time again. CAMHS has been a cause for concern, not only for Sally Holland in this report, but also to her predecessor. I do have to say that I regret that very much. I accept that additional funding has been provided to the service. I accept that there is an ongoing review. However it is a cause for concern that we are looking at this situation and saying that there has been no improvement. The children's committee has held a full inquiry into this service and has published a report going back to November 2014. But despite that, the commissioner once again is calling on the Welsh Government to deal with this issue as a matter of urgency.

Of course, the Welsh Government has been receiving exactly the same reports since 2009, if truth be told. I have to say, if I was paid a pound for every time I've heard the Welsh Government saying that they have dealt with this because a strategy has been published, then I would be quite a wealthy man by now. Even after we received statements on the review, there was some confusion surrounding what exactly the responsibilities of Sue Bailey were. But I do think that there is cause for us to say that, if we are in the same situation during the next Assembly in receiving a report which discusses CAMHS in the same terms, then we will have been wasting our time here. It's also an issue noted in the report that although the Government has provided additional funding this year, the percentage of the budget in terms of expenditure on CAMHS has reduced since 2009.

Rwyf hefyd yn meddwl bod angen inni danlinellu—. Rwy'n derbyn yr hyn y mae Angela Burns wedi dweud, sef bod y Gweinidog wedi'i gwneud hi'n hollol blaen wrth roi tystiolaeth i'r pwyllgor nad yw hi'n credu y dylai atebolrwydd gael ei newid o'r Llywodraeth i'r Cynulliad. Ond, mae'n glir mai barn y mwyafrif—nid yn unig aelodau'r pwyllgor, erbyn hyn, ond pob un o'r rhanddeiliaid hefyd—yw nad yw hyn yn gwneud synnwyr o gwbl. Rwy'n cytuno. Mae'r Gweinidog ei hun wedi dweud nad yw hi wedi dod ar draws unrhyw sefyllfa lle mae pwysau wedi cael ei roi ar y comisiynydd. Ond, rwy'n meddwl ei bod hi'n deg inni ofyn cwestiynau ynglŷn â'r ffordd y mae'r sefyllfa hon yn edrych i'r byd y tu allan. Felly, rwy'n gobeithio mai dyma'r tro olaf y byddwn yn sôn am yr holl broblemau hyn yn CAMHS. Rwyf hefyd yn meddwl, ac yn gobeithio—wrth inni gofio rhai o'r datganiadau a wnaethpwyd yr wythnos diwethaf, wrth i'r Dáil yn Iwerddon ddweud eu bod nhw'n cael gwared ar gosb gorfforol ynglŷn â phlant—hwyrach, mai dyma'r adroddiad olaf lle nad yw'r comisiynydd yn dweud mai ni yw'r wlad olaf i ddelio â hyn. Mae'n iawn ichi fynd i'r Cenhedloedd Unedig, ond, os nad ydych yn ymwneud â'r materion sy'n cael eu codi yn y confensiwn, geiriau gwag yw'r rheini hefyd. Ond, rwy'n diolch i Sally Holland. Rwy'n croesawu'r ffaith bod ei thystiolaeth yn dangos bod ganddi ddealltwriaeth gadarn o'r gwaith sy'n ei hwynebu, ac rydym ni'n edrych ymlaen fel pwyllgor at gydweithio efo hi yn y misoedd sydd i ddod.

I also believe that we need to highlight—. I do accept what Angela Burns has said, that the Minister has made it eminently clear during her evidence to the committee that she didn't believe that accountability should be shifted from Government to the Assembly. But it's clear that the view of a majority—not only of committee members but virtually all of the stakeholders—is that this doesn't make any sense whatsoever. I agree. The Minister has said that she hasn't come across any situation where pressure has been put on the commissioner, but I do think it's fair for us to ask these questions on the way this is dealt with and the perception in the outside world. Therefore, I do hope that this will be the last time that we discuss all of these problems in terms of CAMHS. I also think and hope—bearing in mind some of the statements made last week, as the Dáil in Ireland said that they were going to do away with the physical chastisement of children—that, hopefully, this will be the final report where the commissioner doesn't state that we are one of the last countries to deal with this. It's fine for you to go to the UN, but if you don't deal with the issues raised within the convention, then that's just empty rhetoric. But I do thank Sally Holland. I welcome the fact that here evidence displays that she has a strong understanding of the work that's ahead of her, and we look forward as a committee to collaborating with her in the coming months.

15:20

Jocelyn Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'd like to begin this afternoon by thanking Keith Towler for his work as the children's commissioner and by welcoming Sally Holland to the role. I think children's rights are under threat in Wales, put at risk by complacency and inaction. I've seen us be at the forefront of the movement to protect and promote children's rights, but now, 15 years on, since the establishment of the children's commissioner, it seems that children's rights have become less of a priority. There is no specific Minister in charge of children's rights, there's no longer a youth parliament in place, and advocacy services are insufficient.

In a political climate where difficult decisions about the provision of public services are being made, children and young people's voices are not being heard across portfolios, but particularly in health and social care. Child-centred provision is being eradicated and replaced by person-centred provision, which will lead to services and protection for children being watered down. Now, the children's commissioner's annual report highlights a number of areas of concern that we've known about for many years, and I concur with Aled Roberts's comments earlier on the child and adolescent mental health services. How long must CAMHS be in crisis before decisive action is taken by the Welsh Government, and how many reports cataloguing the failure of CAMHS must be commissioned before we see improvements? And let's not forget, this is an area that is supposed to be a priority for this Assembly and this Government, so we all share in the failure there. The issue of CAMHS cannot be solved while the all-age approach of the Welsh Government leaves children and young people invisible in key developments in mental health services.

Hoffwn i ddechrau y prynhawn yma drwy ddiolch i Keith Towler am ei waith fel comisiynydd plant a chroesawu Sally Holland i'r swyddogaeth. Rwy'n credu bod hawliau plant o dan fygythiad yng Nghymru, eu bod wedi'u rhoi mewn perygl gan hunanfodlonrwydd a diffyg gweithredu. Rwyf wedi ein gweld ni ar flaen y gad yn yr ymgyrch i amddiffyn a hyrwyddo hawliau plant, ond erbyn hyn, 15 mlynedd yn ddiweddarach, ers sefydlu'r comisiynydd plant, mae'n ymddangos bod hawliau plant wedi dod yn llai o flaenoriaeth. Nid oes unrhyw Weinidog penodol sy'n gyfrifol am hawliau plant, nid oes senedd ieuenticid ar waith bellach, ac mae gwasanaethau eiriolaeth yn annigonol.

Mewn hinsawdd wleidyddol lle gwneir penderfyniadau anodd ynghylch darparu gwasanaethau cyhoeddus, nid yw lleisiau plant a phobl ifanc yn cael eu clywed ar draws portffolios, ond yn enwedig ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Mae darpariaeth sy'n canolbwyntio ar y plentyn yn cael ei dileu a'i disodli gan ddarpariaeth sy'n canolbwyntio ar y person. Bydd hyn yn arwain at lastwreiddio gwasanaethau a champau diogelu ar gyfer plant. Nawr, mae adroddiad blynyddol y comisiynydd plant yn tynnu sylw at nifer o bryderon yr ydym wedi bod yn ymwybodol ohonynt ers blynyddoedd lawer, a chytunaf â sylwadau Aled Roberts yn gynharach am y gwasanaethau iechyd meddwl i blant a'r glasod. Pa mor hir y mae'n rhaid i CAMHS fod mewn argyfwng cyn y bydd camau pendant yn cael eu cymryd gan Lywodraeth Cymru, a faint o adroddiadau yn catalogio methiant CAMHS y mae'n rhaid i ni eu comisiynu cyn i ni weld gwelliannau? A gadewch i ni beidio ag anghofio, mae hwn yn faes sydd i fod yn flaenoriaeth i'r Cynulliad hwn a'r Llywodraeth hon, felly rydym i gyd yn rhannu yn y methiant yno. Ni all mater CAMHS gael ei ddatrys tra bod dull gweithredu pob oed Llywodraeth Cymru yn gadael plant a phobl ifanc yn anweledig mewn datblygiadau allweddol mewn gwasanaethau iechyd meddwl.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I fully support Angela Burns's comments on additional learning needs, which she made earlier, and, I think, we've failed to address the army of children who leave school every year in Wales unable to read properly. We've got so used to this, we don't even recognise it for the scandal that it is, maybe because of the better results for those whose education is more successful.

Last week, we celebrated the news that Ireland had joined with the other 46 countries worldwide that have legislated to ensure that children have equal protection from violence under the law. This is fantastic news, of course, for the children of Ireland. The joint report of the UK children's commissioner, submitted to the UN Committee on the Rights of the Child, recommends that the devolved Governments should immediately prohibit all corporal punishment in the family and in all other institutions and forms of alternative care, including through the repeal of the legal defences, while promoting positive parenting. So, I'm a bit disappointed that this report doesn't make more of that, because we've had years of discussion on the removal of reasonable punishment defence in cases of assault against children, only to see the Government, of course, rescind their earlier commitment when given the opportunity to act. And if the Wales Bill goes through as it is currently drafted, we will no longer have the power to do so, so this Government, in fact, will have thrown away our opportunity to act on this particular matter, and Wales is getting left behind where once we led the way.

Just to finish, the appointment of the commissioner by the Welsh Government is perhaps a relic of the time before the separation of the Assembly and the Government, although I think the appointment process would probably remain the same, apart from no rubber stamp from the First Minister. But I would like to see the recommendations of Dr Shooter's review enacted. Perhaps it's time to update the legislative basis for the commissioner's office to ensure that the children's commissioner continues to work effectively now and into the future. And this is no criticism of the Government whatsoever, because, not only then would the commissioner be free from any concerns, valid or invalid, about their independence, it would also permit proper scrutiny of the commissioner and of their budget in a way that perhaps the Government may currently be reluctant to do. Thank you.

15:25

Julie Morgan [Bywgraffiad Biography](#)

I'm very pleased to welcome and speak to Sally Holland's first annual report as children's commissioner. As the report says, the office of the children's commissioner is now firmly entrenched in the fabric of civil society in Wales, and I'm very pleased that Sally Holland is holding this post as she's got a great record of working for children's rights. I also thank Keith Towler for all he's done in this field.

Rwyf yn cefnogi'n llwyr y sylwadau a wnaed yn gynharach gan Angela Burns am anghenion dysgu ychwanegol, ac, rwy'n meddwl ein bod wedi methu yn ein hymgais i fynd i'w afael â'r fyddin o blant sy'n gadael yr ysgol bob blwyddyn yng Nghymru ac yn methu â darllen yn iawn. Rydym wedi mynd mor gyfarwydd â hyn, nid ydym hyd yn oed yn ei gydnabod fel y sgandal ydyw, efallai oherwydd y canlyniadau gwell ar gyfer y rhai y mae eu haddysg yn fwy llwyddiannus.

Yr wythnos diwethaf, buom yn dathlu y newyddion bod Iwerddon wedi ymuno â'r 46 o wledydd eraill ledled y byd sydd wedi deddfu i sicrhau bod plant yn cael amddiffyniad cyfartal rhag trais o dan y gyfraith. Mae hyn yn newyddion gwych, wrth gwrs, ar gyfer plant Iwerddon. Mae adroddiad ar y cyd gan gomisiynydd plant y DU, a gyflwynwyd i Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, yn argymhell y dylai Llywodraethau datganoledig wahardd pob cosb gorfforol yn y teulu ar unwaith ac yn yr holl sefydliadau eraill a'r mathau eraill o ofal, gan gynnwys drwy ddiddymu yr amddiffyniadau cyfreithiol, ond gan hyrwyddo rhianta cadarnhaol. Felly, rwyf braidd yn siomedig nad yw'r adroddiad hwn yn gwneud mwy o hynny, oherwydd rydym wedi cael blynyddoedd o drafodaeth ar gael gwared ar amddiffyniad cosb resymol mewn achosion o ymosod yn erbyn plant, dim ond i weld y Llywodraeth, wrth gwrs, yn troi ei chefn ar ei hymrwymiad cynharach pan ddaw'r cyfle i weithredu. Ac os bydd Bil Cymru yn mynd drwodd fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd, ni fydd gennym y pŵer i wneud hynny bellach, felly mae'r Llywodraeth hon, mewn gwirionedd, wedi colli'r cyfle i weithredu ar y mater penodol hwn, ac mae Cymru yn cael ei gadael ar ôl lle'r oeddem ar un adeg yn arwain y ffordd.

I orffen, mae penodiad y comisiynydd gan Lywodraeth Cymru, o bosibl, yn etifeddiaeth o'r amser cyn gwahanu'r Cynulliad a'r Llywodraeth, ond rwy'n credu y byddai'r broses benodi yn ôl pob tebyg yn aros yr un fath, heblaw am y ffaith na fyddai'r Prif Weinidog yn rhoi ei stamp rwber arni. Ond byddwn yn hoffi gweld argymhellion adolygiad Dr Shooter yn cael eu deddfu. Efallai ei bod yn amser i ddiweddarau'r sylfaen ddeddfwriaethol ar gyfer swydd y comisiynydd i sicrhau bod y comisiynydd plant yn parhau i weithio'n effeithiol nawr ac yn y dyfodol. Ac nid yw hyn yn feirniadaeth ar y Llywodraeth o gwbl, oherwydd byddai'r comisiynydd yn rhydd o unrhyw bryderon, yn ddilys neu'n annilys, am ei annibyniaeth, a byddai hefyd yn caniatáu'r craffu priodol ar y comisiynydd ac o'i gyllideb mewn ffordd y mae'r Llywodraeth, o bosibl, yn amharod i wneud ar hyn o bryd. Diolch.

Rwy'n falch iawn o groesawu Sally Holland a siarad am ei hadroddiad blynyddol cyntaf fel comisiynydd plant. Fel y dywed yr adroddiad, mae swydd y comisiynydd plant bellach wedi ymwreiddio yn gadarn yng ngwead cymdeithas sifil yng Nghymru, ac rwy'n falch iawn mai Sally Holland sy'n cyflawni'r swydd hon gan fod ganddi hanes gwych o weithio ar hawliau plant. Diolch hefyd i Keith Towler am y cyfan y mae wedi ei wneud yn y maes hwn.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

The report does raise very important issues, but the bit I wanted to concentrate on was the issue of children's participation in decision making and in children having their voices heard. Last week I met the eco council of Allensbank Primary School, and the previous week I met the eco council of Thornhill Primary School. It was so tremendously impressive listening to young children giving their passionate views about climate change, about recycling, about preserving energy, about trying to get solar panels on their school roofs, and I really feel that the work of this Assembly and the work of the Government has made huge advances in encouraging children and young people to have their voices heard and to have their say. The establishment of school councils and youth forums has been a huge achievement and has been a great way forward. All the children I met had put forward their manifestos to stand for election for the eco council, and they had written out their manifestos, read them out, and the children had voted for them. I felt that this is really a result of the drive from the Welsh Government to ensure that there is participation and that young children's voices are heard.

Mae'r adroddiad yn codi materion pwysig iawn, ond y darn yr oeddwn i eisiau canolbwyntio arno oedd mater cyfranogiad plant wrth wneud penderfyniadau a rhoi gwrandawriad i leisiau plant. Yr wythnos diwethaf cyfarfûm â chyngor eco Ysgol Gynradd Allensbank, a'r wythnos flaenorol cyfarfûm â chyngor eco Ysgol Gynradd Thornhill. Roedd hi mor hynod o arbennig cael gwrandao ar blant ifanc yn rhoi eu barn angerddol am newid yn yr hinsawdd, am ailgylchu, ynghylch gwarchod ynni, am geisio cael paneli solar ar doeau'r ysgol, ac yr wyf yn wir yn teimlo bod gwaith y Cynulliad hwn a gwaith y Llywodraeth wedi gwneud datblygiadau enfawr wrth annog plant a phobl ifanc i fynegi eu barn ac i ddweud eu dweud. Mae sefydlu cyngorau ysgol a fforymau ieuentid wedi bod yn gamp aruthrol ac mae wedi bod yn ffordd wych ymlaen. Roedd yr holl blant y gwnes i eu cyfarfod wedi cyflwyno eu manifestos i sefyll etholiad i'r cyngor eco, ac roeddent wedi ysgrifennu eu manifestos, eu darllen nhw allan, ac roedd y plant wedi pleidleisio drostynt. Roeddwn yn teimlo bod hyn yn wirioneddol yn digwydd o ganlyniad i ymgrych gan Lywodraeth Cymru i sicrhau bod cyfranogiad a bod lleisiau plant ifanc yn cael eu clywed.

I also welcome other participation models put forward by the Welsh Government, such as the Young Wales project, which aims to enable children and young people to influence policy development across Wales, particularly involving disadvantaged young people. However, I think it's very important to be clear, as Sally Holland says in the report, about what Young Wales is and what it's not. As she says in the report, the project is not intended to deliver a peer-led, democratic mechanism for children and young people at a national level. She says in this report that there is scope to develop a further mechanism to have children and young persons' voices heard nationally on important issues, and I think we are missing that in Wales at the moment. I think the ending of Funky Dragon has left a gap, and I do think we need to develop a nationwide democratically-elected body of young people to give their views on issues that are important to them. We are consulting with young people very successfully in many ways, and they are informing the decision making of the Welsh Government, but we do need, I believe, a democratic forum where young people can just make their views known about the issues that are important to them. I know the Presiding Officer and the Assembly Commission have very successfully engaged young people in the work of the Commission and in the law-making process. But last week I was very aware of the UK Youth Parliament debate in Westminster, where the children took to the green benches, made their voices heard, and put forward debates. There was a young woman from Carmarthenshire, and she was one of the lead speakers in the debate. I remember I was at Westminster when the decision was made to allow the young people to actually use the sacred green benches. That was a huge decision, and people were resisting it time after time until we finally allowed it to happen. I think it would be really good if we had similar debates in this Chamber. I don't know whether we ever have, but I can't, in the time I've been here, remember children and young people debating here in this Chamber. I know we're very lucky to have the old debating chamber for use by schools and youth groups, but I think it would be absolutely great, even if was only once a year, if young people debated in this Chamber about the issues that are really important to them. I know that this is one of the points in the report where the children's commissioner wants to take this forward, and I think that would show something to Wales about what we feel about young people, that they are standing here in this Chamber where we stand.

Finally, I wanted to end echoing the points made by other Members that I'm very glad that the children's commissioner sees it as part of her key role to develop the issue of equal protection for children and young people. Jocelyn Davies has mentioned the debate in the Irish Parliament last week, which I found absolutely stimulating and thrilling, at the thought that those Irish children are going to be protected in that way. I hope that the influence of the children's commissioner will eventually lead to the same protection for children here in Wales, and I hope that, whatever happens, we haven't thrown away the chance to do it.

Rwyf hefyd yn croesawu modelau cyfranogi eraill a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru, megis prosiect Cymru Ifanc, sydd â'r nod o alluogi plant a phobl ifanc i ddyllanwadu ar ddatblygiad polisi ledled Cymru, yn enwedig yn ymwneud â phobl ifanc dan anfantais. Fodd bynnag, credaf ei bod yn bwysig iawn bod yn glir, fel y dywed Sally Holland yn yr adroddiad, ynghylch beth yw Cymru Ifanc a'r hyn nad ydyw. Fel y mae'n dweud yn yr adroddiad, nid bwriad y prosiect yw cyflwyno mecanwaith democrataidd a arweinir gan gymheiriaid ar gyfer plant a phobl ifanc ar lefel genedlaethol. Mae hi'n dweud yn yr adroddiad hwn bod lle i ddatblygu mecanwaith pellach i sicrhau bod lleisiau plant a phobl ifanc yn cael eu clywed yn genedlaethol ar faterion pwysig, ac rwyf yn meddwl bod hynny ar goll yng Nghymru ar hyn o bryd. Rwy'n meddwl bod dod â'r Ddraig Ffyni i ben wedi gadael bwlch, ac rwyf yn credu bod angen i ni ddatblygu corff cenedlaethol o bobl ifanc a etholwyd yn ddemocrataidd i roi eu barn ar faterion sy'n bwysig iddyn nhw. Rydym yn ymgynghori â phobl ifanc yn llwyddiannus iawn mewn nifer o ffyrdd, ac maent yn llywio proses Llywodraeth Cymru o wneud penderfyniadau. Ond yn fy marn i mae angen fforwm democrataidd arnom lle gall pobl ifanc nodi eu barn am y materion sy'n bwysig iddyny. Rwy'n gwybod bod y Llywydd a Chomisïwn y Cynulliad wedi ymgysylltu â phobl ifanc yng ngwaith y Comisiwn ac yn y broses o ddeddfu yn llwyddiannus iawn. Ond yr wythnos ddiwethaf roeddwn yn ymwybodol iawn o'r ddadl yn Senedd Ieuencid y DU yn San Steffan, lle y daeth y plant i'r meinciau gwyrdd, i nodi eu safbwyntiau, a chyflwyno dadleuon. Roedd merch ifanc o Sir Gaerfyrddin yno, ac roedd hi'n un o'r prif siaradwyr yn y ddadl. Rwy'n cofio fy mod i yn San Steffan pan wnaethpwyd y penderfyniad i ganiatáu i'r bobl ifanc ddefnyddio'r meinciau gwyrdd sanctaidd. Roedd hwnnw'n benderfyniad enfawr, ac roedd pobl yn ei wrthsefyll dro ar ôl tro nes i ni ganiatáu i hynny ddigwydd yn y diwedd. Rwy'n credu y byddai'n dda iawn pe bai gennym ddadleuon tebyg yn y Siambr hon. Nid wyf yn gwybod, ac ni allaf gofio, a ydym erioed wedi, yn yr amser rwyf wedi bod yma, gweld plant a phobl ifanc yn trafod yma yn y Siambr hon. Rwyf yn gwybod ein bod yn ffodus iawn i gael yr hen siambr drafod i'w defnyddio gan ysgolion a grwpiau ieuencid, ond rwy'n credu y byddai'n hollol wych, hyd yn oed os mai dim ond unwaith y flwyddyn y byddai hynny'n digwydd, pe byddai pobl ifanc yn trafod yn y Siambr hon faterion sy'n wirioneddol bwysig iddyny hwy. Gwn fod hyn yn un o'r pwyntiau yn yr adroddiad y mae'r comisiynydd plant yn awyddus i'w ddatblygu, ac rwy'n meddwl y byddai hynny'n dangos rhywbeth i Gymru am ein barn ar bobl ifanc, eu bod yn sefyll yma yn y Siambr hon lle rydym ni'n sefyll.

Yn olaf, rwy'n awyddus i orffen trwy adleisio'r pwyntiau a wnaed gan Aelodau eraill fy mod i'n falch iawn bod y comisiynydd plant yn ei ystyried yn rhan o'i swyddogaeth allweddol i ddatblygu'r mater o amddiffyniad cyfartal i blant a phobl ifanc. Mae Jocelyn Davies wedi crybwyll y ddadl yn Senedd Iwerddon yr wythnos ddiwethaf, a oedd yn fy marn i, yn hollol ysgogol a gwefreiddiol, o feddwl bod y plant Gwyddelig hynny yn mynd i gael eu diogelu yn y ffordd honno. Gobeithio y bydd dylanwad y comisiynydd plant yn y pen draw yn arwain at yr un amddiffyniad i blant yma yng Nghymru, ac rwy'n gobeithio, beth bynnag sy'n digwydd, nad ydym wedi colli'r cyfle i wneud hynny.

15:30

Rhodri Glyn Thomas [Bywgraffiad Biography](#)

Galwaf ar y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi i ymateb i'r ddadl.

I call on the Minister for Communities and Tackling Poverty to reply to the debate.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:30

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Cymunedau a Threchgu Tlodi / The Minister for Communities and Tackling Poverty

Thank you, Chair. I'd like to thank Members for their contributions to this debate. If I can turn to the amendments first—. I feel that the Conservative amendment does seek to divert debate away from Sally Holland's report, which outlines the excellent work of the commissioner and her staff and it raises very important practical issues affecting children and young people. But I do accept that you do have concerns around this. So, I will state again that, as a Government, we recognise there are very strong views on the funding and appointment of the children's commissioner. I think those differences are solely about the best method of ensuring the commissioner's independence, and that is absolutely the main concern. We all want to see her independence maintained. I think we all need a critical friend—both the Government and the Assembly need the commissioner to be a critical friend and someone who will speak out on behalf of children and young people. The Government's view has been that the commissioner's independence of both—[Interruption.] Yes.

Diolch, Gadeirydd. Hoffwn ddiolch i'r Aelodau am eu cyfraniadau at y ddadl hon. Os caf i droi at y gwelliannau yn gyntaf—. Rwy'n teimlo bod gwelliant y Ceidwadwyr yn ceisio dargyfeirio'r drafodaeth i ffwrdd oddi wrth adroddiad Sally Holland, sy'n amlinellu gwaith rhagorol y comisiynydd a'i staff ac mae'n codi materion ymarferol pwysig iawn sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc. Ond rwyf yn derbyn bod gennyh bryderon am hyn. Felly, byddaf yn datgan eto, fel Llywodraeth, ein bod yn cydnabod bod safbwyntiau cryf iawn ar gyllid a'r modd o benodi'r comisiynydd plant. Rwy'n credu bod y gwahaniaethau hynny yn ymwneud â'r dull gorau o sicrhau annibyniaeth y comisiynydd yn unig, a dyna'r brif bryder yn sicr. Rydym i gyd am weld ei hannibyniaeth yn cael ei chynnal. Rwy'n meddwl bod angen cyfaill beirniadol arnom ni i gyd—mae angen i'r comisiynydd fod yn gyfaill beirniadol i'r Llywodraeth a'r Cynulliad ac yn rhywun a fydd yn siarad ar ran plant a phobl ifanc. Barn y Llywodraeth yw bod annibyniaeth y comisiynydd o— [Torri ar draws.] lawn.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:31

Nick Ramsay [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'm grateful to you for giving way. Just on the point you just made about our amendment distracting from the motion, I've just read through it again and I really don't see how you can make that link, Minister. We're simply calling for the appointment and the funding of the children's commissioner, the power for that, to be transferred to this institution. That's not distracting, that's adding to what the report said.

Rwy'n ddiolchgar i chi am ildio. Ar y pwynt yr ydych newydd ei wneud am ein gwelliant yn tynnu sylw oddi wrth y cynnig, rwyf newydd ei ddarllen eto ac nid wyf yn gweld sut y gallwch chi wneud y cysylltiad hwnnw, Weinidog. Rydym yn syml, yn galw ar i'r modd o benodi a chyllido comisiynydd plant, y pŵer i wneud hynny, gael ei drosglwyddo i'r sefydliad hwn. Nid yw hynny'n tynnu sylw oddi wrth y cynnig, mae hynny'n ychwanegu at yr hyn a ddywedodd yr adroddiad.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:31

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

This debate is about the commissioner's annual report. That is a recommendation that's come from the independent review that was brought forward by the Government.

So, as I was saying, the Government's view has been that the commissioner's independence from both the Government and the Assembly is best ensured by leaving funding and the appointment in the hands of the Government. You'll be aware the appointment is done by a cross-party panel, whilst accountability is in the hands of the Assembly's committees. That division of roles creates a space in which the commissioner's independence over the years has absolutely flourished. However, I think we're very open to the arguments that are coming forward. What we would need to be convinced of is that the transfer of appointment and funding for the children's commissioner would be accompanied by strong enough mechanisms to guarantee the commissioner's independence of the Assembly and the ability to criticise this body as well as the Government. It would require legislation, so it would be an issue for the next Government. So, we cannot accept today's amendment, which doesn't set out those essential safeguards.

Mae'r ddadl hon yn ymwneud ag adroddiad blynyddol y comisiynydd. Mae hynny yn argymhelliaid sydd wedi dod o'r adolygiad annibynnol a gafodd ei gyflwyno gan y Llywodraeth.

Felly, fel yr oeddwn yn dweud, ym marn y Llywodraeth, y ffordd orau o sicrhau bod y comisiynydd yn annibynnol o'r Llywodraeth a'r Cynulliad yw trwy adael y cyllid a'r modd o benodi yn nwylo'r Llywodraeth. Byddwch yn ymwybodol fod y penodiad yn cael ei wneud gan banel trawsbleidiol, tra bod atebolrwydd yn nwylo pwyllgorau'r Cynulliad. Mae rhannu'r swyddogaethau hynny yn creu gofod lle y mae annibyniaeth y comisiynydd dros y blynyddoedd wedi ffynnu'n dda. Fodd bynnag, rwyf yn credu ein bod yn agored iawn i'r dadleuon sy'n cael eu cyflwyno. Byddai angen ein hargyhoeddi ni y byddai trosglwyddo'r modd o benodi ac ariannu'r comisiynydd plant yn cyd-fynd â mecanweithiau digon cryf i warantu annibyniaeth y comisiynydd o'r Cynulliad a'r gallu i feirniadu'r corff hwn yn ogystal â'r Llywodraeth. Byddai angen deddfwriaeth ar hyn, felly byddai'n fater i'r Llywodraeth nesaf. Felly, ni allwn dderbyn gwelliant heddiw, gan nad yw'n gosod allan y mesurau diogelu hanfodol hynny.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Looking at the Liberal Democrats' amendments 2 and 3, I mentioned in my opening remarks that we're supporting the NHS-led Together for Children and Young People programme to improve children and adult mental health services. I mentioned how much we've invested. So, we are working very hard on this issue. So, in that spirit, we're prepared to support the Liberal Democrats' amendments 2 and 3.

If I can just turn to some of the substantive issues that were raised during the debate, Angela Burns asked about the national model for advocacy services and I'm very grateful to Sally Holland for the continued support of her office in the development of the national approach. I understand the WPGA-led task and finish group is progressing well with the development of the business case and is on schedule to present this to the Minister for Health and Social Services in November—as in this month. Separately, officials are analysing the responses to the recent consultation and how these will inform the final code of practice on advocacy under the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014.

Aled Roberts referred to child and adolescent mental health services. I've never ever heard a Minister, myself or other Ministers, say we've dealt with it. We're always striving to do better. I think CAMHS has made great strides in improving provision in recent years. There's now an all-Wales coverage for crisis intervention teams, so vulnerable children are treated quickly within the local community, without the need for routine hospitalisation, and health boards have established a national planning network to promote much more consistency across Wales. But we absolutely accept that always more can be done. That's why we're supporting Together for Children and Young People, which was launched by the NHS to examine the role of CAMHS in supporting the needs of young people. We're very pleased the children's commissioner has agreed to join the Together for Children and Young People's expert reference group, in a role that will then enable her to scrutinise our priorities. We will continue to work with whoever we need to work with to improve issues.

Several Members raised the issue of physical chastisement. Again, I've stated what our current position is: it's consistent with having due regard to the UNCRC and is absolutely committed to promoting positive parenting. I mentioned the new campaign I'll be launching on Friday this week. We've no mandate to legislate on this issue at the current time, and I think it is a matter for all parties going forward with our manifestos.

Gan edrych ar welliannau 2 a 3 y Democratiaid Rhyddfrydol, soniais yn fy sylwadau agoriadol ein bod yn cefnogi'r rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc a arweinir gan y GIG i wella gwasanaethau iechyd meddwl i blant ac oedolion. Soniais faint yr ydym wedi buddsoddi. Felly, rydym yn gweithio'n galed iawn ar y mater hwn. Felly, yn yr ysbryd hwnnw, rydym yn barod i gefnogi gwelliannau 2 a 3 y Democratiaid Rhyddfrydol.

Os caf fi droi at rai o'r materion o bwys a godwyd yn ystod y ddadl, gofynnodd Angela Burns am y model cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau eirioli ac rwy'n ddiolchgar iawn i Sally Holland am gefnogaeth barhaus ei swyddogaeth yn natblygiad y dull gweithredu cenedlaethol. Rwyf yn deall bod y grŵp gorchwyl a gorffen a arweinir gan CLILC yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu'r achos busnes ac mae ar y trywydd iawn i gyflwyno hyn i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ym mis Tachwedd—sef y mis hwn. Ar wahân i yn, mae swyddogion yn dadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad diweddar a sut y bydd y rhain yn llywio'r cod ymarfer terfynol ar eiriolaeth o dan Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Cyfeiriodd Aled Roberts at wasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed. Dydw i erioed wedi clywed unrhyw Weinidog, fy hunan na Gweinidogion eraill, yn dweud ein bod wedi ymdrin ag ef. Rydym bob amser yn ymdrechu i wneud yn well. Rwyf yn meddwl bod CAMHS wedi gwneud camau breision o ran gwella darpariaeth yn y blynyddoedd diwethaf. Mae bellach timau ymyrraeth mewn argyfwng ar gyfer Cymru gyfan, felly caiff plant sy'n agored i niwed eu trin yn gyflym yn y gymuned leol, heb yr angen i'w derbyn i ysbyty yn rhan o'r drefn arferol, ac mae byrddau iechyd wedi sefydlu rhwydwaith cynllunio cenedlaethol i hybu llawer mwy o gysondeb ledled Cymru. Ond rydym yn derbyn yn llwyr y gellir gwneud mwy bob amser. Dyna pam rydym yn cefnogi Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc, a lanswyd gan y GIG i archwilio swyddogaeth CAMHS wrth gefnogi anghenion pobl ifanc. Rydym yn falch iawn bod y comisiynydd plant wedi cytuno i ymuno â grŵp cyfeirio arbenigol Law yn Llaw dros Blant a Phobl Ifanc, mewn swyddogaeth a fydd wedyn yn ei galluogi i graffu ar ein blaenoriaethau. Byddwn yn parhau i weithio gyda phwy bynnag y mae angen i ni weithio gyda nhw i wella materion.

Cododd sawl Aelod fater cosb gorfforol. Unwaith eto, rwyf wedi datgan beth yw ein sefyllfa ni ar hyn o bryd: mae'n gyson â rhoi sylw dyledus i'r CCUHP ac yn gwbl ymrwymedig i hyrwyddo rhianta cadarnhaol. Soniais am yr ymgyrch newydd y byddaf yn ei lansio ddydd Gwener yr wythnos hon. Nid oes gennym fandad i ddeddfu ar y mater hwn ar hyn o bryd, ac rwy'n credu ei fod yn fater i bob plaid wrth symud ymlaen gyda'n manifestos.

Julie Morgan mentioned participation, school councils and eco councils, et cetera, and I was very pleased that Welsh children and young people were able to participate in the event that was held in the UK Parliament—I think it was last Friday. People will be aware of the significant funding we've given to Young Wales. I'm very pleased with the numbers that are coming forward of children and young people who have been consulted and brought their views forward. In the first six months, 418 children and young people have expressed their views directly through face-to-face consultation and engagement opportunities, organised by Children in Wales and partners. I'm anticipating that figure will be doubled by the end of the first year. We've also seen the Young Wales website and responses to social media alerts rise steadily. For instance, there were 177,000 hits on the Young Wales pages, and 22,000 on the Cymru Ifanc site during the year. So, again, I think we are seeing an increase in participation. And youth parliaments are not the only models. I think it's important that we do recognise that.

Members will appreciate that we're having to prioritise the use of scarce resources in these testing financial times. As I say, more can always be done, but I don't think our commitment to children and young people could be questioned. To Jocelyn Davies, I would say that I'm the Minister with responsibility for Children, but every Minister in the Welsh Government has the responsibility to ensure that their policies and their programmes take into account children's rights. I think children's rights have never been more visible, really; with the incorporation of the UNCRC into our law-making processes and our decision-making processes, it really is right up there. Along with the commissioner, we have a duty to raise awareness of children's rights, and I think we are taking that forward very significantly. So, again, I'd like to thank the commissioner and her predecessor, Keith Towler, and her office for the report and for their continued work. We will respond fully to the report by 30 November.

Soniodd Julie Morgan am gyfranogiad, cyngorau ysgolion a chynghorau eco, ac ati, ac roeddwn i'n falch iawn bod plant a phobl ifanc o Gymru yn gallu cymryd rhan yn y digwyddiad a gynhaliwyd yn Senedd y DU—ddydd Gwener diwethaf, rwy'n meddwl. Bydd pobl yn ymwybodol o'r cyllid sylweddol yr ydym wedi ei roi i Cymru Ifanc. Rwy'n falch iawn â'r niferoedd sy'n dod i law o blant a phobl ifanc yr ymgynghorwyd a nhw ac a gyflwynodd eu safbwyntiau. Yn y chwe mis cyntaf, mae 418 o blant a phobl ifanc wedi mynegi eu barn yn uniongyrchol trwy ymgynghori wyneb yn wyneb a chyfleoedd i ymgysylltu, a drefnwyd gan Plant yng Nghymru a phartneriaid. Rydw i'n rhagweld y bydd y ffigur hwnnw yn cael ei ddyblu erbyn diwedd y flwyddyn gyntaf. Rydym hefyd wedi gweld gwefan Cymru Ifanc ac mae'r ymatebion i hysbysiadau ar gyfryngau cymdeithasol yn codi'n gyson. Er enghraifft, roedd 177,000 o drawiadau ar dudalennau Cymru Ifanc, a 22,000 ar safle Cymru Ifanc yn ystod y flwyddyn. Felly, unwaith eto, rwyf yn meddwl ein bod yn gweld cynnydd mewn cyfranogiad. Ac nid seneddau ieuenticid yw'r unig fodelau. Rwy'n credu ei bod yn bwysig inni gydnabod hynny.

Bydd yr Aelodau yn gwerthfawrogi ein bod yn gorfod blaenoriaethu'r defnydd o adnoddau prin yn y cyfnod ariannol anodd hwn. Fel y dywedais, mae modd gwneud rwyf bob amser, ond nid wyf yn meddwl y gellid cwestiynu ein hymrwymiad i blant a phobl ifanc. I Jocelyn Davies, byddwn yn dweud mai fi yw'r Gweinidog sy'n gyfrifol am Blant, ond mae pob Gweinidog yn Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am sicrhau bod eu polisiau a'u rhaglenni yn ystyried hawliau plant. Nid yw hawliau plant erioed wedi bod yn fy amlwg, yn fy marn i; gydag ymgorffori'r CCUHP yn ein prosesau deddfu a'n prosesau gwneud penderfyniadau, y mae lle blaenllaw iddo yno. Ynghyd â'r comisiynydd, mae gennym ddyletswydd i godi ymwybyddiaeth o hawliau plant, ac rwy'n meddwl ein bod yn bwrw ymlaen â hynny yn arwyddocaol iawn. Felly, unwaith eto, hoffwn ddiolch i'r comisiynydd a'i rhagflaenydd, Keith Towler, a'i swyddfa am yr adroddiad ac am eu gwaith parhaus. Byddwn yn ymateb yn llawn i'r adroddiad erbyn 30 Tachwedd.

15:37

Rhodri Glyn Thomas [Bywgraffiad Biography](#)

Y cwestiwn, felly, yw: a ddylid derbyn gwelliant 1? A oes unrhyw wrthwynebiad? [Gwrthwynebiad.] Gohiriaf bob pleidlais ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.

Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair.

The proposal, therefore, is to accept amendment 1. Is there any objection? [Objection.] I will defer all voting on this item until voting time.

Voting deferred until voting time.

The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

15:37

7. Dadl ar yr Ardoll Prentisiaethau

Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad Biography](#)

Item 7, the debate on the apprenticeships levy, has been withdrawn.

7. Debate on the Apprenticeship Levy

Mae eitem 7, y ddadl am yr ardoll prentisiaethau, wedi ei thynnu'n ôl.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

15:37	Datganiad y Gweinidog ynghylch Cydsyniad Ei Mawrhydi y Frenhines	Minister's Statement regarding Her Majesty the Queen's Consent Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Y Senedd.tv Fideo Video
	<p>We move to the Minister's statement regarding Her Majesty the Queen's consent, and I call on the Minister, Lesley Griffiths.</p>	<p>Symudwn at ddatganiad y Gweinidog ynghylch cydsyniad Ei Mawrhydi y Frenhines, a galwaf ar y Gweinidog, Lesley Griffiths.</p>	
15:38	Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography <i>Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi / The Minister for Communities and Tackling Poverty</i> <p>Thank you, Deputy Presiding Officer. I have it in command from Her Majesty the Queen to acquaint the Assembly that, having been informed of the purpose of the Renting Homes (Wales) Bill, she has given consent to this Bill.</p>	<p>Diolch, Ddirprwy Lywydd. Mae gen i orchymyn gan Ei Mawrhydi y Frenhines i roi gwybod i'r Cynulliad ei bod hi, ar ôl cael gwybod am ddiben y Bil Rhentu Cartrefi (Cymru), wedi rhoi cydsyniad i'r Bil hwn.</p>	Senedd.tv Fideo Video
15:38	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography <p>Thank you, Minister.</p>	<p>Diolch, Weiniog.</p>	Senedd.tv Fideo Video
15:38	8. Cyfnod 4 o'r Bil Rhentu Cartrefi (Cymru) Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography	8. Stage 4 of the Renting Homes (Wales) Bill Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Y Senedd.tv Fideo Video
	<p>Item 8 is Stage 4 of the Renting Homes (Wales) Bill. I call on the Minister for Communities and Tackling Poverty to move the motion—Lesley Griffiths.</p>	<p>Eitem 8 yw Cyfnod 4 y Bil Rhentu Cartrefi (Cymru). Galwaf ar y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi i gynnig y cynnig—Lesley Griffiths.</p>	
	<p>Cynnig NDM5882 Lesley Griffiths</p>	<p>Motion NDM5882 Lesley Griffiths</p>	
	<p>Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.47:</p>	<p>To propose that the National Assembly for Wales in accordance with Standing Order 26.47:</p>	
	<p>Yn cymeradwyo Bil Rhentu Cartrefi (Cymru).</p>	<p>Approves the Renting Homes (Wales) Bill.</p>	
	<p><i>Cynigiwyd y cynnig.</i></p>	<p><i>Motion moved.</i></p>	
15:38	Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography <i>Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi / The Minister for Communities and Tackling Poverty</i> <p>Thank you, Deputy Presiding Officer. I move the motion.</p>	<p>Diolch, Ddirprwy Lywydd. Cynigiau y cynnig.</p>	Senedd.tv Fideo Video
	<p>I have the privilege of bringing this Bill before the Assembly today, however it marks the end of a process involving many people, including my predecessors, Jocelyn Davies, Huw Lewis and Carl Sargeant. It has involved extensive consultation and engagement with stakeholders inside and outside the field of housing. I'm grateful to everyone for the time and effort they have put into helping to shape this very significant piece of legislation.</p>	<p>Fi sy'n cael y fraint o ddod â'r Bil hwn gerbron y Cynulliad heddiw, ond mae'n nodi diwedd proses sy'n cynnwys llawer o bobl, gan gynnwys fy rhagflaenwyr, Jocelyn Davies, Huw Lewis a Carl Sargeant. Mae wedi cynnwys llawer o ymgynghori ac ymgysylltu â rhanddeiliaid y tu mewn a'r tu allan i faes tai. Rwy'n ddiolchgar i bawb am yr amser a'r ymdrech y maent wedi'u rhoi i helpu i lunio'r darn arwyddocaol iawn hwn o ddeddfwriaeth.</p>	

The Bill has been examined very thoroughly by the Constitutional and Legislative Affairs Committee, the Finance Committee, and the Communities, Equality and Local Government Committee. The latter considered a wide range of evidence and the careful scrutiny the Bill has received has been very helpful. I thank the members and clerks of all the committees for their thorough scrutiny and, as part of this, their constructive dialogue. In addition to you, Deputy Presiding Officer, the Presiding Officer, and all Members, I also want to acknowledge the work and efforts of Welsh Government officials, particularly the Bill manager and his team, and the legal advisers, all of whom have worked incredibly hard on the development of the Bill over many years, and I wish to place on record my sincere thanks to them. I also recognise the work of the Law Commission, on whose recommendations the Bill is founded.

In introducing the Bill, I emphasised how significant it was. It will directly affect the lives of over 1 million people who rent their home in Wales. Many of our constituents encounter housing-related problems and all too often, the root cause is confusion regarding their legal rights and responsibilities.

For over 20 years, there have been calls to reform this area of law, and I know the Law Commission's recommendations were supported by many Members when published nearly 10 years ago. Unfortunately, without primary law-making powers, we did not have the ability to act at that time. Having been given such powers following the referendum in 2011, we have acted and I believe the Bill is an excellent example of how we are using the powers to make a positive difference to the lives of our people in Wales.

The Bill simplifies housing law, but more fundamentally it addresses long-standing inequalities. Instead of the many different arrangements under which someone can currently occupy their home, the Bill is based around two types of contract. Local authorities and housing associations, called 'community landlords' under the Bill, will issue by default the secure contract. Housing association tenants will no longer be subject to ground 8, the mandatory eviction ground for rent arrears. Inequalities in how someone can succeed to a tenancy are also addressed, with a new succession right for carers created.

The default for other landlords is the standard contract. Whilst the majority of private landlords currently issue a written tenancy agreement, not all do. For the first time, the Bill requires all landlords to issue a written statement of the contract. This will help to avoid disputes and to resolve disputes that do arise by ensuring rights and responsibilities are clearly set out. Model contracts will be provided to assist with this.

Mae'r Bil wedi ei archwilio'n drwyadl iawn gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, y Pwyllgor Cyllid, a'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol. Bu'r olaf o'r rhain yn ystyried ystod eang o dystiolaeth ac mae'r gwaith craffu gofalus hwn ar y Bil wedi bod yn ddefnyddiol iawn. Diolchaf i aelodau a chlercod yr holl bwyllgorau am eu craffu trylwyr ac, yn rhan o hyn, eu deialog adeiladol. Yn ogystal â chi, Ddirprwy Lywydd, y Llywydd, a'r holl Aelodau, hoffwn hefyd gydnabod gwaith ac ymdrechion swyddogion Llywodraeth Cymru, yn enwedig rheolwr y Bil a'i dîm, a'r cynghorwyr cyfreithiol, sydd i gyd wedi gweithio'n anhygoel o galed ar ddatblygu'r Bil dros flynyddoedd lawer, a hoffwn gofnodi fy niolch diffuant iddynt. Rwyf hefyd yn cydnabod gwaith Comisiwn y Gyfraith; mae'r Bil wedi'i seilio ar eu hargymhellion hwy.

Wrth gyflwyno'r Bil, pwysleisiais pa mor arwyddocaol ydoedd. Bydd yn effeithio'n uniongyrchol ar fywydau dros filiwn o bobl sy'n rhentu eu cartref yng Nghymru. Mae llawer o'n hetholwyr yn dod ar draws problemau sy'n gysylltiedig â thai ac yn rhy aml, yr achos gwraidd yw dryswch ynghylch eu hawliau a'u cyfrifoldebau cyfreithiol.

Ers dros 20 mlynedd, bu galwadau i ddiwygio'r maes cyfraith hwn, a gwn fod argymhellion Comisiwn y Gyfraith wedi cael cefnogaeth gan lawer o Aelodau pan gawsant eu cyhoeddi bron i 10 mlynedd yn ôl. Yn anffodus, heb bwerau deddfu sylfaenol, nid oeddem yn gallu gweithredu ar y pryd. Wedi inni gael pwerau o'r fath ar ôl y refferendwm yn 2011, rydym wedi gweithredu, ac rwy'n credu bod y Bil yn enghraifft wych o'r ffordd yr ydym yn defnyddio'r pwerau i wneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau ein pobl yng Nghymru.

Mae'r Bil yn symleiddio cyfraith tai, ond yn fwy sylfaenol mae'n ymdrin ag anghydraddoldebau hirsefydlog. Yn hytrach na'r llawer o drefniadau gwahanol sy'n gallu bod yn berthnasol i feddiannaeth cartrefi ar hyn o bryd, mae'r Bil yn seiliedig ar ddau fath o gontract. Bydd awdurdodau lleol a chymdeithasau tai, a elwir yn 'landlordiaid cymunedol' o dan y Bil, yn cyhoeddi'r contract diogel yn ddiofyn. Ni fydd tenantiaid cymdeithasau tai mwyach yn ddarostyngedig i sail 8, y sail troi allan gorfodol am ôl-ddyledion rhent. Mae'r Bil hefyd yn unioni anghydraddoldebau o ran sut y gall rhywun olynio tenantiaeth, gan greu hawl olyniaeth newydd i ofalwyr.

Y dewis diofyn i landlordiaid eraill yw'r contract safonol. Er bod y rhan fwyaf o landlordiaid preifat ar hyn o bryd yn cyhoeddi cytundeb tenantiaeth ysgrifenedig, nid yw pob un yn gwneud hynny. Am y tro cyntaf, mae'r Bil yn mynnu bod pob landlord yn cyhoeddi datganiad ysgrifenedig o'r contract. Bydd hyn yn helpu i osgoi anghydfodau a datrys anghydfodau sy'n codi drwy sicrhau bod hawliau a chyfrifoldebau wedi'u nodi'n glir. Byddwn yn darparu contractau enghreifftiol i gynorthwyo â hyn.

Balancing the rights of landlords and contract holders was always going to be a challenge. Whilst maintaining a minimum six-month occupation right, the Bill provides significant powers to improve housing quality. Key concerns such as requiring installation of smoke and carbon monoxide detectors and carrying out electrical safety checks will also be addressed. Rogue landlords will be prevented from evicting someone instead of carrying out a repair.

The Bill will help to avoid homelessness by ensuring a joint contract holder leaving an occupation contract will not be doing so end that contract for every other contract holder. The 'prohibited conduct' term in the Bill also supports victims of domestic abuse, with them no longer needing to risk homelessness in order for the perpetrator to be evicted. Furthermore, under the new provisions some of the less obvious but no less insidious forms of abuse could also result in the perpetrators being evicted.

This Bill helps tackle inequalities and address matters of fairness and social justice. It exemplifies how we are drawing on sound evidence and using our primary law-making powers to improve lives. Passing the Bill today will also enable the substantial body of work necessary for implementation to begin.

It is for all of these reasons I ask for Members' support today.

15:43

Mark Isherwood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

When moving amendments 214 and 215 to this Bill last week regarding the proposed probationary period, I said that we restrict this to six months maximum, and after six months it would become the standard contract. In replying to this, the Minister said that the amendments as they were,

'would allow this six-month period to be extended by the landlord, seemingly for an indefinite period',

meaning that,

'a tenant is only provided a contract with the bare minimum protection on a six-month rolling basis until the landlord is willing to provide an occupation contract',

and that this,

'would actually increase insecurity'.

After she had said that, I therefore checked with the Assembly's senior legal adviser, who reiterated that the periodic probationary contract does not roll on every six months, as I had made absolutely clear. Clearly, I would not dream of calling the Minister's comments a lie—it would be quite wrong to make such an assertion.

Roedd hi'n amlwg o'r dechrau y byddai cydbwysio hawliau landlordiaid a deiliaid contractau yn her. Gan gynnal hawl i feddiannaeth am o leiaf chwe mis, mae'r Bil yn darparu pwerau sylweddol i wella ansawdd tai. Bydd pryderon allweddol fel ei gwneud yn ofynnol i osod synwryddion mwg a charbon monocsid a gwneud gwiriadau diogelwch trydanol hefyd yn cael sylw. Bydd landlordiaid diegwyddor yn cael eu hatal rhag troi rhywun allan yn hytrach na atgyweirio rhywbeth.

Bydd y Bil yn helpu i osgoi digartrefedd drwy sicrhau na fydd deiliad contract ar y cyd sy'n gadael contract meddiannaeth, drwy wneud hynny, yn terfynu'r contract hwnnw i bob deiliad contract arall. Mae'r term 'ymddygiad gwaharddedig' yn y Bil hefyd yn cefnogi dioddefwyr cam-drin domestig, gan na fydd angen mwyach iddynt wynebu risg o ddigartrefedd er mwyn i'r drwgweithredwr gael ei droi allan. Ar ben hynny, o dan y darpariaethau newydd gallai rhai o'r ffurfiau llai amlwg o gam-drin, sydd yn llawn mor ddichellgar, hefyd arwain at droi'r drwgweithredwr allan.

Mae'r Bil yn helpu i unioni anghydraddoldebau ac ymdrin â materion o degwch a chyfiawnder cymdeithasol. Mae'n enghraifft o sut yr ydym yn galw ar dystiolaeth gadarn ac yn defnyddio ein pwerau deddfu sylfaenol i wella bywydau. Bydd pasio'r Bil heddiw hefyd yn ein galluogi i ddechrau ar y gwaith sylweddol sydd ei angen er mwyn ei weithredu.

Am y rhesymau hyn i gyd, rwy'n gofyn am gefnogaeth yr Aelodau heddiw.

Wrth gynnig gwelliannau 214 a 215 i'r Bil hwn yr wythnos diwethaf ynghylch y cyfnod prawf arfaethedig, dywedais ein bod yn cyfyngu hyn i chwe mis ar y mwyaf, ac ar ôl chwe mis, y byddai'n dod yn gontract safonol. Wrth ymateb i hyn, dywedodd y Gweinidog y byddai'r diwygiadau fel yr oeddent,

'yn caniatáu i'r landlord ymestyn y cyfnod hwn o chwe mis, yn ôl pob golwg am gyfnod amhenodol',

sy'n golygu,

'dim ond contract â chyn lleied â phosibl o ddiogelwch a gaiff tenant, ar sail dreigl chwe mis, nes bod y landlord yn barod i ddarparu contract meddiannaeth',

ac y byddai hyn,

'mewn gwirionedd yn cynyddu ansicrwydd'.

Ar ôl iddi ddweud hynny, fe wnes, felly, wirio gydag uwch gynghorwr cyfreithiol y Cynulliad, a ailadroddodd nad yw'r contract prawf cyfnodol yn treiglo bob chwe mis, fel yr oeddwn wedi'i wneud yn gwbl glir. Yn amlwg, ni fyddwn yn breuddwydio am alw sylwadau'r Gweinidog yn gelwydd—byddai gwneud honiad o'r fath yn gwbl anghywir.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:44

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Order, order. I don't want you to speculate about something so explosive. You certainly would not think that. You'd better rephrase that.

Trefn, trefn. Dydwi i ddim eisiau i chi ddyfalu am rywbeth mor ffrwydrol. Yn sicr, ni fydddech yn meddwl hynny. Byddai'n well ichi aralleirio hynny.

15:44

Mark Isherwood [Bywgraffiad Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Okay. Well, clearly it would be wrong to make such assertions in this place, and I'm not intending to do so. But I would suggest, if you permit the words, that this was a mistaken comment that raises serious questions, given that having heard the Minister's comments, Members then voted on legislation that has major implications for large numbers of people across Wales. I hope, therefore, that the Presiding Office will give consideration to this matter accordingly—if not now, then perhaps subsequently.

lawn. Wel, yn amlwg byddai'n anghywir i wneud honiadau o'r fath yn y lle hwn, ac nid wyf yn bwriadu gwneud hynny. Ond byddwn yn awgrymu, os gwnewch ganiatáu'r geiriau, bod y sylw hwn yn anghywir a'i fod yn codi cwestiynau difrifol, o gofio bod yr Aelodau, ar ôl clywed sylwadau'r Gweinidog, yna wedi pleidleisio ar ddeddfwriaeth sy'n creu goblygiadau mawr i nifer fawr o bobl ledled Cymru. Rwy'n gobeithio, felly, y gwnaiff Swyddfa'r Llywydd ystyried y mater hwn yn briodol—os nad nawr, efallai'n nes ymlaen.

Now, although the—[Interruption.] Do you wish me to stop or continue? Right. Although the Residential Landlords Association agreed with the general principles of the Bill at Stage 1, it has since, they say, made a marked departure from the original intentions of simplifying renting in Wales on the basis of the recommendations by the Law Commission. They said: 'We believe the Minister has lost sight of the original intentions and has reinvented the wheel, leaving landlords and tenants with a plethora of paperwork and additional regulation in the guise of reform.' And they said: 'Landlords have requested to personally meet the Minister no less than five times to discuss our concerns, and each time the Minister has refused to meet us.' They said: 'We're at the stage where the Minister simply isn't listening.'

Nawr, er bod y—[Torri ar draws.] A hoffech imi stopio ynteu parhau? lawn. Er bod y Gymdeithas Landlordiaid Preswyl wedi cytuno ag egwyddorion cyffredinol y Bil yng Nghyfnod 1, ers hynny, maent yn dweud, mae wedi gwro'n sylweddol oddi wrth y bwriadau gwreiddiol o symleiddio rhentu yng Nghymru ar sail yr argymhellion gan Gomisiwn y Gyfraith. Dywedasant: 'Rydym yn credu bod y Gweinidog wedi colli golwg ar y bwriadau gwreiddiol ac wedi gweddnewid y peth yn llwyr, gan adael tomen o waith papur a rheoleiddio ychwanegol i landlordiaid a thenantiaid dan gochl diwygio.' A dywedasant: 'Mae landlordiaid wedi gofyn am gael cyfarfod yn bersonol â'r Gweinidog ddim llai na phum gwaith i drafod ein pryderon, a bob tro mae'r Gweinidog wedi gwrthod cyfarfod â ni.' Dywedasant: 'Erbyn hyn, mae'n glir: nid yw'r Gweinidog yn gwranddo.'

A landlord, having heard last week's debate, e-mailed to say: 'I'm an extremely concerned private social landlord who has for years been trying to address the housing crisis amongst the most vulnerable members of our community. I watched the Plenary session and have come to the conclusion that whatever a member of the public has issues about, it will be swept up in the world of the Minister's wishes, irrespective of the damage that will unfold on the poor tenants that are seeking accommodation. A chance was missed yesterday of securing long-term tenancies for homeless and vulnerable tenants. I think the message you made yesterday was about security and fairness. I've always believed in working hard. If I can help someone less fortunate to have a roof over their heads, provided they don't break their contract, then they can stay as long as they want. What I don't understand is that the Minister said she'd met with Shelter Cymru, but you said she didn't meet the Residential Landlords Association Cymru. How can that be fair when bringing a Bill together?'

Cefais e-bost gan un landlord, ar ôl iddo glywed y ddadl yr wythnos diwethaf, yn dweud: 'Rwy'n landlord cymdeithasol preifat pryderus iawn sydd wedi bod, ers blynyddoedd, yn ceisio ymdrin â'r argyfwng tai ymhlith aelodau mwyaf agored i niwed ein cymuned. Gwyliais y Cyfarfod Llawn ac rwyf wedi dod i'r casgliad y bydd unrhyw bryder gan aelod o'r cyhoedd yn mynd ar goll ym myd dymuniadau'r Gweinidog, ni waeth pa niwed gaiff ei achosi i'r tenantiaid druan sy'n chwilio am lety. Collwyd cyfle ddoe i sicrhau tenantiaethau tymor hir i denantiaid digartref ac agored i niwed. Rwy'n meddwl bod y neges a roesocho ddoe yn ymwneud â diogelwch a thegwch. Rwyf wedi credu erioed mewn gweithio'n galed. Os gallaf helpu rhywun llai ffodus i gael to dros ei ben, cyn belled nad yw'n torri amodau ei gontract, caiff aros cyhyd ag yr hoffai. Yr hyn nad wyf yn ei ddeall yw bod y Gweinidog wedi dweud ei bod wedi cwrdd â Shelter Cymru, ond dywedasocho chi na wnaeth hi gwrrd â Chymdeithas Landlordiaid Preswyl Cymru. Sut y gall hynny fod yn deg wrth ddod â Bil at ei gilydd?'

The report from Dr Mark Lang, commissioned by the Federation of Small Businesses, evaluating the impact of Welsh housing legislation on the private rented sector said: 'The recent and proposed Welsh housing legislation has a laudable objective to drive up standards in the private rental market for those tenants who currently experience poor housing conditions. However, we have some major concerns about how effective the legislation will be at meeting its primary objective and the wider consequences it will have on the provision of private rented housing in Wales. Rather than target tenants most at risk, the recent legislation offers a very blunt instrument. Although we found that the majority of buy-to-let landlords will shift their investment to England where the regulation is significantly lighter, a significant minority of the respondents to our survey have indicated that some elements of the legislation may also lead to them reducing the number of properties they let. We can find little evidence that the Welsh Government has undertaken any serious research into the impact of its legislation on private rented sector accommodation. Without fully understanding the legislative impact, the Welsh Government risks undermining the overall availability of rented accommodation and, as we have seen, some local authority areas in Wales will be more greatly affected than others. In terms of the specific legislative changes, there is no guarantee that so-called rogue landlords—I prefer the term criminal landlords—will in any way comply with the legislation in any better way than they do in respect of the existing legislation.'

They say: 'The Housing (Wales) Act appears to be well-meaning legislation. In adopting a broad untargeted approach, however, the Welsh Government runs the risk of reducing the number of good landlords who choose to invest in private rental housing in Wales.' And, with regard to the Renting Homes (Wales) Bill, the report says: 'We strongly recommend the Welsh Government and National Assembly for Wales fully consult with the private rented sector in Wales during the passage of the Bill. The Welsh Government should undertake a full impact assessment of each element of the Bill before it is passed and introduced.'

Well, this Welsh Government clearly failed to do so because the sector have made that absolutely clear. In consequence, this Bill fails to tackle homelessness, fails to target criminal landlords, fails to give a voice to vulnerable tenants, and reduces protection for victims of anti-social behaviour. The bottom line is that this is further anti-business legislation from a reactionary Government. It's more bad law from a failed Government, and no responsible legislator could support it.

15:49

Jocelyn Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

It will come as no surprise when the Minister hears me say that I would have liked this Bill to have gone further, but I would like to thank her for her willingness to listen to the concerns of the opposition—well, some of the opposition—and to work with us during the passage of the Bill. I've never seen this Bill as an opportunity for political point-scoring, and I'm happy that, through working together, we've made this Bill stronger than when it was first introduced, and her approach is to be commended.

Dywedodd yr adroddiad gan Dr Mark Lang, a gomisiynwyd gan y Ffederasiwn Busnesau Bach, i werthuso effaith deddfwriaeth tai Cymru ar y sector rhentu preifat: 'Mae gan y ddeddfwriaeth tai Cymru arfaethedig ddiweddar amcan canmoladwy i wella safonau yn y farchnad rentu breifat i'r tenantiaid hynny sydd ar hyn o bryd yn profi amodau tai gwael. Fodd bynnag, mae gennym rai pryderon mawr ynghylch pa mor effeithiol fydd y ddeddfwriaeth o ran cyflawni ei phrif amcan a'i chanlyniadau ehangach ar y ddarpariaeth o dai rhentu preifat yng Nghymru. Yn hytrach na thargedu'r tenantiaid sydd fwyaf mewn perygl, mae'r ddeddfwriaeth ddiweddar yn cynnig offeryn di-awch iawn. Er inni ganfod y bydd y rhan fwyaf o landlordiaid prynu i osod yn symud eu buddsoddiad i Loegr lle mae'r rheoleiddio'n llawer llai llym, mae lleiafrif sylweddol o ymatebwyr ein harolwg wedi dynodi y gallai rhai o elfennau'r ddeddfwriaeth hefyd arwain at iddynt leihau nifer yr eiddo y maent yn ei osod. Ni allwn ddod o hyd i lawer o dystiolaeth bod Llywodraeth Cymru wedi ymgymryd ag unrhyw waith ymchwil difrifol ar effaith ei deddfwriaeth ar lety yn y sector rhentu preifat. Heb ddeall yr effaith deddfwriaethol yn llawn, mae Llywodraeth Cymru mewn perygl o danseilio faint o lety ar rent sydd ar gael yn gyffredinol ac, fel y gwelsom, bydd hyn yn cael mwy o effaith ar rai ardaloedd awdurdod lleol yng Nghymru nag ar eraill. O ran y newidiadau deddfwriaethol penodol, nid oes unrhyw sicrwydd y bydd landlordiaid diegwyddor—mae'n well gen i'r term landlordiaid troseddol—yn cydymffurfio'n well â'r ddeddfwriaeth mewn unrhyw ffordd nag y maent yn ei wneud â'r ddeddfwriaeth bresennol.'

Maent yn dweud: 'Mae'n ymddangos bod Deddf Tai (Cymru) yn ddeddfwriaeth sy'n llawn bwriadau da. Wrth fabwysiadu dull cyffredinol heb dargedu, fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru mewn perygl o leihau nifer y landlordiaid da sy'n dewis buddsoddi mewn tai rhentu preifat yng Nghymru.' Ac, o ran y Bil Rhentu Cartrefi (Cymru), mae'r adroddiad yn dweud: 'Rydym yn argymhell yn gryf bod Llywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru yn ymgynghori'n llawn â'r sector rhentu preifat yng Nghymru yn ystod hynt y Bil. Dylai Llywodraeth Cymru gynnal asesiad effaith llawn o bob elfen ar y Bil cyn iddo gael ei basio a'i gyflwyno.'

Wel, mae'r Llywodraeth Cymru hon yn amlwg wedi methu â gwneud hynny; mae'r sector wedi gwneud hynny'n gwbl glir. O ganlyniad, mae'r Bil hwn yn methu ag ymdrin â digartrefedd, yn methu â thargedu landlordiaid troseddol, yn methu â rhoi llais i denantiaid sy'n agored i niwed, ac yn lleihau amddiffyniad i ddiodeffwyr ymddygiad gwrthgymdeithasol. Yn y pen draw, mae hyn yn fwy o ddeddfwriaeth gwrth-fusnes gan Lywodraeth adweithiol. Mae'n fwy o gyfraith wael gan Lywodraeth sydd wedi methu, ac ni allai unrhyw ddeddfwr cyfrifol ei chefnogi.

Ni fydd yn syndod i'r Gweinidog fy nghlywed yn dweud y byddwn wedi hoffi i'r Bil hwn fynd ymhellach, ond hoffwn ddiolch iddi am ei pharodrwydd i wrando ar bryderon y gwrthbleidiau—wel, rhai o'r gwrthbleidiau—ac i weithio gyda ni yn ystod hynt y Bil. Nid wyf erioed wedi gweld y Bil hwn fel cyfle i sgorio pwyntiau gwleidyddol, ac rwy'n hapus ein bod, drwy weithio gyda'n gilydd, wedi gwneud y Bil hwn yn gryfach na phan gafodd ei gyflwyno gyntaf, ac mae ei dulliau i'w canmol.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

The removal of the provision to grant 16 and 17-year-olds the right to enter into occupation contracts is a huge relief. The evidence we received suggested that these provisions could have caused a number of unforeseen issues and seem to be solving a problem that doesn't really exist. A 16 and 17-year-old can have a tenancy held in trust by the local authority or a housing association, and this gives them the opportunity to have a home of their own without the risks of entering into a full legal contract. I'd like to thank the Minister, again, for her reconsideration of this point.

The reinstatement of the six-month moratorium on eviction, I think, is a huge win for tenants and for the tenants' organisations that pushed for this change. I believe that we need to take a fresh look at how we can deliver more long-term stable tenancies in the private rented sector, but removing the one protection from eviction that tenants currently have was not the right way to approach it.

I remain disappointed that my amendments on the sections of the Bill relating to anti-social behaviour were not accepted. I ask the Minister today if she'd commit to working with landlords, particularly housing associations, to support them as they adjust to the new law on anti-social behaviour, so that tenants do not lose out on the protection they deserve from disruptive and upsetting behaviour in their communities.

So, just to finish then, the renting homes Bill isn't perfect; it doesn't achieve everything we would've liked it to, but I'm sure each Assembly will have housing legislation and we've only just started on our housing legislation journey. The law never pleases everyone. If it did, you wouldn't need the law, would you? However, by simplifying and clarifying the law, we will make an improvement to the lives of tenants and landlords across the country and, therefore, I will be supporting the passing of this Bill at Stage 4. I commend the Minister on the way she's steered this Bill through our processes.

Mae cael gwared ar y ddarpariaeth i roi hawl i bobl ifanc 16 a 17 mlwydd oed i fynd i mewn i gontractau meddiannaeth yn rhyddhad enfawr. Roedd y dystiolaeth a gawsom yn awgrymu y gallai'r darpariaethau hyn fod wedi achosi nifer o faterion annisgwyl a'i bod yn ymddangos eu bod yn datrys problem nad yw'n bodoli mewn gwirionedd. Mae pobl ifanc 16 a 17 mlwydd oed yn gallu cael tenantiaeth wedi'i dal mewn ymddiriedolaeth gan yr awdurdod lleol neu gan gymdeithas dai, ac mae hyn yn rhoi cyfle iddynt gael eu cartref eu hunain heb y risg o ymrwymo i gontract cyfreithiol llawn. Hoffwn ddiolch i'r Gweinidog, unwaith eto, am ailystyried y pwynt hwn.

Mae adfer y moratoriwm chwe mis ar droi allan, rwy'n meddwl, yn fuddugoliaeth enfawr i denantiaid ac i'r sefydliadau tenantiaid a bwysodd am y newid hwn. Credaf fod angen inni edrych o'r newydd ar sut y gallwn ddarparu mwy o denantiaethau sefydlog hirdymor yn y sector rhentu preifat, ond nid cael gwared ar yr un amddiffyniad rhag troi allan sydd gan denantiaid ar hyn o bryd oedd y ffordd iawn o fynd ati.

Rwy'n dal i fod yn siomedig na chafodd fy ngwelliannau ar y rhannau o'r Bil sy'n ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol eu derbyn. Rwy'n gofyn i'r Gweinidog heddiw a fyddai hi'n ymrwymo i weithio gyda landlordiaid, yn enwedig cymdeithasau tai, i'w cefnogi wrth iddynt addasu i'r gyfraith newydd ar ymddygiad gwrthgymdeithasol, fel nad yw tenantiaid yn colli'r diogelwch y maent yn ei haeddu rhag ymddygiad aflonyddgar ac annifyr yn eu cymunedau.

	<p>The sixth group of amendments relates to cautions. The lead amendment in this group is amendment 2. I call on the Minister to move and speak to the lead amendment and the other amendments in the group.</p>	<p>Mae'r chweched grŵp o welliannau yn ymwneud â rhybuddion. Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 2. Galwaf ar y Gweinidog i gynneg y prif welliant a'r gwelliannau eraill yn y grŵp a siarad amdanynt.</p>
	<p><i>Cynigiwyd gwelliant 2 (Mark Drakeford).</i></p>	<p><i>Amendment 2 (Mark Drakeford) moved.</i></p>
16:50	Mark Drakeford Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Diolch, Ddirprwy Lywydd. At Stage 2, I brought forward amendments to what is now section 14 of the Bill, which sets out the grounds upon which the registration of a service provider could be cancelled. These amendments ensured that the receipt of cautions, as well as the commission of relevant offences committed in connection with a regulated service, was included in those grounds. For this purpose, a definition of the word 'caution' was inserted into section 14(3).</p>	<p>Diolch, Ddirprwy Lywydd. Yng Nghyfnod 2, cyflwynais welliannau i'r hyn sydd bellach yn adran 14 y Bil, sy'n nodi ar ba sail y gellid diddymu cofrestriad darparwr gwasanaeth. Roedd y diwygiadau hyn yn sicrhau bod derbyn rhybuddion, yn ogystal â chyflawni troseddau perthnasol mewn cysylltiad â gwasanaeth a reoleiddir, wedi'u cynnwys yn y seiliau hynny. At y diben hwn, rhoddwyd diffiniad o'r gair 'rhybudd' yn adran 14(3).</p>
	<p>It is also the case that the commission of offences and the receipt of cautions by persons seeking to be registered as social care workers or practising as social care workers is evidence that can be taken into account by Social Care Wales when making decisions about whether such a person's fitness is impaired. But no definition of the word 'caution' is yet provided for the purpose of Parts 4 to 8 of the Bill. The result is that the approach taken in respect of cautions is not yet uniform across the entire Bill. Amendments 2 and 36 tabled in my name rectify that anomaly. The definition in section 14 is removed and replaced by a definition added to section 188 that applies to the whole Bill. I ask Members to support all amendments in this group in order to secure definitional uniformity across the Bill.</p>	<p>Mae hefyd yn wir bod troseddau a gyflawnwyd a rhybuddion a dderbyniwyd gan bersonau sy'n ceisio cael eu cofrestru fel gweithwyr gofal cymdeithasol neu weithio fel gweithwyr gofal cymdeithasol yn dystiolaeth y gall Gofal Cymdeithasol Cymru ei hystyried wrth wneud penderfyniadau ynghylch pa un a yw addasrwydd person o'r fath yn ddifffygol. Ond nid oes diffiniad o'r gair 'rhybudd' wedi'i ddarparu eto at ddiben Rhannau 4 i 8 y Bil. Y canlyniad yw nad yw'r dull gweithredu a ddefnyddir ar gyfer rhybuddion yn unffurf ar draws y Bil cyfan hyd hyn. Mae gwelliannau 2 a 36 a gyflwynwyd yn fy enw i yn unioni'r anghysondeb hwnnw. Mae'r diffiniad yn adran 14 wedi'i ddileu a'i ddisodli gan ddiffiniad sydd wedi'i ychwanegu at adran 188 ac sy'n berthnasol i'r Bil cyfan. Gofynnaf i'r Aelodau gefnogi'r holl welliannau yn y grŵp hwn er mwyn sicrhau diffiniadau unffurf drwy'r Bil cyfan.</p>
16:52	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Lindsay Whittle.</p>	<p>Lindsay Whittle.</p>
16:52	Lindsay Whittle Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>I support the Minister.</p>	<p>Rwy'n cefnogi'r Gweinidog.</p>

- 16:52 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- No other speakers then. The question is that amendment 2 be agreed. Does any Member object? Then amendment 2 is agreed. Dim mwy o siaradwyr felly. Y cwestiwn yw bod gwelliant 2 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Derbynnir gwelliant 2 felly.
- Derbyniwyd gwelliant 2 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.* *Amendment 2 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*
-
- 16:52 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, amendment 3. Weinidog, gwelliant 3.
- Cynigiwyd gwelliant 3 (Mark Drakeford).* *Amendment 3 (Mark Drakeford) moved.*
-
- 16:52 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Formally. Yn ffurfiol.
-
- 16:52 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- The question is that amendment 3 be agreed. Does any Member object? Then amendment 3 is agreed. Y cwestiwn yw bod gwelliant 3 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Derbynnir gwelliant 3 felly.
- Derbyniwyd gwelliant 3 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.* *Amendment 3 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*
-
- Grŵp 7: Gwarhardd Contractau Dim Oriau (Gwelliannau 95, 99, 100 a 101)** **Group 7: Prohibition on Zero Hours Contracts (Amendments 95, 99, 100 and 101)**
-
- 16:52 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- The seventh group of amendments relates to prohibition on zero-hours contracts. The lead amendment in this group is amendment 95. I call on Lindsay Whittle to move and speak to the lead amendment and the other amendments in the group. Mae'r seithfed grŵp o welliannau yn ymwneud â gwahardd contractau dim oriau. Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 95. Galwaf ar Lindsay Whittle i gynnig y prif welliant a'r gwelliannau eraill yn y grŵp a siarad amdanynt.
- Cynigiwyd gwelliant 95 (Lindsay Whittle).* *Amendment 95 (Lindsay Whittle) moved.*
-
- 16:52 **Lindsay Whittle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you, Dirprwy Lywydd. Well, I guess this may be the biggie. In fact, I don't guess about it—it is the biggie. These amendments are here to prohibit the use of zero-hours contracts in social care. These amendments seek to create a high standard of morale among staff, which, in turn, will lead to a high quality of care provided. It seeks to avoid a situation in which a care worker is not available to provide a service—with whom a service user has established a positive relationship. Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd. Wel, rwy'n dyfalu y gallai hwn fod yr un mawr. A dweud y gwir, nid wyf yn dyfalu am y peth—hwn yw'r un mawr. Mae'r gwelliannau hyn yma i wahardd y defnydd o gontractau dim oriau ym maes gofal cymdeithasol. Mae'r gwelliannau hyn yn ceisio creu safon uchel o forâl ymysg staff, a fydd, yn ei dro, yn arwain at ansawdd uchel y gofal a ddarperir. Mae'n ceisio osgoi sefyllfa lle na fydd gweithiwr gofal ar gael i ddarparu gwasanaeth—lle mae defnyddiwr gwasanaeth wedi sefydlu perthynas gadarnhaol â nhw.

We know the Flynn report called for the Government, in the social care market, to improve on pay and conditions. Zero-hours contracts clearly fall into the category of poor pay and conditions. It's important to point out that the same principle also applies to contracts for services. That is, a service provider cannot use a contract for service that has the same effect as a zero-hours employment contract. The amendment creates an offence of using zero-hours contracts, punishable by a fine to be determined by a court, having regard to the circumstances of the case. The amendment also allows Welsh Ministers to make regulations to vary the types of contracts that are prohibited.

But the most important reason this amendment is here—the most important reason—is that it will improve the conditions, not only of the workers, but of the people who are receiving the service. The people who are receiving the service should be receiving the service from people who are happiest in providing that service. It's not simply about getting rid of zero-hours contracts, it's about turning caring into a proper career. And that was the purpose of my amendments. I don't like zero-hours contracts, but I do adore good care for the people we represent and that's what this amendment is about. By raising the standards, by ensuring that that person who walks through your door is a happy worker, then you've got a good worker, and that's what this amendment will do, in my opinion. So, I'd urge you all to support these particular amendments. Thank you.

Rydym yn gwybod bod adroddiad Flynn yn galw ar y Llywodraeth, yn y farchnad gofal cymdeithasol, i wella cyflogau ac amodau gwaith. Mae contractau dim oriau yn amlwg yn perthyn i gategori cyflogau ac amodau gwael. Mae'n bwysig nodi bod yr un egwyddor yn berthnasol hefyd i gontractau am wasanaethau. Hynny yw, ni all darparwr gwasanaethau ddefnyddio contract ar gyfer gwasanaeth sy'n cael yr un effaith â chontract cyflogaeth dim oriau. Mae'r gwelliant yn ei gwneud hi'n drosedd i ddefnyddio contractau dim oriau, yn dwyn cosb o ddirwy i'w benderfynu gan lys, gan ystyried amgylchiadau'r achos. Mae'r gwelliant hefyd yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i amrywio'r mathau o gontractau sy'n cael eu gwahardd.

Ond y rheswm pwysicaf y mae'r gwelliant hwn yma—y rheswm pwysicaf—yw y bydd yn gwella'r amodau, nid yn unig i'r gweithwyr, ond i'r bobl sy'n derbyn y gwasanaeth. Dylai'r bobl sy'n derbyn y gwasanaeth fod yn derbyn y gwasanaeth gan bobl sydd hapusaf yn darparu'r gwasanaeth hwnnw. Nid yw'n ymwneud â chael gwared ar gontractau dim oriau yn unig, mae'n ymwneud â throï gofalu yn yrfa briodol. A dyna oedd diben fy ngwelliannau. Dydw i ddim yn hoffi contractau dim oriau, ond rwy'n gwirioni ar ofal da ar gyfer y bobl yr ydym yn eu cynrychioli, ac mae'r gwelliant hwn yn ymwneud â hynny. Drwy godi'r safonau, drwy sicrhau bod y person sy'n cerdded drwy'r drws yn weithiwr hapus, yna mae gennyhych weithiwr da, a dyna beth fydd y gwelliant hwn yn ei wneud, yn fy marn i. Felly, byddwn i'n eich annog chi i gyd i gefnogi'r gwelliannau penodol hyn. Diolch.

16:55

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'm not quite sure whether this is the biggie, or whether it's bigger than the 15-minute care calls, but I think this is a fundamental element, once again, in getting quality care delivered in this sector. Only this week, we have seen a report—yes, whilst it relates to England, I think the principles underlying it are relevant to us. Only yesterday, a report predicted a huge shortfall—a huge shortfall—in the number of people who will come forward to take up positions as domiciliary care workers and care workers in England, and the consequences that will have on the care industry. That report had some interesting things to say about Theresa May's immigration policy, but it also said one of the reasons why we're facing that shortage is issues around morale and staff terms and conditions, which are driving people out of the sector and failing to attract people in. The report yesterday called on the English Government to take big steps to improve the status and the terms and conditions of this particular part of our workforce.

Dydw i ddim yn hollol siŵr ai hwn yw'r un mawr, neu a yw'n fwy na'r galwadau gofal 15 munud, ond rwy'n credu bod hon yn elfen sylfaenol, unwaith eto, wrth sicrhau bod gofal o ansawdd yn cael ei ddarparu yn y sector hwn. Dim ond yr wythnos hon, gwelsom adroddiad—ac ydy, er ei fod yn ymwneud â Lloegr, rwy'n meddwl bod yr egwyddorion sy'n sail iddo yn berthnasol i ni. Ddoe ddiwethaf, rhagwelwyd mewn un adroddiad ddiffyg—diffyg enfawr—yn nifer y bobl a fydd yn ymgymryd â swyddi fel gweithwyr gofal cartref a gweithwyr gofal yn Lloegr, a'r canlyniadau fydd hynny'n ei gael ar y diwydiant gofal. Roedd gan yr adroddiad hwnnw rai pethau diddorol i'w dweud am bolisi mewnfudo Theresa May, ond dywedodd hefyd mai un o'r rhesymau pam yr ydym yn wynebu'r prinder hwnnw yw materion sy'n ymwneud â morâl a thelerau ac amodau staff, sy'n gyrru pobl allan o'r sector ac yn methu â denu pobl i mewn iddo. Roedd yr adroddiad ddoe yn galw ar Lywodraeth Lloegr i gymryd camau mawr i wella statws a thelerau ac amodau y rhan benodol hon o'n gweithlu ni.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Are zero-hours contracts an absolute necessity for those running these kinds of businesses? No, because we are aware of companies here in Wales that are operating care companies and domiciliary care contracts without the use of zero-hours contracts. It is not an inevitable part of the industry; it can be done differently. What we know about them is that they do not provide an incentive for people to stay within the industry. If they can simply walk out and get more secure hours stacking shelves at a local supermarket, then, often, people do just that. It drives people out of the industry and it prevents the people who we want to come into the industry, with the right skills, the right temperament and the right empathy for delivering care—it keeps them out. The impact, then, is on the client who receives the services.

We know that one of the issues that arises most for people in terms of quality of care is high turnover of staff. I'm aware in my own constituency of people who have had, on a daily basis, different sets of people coming to their home to carry out the most intimate of tasks for them. How would any of us feel if we didn't know tonight, tomorrow or the next day who was going to come to our home and who we would be entrusting our bathing or our toileting to? I think if we put ourselves or our own relatives in that context, we would all strive to do something better. I think this is a perfect opportunity to say that, in this industry, zero-hours contracts are not appropriate and it is one step—only one step—of a whole raft of measures that we can take to raise the status and profile of the workforce in this most important of areas.

16:58

Mark Drakeford [Bywgraffiad Biography](#)

We've heard some important things said in this debate about the importance of the quality of care, about the status of the social care workforce and about the need to eliminate exploitation, which comes, sometimes, with zero-hours contracts. But, let's be clear about the proposition that is in front of the National Assembly. This amendment seeks an outright ban—an outright ban—on the use of zero-hours contracts in the provision of regulated services in social care. I don't think that that is a position that we ought to support. It's not a position supported by responsible employers, it's not a position supported by senior commissioners and it's not a position supported by the trade union movement either—an absolute and blanket ban is not the position taken by the TUC, for example. It says that it wants to see an end to the abuse of the zero-hours contracts by bad employers, not their elimination altogether.

Let me make three further points about these amendments. The amendment as drafted, I believe, would not achieve its aim, even if it were to be agreed. It would eliminate zero-hours contracts, but it would allow one-hour contracts; indeed, it would allow one-second contracts. It simply wouldn't do what it purports to do.

A yw contractau dim oriau yn gwbl angenrheidiol ar gyfer y rhai sy'n rhedeg y mathau hyn o fusnesau? Na, oherwydd rydym yn ymwybodol o gwmnïau yma yng Nghymru sy'n gweithredu cwmnïau gofal a chontractau gofal cartref heb ddefnyddio contractau dim oriau. Nid yw'n rhan anochel o'r diwydiant; mae modd gwneud pethau'n wahanol. Yr hyn a wyddom amdanynt yw nad ydynt yn gymhellant i bobl i aros o fewn y diwydiant. Os oes modd iddynt gerdded allan a chael oriau mwy diogel yn stacio silffoedd mewn archfarchnad leol, yna, yn aml, mae pobl yn gwneud hynny. Mae'n gyrru pobl allan o'r diwydiant ac mae'n rhwystro'r bobl yr ydym yn awyddus iddynt ddod i mewn i'r diwydiant, gyda'r sgiliau iawn, yr anian iawn a'r empathi iawn ar gyfer cyflwyno gofal—mae'n eu cadw nhw allan. Mae'r effaith, felly, ar y cleient sy'n derbyn y gwasanaethau.

Fe wyddom mai un o'r materion sy'n achosi'r pryder mwyaf i bobl o ran ansawdd gofal yw trosiant staff uchel. Yn fy etholaeth fy hun rwy'n ymwybodol o rai sydd wedi cael gwahanol bobl yn dod i'w cartref yn ddyddiol i gyflawni'r tasgau mwyaf personol drostynt. Sut y byddai unrhyw un ohonom ni'n teimlo pe na fyddem yn gwybod heno, yfory neu'r diwrnod wedyn pwy oedd yn mynd i ddod i'n cartref a phwy y byddem yn ymddiried ynddynt o ran ein gofynion ymolchi ac ymwisgo? Rwy'n credu pe byddem yn rhoi ein hunain neu ein perthnasau yn y cyd-destun hwnnw, y byddem i gyd yn ymdrechu i wneud rhywbeth gwell. Rwy'n credu bod hwn yn gyfle perffaith i ddweud, yn y diwydiant hwn, nad yw contractau dim oriau yn briodol, ac mai un cam ydyw—un cam yn unig—o lu o fesurau y gallwn eu cymryd i godi statws a phroffil y gweithlu yn y maes pwysicaf hwn.

Rydym wedi clywed rhai pethau pwysig yn cael eu dweud yn y ddadl hon am bwysigrwydd ansawdd y gofal, am statws y gweithlu gofal cymdeithasol ac am yr angen i gael gwared ar ecsbloetio, a ddaw, weithiau, gyda chontractau dim oriau. Ond, gadewch i ni fod yn glir ynghylch y cynnig sydd gerbron y Cynulliad Cenedlaethol. Mae'r gwelliant hwn yn ceisio gwaharddiad llwyr—gwaharddiad llwyr—ar y defnydd o gontractau dim oriau wrth ddarparu gwasanaethau rheoledig ym maes gofal cymdeithasol. Nid wyf yn credu bod honno'n sefyllfa y dylem ei chefnogi. Nid yw'n sefyllfa a gefnogir gan gyflogwyr cyfrifol, nid yw'n sefyllfa a gefnogir gan uwch gomisiynwyr ac nid yw'n sefyllfa a gefnogir gan y mudiad undebau llafur chwaith—nid gwaharddiad absoliwt a chyffredinol yw'r sefyllfa a gymerir gan y TUC, er enghraifft. Mae'n dweud ei fod am weld diwedd ar gam-drin y contractau dim oriau gan gyflogwyr gwael, nid eu dileu yn gyfan gwbl.

Gadewch i mi wneud tri phwynt pellach am y gwelliannau hyn. Ni fyddai'r gwelliant fel y'i drafftiiwyd, yn fy marn i, yn cyflawni ei nod, hyd yn oed pe bai'n cael ei gytuno. Byddai'n dileu contractau dim oriau, ond byddai'n caniatáu contractau un awr; yn wir, byddai'n caniatáu contractau un eiliad. Yn syml, ni fyddai'n gwneud yr hyn y mae'n honni ei wneud.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Let me say—and this is the most important thing—this is not the end of this debate. I made it clear at Stage 2 that if concerns about the impact of zero-hours contracts on quality of care are borne out in the further research that I've commissioned from Manchester Metropolitan University, then we will move rapidly to bring forward policy options through a consultation that we will hold in January next year. We'll move to it very rapidly. We'll move to it for the reasons that Kirsty Williams outlined, which is the connection between a zero-hours contract and the quality of care provided for the individual. If that connection is established further, through that additional work, then I will use the regulation-making powers in section 26 of the Bill to impose requirements on service providers so that zero-hours contracts can be used in the sector in clearly defined circumstances, where that impact on quality of care is brought under regulatory control.

We have to proceed in this way, Dirprwy Lywydd, I believe, for a third reason. That is because, no matter how strongly we may feel, ourselves, about poor pay and conditions—and there's nobody on this side of this Assembly who does not feel strongly about that—we do not have legislative competence to make provision about employment law for its own sake. Provision of Assembly Acts must relate to a devolved subject matter, in this case the most likely being social welfare. Therefore, any proposals relating to social care workers' terms and conditions must have the clear intention of improving social welfare, which means that we have to have a properly evidenced relationship between zero-hours contracts and the quality of social care provision.

If the evidence from the Manchester Metropolitan University study adds to the research already carried out by the Minister for Public Services, and if it adds to the evidence already provided by the chief inspector of CSSIW, then we will be on a proper and competent basis to do the things that we on this side of the Assembly are very determined to do in relation to zero-hours contracts in this sector. To act otherwise really would make this part of the Bill a one-way ticket to the Supreme Court. For all those reasons I ask members of the Assembly not to support the amendments in this group this afternoon.

Gadewch i mi ddweud—a dyma'r peth pwysicaf—nad dyma ddiwedd y ddadl hon. Dywedais yn glir yng Nghyfnod 2 os yw pryderon am effaith contractau dim oriau ar ansawdd y gofal yn cael eu cadarnhau yn yr ymchwil bellach yr wyf wedi'i chomisiynu gan Brifysgol Fetropolitan Manceinion, yna byddwn yn symud yn gyflym i gyflwyno opsiynau polisi drwy ymgynghoriad y byddwn yn ei gynnal ym mis Ionawr y flwyddyn nesaf. Byddwn yn symud iddo yn gyflym iawn. Byddwn yn symud iddo am y rhesymau a amlinellwyd gan Kirsty Williams, sef y cysylltiad rhwng contract dim oriau ac ansawdd y gofal a ddarperir ar gyfer yr unigolyn. Os yw'r cysylltiad hwnnw'n cael ei sefydlu ymhellach, drwy'r gwaith ychwanegol hwnnw, yna byddaf yn defnyddio'r pwerau gwneud rheoliadau yn adran 26 o'r Bil i osod gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau fel y gall y sector ddefnyddio contractau dim oriau dan amgylchiadau wedi'u diffinio'n glir, lle mae'r effaith ar ansawdd y gofal yn cael ei dwyn o dan reolaeth reoleiddiol.

Mae'n rhaid i ni fynd ymlaen fel hyn, Ddirprwy Lywydd, rwy'n credu, am drydydd reswm. Mae hynny oherwydd, waeth pa mor gryf yr ydym yn teimlo, ein hunain, am gyflog ac amodau gwael—a does neb ar yr ochr hon o'r Cynulliad hwn nad yw'n teimlo'n gryf am hynny—nid oes gennym gymhwysedd deddfwriaethol i wneud darpariaeth ynghylch cyfraith cyflogaeth er ei mwyn ei hun. Rhaid i ddarparu Deddfau'r Cynulliad ymwneud â phwnc a ddatganolwyd, yn yr achos hwn y mwyaf tebygol yw lles cymdeithasol. Felly, rhaid i unrhyw gynigion sy'n ymwneud â thelerau ac amodau gweithwyr gofal cymdeithasol gael y bwriad clir o wella lles cymdeithasol, sy'n golygu bod yn rhaid i ni gael perthynas gyda thystiolaeth briodol rhwng contractau dim oriau ac ansawdd y ddarpariaeth gofal cymdeithasol.

Os yw'r dystiolaeth o astudiaeth Prifysgol Fetropolitan Manceinion yn ychwanegu at y gwaith ymchwil a wnaed eisoes gan y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus, ac os bydd yn ychwanegu at y dystiolaeth a ddarparwyd eisoes gan brif arolygydd AGGCC, yna byddwn ar sail briodol a chymwys i wneud y pethau yr ydym ni ar yr ochr hon i'r Cynulliad yn benderfynol iawn i'w gwneud mewn perthynas â chontractau dim oriau yn y sector hwn. Byddai gweithredu fel arall mewn gwirionedd yn gwneud y rhan hon o'r Bil yn docyn un ffordd i'r Goruchaf Lys. Am yr holl resymau hyn rwy'n gofyn i aelodau'r Cynulliad beidio â chefnogi'r gwelliannau yn y grŵp hwn y prynhawn yma.

17:03

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Lindsay Whittle to reply.

Lindsay Whittle i ymateb.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

17:03

Lindsay Whittle [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Well, I have to say I'm disappointed now. I'm going through a whole raft of emotions here today. I'm disappointed because, whilst I can accept that we do not have any jurisdiction over employment law, I believe it is within the competence of the Welsh Government since the amendment relates specifically to sustaining a high standard of social care. That we do have competence in, and that's the important point I thought I was making, but perhaps I hadn't made it that clear. But I do so again; it is about sustaining a high standard of social care. It is avoiding situations, as Kirsty Williams so rightly said, in which care workers are not available to provide a service with whom a service user has established a positive relationship. Without my amendment, there will be no assured continuity of staff and provision of care and support services. So, I believe we can do it.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Wel, rhaid i mi ddweud fy mod yn siomedig yn awr. Rydw i'n mynd trwy lu o emosynau yma heddiw. Rwy'n siomedig oherwydd, er fy mod yn gallu derbyn nad oes gennym unrhyw awdurdodaeth dros gyfraith cyflogaeth, rwy'n credu ei fod o fewn cymhwysedd Llywodraeth Cymru gan fod y gwelliant yn ymwneud yn benodol â chynnal safon uchel o ofal cymdeithasol. Mae gennym gymhwysedd yn hynny o beth, a dyna'r pwynt pwysig rwy'n meddwl yr oeddwn yn ei wneud, ond efallai nad oeddwn wedi gwneud hynny'n glir. Ond rwy'n gwneud hynny eto; mae'n ymwneud â chynnal safon uchel o ofal cymdeithasol. Mae'n osgoi sefyllfaoedd, fel y dywedodd Kirsty Williams mor gywir, lle nad yw gweithwyr gofal ar gael i ddarparu gwasanaeth y mae defnyddiwr gwasanaeth wedi sefydlu perthynas gadarnhaol ag ef. Heb fy ngwelliant i, ni fydd unrhyw barhad sicr o ran staff a darpariaeth gwasanaethau gofal a chymorth. Felly, rwy'n credu y gallwn ei wneud.

I will give the Minister a cautious welcome to his offer to revisit this in January. I'm told that a famous American actor in a film I've never seen said, 'I'll be back'. Well, we will be back in January to watch very carefully what you are doing, Minister. I mean that most politely, if I can.

Byddaf yn rhoi croeso gofalus i'r Gweinidog i'w gynnig i edrych eto ar hyn ym mis Ionawr. Dywedir wrthyf fod actor Americanaidd enwog mewn ffilm nad ydw i erioed wedi'i gweld wedi dweud, 'Byddaf yn ôl'. Wel, byddwn yn ôl ym mis Ionawr i edrych yn ofalus iawn yr hyn yr ydych yn ei wneud, Weinidog. Rwy'n meddwl hynny yn y ffordd fwyaf cwrtais, os gallaf.

17:04

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

If amendment 95 is not agreed, amendments 99, 100 and 101 fall. The question is that amendment 95 be agreed to. Does any Member object? [Objection.] We will have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 14, there voted against 38. Therefore, the amendment falls.

Os nad yw gwelliant 95 yn cael ei dderbyn, bydd gwelliannau 99, 100 a 101 yn methu. Y cwestiwn yw bod gwelliant 95 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Fe gawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 14 o blaid, pleidleisiodd 38 yn erbyn. Felly, mae'r gwelliant yn methu.

Gwrthodwyd gwelliant 95: O blaid 14, Yn erbyn 38, Ymatal 0.

Amendment 95 not agreed: For 14, Against 38, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 95](#)

[Result of the vote on amendment 95](#)

Methodd gwelliannau 99, 100 a 101.

Amendments 99, 100 and 101 fell.

Grŵp 8: Chwythu'r Chwiban (Gwelliannau 96 a 98)

Group 8: Whistleblowing (Amendments 96 and 98)

17:05

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The eighth group of amendments relate to whistleblowing. The lead amendment in this group is amendment 96. I call on Lindsay Whittle to move and speak to the lead amendment and the other amendment in the group.

Mae'r wythfed grŵp o welliannau yn ymwneud â chwythu'r chwiban. Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 96. Galwaf ar Lindsay Whittle i gynnig a siarad am y prif welliant a'r gwelliant arall yn y grŵp.

Cynigiwyd gwelliant 96 (Lindsay Whittle).

Amendment 96 (Lindsay Whittle) moved.

Lindsay Whittle [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch, Ddirprwy Lywydd. These amendments are very simple. They are to insert requirements on providers to have whistleblowing policies in place. I believe it's important that employees feel able to raise concerns about poor standards of care without fear of reprisal. I know, Minister, that you are probably going to argue that we have other pieces of legislation that are quite adequate. But I contend, with respect, that they are not. Evidence for this is the fact that many poor standards in care settings have gone on without whistleblowing. There is never, ever any harm in reinforcing the point that the law will always protect whistleblowers.

It is, in my opinion, a fair and realistic connection between whistleblowing and improving social care. There have been too many instances where concerned staff have thought it unwise to air their concerns because of feared reprisals and even the loss of employment, and perhaps never, in fact, obtaining employment again unless they move far away. The policies and procedures must make it clear that the welfare and continued employment of staff who bring those concerns to the attention of managers and service providers will be safeguarded. Without such policies and procedures, the service provider will, in effect, not be fully implementing a commitment to continually monitor and seek to improve the standard of care provided.

We must never again have stories in our media where people have been mistreated to the point of downright abuse, and indeed even sadly death, without someone, somewhere taking a little bit of responsibility and saying, 'No, I've had enough and I am going to whistleblow'. That's what these amendments, I hope, will do, so that people will never be afraid to stand up—never, ever be afraid to stand up—for what is absolutely right. We have heard much emotion in this Chamber earlier on about standing up against terrorism. What many people have suffered in some homes, I think, is as bad as terrorism. It's as bad as terrorism for some families who have watched their loved ones waste away in some of these places. It's not acceptable to me, and I'm sure it is not acceptable to absolutely everyone in this room. I formally move.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Mae'r gwelliannau hyn yn rhai syml iawn. Maent yn rhoi gofynion ar ddarparwyr i gael polisiau chwythu'r chwiban ar waith. Rwy'n credu ei fod yn bwysig bod gweithwyr yn teimlo y gallant godi pryderon am safonau gofal gwael heb ofn dial. Rwy'n gwybod, Weinidog, eich bod yn ôl pob tebyg yn mynd i ddadlau bod gennym ddarnau eraill o ddeddfwriaeth sy'n eithaf digonol. Ond rwy'n dadlau, gyda pharch, nad ydynt. Mae'r ffaith bod llawer o safonau gwael mewn lleoliadau gofal wedi digwydd heb chwythu'r chwiban yn dystiolaeth o hyn. Nid oes byth, byth unrhyw niwed mewn atgyfnerthu'r pwynt y bydd y gyfraith bob amser yn diogelu chwythwyr chwiban.

Mae hyn, yn fy marn i, yn gysylltiad teg a realistig rhwng chwythu'r chwiban a gwella gofal cymdeithasol. Cafwyd gormod o achosion lle mae staff pryderus wedi meddwl ei bod yn annoeth i leisio eu pryderon oherwydd ofn dial a hyd yn oed golli swyddi, ac o bosibl, mewn gwirionedd, byth yn llwyddo i gael gwaith eto oni bai eu bod yn symud ymhell i ffwrdd. Mae'n rhaid i'r polisiau a'r gweithdrefnau ei gwneud yn glir y bydd lles a chyflogaeth barhaus aelodau o staff sy'n dod â'r pryderon hynny i sylw rheolwyr a darparwyr gwasanaeth yn cael eu diogelu. Heb bolisiau a gweithdrefnau o'r fath, ni fydd y darparwr gwasanaeth, i bob pwrpas, yn gweithredu ymrwymiad llawn i fonitro a cheisio gwella safon y gofal a ddarperir yn barhaus.

Rhaid i ni byth eto gael storïau yn y cyfryngau am bobl sydd wedi cael eu cam-drin at y pwynt o gael eu difrio llwyr, ac yn anffodus hyd yn oed farwolaeth, heb i rywun yn rhywle gymryd ychydig o gyfrifoldeb a dweud, 'Na, dwi wedi cael digon ac rwy'n mynd i chwythu'r chwiban'. Dyna beth fydd y gwelliannau hyn, gobeithio, yn ei wneud, fel na fydd pobl byth yn ofni sefyll i fyny—byth, byth yn ofni sefyll i fyny—dros yr hyn sy'n gwbl gywir. Rydym wedi clywed llawer o emosiwn yn y Siambr hon yn gynharach am sefyll i fyny yn erbyn terfysgaeth. Mae'r hyn y mae llawer o bobl wedi'i ddiodeff mewn rhai cartrefi, rwy'n meddwl, yr un mor ddrwg â therfysgaeth. Mae mor ddrwg â therfysgaeth i rai teuluoedd sydd wedi gweld eu hanwyliaid yn nychu yn rhai o'r lleoedd hyn. Nid yw'n dderbyniol i mi, ac rwy'n siŵr nad yw'n dderbyniol i bawb yn yr ystafell hon. Cynigiad yn ffurfiol.

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I have no other speakers before I call the Minister. Minister.

Nid oes gennyf unrhyw siaradwyr eraill cyn i mi alw ar y Gweinidog. Weinidog.

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch yn fawr, Ddirprwy Lywydd. The issue of whistleblowing has been discussed at all stages through the scrutiny of this Bill. I agree with a great deal of what was said by the proposing Member on the subject of whistleblowing itself. The ability of workers and others to raise their concerns without fear of recrimination is essential, if we are to address poor care and—when it happens—neglect and abuse. Lindsay Whittle is right to say that I will point to the fact that social care workers are already protected if they whistleblow by the Employment Rights Act 1996. It's not my argument this afternoon, however, that that is adequate by itself to do the things that these amendments seek to do. The difference between us is not whether the law should be strengthened, but the best way to do that.

I have indicated throughout the progress of this Bill that the Government intends to set out in regulations clear requirements on providers to have whistleblowing and concern-raising policies and practices in place. Dirprwy Lywydd, I will go further than that and use the regulation-making power in section 27 of the Bill to place statutory duties on responsible individuals, so that both service providers and responsible individuals have duties to ensure that social care workers are not simply given the opportunity to express their concern, but are supported directly in order to do so. This is consistent with the approach taken in the Bill, that all the key duties that are to be placed on service providers and responsible individuals will be achieved coherently via a comprehensive set of the regulations under section 26 and 27.

It's further my intention that the detail of what is required in relation to such policies and procedures will be fleshed out in guidance issued under section 28 of the Bill. This will enable a detailed and thorough set of requirements, setting out exactly what should be included in such policies and how I expect providers and responsible individuals to show that they are complying with the policies that they will have set out. Doing it that way will give us flexibility to update and refresh the guidance as and when required. It is therefore because of the ways in which we are already committed to taking forward this agenda that I ask Members to reject these amendments. They do no more than is already our clear intention. I think the Bill already provides the best way of doing it, and that's the basis on which I ask Members to oppose these amendments.

Diolch yn fawr, Ddirprwy Lywydd. Mae'r mater o chwythu'r chwiban wedi ei drafod yn ystod pob cam drwy graffu ar y Bil hwn. Rwy'n cytuno â llawer iawn o'r hyn a ddywedwyd gan yr Aelod sy'n cynnig ar y pwnc o chwythu'r chwiban ei hun. Mae gallu gweithwyr a phobl eraill i fynegi eu pryderon heb ofni gwrthgyhuddiad yn hanfodol, os ydym i fynd i'r afael â gofal gwael a—phan fydd yn digwydd—esgeulustod a chamdriniaeth. Mae Lindsay Whittle yn iawn i ddweud y byddaf yn cyfeirio at y ffaith bod gweithwyr gofal cymdeithasol eisoes yn cael eu diogelu os ydynt yn chwythu'r chwiban gan Ddeddf Hawliau Cyflogaeth 1996. Nid fy nadl y prynhawn yma, fodd bynnag, yw bod hynny'n ddigonol ar ei ben ei hun i wneud y pethau y mae'r gwelliannau hyn yn ceisio eu gwneud. Y gwahaniaeth rhyngom yw nid a ddylai'r gyfraith gael ei chryfhau, ond y ffordd orau o wneud hynny.

Rwyf wedi nodi drwy gydol datblygiad y Bil hwn bod y Llywodraeth yn bwriadu nodi gofynion clir mewn rheoliadau ar ddarparwyr i gael polisiau ac arferion chwythu'r chwiban a chodi pryderon ar waith. Ddirprwy Lywydd, byddaf yn mynd ymhellach na hynny ac yn defnyddio'r pŵer i wneud rheoliadau yn adran 27 o'r Bil i osod dyletswyddau statudol ar unigolion cyfrifol, fel bod gan ddarparwyr gwasanaeth ac unigolion cyfrifol ddyletswyddau i sicrhau bod gweithwyr gofal cymdeithasol nid yn unig yn cael y cyfle i fynegi eu pryder, ond yn cael eu cefnogi yn uniongyrchol er mwyn gwneud hynny. Mae hyn yn gyson â'r ymagwedd a gymerir yn y Bil, y bydd yr holl ddyletswyddau allweddol sy'n cael eu gosod ar ddarparwyr gwasanaethau ac unigolion cyfrifol yn cael eu cyflawni yn gydlynol drwy set gynhwysfawr o'r rheoliadau dan adran 26 a 27.

Mae'n fwriad ymhellach gennyf y bydd manylion yr hyn sydd ei angen mewn perthynas â pholisiau a gweithdrefnau o'r fath yn cael eu datblygu mewn canllawiau a gyhoeddwyd dan adran 28 o'r Bil. Bydd hyn yn galluogi set fanwl a thrylwyr o anghenion, gan nodi'n union yr hyn y dylid ei gynnwys mewn polisiau o'r fath a sut rwy'n disgwyl i ddarparwyr ac unigolion cyfrifol ddangos eu bod yn cydymffurfio â'r polisiau y byddant wedi eu pennu. Bydd gwneud pethau yn y ffordd honno yn rhoi hyblygrwydd i ni ddiweddar ac adnewyddu'r canllawiau yn ôl yr angen. Felly, oherwydd y ffyrdd yr ydym eisoes wedi ymrwmo i fwrw ymlaen â'r agenda hon, gofynnaf i'r Aelodau wrthod y gwelliannau hyn. Nid ydynt yn gwneud dim mwy nag sydd eisoes yn fwriad clir gennym. Rwy'n meddwl bod y Bil eisoes yn cynnig y ffordd orau o wneud hynny, ac ar y sail honno gofynnaf i'r Aelodau wrthwynebu'r gwelliannau hyn.

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Lindsay Whittle to reply.

Lindsay Whittle i ymateb.

Lindsay Whittle [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch, Ddirprwy Lywydd. I was trying to do a Carwyn James and get my retaliation in first for you, Minister, but, you know, I accept everything that you say, and I share your hope that sections 27 and 28 will do exactly what you say, and I have no reason, of course, to disbelieve you. But I would still, however, Dirprwy Lywydd, formally move my amendments. Thank you.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Roedd hon yn ymgais ar fy rhan i wneud 'Carwyn James' ohoni a thalu'r pwynt yn ôl i chi yn gyntaf, Weinidog, ond, rydych yn gwybod, rwy'n derbyn popeth a ddywedwch, ac rwy'n rhannu eich gobaith y bydd adrannau 27 a 28 yn gwneud yn union yr hyn a ddywedwch, ac nid oes gennyf unrhyw reswm, wrth gwrs, i beidio â'ch credu chi. Fodd bynnag, Ddirprwy Lywydd, rwy'n dal i gynnig fy ngwelliannau yn ffurfiol. Diolch.

17:11

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

The question is that amendment 96 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We will have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 26, there voted against 26. I cast my vote against the amendment, which falls.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 96 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Fe gawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 26 o blaid, pleidleisiodd 26 yn erbyn. Rwy'n bwrw fy mhleidlais yn erbyn y gwelliant, sy'n methu.

Gwrthodwyd gwelliant 96: O blaid 26, Yn erbyn 26, Ymatal 0.

Amendment 96 not agreed: For 26, Against 26, Abstain 0.

Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.

As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 96](#)

[Result of the vote on amendment 96](#)

Grŵp 9: Rheoliadau am Safonau'r Gofal a'r Cymorth sydd i'w Darparu gan Ddarparwr Gwasanaeth (Gwelliant 97)

Group 9: Regulations about Standards of Care and Support to be Provided by a Service Provider (Amendment 97)

17:11

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

The ninth group of amendments relates to regulations about standards of care and support to be provided by a service provider. The lead and only amendment in this group is amendment 97. I call on Lindsay Whittle to move and speak to the amendment.

Mae'r nawfed grŵp o welliannau yn ymwneud â rheoliadau ynghylch y safonau gofal a chymorth sydd i gael eu darparu gan ddarparwr gwasanaeth. Y prif welliant a'r unig un yn y grŵp hwn yw gwelliant 97. Galwaf ar Lindsay Whittle i gynig a siarad am y gwelliant.

Cynigiwyd gwelliant 97 (Lindsay Whittle, gyda chefnogaeth Mark Drakeford).

Amendment 97 (Lindsay Whittle, supported by Mark Drakeford) moved.

17:12

Lindsay Whittle [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Diolch yn fawr, Ddirprwy Lywydd. You'll be pleased to know that this is my last amendment today. I just felt that it's important to include emotional, spiritual and cultural needs in the Bill, because it does tie in very much with the social services Act of 2014, and we should ensure that service providers take into account those spiritual and cultural needs of people they care for, and I hope it would prevent institutional racism. To emphasise the intention of the 2014 Act to cater for the wellbeing of service users, it does not mean just their physical needs, but a whole, wide range of support services directly from, or commissioned by, health boards or local authorities. Whilst there are indeed some service providers in Wales who do cater for more than just the physical needs, others do not, and this amendment is intended to ensure that all service providers conform to a high standard of holistic care and support. It's fairly simple; I would have thought, Minister, that you could support it, but I'll wait and see. I formally move.

Diolch yn fawr, Ddirprwy Lywydd. Byddwch yn falch o wybod mai dyma fy ngwelliant olaf i heddiw. Rwy'n teimlo ei bod yn bwysig cynnwys anghenion emosiynol, ysbrydol a diwylliannol yn y Bil, gan fod hyn yn cyd-fynd i raddau helaeth â Deddf gwasanaethau cymdeithasol 2014, a dylem sicrhau bod darparwyr gwasanaethau yn ystyried anghenion ysbrydol a diwylliannol y bobl y maent yn gofalu amdanynt, ac rwy'n gobeithio y byddai'n atal hiliaeth sefydliadol. I bwysleisio bwriad Deddf 2014 i ddarparu ar gyfer lles defnyddwyr gwasanaeth, nid yw'n golygu eu hanghenion corfforol yn unig, ond amrywiaeth eang, gyfan o wasanaethau cefnogi sy'n dod yn uniongyrchol oddi wrth fyrdau iechyd neu awdurdodau lleol, neu sydd wedi'u eu comisiynu ganddynt. Er bod rhai darparwyr gwasanaethau yng Nghymru sy'n darparu ar gyfer mwy nag anghenion corfforol yn unig, mae eraill nad ydynt, a bwriad y gwelliant hwn yw sicrhau bod yr holl ddarparwyr gwasanaeth yn cydymffurfio â safon uchel o ofal a chymorth holistaidd. Mae'n eithaf syml; byddwn wedi meddwl, Weinidog, y gallech ei gefnogi, ond byddaf yn aros i weld. Cynigiau yn ffurfiol.

17:13

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I have no other speakers before I call the Minister. Minister.

Nid oes gennyf unrhyw siaradwyr eraill cyn i fi alw ar y Gweinidog. Weinidog.

17:13	Mark Drakeford Bywgraffiad Biography	Diolch, Ddirprwy Lywydd. Well, I welcome this amendment to section 26 of the Bill, as it will ensure that any regulations made under that section will have to take into account the wellbeing of individuals who will be in receipt of care and support. Now, throughout the passage of the Bill, there have been calls to provide a direct link between the quality standards for care and support services, which must be made under section 26, and the wellbeing of individuals receiving care and support. This amendment secures that direct link without the risk of unintended consequences that led me to oppose amendments laid at Stage 2. That risk having been addressed, I'm pleased to support amendment 97 today.	Diolch, Ddirprwy Lywydd. Wel, rwy'n croesawu'r gwelliant hwn i adran 26 o'r Bil, gan y bydd yn sicrhau y bydd yn rhaid i unrhyw reoliadau a wneir dan yr adran honno ystyried lles unigolion a fydd yn derbyn gofal a chymorth. Yn awr, trwy gydol hynt y Bil, bu galwadau i ddarparu cyswllt uniongyrchol rhwng y safonau ansawdd ar gyfer gwasanaethau gofal a chymorth, y mae'n rhaid eu gwneud dan adran 26, a lles unigolion sy'n derbyn gofal a chymorth. Mae'r gwelliant hwn yn sicrhau'r cyswllt iad uniongyrchol hwnnw heb y risg o ganlyniadau anfwriadol o arweiniodd ataf i'n gwrthwynebu'r gwelliannau a gyflwynwyd yng Nghyfnod 2. Gan fod y risg honno wedi cael sylw, rwy'n falch o gefnogi gwelliant 97 heddiw.	Senedd.tv Fideo Video
17:14	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Lindsay Whittle to reply.	Lindsay Whittle i ymateb.	Senedd.tv Fideo Video
17:14	Lindsay Whittle Bywgraffiad Biography	I just formally move. Thank you.	Rwyf yn cynnig yn ffurfiol. Diolch.	Senedd.tv Fideo Video
17:14	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography	The question is that amendment 97 be agreed. Does any Member object? Then amendment 97 is agreed.	Y cwestiwn yw bod gwelliant 97 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Yna caiff gwelliant 97 ei dderbyn.	Senedd.tv Fideo Video
	<i>Derbyniwyd gwelliant 97 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.</i>	<i>Amendment 97 agreed in accordance with Standing Order 12.36.</i>		
17:14	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Lindsay Whittle, amendment 98.	Lindsay Whittle, gwelliant 98.	Senedd.tv Fideo Video
	<i>Cynigiwyd gwelliant 98 (Lindsay Whittle).</i>	<i>Amendment 98 (Lindsay Whittle) moved.</i>		
17:14	Lindsay Whittle Bywgraffiad Biography	I formally move.	Cynigiau yn ffurfiol.	Senedd.tv Fideo Video
17:14	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography	The question is that amendment 98 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We will have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 26, there voted against 26. I cast my vote against the amendment, which falls.	Y cwestiwn yw bod gwelliant 98 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Fe gawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 26 o blaid, pleidleisiodd 26 yn erbyn. Rwy'n bwrw fy mhleidlais yn erbyn y gwelliant, sy'n methu.	Senedd.tv Fideo Video
	<i>Gwrthodwyd gwelliant 98: O blaid 26, Yn erbyn 26, Ymatal 0.</i>	<i>Amendment 98 not agreed: For 26, Against 26, Abstain 0.</i>		
	<i>Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.</i>	<i>As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.</i>		
	Canlyniad y bleidlais ar welliant 98	Result of the vote on amendment 98		
	Grŵp 10: Adolygwyr Lleyg (Gwelliannau 38 a 39)	Group 10: Lay Reviewers (Amendments 38 and 39)		

17:14

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

The tenth group of amendments relates to lay reviewers. The lead amendment in this group is amendment 38, and I call on Altaf Hussain to move and speak to the lead amendment and the other amendment in the group.

Mae'r degfed grŵp o welliannau yn ymwneud ag adolygwyr lleyg. Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 38, a galwaf ar Altaf Hussain i gynnig a siarad am y prif welliant a'r gwelliant arall yn y grŵp.

Cynigiwyd gwelliant 38 (Altaf Hussain).

Amendment 38 (Altaf Hussain) moved.

17:14

Altaf Hussain [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Thank you, Deputy Presiding Officer. I formally move the amendment in my name. Amendment 38 would require the code of practice prepared under section 32(4) to include details about the involvement and engagement of lay assessors in the carrying out of inspections. We have used the term 'lay reviewers' as opposed to 'lay assessors' as it is the term used in health inspections.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Cynigiau y gwelliant yn ffurfiol yn fy enw i. Byddai gwelliant 38 yn ei gwneud yn ofynnol i'r cod ymarfer a baratowyd dan adran 32 (4) gynnwys manylion am ymgysylltiad ac ymwneud aseswyr lleyg â chynnal arolygiadau. Rydym wedi defnyddio'r term 'adolygwyr lleyg' yn hytrach nag 'aseswyr lleyg' gan mai dyma'r term a ddefnyddir mewn arolygiadau iechyd.

Lay reviewers can provide a valuable insight into the quality of care and the quality of life of those people living in care homes. Lay reviewers help the inspection regime see things from the point of view of those in care and should be integral to the inspection process. When we took evidence on this, the majority of respondents to the Health and Social Care Committee were in favour of lay inspectors. Family members of those who suffered abuse and neglect in care homes told us that lay inspectors have a role to play in preventing such abuse and neglect in future.

Gall adolygwyr lleyg roi dealltwriaeth werthfawr o ansawdd y gofal ac ansawdd bywyd y bobl hynny sy'n byw mewn cartrefi gofal. Mae adolygwyr lleyg yn helpu'r drefn arolygu i weld pethau o safbwynt y rhai sydd mewn gofal, a dylai fod yn rhan annatod o'r broses arolygu. Pan oeddem yn cymryd tystiolaeth ar hyn, roedd mwyafrif yr ymatebwyr i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol o blaid arolygwyr lleyg. Dywedodd aelodau teulu'r rhai a ddioddefodd gamdriniaeth ac esgeulustod mewn cartrefi gofal wrthym fod gan arolygwyr lleyg ran i'w chwarae mewn atal camdriniaeth ac esgeulustod o'r fath yn y dyfodol.

Concerns have been raised about the costs involved in maintaining lay inspectors but, as the older people's commissioner has said, the benefits of using lay inspectors far outweigh the costs associated and the cost to an individual in respect of poor care.

Mae pryderon wedi cael eu codi am y costau sy'n gysylltiedig â chynnal arolygwyr lleyg ond, fel y mae'r comisiynydd pobl hŷn wedi dweud, mae'r manteision o ddefnyddio arolygwyr lleyg yn llawer mwy na'r costau cysylltiedig a'r gost i'r unigolyn o ran gofal gwael.

While we welcome the Minister's commitment that the public should play an active role in the inspection process, we feel that there needs to be a commitment to involve lay reviewers on the face of this Bill. We simply do not accept the Minister's assertion that, everywhere you see a scandal in social welfare, you will find that there have been lay people who have been walking through the door, but, because they have become habituated and become part of the system, they cease to see what is going wrong, just like other people who, because they're there every day, have stopped becoming sensitised to things that someone who is genuinely outside comes in and sees with those fresh eyes.

Er ein bod yn croesawu ymrwymiad y Gweinidog y dylai'r cyhoedd chwarae rhan weithredol yn y broses arolygu, teimlwn fod angen cael ymrwymiad i gynnwys adolygwyr lleyg ar wyneb y Bil hwn. Yn syml, nid ydym yn derbyn honiad y Gweinidog y byddwch, ym mhob man y gwelwch sgandal mewn lles cymdeithasol, wedi cael pobl lleyg yn cerdded i mewn drwy'r drws, ac oherwydd eu bod wedi ymgyfarwyddo â'r system a dod yn rhan ohoni, nad ydynt yn gweld pan mae rhywbeth yn mynd o'i le. Mae hyn yn union fel sy'n digwydd gyda phobl eraill sydd, oherwydd eu bod nhw yno bob dydd, wedi peidio â bod yn sensitif i bethau y byddai rhywun o'r tu allan yn dod i mewn ac yn sylwi arnynt â phâr ffres o lygaid.

Lay reviewers are successfully used in other parts of the UK. In England, they are used to provide the 'mum test', which asks the inspection team to consider whether these are services that they would be happy for someone they love and care for to use. This test should be at the heart of regulating social care in Wales and I would ask Members to support these amendments and make lay reviewers an integral part of our inspection regime.

Mae adolygwyr lleyg yn cael eu defnyddio'n llwyddiannus mewn rhannau eraill o'r DU. Yn Lloegr, maent yn cael eu defnyddio i ddarparu 'prawf mam', sy'n gofyn i'r tîm arolygu ystyried a yw'r rhain yn wasanaethau y byddent yn fodlon i rywun y maent yn eu caru ac yn gofalu amdanynt eu defnyddio. Dylai'r prawf hwn fod wrth wraidd rheoleiddio gofal cymdeithasol yng Nghymru a byddwn yn gofyn i'r Aelodau gefnogi'r gwelliannau hyn a gwneud adolygwyr lleyg yn rhan annatod o'n trefn arolygu.

The purpose of amendment 39 is to avoid duplication. Thank you.

Pwrpas gwelliant 39 yw osgoi dyblygu. Diolch.

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Deputy Presiding Officer, the issue of lay assessors is quite a complex one. It is important to remember that in her work, 'A Place Called Home?', the older person's commissioner made a very clear recommendation on the important role that lay assessors could play in regulation, particularly of residential care services. Now, the Bill does go some way to putting an explicit recommendation on inspectors to use members of the public, and that is very welcome indeed. I absolutely understand the concerns of the Minister when he says that the simple presence of a lay assessor in itself does not necessarily mean that there is an added safeguard. And, of course, the Minister is right—on its own, a lay assessor does not guarantee that fresh pair of eyes, especially if we create a professional class of lay assessors who carry out this work on a prolonged basis over a prolonged period of time, and, in a sense, it becomes their job to do that. In fact, you could hardly claim that they were a lay assessor if it became their profession.

So, I think we have to separate the principle behind lay assessors and then the practice of how we can actually make it work. I absolutely agree that lay assessors are an important principle, and therefore will support the amendments, but I think, in establishing the principle of lay assessors, and should the amendment be successful, we will have to take on board the very real concerns of the Minister on how we can prevent that lay assessor role becoming a professional class of inspectors in a different kind of category. I don't believe that it's beyond the wit of us to look at time limitations on lay assessors, and the number of inspections they could be involved in. I believe that there is a way in which we can ensure that the principle of a lay assessor can be worked to avoid the concerns that the Minister has said, and for us all to be mindful that their sheer presence on their own will not deliver excellent inspection but will be an important part of what, hopefully, is an improved inspection regime delivered as a result of this legislation.

Ddirprwy Lywydd, mae mater aseswyr lleyg yn un eithaf cymhleth. Mae'n bwysig cofio bod y Comisiynydd pobl hŷn yn ei gwaith, 'Lle i'w Alw'n Gartref?', wedi gwneud argymhelliad clir iawn ar y rôl bwysig y gallai aseswyr lleyg ei chwarae mewn rheoleiddio, yn enwedig gwasanaethau gofal preswyl. Yn awr, mae'r Bil yn mynd rhywfaint o'r ffordd tuag at roi argymhell arolygwyr yn benodol i ddefnyddio aelodau o'r cyhoedd, ac mae hynny'n dderbyniol iawn yn wir. Rwy'n deall pryderon y Gweinidog yn gyfan gwbl pan ddywed nad yw presenoldeb asesydd lleyg ynddo'i hun o reidrwydd yn golygu bod dull diogelu ychwanegol ar gael. Ac, wrth gwrs, mae'r Gweinidog yn iawn—ar ei ben ei hun, nid yw asesydd lleyg yn gwarantu pâr ffres o lygaid, yn enwedig os ydym yn creu dosbarth proffesiynol o aseswyr lleyg sy'n gwneud y gwaith hwn ar sail hir dros gyfnod hir o amser, ac, mewn ffordd, mae hyn yn dod yn swydd iddynt. Yn wir, prin y gallech honni eu bod yn aseswyr lleyg os yw'n dod yn broffesiwn iddynt.

Felly, rwy'n credu bod yn rhaid i ni wahanu'r egwyddor y tu ôl i aseswyr lleyg ac yna'r arfer o sut y gallwn mewn gwirionedd wneud iddo weithio. Cytunaf yn llwyr fod aseswyr lleyg yn egwyddor bwysig, ac felly byddaf yn cefnogi'r gwelliannau, ond rwy'n meddwl, wrth sefydlu'r egwyddor o aseswyr lleyg, ac os yw'r gwelliant yn llwyddiannus, bydd yn rhaid inni ystyried pryderon gwirioneddol iawn y Gweinidog ynghylch sut y gallwn rwystro rôl asesydd lleyg rhag bod yn ddsbarth proffesiynol o arolygwyr mewn gwahanol fath o gategori. Nid wyf yn credu ei fod y tu hwnt i'n crebwyll i edrych ar gyfyngiadau amser ar aseswyr lleyg, a nifer yr arolygiadau y gallent fod yn rhan ohonynt. Credaf fod modd i sicrhau y gellir gweithio'r egwyddor o asesydd lleyg i osgoi'r pryderon y mae'r Gweinidog wedi eu crybwyll, ac i ni i gyd fod yn ymwybodol na fydd eu presenoldeb ar eu pen eu hun yn sicrhau arolygiad ardderchog ond y bydd yn rhan bwysig o'r hyn a fydd, gobeithio, yn drefn arolygu well a gyflwynir yn sgil y ddeddfwriaeth hon.

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I've no other speakers before I call the Minister. Minister.

Does gen i ddim siaradwyr eraill cyn i mi alw ar y Gweinidog. Weinidog.

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Deputy Presiding Officer. Those who have been following the progress of this Bill will be aware that the involvement of the public in the inspection process is something that has been debated in detail during the whole of the passage of the Bill. The involvement of the public in inspection is something that has my very strong support. My objection to these amendments is that they narrow rather than expand the ground that was gained at Stage 2. There, a Government amendment was agreed to require CSSIW to involve the public in their work. There is nothing in that amendment that prevents CSSIW from doing so through the development of lay inspectors or lay assessors or lay reviewers, but it does not confine the involvement of the public, in the way that this amendment does, to participation simply in those roles. The amendment that was passed at Stage 2 allows the involvement of people as citizens—people with genuinely fresh and open eyes who are able to bring that perspective to the inspection process.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Bydd y rhai sydd wedi bod yn dilyn datblygiad y Bil hwn yn ymwybodol bod cyfranogiad y cyhoedd yn y broses arolygu yn rhywbeth sydd wedi cael ei drafod yn fanwl yn ystod holl hynt y Bil. Mae cynnwys y cyhoedd yn yr arolwg yn rhywbeth sy'n cael fy nghefnogaeth gadarn i. Fy ngwrthwynebiad i'r gwelliannau hyn yw eu bod yn culhau yn hytrach nag yn ehangu'r tir a gafodd ei ennill yng Nghyfnod 2. Yno, cytunwyd ar welliant y Llywodraeth i'w gwneud yn ofynnol i AGGCC gynnwys y cyhoedd yn eu gwaith. Nid oes dim yn y gwelliant hwnnw sy'n atal AGGCC rhag gwneud hynny drwy ddatblygu arolygwyr lleyg neu aseswyr lleyg neu adolygwyr lleyg, ond nid yw'n cyfyngu ar gynnwys y cyhoedd, yn y ffordd y mae'r gwelliant hwn yn ei wneud, i gymryd rhan yn y rolau hynny yn unig. Roedd y gwelliant a basiwyd yng Nghyfnod 2 yn caniatáu cyfranogiad pobl fel dinasyddion—pobl sydd â llygaid gwirioneddol ffres ac agored sy'n gallu dod â'r safbwynt hwnnw i'r broses arolygu.

Lindsay Whittle was kind enough to refer earlier to my own earlier career outside this institution. In that work, I wrote extensively about the way in which members of the public become involved in exposing things that should not happen within closed institutions. If you think of the Pindown inquiry into children's homes in Leicestershire, those homes were visited day in and day out by a trail of individuals, social workers, counsellors, cleaners and family members. In the end, the person who asked the question, 'However is this allowed to go on in a children's home?', was a member of the public coming through the door for the very first time who was not habituated—who was not someone who had stopped seeing the things that other people had simply got used to and no longer noticed were happening.

The amendment at Stage 2 allows for lay assessors and reviewers, but allows for much more than that. The Bill as currently drafted delivers that progressive approach. It places an obligation on CSSIW to involve the public, including carers for example, in inspections, and then to report on how they have done this. The progress of the inspectorate in this area will therefore be open to full and public scrutiny. The Bill as drafted and as amended at Stage 2 already goes further than this amendment. It will achieve more than the amendments tabled in front of the Assembly this afternoon and I ask the Assembly to reject them.

Roedd Lindsay Whittle yn ddigon caredig i gyfeirio yn gynharach at fy ngyrfa gynharach fy hun y tu allan i'r sefydliad hwn. Yn y gwaith hwnnw, ysgrifennai yn helaeth am sut y mae aelodau'r cyhoedd yn dod yn rhan o ddatgelu pethau na ddylai ddigwydd mewn sefydliadau caeedig. Os meddylwch am ymchwiliad Pindown i gartrefi plant yn Swydd Gaerlŷr, ymwelwyd â'r cartrefi hynny ddydd ar ôl dydd gan gyfres o unigolion, gweithwyr cymdeithasol, cynghorwyr, glanhawyr ac aelodau o'r teulu. Yn y pen draw, aelod o'r cyhoedd oedd y sawl a ofynnodd y cwestiwn, 'Sut y caniateir i hyn fynd ymlaen mewn cartref plant?', sef rhywun oedd yn dod drwy'r drws am y tro cyntaf erioed ac nad oedd yn gyfarwydd â'r system—nad oedd yn rhywun a oedd wedi rhoi'r gorau i weld y pethau yr oedd pobl eraill wedi dod i arfer â nhw a ddim bellach yn sylwi eu bod yn digwydd.

Mae'r gwelliant yng Nghyfnod 2 yn caniatáu ar gyfer aseswyr llewyg ac adolygwyr, ond yn caniatáu ar gyfer llawer mwy na hynny. Mae'r Bil fel y'i drafftwyd ar hyn o bryd yn darparu'r dull blaengar hwnnw. Mae'n gosod rhwymedigaeth ar AGGCC i gynnwys y cyhoedd, gan gynnwys gofalwyr, er enghraifft, mewn arolygiadau, ac yna i adrodd ar sut y maent wedi gwneud hyn. Bydd datblygiad yr arolygiaeth yn y maes hwn, felly, yn agored i graffu llawn a chyhoeddus. Mae'r Bil fel y'i drafftwyd ac fel y'i diwygiwyd yn ystod Cyfnod 2 eisoes yn mynd ymhellach na'r gwelliant hwn. Bydd yn cyflawni mwy na'r gwelliannau a gyflwynwyd gerbron y Cynulliad y prynhawn yma a gofynnaf i'r Cynulliad eu gwrthod.

17:23 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Altaf Hussain to reply.

Altaf Hussain i ymateb.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

17:23 **Altaf Hussain** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you very much, Deputy Presiding Officer. I have listened to what the Minister has said. However, I am of the opinion that lay reviewers are a vital part of the inspection process and I urge Members to support my amendments. Thank you, Kirsty, also for supporting me. Thank you.

Diolch yn fawr iawn, Ddirprwy Lywydd. Rwyf wedi gwrandao ar yr hyn y mae'r Gweinidog wedi'i ddweud. Fodd bynnag, rwyf o'r farn bod adolygwyr llewyg yn rhan hanfodol o'r broses arolygu ac rwy'n annog Aelodau i gefnogi fy ngwelliannau i. Diolch i chi, Kirsty, hefyd am fy nghefnogi. Diolch.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

17:24 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The question is that amendment 38 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We will have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 26, voted against 26. I cast my vote against the amendment, which falls.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 38 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Fe gawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 26 o blaid, pleidleisiodd 26 yn erbyn. Rwy'n bwrw fy mhleidlais yn erbyn y gwelliant, sy'n methu.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Gwrthodwyd gwelliant 38: O blaid 26, Yn erbyn 26, Ymatal 0.

Amendment 38 not agreed: For 26, Against 26, Abstain 0.

Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.

As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 38](#)

[Result of the vote on amendment 38](#)

17:24	<p>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>Altaf Hussain, amendment 39.</p> <p><i>Cynigiwyd gwelliant 39 (Altaf Hussain).</i></p>	<p>Altaf Hussain, gwelliant 39.</p> <p><i>Amendment 39 (Altaf Hussain) moved.</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
17:24	<p>Altaf Hussain Bywgraffiad Biography</p> <p>I move, formally.</p>	<p>Rwy'n cynnig, yn ffurfiol.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
17:24	<p>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>The question is that amendment 39 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We'll have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 26, voted against 26. I cast my vote against the amendment, which falls.</p> <p><i>Gwrthodwyd gwelliant 39: O blaid 26, Yn erbyn 26, Ymatal 0.</i></p> <p><i>Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.</i></p> <p>Canlyniad y bleidlais ar welliant 39</p>	<p>Y cwestiwn yw bod gwelliant 39 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Fe gawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 26 o blaid, pleidleisiodd 26 yn erbyn. Rwy'n bwrw fy mhleidlais yn erbyn y gwelliant, sy'n methu.</p> <p><i>Amendment 39 not agreed: For 26, Against 26, Abstain 0.</i></p> <p><i>As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.</i></p> <p>Result of the vote on amendment 39</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
	<p>Grŵp 11: Cydymffurfio ag Egwyddorion a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig (Gwelliannau 40, 41 a 67)</p>	<p>Group 11: Compliance with United Nations Principles and Conventions (Amendments 40, 41 and 67)</p>	
17:24	<p>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>The eleventh group of amendments relate to compliance with United Nations principles and conventions. The lead amendment in this group is amendment 40. I call on Altaf Hussain to move and speak to the lead amendment and the other amendments in the group.</p> <p><i>Cynigiwyd gwelliant 40 (Altaf Hussain).</i></p>	<p>Mae'r unfed grŵp ar ddeg o welliannau yn ymwneud â chydymffurfio ag egwyddorion a chonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig. Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 40. Galwaf ar Altaf Hussain i gynnig a siarad am y prif welliant a'r gwelliannau eraill yn y grŵp.</p> <p><i>Amendment 40 (Altaf Hussain) moved.</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
17:25	<p>Altaf Hussain Bywgraffiad Biography</p> <p>Thank you, Deputy Presiding Officer. I formally move this amendment in my name. Amendments 40, 41 and 67 are to ensure a consistent human-rights-based approach to the regulation and inspection of social care. The effect of our amendments is to ensure that all those who exercise functions under the Bill have due regard to the UN Convention on the Rights of the Child and the UN Convention on the Rights of Persons with Disabilities as well as the United Nations Principles for Older Persons. This will also put the Bill on the same footing as the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014.</p>	<p>Diolch, Ddirprwy Lywydd. Cynigïaf y gwelliant hwn yn fy enw i yn ffurfiol. Nod gwelliannau 40, 41 a 67 yw sicrhau dull cyson o reoleiddio ac arolygu gofal cymdeithasol, sy'n seiliedig ar hawliau dynol. Effaith ein gwelliannau yw sicrhau bod pawb sy'n arfer swyddogaethau o dan y Bil yn rhoi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau, yn ogystal ag Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn. Bydd hyn hefyd yn gwneud y Bil yn gydradd â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Llesiant (Cymru) 2014.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

During Stage 2, the Minister and Labour Members argued that these duties already exist in law, that simply restating duties that already exist in law is not a sensible way of making good legislation and that United Nations conventions and principles are obligations for the state and not at the point where services are delivered. The Wales UNCRC monitoring group disagree. In fact, they are concerned that there is an attempt to roll back to the strategic functions only limitation, which the senior civil servants tried hard to impose in the Rights of Children and Young Persons (Wales) Measure 2011.

Section 7 of the Social Services and Well-being (Wales) Act imposed a due regard duty on persons exercising functions under the Act in relation to a child who has care or support needs, is a carer with support needs or is a looked-after child or care leaver. Why should persons providing a regulated service or care not have due regard to United Nations conventions and principles? Why should public bodies that provide social care have a due regard duty but not private companies? The Wales UNCRC monitoring group believe that providers of regulated services should have due regard to the United Nations Convention on the Rights of the Child. We agree and we also believe that they should have due regard to the United Nations Convention on the Rights of Persons with Disabilities and the UN Principles for Older Persons, and I would urge Members to support these amendments. Thank you.

Yn ystod Cyfnod 2, dadleuodd y Gweinidog ac Aelodau Llafur bod y dyletswyddau hyn eisoes yn bodoli yn y gyfraith, nad yw ailddatgan dyletswyddau sydd eisoes yn bodoli yn y gyfraith yn ffordd synhwyrol o wneud deddfwriaeth dda a bod confensiynau ac egwyddorion y Cenhedloedd Unedig yn rhwymedigaethau ar gyfer y wladwriaeth ac nid ar y pwynt lle caiff gwasanaethau eu darparu. Mae'r grŵp monitro CCUHP Cymru yn anghytuno. Yn wir, maent yn pryderu bod ymgais i fynd yn ôl at y cyfyngiad swyddogaethau strategol yn unig, y mae'r uwch weision sifil wedi ymdrechu'n galed i'w osod ym Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011.

Gosododd Adran 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) ddyletswydd sylw dyledus ar unigolion sy'n arfer swyddogaethau dan y Ddeddf mewn cysylltiad â phlentyn sydd ag anghenion gofal neu gymorth, sy'n ofalwr gydag anghenion cefnogaeth neu sy'n blentyn sy'n derbyn gofal neu'n gadael gofal. Pam na ddylai unigolion sy'n darparu gwasanaeth neu ofal rheoledig beidio â rhoi sylw dyledus i gonfensiynau ac egwyddorion y Cenhedloedd Unedig? Pam y dylai cyrff cyhoeddus sy'n darparu gofal cymdeithasol, ond nid cwmnïau preifat, gael dyletswydd sylw dyledus? Mae grŵp monitro CCUHP Cymru yn credu y dylai darparwyr gwasanaethau rheoledig roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Rydym yn cytuno ac rydym hefyd yn credu y dylent roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau ac Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn, a byddwn yn annog yr Aelodau i gefnogi'r gwelliannau hyn. Diolch.

17:27 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I don't have any speakers before I call the Minister. Minister.

Nid oes gennyf unrhyw siaradwyr cyn i mi alw ar y Gweinidog. Weinidog.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

17:27 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch yn fawr, Ddirprwy Lywydd. As we've heard, Altaf Hussain's amendment 40 seeks to insert a new section requiring the Welsh Ministers to have regard to the UN Convention on the Rights of Persons with Disabilities when exercising their regulatory functions. Amendment 41 requires that this is then reported on in the annual report produced under section 41 of the Bill. This, indeed, is something that we've discussed in detail during the scrutiny process of the Bill, and Altaf Hussain was right to anticipate that I will have to reiterate some things that I've previously said on the subject. I continue to believe that simply to reiterate in law obligations that are already on the statute book and to which Ministers are already obligated is not a mature way to make good law.

Diolch yn fawr, Ddirprwy Lywydd. Fel y clywsom, mae gwelliant 40 Altaf Hussain yn ceisio mewnosod adran newydd sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ystyried Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl wrth arfer eu swyddogaethau rheoleiddio. Mae gwelliant 41 yn mynnu yr adroddir ar hyn wedyn yn yr adroddiad blynyddol a gynhyrchir dan adran 41 y Bil. Mae hyn, yn wir, yn rhywbeth yr ydym wedi'i drafod yn fanwl yn ystod y broses graffu ar y Bil, ac mae Altaf Hussain yn iawn i ragweld y bydd yn rhaid i mi ailadrodd rhai pethau yr wyf wedi eu dweud o'r blaen ar y pwnc. Rwy'n parhau i greu nad yw ailadrodd mewn cyfraith rhwymedigaethau sydd eisoes ar y llyfr statud, ac y mae Gweinidogion eisoes yn rhwym iddynt, yn ffordd aeddfed o wneud cyfraith dda.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Welsh Ministers are already required to have regard to, and comply with, a range of equality legislation. These amendments do not add to that position or the protection already secured for disabled persons in Wales through the Equality Act 2010, which gives direct protection to individuals, whereas a duty of 'regard' or 'due regard' does not. The fundamental principles contained within the UN convention on the rights of disabled people are already enshrined in law by virtue of the public sector equality duty, and that duty is already referred to directly on the face of the Bill. These amendments simply do not take that position any further.

Mae eisoes yn ofynnol i Weinidogion Cymru roi ystyriaeth i ystod o ddeddfwriaeth cydraddoldeb, a chydymffurfio â'r deddfwriaeth honno. Nid yw'r gwelliannau hyn yn ychwanegu at y sefyllfa honno nac at yr amddiffyniad a sicrhawyd eisoes ar gyfer pobl anabl yng Nghymru drwy Ddeddf Cydraddoldeb 2010, sy'n rhoi amddiffyniad uniongyrchol i unigolion, tra nad yw dyletswydd o 'ystyriaeth' neu 'sylw dyledus' yn gwneud hynny. Mae'r egwyddorion sylfaenol a geir yng nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar hawliau pobl anabl eisoes yn cael eu hymgorffori yn y gyfraith yn rhinwedd dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus, a chyfeirir at y ddyletswydd honno yn uniongyrchol eisoes ar wyneb y Bil. Nid yw'r gwelliannau hyn yn syml yn datblygu'r sefyllfa honno ymhellach.

Amendment 67 seeks to insert a new section requiring regulatory bodies and relevant authorities to have due regard to certain United Nations principles and conventions. I repeat my commitment given to the Health and Social Care Committee to establish clear standards under this Bill that will do what this amendment proposes. This is the way we will ensure that these principles are reflected in the standards of care provided in Wales, by setting out clear expectations of service providers, which they will then have to meet. I ask the Assembly to reject the amendments before you in this group.

Nod gwelliant 67 yw mewnosod adran newydd sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff rheoleiddio ac awdurdodau perthnasol roi sylw dyledus i rai egwyddorion a chonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig. Rwy'n aildrodd yr ymrwymiad a roddais i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i sefydlu safonau clir o dan y Bil hwn a fydd yn gwneud yr hyn y mae'r gwelliant hwn yn ei gynnig. Dyma'r ffordd y byddwn yn sicrhau bod yr egwyddorion hyn yn cael eu hadlewyrchu yn y safonau o ofal a ddarperir yng Nghymru, drwy nodi disgwyliadau clir o ddarparwyr gwasanaeth, y bydd wedyn yn rhaid iddynt eu bodloni. Gofynnaf i'r Cynulliad wrthod y gwelliannau ger eich bron yn y grŵp hwn.

17:30 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Altaf Hussain to reply.

Altaf Hussain i ymateb.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

17:30 **Altaf Hussain** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Obviously, opinions are clearly divided on whether those exercising functions should have due regard to United Nations conventions and principles. I personally chose to side with the Wales UNCRC monitoring group, and would urge other Members to do likewise and support my amendments.

Yn amlwg, mae'r farn yn cael ei rhannu'n glir ar a ddylai'r rhai sy'n arfer y swyddogaethau hynny roi sylw dyledus i gonfensiynau ac egwyddorion y Cenhedloedd Unedig. Yn bersonol dewisais ochri â grŵp monitro CCUHP Cymru, a byddwn yn annog Aelodau eraill i wneud yr un fath a chefnogi fy ngwelliannau.

17:30 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Will you take an intervention, Altaf?

A wnewch chi dderbyn ymyriad, Altaf?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

17:30 **Altaf Hussain** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes.

Gwnaf.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

17:30 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I have to say I'm a little bit disappointed by the Minister's response, and I'm sure you are too. But, can you just clarify for the record that, actually, your amendments are not just about placing duties on Ministers alone? It's also about placing duties to have regard on all of those regulatory bodies and relevant authorities that are touched upon by the Act, not just Ministers, which I'm afraid is the assertion of the Minister, who's absolutely wrong in this regard. Given that he's wrong, do you feel it would be useful for the Minister to reconsider his position?

Rhaid i mi ddweud fy mod ychydig yn siomedig gan ymateb y Gweinidog, ac rwy'n siŵr eich bod chithau hefyd. Ond, a allwch chi egluro er mwyn i bawb gael gwybod, nad yw eich diwygiadau, mewn gwirionedd, yn ymwneud â gosod swyddogaethau ar Weinidogion yn unig? Mae hefyd yn ymwneud â gosod swyddogaethau i gael ystyriaeth ar yr holl gyrff rheoleiddio a'r awdurdodau perthnasol hynny sy'n cael eu crybwyll gan y Ddeddf, ac nid ar y Gweinidogion yn unig, sef haerid y Gweinidog, mae arnaf ofn, sydd yn hollol anghywir yn hyn o beth. O ystyried ei fod yn anghywir, a ydych yn teimlo y byddai'n ddefnyddiol i'r Gweinidog ailystyried ei safbwynt?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

17:31	Altaf Hussain Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>I very much agree with that; I would urge that. But, as I said, I personally chose to side with the Wales UNCRC monitoring group, and would urge other Members to do likewise and support my amendments.</p>	<p>Cytunaf yn llwyr â hynny; byddwn yn annog hynny. Ond, fel y dywedais, rwy'n dewis yn bersonol ochri â grŵp monitro CCUHP Cymru, a byddwn yn annog Aelodau eraill i wneud yr un fath a chefnogi fy ngwelliannau i.</p>
17:31	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>If amendment 40 is not agreed, amendment 41 falls. The question is that amendment 40 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We'll have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 26, there voted against 26. I cast my vote against the amendment, which falls.</p>	<p>Os nad yw gwelliant 40 yn cael ei dderbyn, bydd gwelliant 41 methu. Y cwestiwn yw bod gwelliant 40 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Fe gawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd o 26 blaid, pleidleisiodd 26 yn erbyn. Rwy'n bwrw fy mhleidlais yn erbyn y gwelliant, sy'n methu.</p>
	<p><i>Gwrthodwyd gwelliant 40: O blaid 26, Yn erbyn 26, Ymatal 0.</i></p>	<p><i>Amendment 40 not agreed: For 26, Against 26, Abstain 0.</i></p>
	<p><i>Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.</i></p>	<p><i>As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.</i></p>
	<p>Canlyniad y bleidlais ar welliant 40</p>	<p>Result of the vote on amendment 40</p>
	<p><i>Methodd gwelliant 41.</i></p>	<p><i>Amendment 41 fell.</i></p>
	<p>Grŵp 12: Achosion o ran Troseddau o dan Ran 1 (Gwelliant 4)</p>	<p>Group 12: Proceedings in Respect of Offences under Part 1 (Amendment 4)</p>
17:31	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>The twelfth group of amendments relates to proceedings under Part 1. The lead and only amendment in this group is amendment 4. I call on the Minister to move and speak to the amendment.</p>	<p>Mae'r deuddegfed grŵp o welliannau yn ymwneud â thrafodion dan Ran 1. Y prif welliant a'r unig un yn y grŵp hwn yw gwelliant 4. Galwaf ar y Gweinidog i gynnig a siarad am y gwelliant.</p>
	<p><i>Cynigiwyd gwelliant 4 (Mark Drakeford).</i></p>	<p><i>Amendment 4 (Mark Drakeford) moved.</i></p>
17:32	Mark Drakeford Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Diolch, Ddirprwy Lywydd. This amendment makes further provision about proceedings for offences under Part 1 of the Bill. Currently, the Bill is silent as to who may bring proceedings for offences under Part 1. It is not my intention to reserve the right to bring proceedings exclusively to Welsh Ministers. However, as in the Care Standards Act 2000 it is sensible that any other person seeking to bring forward proceedings for criminal offences under the Bill should need the consent of a law officer to do so. The Care Standards Act 2000 allocates that responsibility to the Attorney-General. This amendment reflects the Welsh situation by reference to the Counsel General, ensuring that the Bill is consistent with the devolution settlement. I ask Members to support.</p>	<p>Diolch, Ddirprwy Lywydd. Mae'r gwelliant hwn yn gwneud darpariaeth bellach ynghylch trafodion am dramgwyddau dan Ran 1 o'r Bil. Ar hyn o bryd, mae'r Bil yn dawel ynglŷn â phwy gaiff ddwyn achos am dramgwyddau dan Ran 1. Nid yw'n fwrriad gennyf gadw'r hawl i ddwyn achos i Weinidogion Cymru yn unig. Fodd bynnag, fel yn Neddf Safonau Gofal 2000, mae'n synhwyrol y dylai unrhyw berson arall sy'n ceisio cyflwyno achos am droseddau dan y Bil fod angen caniatâd swyddog y gyfraith i wneud hynny. Mae Deddf Safonau Gofal 2000 yn dyrannu'r cyfrifoldeb hwnnw i'r Twrnai Cyffredinol. Mae'r gwelliant hwn yn adlewyrchu'r sefyllfa yng Nghymru drwy gyfeirio at y Cwnsler Cyffredinol, gan sicrhau bod y Bil yn gyson â'r setliad datganoli. Gofynnaf i'r Aelodau i'w cefnogi.</p>
17:32	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>No other speakers. The question then is that amendment 4 be agreed. Does any Member object? Amendment 4 is agreed.</p>	<p>Nid oes unrhyw siaradwyr eraill. Y cwestiwn wedyn yw bod gwelliant 4 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Caiff gwelliant 4 ei dderbyn.</p>

Derbyniwyd gwelliant 4 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Amendment 4 agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Grŵp 13: Cywiriadau Technegol a Chywiriadau Drafftio (Gwelliannau 5, 28, 10 a 14)

Group 13: Technical and Drafting Corrections (Amendments 5, 28, 10 a 14)

17:32

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

The thirteenth group of amendments contain technical amendments and drafting corrections. The lead amendment in this group is amendment 5. I call on the Minister to move and speak to the lead amendment and the other amendments in the group.

Mae'r trydydd grŵp ar ddeg o welliannau yn cynnwys gwelliannau technegol a chywiriadau drafftio. Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 5. Galwaf ar y Gweinidog i gynnig a siarad am y prif welliant a'r gwelliannau eraill yn y grŵp.

Cynigiwyd gwelliant 5 (Mark Drakeford).

Amendment 5 (Mark Drakeford) moved.

17:33

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Diolch, Ddirprwy Lywydd. All the amendments in this group, as you say, are minor and technical in nature. There are no changes of substance or policy. Amendment 5 removes superfluous wording from section 54. Amendment 10 serves to bring greater clarity to section 64 of the Bill which provides an overview of Parts 3 to 8 dealing with Social Care Wales and the social care workforce. It adds the words 'first-tier' to the reference to the tribunal in this overview section to reflect that appeals against decisions made under Part 4 are made to the first-tier tribunal. Amendment 14 replaces words in section 65(2), the interpretation section of Parts 3 to 8, to improve the drafting. Amendment 28 changes an incorrect cross-reference in section 155(1). I hope Members will support the amendments.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Mae'r holl welliannau yn y grŵp hwn, fel y dywedwch, yn fân ac yn dechnegol eu natur. Nid oes unrhyw newidiadau o ran sylwedd neu bolisi. Mae gwelliant 5 yn dileu geiriad diangen o adran 54. Mae gwelliant 10 yn gweithredu i ddog â mwy o eglurder i adran 64 y Bil sy'n rhoi trosolwg o Rannau 3 i 8 sy'n delio gyda Gofal Cymdeithasol Cymru a'r gweithlu gofal cymdeithasol. Mae'n ychwanegu'r geiriau 'haen gyntaf' i'r cyfeiriad at y tribiwnlys yn yr adran drosolwg i adlewyrchu'r ffaith bod apeladau yn erbyn penderfyniadau a wneir dan Ran 4 yn cael eu gwneud i'r tribiwnlys haen gyntaf. Mae gwelliant 14 yn disodli geiriau yn adran 65 (2), adran ddehongli Rhannau 3 i 8, er mwyn gwella'r drafftio. Mae gwelliant 28 yn newid croesgyfeiriad anghywir yn adran 155 (1). Rwy'n gobeithio y bydd yr Aelodau yn cefnogi'r gwelliannau.

17:34

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

No speakers. The question, then, is that amendment 5 be agreed. Does any Member object? Then amendment 5 is agreed.

Dim siaradwyr. Y cwestiwn, felly, yw bod gwelliant 5 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Yna caiff gwelliant 5 ei dderbyn.

Derbyniwyd gwelliant 5 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Amendment 5 agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Grŵp 14: Comisiynu Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Gwelliannau 74 a 75)

Group 14: Commissioning of Regulated Services (Amendments 74 and 75)

17:34

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

The fourteenth group of amendments relates to the commissioning of regulated services. The lead amendment in this group is amendment 74. I call on Kirsty Williams to move and speak to the lead amendment and the other amendment in the group.

Mae'r pedwerydd grŵp ar ddeg o welliannau yn ymwneud â chomisiynu gwasanaethau rheoleiddio. Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 74. Galwaf ar Kirsty Williams i gynnig a siarad am y prif welliant a'r gwelliant arall yn y grŵp.

Cynigiwyd gwelliant 74 (Kirsty Williams).

Amendment 74 (Kirsty Williams) moved.

Thank you very much, Deputy Presiding Officer. These amendments are being tabled at a time when social care commissioners are faced with some of the most challenging financial and organisational environments that have been seen in decades. Commissioning is about so much more than simply purchasing a service for a population. Good commissioning is absolutely fundamental to the quality of service that subsequently is provided to people, and commissioning has become, for me, one of the most important areas in the consideration of this Bill.

Deputy Presiding Officer, amendment 74 before us today—this amendment would enable Welsh Ministers to review the commissioning of regulated services by local health boards where such commissioning was undertaken as part of a partnership arrangement under section 166 of the 2014 Act. As such, it takes into consideration comments that the Minister made at Stage 2. At Stage 2, the Minister said it was too late in the day to think about services that were being commissioned by local health boards and this wasn't the piece of legislation to look at that. But this concern arose out of evidence taken by the Health and Social Care Committee, where a number of stakeholders spoke of the importance of ensuring that residential care beds commissioned by local health boards should be taken into consideration. We're not talking about a small problem here. In evidence to the committee, a representative of Cwm Taf university health board stated that that health board is responsible for commissioning some 1,000 beds in the social residential care sector on behalf of their local population. That's 1,000 beds in just one of the smaller health boards that we have here in Wales. The reality is that health boards the length and breadth of Wales are commissioning these services and yet, as currently stated, there is no scope for those commissioning arrangements to be looked at and inspected.

Partnership arrangements include arrangements for carrying out local authority social service functions or functions that have an effect on or are affected by a local authority's social services functions. So, if, under an arrangement, an LHB commissions a service that, in the absence of a partnership arrangement, would have been commissioned by a local authority, I believe it's reasonable for the LHB's commissioning practices to be reviewed in the same way as a local authority's practices would be reviewed.

We are also moving to a situation where we are looking to create, foster and encourage greater co-operation between health and social care. In my own area, Powys local health board are in discussions with the local council to take over wholesale the provision of adult social care. So, the blurring of the lines between what is done by health and what is done by local authorities is changing all the time. I believe, therefore, that this amendment is necessary.

Diolch yn fawr iawn, Ddirprwy Lywydd. Mae'r gwelliannau hyn yn cael eu cyflwyno ar adeg pan fo comisiynwyr gofal cymdeithasol yn wynebu rhai o'r amgylcheddau ariannol a sefydliadol mwyaf heriol a welwyd ers degawdau. Mae comisiynu yn ymwneud â llawer mwy na dim ond prynu gwasanaeth ar gyfer poblogaeth. Mae comisiynu da yn gwbl hanfodol i ansawdd y gwasanaeth sydd wedyn yn cael ei roi i'r bobl, ac mae comisiynu wedi dod, i mi, yn un o'r meysydd pwysicaf wrth ystyried y Bil hwn.

Ddirprwy Lywydd, byddai gwelliant 74 ger ein bron heddiw—byddai'r gwelliant hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i adolygu comisiynu gwasanaethau rheoleiddio gan fyrddau iechyd lleol lle cafodd comisiynu o'r fath ei wneud fel rhan o drefniant partneriaeth dan adran 166 Deddf 2014. Fel y cyfryw, mae'n ystyried sylwadau a wnaeth y Gweinidog yng Nghyfnod 2. Yng Nghyfnod 2, dywedodd y Gweinidog ei bod yn rhy hwyr yn y dydd i feddwl am y gwasanaethau oedd yn cael eu comisiynu gan fyrddau iechyd lleol ac nad hwn oedd y darn o ddeddfwriaeth i edrych ar hynny. Ond cododd y pryder hwn allan o dystiolaeth a gymerwyd gan y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, lle siaradodd nifer o randdeiliaid am bwysigrwydd sicrhau y dylai gwelyau gofal preswyl a gomisiynwyd gan fyrddau iechyd lleol gael eu hystyried. Nid ydym yn sôn am broblem fach yma. Mewn tystiolaeth i'r pwyllgor, dywedodd cynrychiolydd o Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf fod y bwrdd iechyd hwnnw'n gyfrifol am gomisiynu tua 1,000 o welyau yn y sector gofal preswyl cymdeithasol ar ran eu poblogaeth leol. Dyna 1,000 o welyau mewn dim ond un o'r byrddau iechyd llai sydd gennym yma yng Nghymru. Y realiti yw bod byrddau iechyd ar hyd a lled Cymru yn comisiynu'r gwasanaethau hyn ac eto, fel y nodir ar hyn o bryd, nid oes sgôp ar gyfer edrych ar y trefniadau comisiynu hynny a'u harolygu.

Mae trefniadau partneriaeth yn cynnwys trefniadau ar gyfer cyflawni swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol neu swyddogaethau sydd yn cael effaith ar, neu yn cael eu heffeithio gan, swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol awdurdod lleol. Felly, os yw Bwrdd Iechyd Lleol, dan drefniant, yn comisiynu gwasanaeth a fyddai, yn absenoldeb cytundeb partneriaeth, wedi cael ei gomisiynu gan awdurdod lleol, rwy'n credu ei bod yn rhesymol i arferion comisiynu'r BILL gael eu hadolygu yn yr un ffordd ag y byddai arferion awdurdod lleol yn cael eu hadolygu.

Rydym hefyd yn symud i sefyllfa lle'r ydym yn edrych i greu, meithrin ac annog mwy o gydweithredu rhwng iechyd a gofal cymdeithasol. Yn fy ardal fy hun, mae bwrdd iechyd lleol Powys yn cynnal trafodaethau gyda'r cyngor lleol i gymryd drosodd y ddarpariaeth gofal cymdeithasol i oedolion ar raddfa eang. Felly, pylu'r llinellau rhwng yr hyn a wneir gan iechyd a'r hyn a wneir gan awdurdodau lleol yn newid drwy'r amser. Credaf, felly, fod y gwelliant hwn yn angenrheidiol.

Amendment 75: the Minister, rather cheekily, refers to this as the Powys amendment. Some 18 months ago, Powys County Council took the decision to end its local provision of domiciliary care and to outsource all of its domiciliary care provision. That work was undertaken by an individual who was responsible for handing out multi-million pound contracts to private domiciliary care companies. He did so under very, very controversial circumstances, deciding to bundle the contracts in a way that allowed for very large organisations to bid for them, driving out many local care providers that had successfully provided domiciliary care for many, many years in the county. Within a matter of weeks of handing over this contract, that individual found himself in a senior director position of one of those companies. That is something that a Minister in a Welsh Government would not be allowed to do—would be prevented in law from doing. It would be the same for a Minister in Westminster. My argument is that there must be safeguards put in place to stop people in local authorities today handing over multi-million pound contracts to companies and walking away and working for those companies within a matter of days and weeks. That is what my amendment 75 seeks to stop from happening in future.

I appreciate that, at Stage 2, the Minister had some concerns about who might be covered by this amendment, but my intention, I hope, is absolutely clear. I have suggested six months as an initial cooling-off period, because I understand that restrictions such as these have to be proportionate. Otherwise, they risk breaching human rights and EU law. While the amendment is quite broad, the argument is that it is necessary to protect individuals who are receiving social care. I believe that that connection between quality commissioning does bring this within competence.

With regard to the consequences for breaching the six-month rule, the amendment makes this an offence punishable by an unlimited fine and it would be for a court to decide the actual fine imposed, depending on the circumstances of the offence.

Deputy Presiding Officer, having been through the experience once, I seek to ensure that no-one else should go through this experience again and to provide some safeguards for those who find themselves in a powerful position of commissioning services, handling large amounts of public money, and that they do so in an ethical fashion.

Gwelliant 75: mae'r Gweinidog, braidd yn haerllug, yn cyfeirio ato fel gwelliant Powys. Tua 18 mis yn ôl, penderfynodd Cyngor Sir Powys roi terfyn ar ei ddarpariaeth leol o ofal yn y cartref ac i roi ei holl ddarpariaeth gofal yn y cartref i ffynonellau allanol. Cafodd y gwaith hwnnw ei gyflawni gan unigolyn a oedd yn gyfrifol am ddsbarthu contractau gwerth miliynau o bunnoedd i gwmnïau gofal cartref preifat. Gwnaeth hynny dan amgylchiadau dadleuol iawn, iawn, gan benderfynu bwndelu'r contractau mewn ffordd oedd yn caniatáu i sefydliadau mawr iawn wneud cais amdanynt, a chael gwared ar lawer o ddarparwyr gofal lleol a oedd wedi darparu gofal cartref yn llwyddiannus am flynyddoedd lawer yn y sir. O fewn mater o wythnosau o drosglwyddo'r contract hwn, canfu'r unigolyn hwnnw ei hun mewn rôl uwch gyfarwyddwr un o'r cwmnïau hynny. Mae hynny'n rhywbeth na fyddai gan Weinidog mewn Llywodraeth Cymru yr hawl i'w wneud—byddai'n cael ei atal gan y gyfraith rhag gwneud hynny. Byddai yr un fath i Weinidog yn San Steffan. Fy nadl i yw bod yn rhaid bod mesurau diogel ar waith i atal pobl mewn awdurdodau lleol heddiw rhag trosglwyddo contractau gwerth miliynau o bunnoedd i gwmnïau ac yna cerdded i ffwrdd a gweithio i'r cwmnïau hynny o fewn mater o ddiwrnodau ac wythnosau. Dyna'r hyn y mae fy ngwelliant 75 yn ceisio'i atal rhag digwydd yn dyfodol.

Rwy'n sylweddoli, yng Nghyfnod 2, bod gan y Gweinidog rai pryderon ynghylch pwy allai gael eu cynnwys gan y gwelliant hwn, ond mae fy mwriad, gobeithio, yn gwbl glir. Rwyf wedi awgrymu chwe mis fel cyfnod ailfeddwl cychwynnol, gan fy mod yn deall bod yn rhaid i gyfyngiadau fel y rhain fod yn gymesur. Fel arall, maent mewn perygl o dorri hawliau dynol a chyfraith yr UE. Er bod y gwelliant yn eithaf eang, y ddadl yw ei fod yn angenrheidiol i amddiffyn unigolion sy'n derbyn gofal cymdeithasol. Credaf fod y cysylltiad hwnnw rhwng comisiynu o ansawdd yn dod â hyn o fewn cymhwysedd.

Gyda golwg ar y canlyniadau ar gyfer torri'r rheol chwe mis, mae'r gwelliant yn gwneud hyn yn drosedd sy'n dwyn cosb o ddirwy ddiderfyn a byddai'n fater i lys benderfynu ar yr union ddirwy a osodir, yn dibynnu ar amgylchiadau'r drosedd.

Ddirprwy Lywydd, ar ôl bod trwy'r profiad unwaith, rwy'n ceisio sicrhau na ddylai unrhyw un arall fynd drwy'r profiad hwn eto a darparu rhywfaint o gamau diogelu i'r rhai sy'n eu cael eu hunain mewn sefyllfa bwerus o gomisiynu gwasanaethau, trin symiau mawr o arian cyhoeddus, a'u bod yn gwneud hynny mewn ffordd foesebol.

17:40

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

It remains an important point of principle that any regulations that amend primary legislation must be subject, at the very least, to the affirmative procedure, and it is no rebuttal of that principle to say that a matter may be relatively minor. Any proposed change to an Act, however trivial it may be perceived to be, deserves to be approved by the legislature when the original position has been subject to a four-stage scrutiny process by that legislature.

In the course of this Assembly, some Welsh Government Bills and accompanying explanatory memoranda have recognised this very important constitutional point. In fact, Minister, if I can just turn to the Public Health (Wales) Bill, the explanatory memorandum for that is quite clear. It says

'Where a power contained in the Bill confers... a power to amend or repeal an enactment contained in primary legislation...it is considered that the affirmative procedure is the most appropriate procedure.'

Perhaps in your reply to this part of the debate today, Minister, you'll be able to explain to me why you've taken a different approach to the use of the affirmative procedure in your own public health Bill, as opposed to this Bill.

If a matter is purely technical or administrative in nature, it will not be delayed by applying the affirmative process, but whether it is purely technical or administrative is better a decision of the Assembly. The Assembly is better placed to say whether something is sufficiently technical or administrative in nature, and whether it should then exercise itself only momentarily.

Diolch yn fawr iawn, Ddirprwy Lywydd. Cynigiau welliant 69 yn fy enw i ac rwy'n siarad am y gwelliannau eraill yn y grŵp hwn.

Mae adran 110 o'r Bil yn rhoi amddiffyniad ar gyfer y teitl 'gweithiwr cymdeithasol', ac mae isadran (4) o'r adran honno yn nodi'r cofrestr perthnasol at ddibenion amddiffyn y teitl 'gweithiwr cymdeithasol'. Mae isadran (5) yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio isadran (4) drwy gyfrwng rheoliadau. Argymhellodd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y dylai'r rheoliadau hynny gael eu cyflwyno drwy'r weithdrefn gadarnhaol, nid lleiaf oherwydd bod isadran (5) wedi'i llunio'n ddigon eang i ganiatáu ar gyfer diwygio deddfwriaeth sylfaenol.

Mae'n parhau i fod yn bwynt pwysig o egwyddor bod rhaid i unrhyw reoliadau sy'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol fod yn ddarostyngedig, o leiaf, i'r weithdrefn gadarnhaol, ac nid yw'n gwrthbrofi'r egwyddor honno i ddweud y gall mater fod yn gymharol fach. Mae unrhyw newid arfaethedig i'r Ddeddf, pa mor ddibwys bynnag y gellir ei ystyried, yn haeddu cael ei gymeradwyo gan y ddeddfwrfa pan fo'r safbwynt gwreiddiol wedi bod yn destun proses graffu pedwar cam gan y ddeddfwrfa.

Yn ystod y Cynulliad hwn, mae rhai Biliau Llywodraeth Cymru a memoranda esboniadol sy'n cyd-fynd â nhw wedi cydnabod y pwynt cyfansoddiadol tra phwysig hwn. Yn wir, Weinidog, os caf fi droi at y Bil Iechyd Cyhoeddus (Cymru), mae'r memorandwm esboniadol ar gyfer hwnnw'n eithaf clir. Mae'n dweud

'Pan fo pŵer sydd wedi'i gynnwys yn y Bil yn rhoi ... pŵer i ddiwygio neu ddiddymu deddfiad a geir mewn deddfwriaeth sylfaenol ... ystyrir mai'r weithdrefn gadarnhaol yw'r weithdrefn fwyaf priodol'.

Efallai yn eich ateb i'r rhan hon o'r ddadl heddiw, Weinidog, y byddwch yn gallu egluro i mi pam eich bod wedi cymryd dull gwahanol o ddefnyddio'r weithdrefn gadarnhaol yn eich Bil Iechyd cyhoeddus eich hunan, yn hytrach na'r Bil hwn .

Os yw mater yn dechnegol neu'n weinyddol ei natur yn unig, ni fydd yn cael ei ohirio drwy gymhwyso'r broses gadarnhaol, ond mae'n well i'r Cynulliad benderfynu p'un a yw'n gwbl dechnegol neu weinyddol. Mae'r Cynulliad mewn sefyllfa well i ddweud a yw rhywbeth yn ddigon technegol neu weinyddol ei natur, ac a ddylid wedyn ei ymarfer ei hun am ennyd yn unig.

And this is a good case in point actually, Minister. In this particular case, the power provided by subsection (5) of section 110 could actually permit a radical overhaul or completely rewrite section 110(4). And while, of course, that is not your intention—I think you've made that plain—this is how the power could be used by a future Minister in a future administration. So, the question for me is: is that purely technical or administrative? The affirmative procedure suggested for such regulations would provide added protection to ensure that the rights of the legislature are protected and without restraining the Welsh Government's timetable for introducing them.

Amendment 70 relates to sections 124 to 129 of the Act. These provide for allegations of impaired fitness to practise to be investigated by Social Care Wales, or investigated by persons acting on behalf of Social Care Wales. And section 124(1) states that Social Care Wales

'must investigate, or make arrangements for the investigation of...a registered person's fitness to practise.'

I think we would all understand the value of that. Social Care Wales can make rules about the arrangements for investigations, and subsection (5) lists those persons who may not undertake the investigation. And there is a power in paragraph (d) to prescribe additional persons, including a prescribed person. It's not easy to see who a prescribed person might be.

The Bill provides for the regulations to define a prescribed person to be made using the negative procedure, because the detail, and I quote, is

'relatively minor in the overall legislative scheme',

which is possibly right. But there's no express constraint on the face of the Bill as to who the Welsh Ministers may prescribe as not being able to be part of Social Care Wales's investigations. So this amendment seeks to apply the affirmative procedure to regulations made under that subsection. There is, I would say, Minister, arguably, a reputational question about when people are not permitted to do something—in this case, to investigate—bringing the suggestion of who you wish to deny the opportunity to be part of the investigative process. I think it actually helps Ministers protect themselves against some sort of inadvertent—well, I think 'prejudice' is going far too far but 'error', shall we say?

Ac mae hon yn enghraifft dda o hyn mewn gwirionedd, Weinidog. Yn yr achos arbennig hwn, gallai'r pŵer a ddarperir gan isadran (5) o adran 110 mewn gwirionedd ganiatáu ailwampio radical neu ailysgrifennu adran 110 (4) yn gyfan gwbl. Ac er nad yw hynny, wrth gwrs, yn fwrriad gennych—credaf eich bod wedi gwneud hynny'n amlwg—dyma sut y gallai'r pŵer gael ei ddefnyddio gan Weinidog yn y dyfodol mewn gweinyddiaeth yn y dyfodol. Felly, y cwestiwn i mi yw: a yw hynny'n dechnegol neu weinyddol yn unig? Byddai'r weithdrefn gadarnhaol a awgrymir ar gyfer rheoliadau o'r fath yn rhoi amddiffyniad ychwanegol i sicrhau bod hawliau'r ddeddfwrfa yn cael eu diogelu a heb atal amserlen Llywodraeth Cymru ar gyfer eu cyflwyno.

Mae gwelliant 70 yn ymwneud ag adrannau 124 i 129 y Ddeddf. Mae'r rhain yn darparu ar gyfer honiadau o addasrwydd diffygiol i ymarfer gael eu hymchwilio gan Gofal Cymdeithasol Cymru, neu eu hymchwilio gan unigolion sy'n gweithredu ar ran Gofal Cymdeithasol Cymru. Ac mae adran 124 (1) yn datgan bod yn rhaid i Gofal Cymdeithasol Cymru

'ymchwilio, neu wneud trefniadau ar gyfer ymchwilio i ... addasrwydd person cofrestredig i ymarfer'.

Rwy'n credu y byddai pob un ohonom yn deall gwerth hynny. Gall Gofal Cymdeithasol Cymru wneud rheolau ynghylch y trefniadau ar gyfer ymchwiliadau, ac mae isadran (5) yn rhestru'r personau hynny na chânt gynnal yr ymchwiliad. Ac mae pŵer ym mharagraff (ch) i ragnodi unigolion ychwanegol, gan gynnwys unigolyn rhagnodedig. Nid yw'n hawdd gweld pwy allai unigolyn rhagnodedig fod.

Mae'r Bil yn darparu ar gyfer rheoliadau i ddiffinio unigolyn rhagnodedig i gael eu gwneud drwy ddefnyddio'r weithdrefn negyddol, oherwydd bod y manylion, a dyfynnaf, yn

'gymharol fach yn y cynllun deddfwriaethol cyffredinol',

sydd o bosibl yn gywir. Ond does dim cyfyngiad penodol ar wyneb y Bil o ran pwy gaiff Gweinidogion Cymru eu rhagnodi yn rhai nad ydynt yn gallu bod yn rhan o ymchwiliadau Gofal Cymdeithasol Cymru. Felly mae'r gwelliant hwn yn ceisio cymhwysu'r weithdrefn gadarnhaol â rheoliadau a wnaed o dan yr is-adran honno. Byddwn yn dweud, Weinidog, y gellid dadlau bod cwestiwn ynghylch enw da o ran pryd na chaiff pobl ganiatâd i wneud rhywbeth—yn yr achos hwn, i ymchwilio—sy'n awgrymu pwy rydych yn dymuno gwrthod y cyfle iddo fod yn rhan o'r broses ymchwilio. Rwy'n credu ei fod mewn gwirionedd yn helpu Gweinidogion i'w diogelu eu hunain rhag rhyw fath o—wel, rwy'n meddwl bod 'rhagfarn' yn mynd yn rhy bell o lawer, ond 'gwall' anfwriadol ddywedwn i?

Furthermore, in your letter of 8 September to the Constitutional and Legislative Affairs Committee, you concluded that you were not prepared particularly to look favourably on the affirmative procedure for this because the detail is relatively minor in the overall legislative scheme and that then that concerned you that applying the affirmative procedure would tie up National Assembly and Government resources. I have to ask you, Minister, whether that is a legitimate reason for denying this legislature the opportunity to scrutinise Government proposals. Surely it is up to this Assembly to decide whether tying up National Assembly and Government resources is a material answer to why we should not be able to scrutinise something at all.

Amendments 71 and 72: these deal with the creation of new offences, which are dealt with in this part of the Bill. They also cover sections 44, 45 and 51. It is important when we're talking about offences that incur criminal penalties that include imprisonment or fines—. It was the view certainly of the Constitutional and Legislative Affairs Committee on this occasion that, because we were talking about something so serious, the superaffirmative procedure really should be considered. In your letter again to our committee, Minister, you indicated that you were happy to accept the principle behind the recommendation but that you preferred to give effect to that recommendation by amending the explanatory notes detailing that it would be the Government's intention to follow a similar procedure set out in section 33 of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014. I have to ask you, Minister, if you've accepted our principle and you are referring to existing legislation, what exactly was the problem about putting that commitment on the face of the Bill? As I said, we're dealing with fairly serious offences here, and to not make it plain on the face of the Bill about what your intention was, rather than hiding it away in explanatory notes that don't form part of the law—it's quite difficult for, I would say, civil society to understand perhaps why you did that.

Finally in this group, it's our old friend, yes, it's the commencement Order. I think it's no surprise that it remains the long-standing view of the Constitutional and Legislative Affairs Committee that commencement Orders that commence provisions other than by simply naming the date of commencement, which therefore may include transitory, transitional or saving provisions, really should be subject to some form of scrutiny, and the negative procedure would be appropriate for that. Amendment 73 simply restates that principle, and I think it would be fair for me to repeat something I've said before, which is that ministerial reassurance however and however often repeated is no substitute for this Assembly's right to scrutinise the decision. Thank you.

Ar ben hynny, yn eich llythyr dyddiedig 8 Medi i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, daethoch i'r casgliad nad oeddech chi'n fodlon yn benodol i edrych yn ffafriol ar y weithdrefn gadarnhaol ar gyfer hyn am fod y manylion yn gymharol fach yn y cynllun deddfwriaethol cyffredinol, a bod hynny wedyn yn eich poeni chi y byddai cymhwysu'r weithdrefn gadarnhaol yn clymu adnoddau Cynulliad Cenedlaethol a'r Llywodraeth. Mae'n rhaid i mi ofyn i chi, Weinidog, a yw hynny'n rheswm dilys dros wrthod y cyfle hwn i'r ddeddfwrfa graffu ar gynigion y Llywodraeth. Yn sicr mae'n fater i'r Cynulliad hwn i benderfynu p'un a yw clymu adnoddau Cynulliad Cenedlaethol a'r Llywodraeth yn ateb perthnasol i pam na ddylem fod yn gallu craffu ar rywbeth o gwbl.

Gwelliannau 71 a 72: mae'r rhain yn ymdrin â chreu troseddau newydd, sy'n cael eu trin yn y rhan hon o'r Bil. Maent hefyd yn cynnwys adrannau 44, 45 a 51. Mae'n bwysig pan ydym yn sôn am droseddau sy'n golygu cosbau troseddol sy'n cynnwys carchar neu ddirwyon—. Barn y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn sicr ar yr achlysur hwn, gan ein bod yn sôn am rywbeth mor ddifrifol, oedd y dylid rhoi ystyriaeth wirioneddol i'r weithdrefn uwchgadarnhaol. Yn eich llythyr eto i'n pwyllgor, Weinidog, dywedasoch eich bod yn fodlon derbyn yr egwyddor y tu ôl i'r argymhelliad, ond y byddai'n well gennych chi roi grym i'r argymhelliad hwnnw drwy ddiwygio'r nodiadau esboniadol sy'n nodi y byddai'n fwiad y Llywodraeth i ddilyn gweithdrefn debyg a nodir yn adran 33 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'n rhaid i mi ofyn i chi, Weinidog, os ydych chi wedi derbyn ein hegwyddor a'ch bod yn cyfeirio at deddfwriaeth sydd eisoes yn bodoli, beth yn union oedd y broblem ynghylch rhoi'r ymrwymiad hwnnw ar wyneb y Bil? Fel y dywedais, rydym yn ymdrin â throseddau eithaf difrifol yma, ac am i chi beidio ei wneud yn glir ar wyneb y Bil ynghylch beth oedd eich bwriad, yn hytrach na'i guddio yn y nodiadau esboniadol sydd ddim yn rhan o'r gyfraith—mae'n eithaf anodd, byddwn i'n dweud, i gymdeithas sifil ddeall efallai pam y gwnaethoch hynny.

Yn olaf yn y grŵp hwn, mae'r hen gyfaill, ie, y Gorchymyn cychwyn. Credaf nad yw'n syndod mai barn hirsefydlog y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol o hyd yw y dylai Gorchymynion cychwyn sy'n cychwyn y darpariaethau yn hytrach nag enwi dyddiad cychwyn yn syml, a all felly gynnwys darpariaethau dros dro, trosiannol neu arbed, mewn gwirionedd fod yn amodol ar ryw fath o graffu, a byddai'r weithdrefn negyddol yn briodol ar gyfer hynny. Mae gwelliant 73 yn ailddatgan yr egwyddor honno, ac rwy'n meddwl y byddai'n deg i mi ailadrodd rhywbeth yr wyf wedi'i ddweud o'r blaen, sef nad yw sicrwydd gan Weinidog, sut bynnag a faint bynnag y caiff ei ailadrodd, yn cymryd lle hawl y Cynulliad hwn i graffu ar y penderfyniad. Diolch.

18:28

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Are there any other speakers before I call the Minister?
Minister.

A oes unrhyw siaradwyr eraill cyn imi alw ar y
Gweinidog? Weinidog.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch yn fawr, Ddirprwy Lywydd. Can I thank Suzy Davies for these amendments? I think she raises a whole series of important debates. They are worth rehearsing on the floor of the Assembly quite certainly, even though I generally come to different conclusions than she does, having rehearsed the point at issue. Suzy Davies's amendment 69 would indeed apply the affirmative procedure to section 110(5). As I explained to the Constitutional and Legislative Affairs Committee, this power will only be needed to be used if there are changes to those relevant regulators listed in subsection (4), and such changes will only be made to keep the Bill up to date. They really are minor and technical in nature. I think there is a danger of erecting principles without being prepared to consider how those principles are altered by applying those principles in different sets of circumstances. That's the difference between the Public Health (Wales) Bill and here circumstances alter cases. Nor do I agree with Suzy Davies's assertion that the non-evocation of the affirmative procedure is a denial of the Assembly's ability to scrutinise. There is another procedure—the negative procedure. Any member of the Assembly who feels that something that has gone through on the negative procedure and wishes to draw that to the Assembly's attention is able to use that procedure to do so. The fact that it doesn't get used in that way suggests to me, by and large, that those matters that do require the Assembly's direct scrutiny are properly allocated to the affirmative procedure. I listened very carefully to what the Constitutional and Legislative Affairs Committee said and was persuaded by what that committee said in a number of instances and amended the Bill to provide a different degree of scrutiny than the one I had originally intended. I don't think that those arguments are persuasive in the particular instance that amendment 69 seeks to address.

Diolch yn fawr, Ddirprwy Lywydd. A gaf i ddiolch i Suzy Davies am y gwelliannau hyn? Rwy'n credu ei bod yn codi cyfres gyfan o ddadleuon pwysig. Maent yn werth eu hymarfer ar lawr y Cynulliad yn eithaf sicr, er fy mod yn gyffredinol yn dod i gasgliadau gwahanol nag y mae hi'n ei wneud, ar ôl ymarfer y pwynt dan sylw. Byddai gwlliant 69 Suzy Davies, yn wir, yn cymhwysu'r weithdrefn gadarnhaol i adran 110 (5). Fel yr eglurais wrth y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, ni fydd ond angen defnyddio'r pŵer hwn os oes newidiadau i'r rheoleiddwyr perthnasol hynny a restrir yn isadran (4), a bydd newidiadau o'r fath ond yn cael eu gwneud i gadw'r Bil yn gyfredol. Maent yn wir yn fân ac yn dechnegol eu natur. Rwy'n credu bod perygl o osodi egwyddorion heb fod yn barod i ystyried sut y mae'r egwyddorion hynny'n cael eu newid drwy ddefnyddio'r egwyddorion hynny mewn gwahanol amgylchiadau. Dyna yw'r gwahaniaeth rhwng Bil lechyd y Cyhoedd (Cymru) ac yma mae amgylchiadau yn newid achosion. Ac nid wyf yn cytuno â honiad Suzy Davies bod diffyg galw'r weithdrefn gadarnhaol yn gwadu gallu'r Cynulliad i graffu. Ceir gweithdrefn arall—y weithdrefn negyddol. Mae unrhyw aelod o'r Cynulliad sy'n teimlo bod rhywbeth sydd wedi mynd drwy'r weithdrefn negyddol ac yn dymuno tynnu hynny i sylw'r Cynulliad yn gallu defnyddio'r weithdrefn honno i wneud hynny. Mae'r ffaith nad yw'n cael ei defnyddio yn y ffordd honno yn awgrymu i mi, ar y cyfan, fod y materion hynny sydd angen craffu uniongyrchol arnynt gan y Cynulliad yn cael eu dyrannu yn gywir i'r weithdrefn gadarnhaol. Gwrandewais yn astud iawn ar yr hyn a ddywedodd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ac fe'm perswadiwyd gan yr hyn a ddywedodd y pwyllgor hwnnw mewn nifer o achosion, a diwygiais y Bil i ddarparu gradd wahanol o graffu i'r un yr oeddwn wedi'i bwriadu yn wreiddiol. Nid wyf yn credu bod y dadleuon hynny yn argyhoeddiadol yn yr enghraifft benodol y mae gwlliant 69 yn ceisio ymdrin â hi.

18:31 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Will you just take a short intervention?

A wnewch chi gymryd ymyriad byr?

18:31 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Of course. Yes.

Wrth gwrs. Gwnaf.

18:31 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I've just listened to what you said and I accept that you have an argument on this. Does it mean then that you will be amending the explanatory notes to the Public Health (Wales) Bill in which you stated quite categorically that, where a power is able to be used to amend primary legislation with no qualifications to that, the affirmative procedure is appropriate?

Rwyf newydd wrando ar yr hyn a ddywedasoch ac rwy'n derbyn bod gennych ddatl ar hyn. A yw'n golygu wedyn y byddwch yn newid y nodiadau esboniadol i'r Bil lechyd Cyhoeddus (Cymru) drafft lle'r oeddech yn datgan yn gwbl bendant, lle mae pŵer yn gallu cael ei ddefnyddio i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol heb unrhyw amodau i hynny, bod y weithdrefn gadarnhaol yn briodol?

18:31 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Dirprwy Lywydd, I will deal with the Public Health (Wales) Bill when it's in front of this Assembly, rather than today. If it is right to approach that matter in one way in one Bill, it is not necessarily always going to be the case that you will want to do the identical thing in another Bill. I will address that matter when that particular Bill is in front of the Assembly.

Ddirprwy Lywydd, byddaf yn ymdrin â Bil lechyd y Cyhoedd (Cymru) pan fydd gerbron y Cynulliad hwn, yn hytrach na heddiw. Os yw'n iawn i fynd i'r afael â'r mater hwnnw mewn un ffordd mewn un Bil, nid yw'n mynd i fod yn wir y byddwch o reidrwydd am wneud yr un peth yn union mewn Bil arall bob amser. Byddaf yn mynd i'r afael â'r mater hwnnw pan fydd y Bil penodol hwnnw gerbron y Cynulliad.

I want to come to amendment 70 next. Again, I reiterate my position that the affirmative procedure is not required to be applied to section 124(5). That section deals with those persons who are precluded from carrying out fitness-to-practice investigations. The regulation-making power enables persons to be added to that list of persons who cannot carry out an investigation. It does not allow Welsh Ministers to take away from that list. As a result, the separation between investigation and adjudication required by article 6 of the European Convention on Human Rights will always be maintained, irrespective of whether the regulations are made or not. The procedure adopted in the Bill is, I think, already proportionate to the purposes of this section, and I don't think that the case for an amendment is made.

Dirprwy Lywydd, I committed to amend the explanatory notes in respect of sections 44, 45 and 51 in order to give effect to the Constitutional and Legislative Affairs Committee recommendation that the superaffirmative procedure should apply to these sections. That superaffirmative procedure, following that laid out in section 33 of the Social Services and Well-being (Wales) Act, will indeed be put into practice by the Government. I don't accept that explanatory notes are hiding anything away. They've been referred to a number of times this afternoon during the Stage 3 debate. It remains my intention that this will be done when the explanatory notes are finalised, should the Bill succeed at Stage 4. While in group 16 earlier this afternoon I accepted an amendment from Suzy Davies in a similar vein, the problem here is that her amendments 71 and 72 go even further than the superaffirmative procedure proposed by the Constitutional and Legislative Affairs Committee. In group 16, Suzy Davies said that she had thought about naming certain individuals who ought to be consulted as part of the superaffirmative procedure but that she had drawn back from that; but here, in amendments 71 and 72, we find indeed that there are specific post holders named who would have to be consulted. The amendments don't simply place the superaffirmative procedure on the face of the Bill. They attempt to run the procedure as well. While I was prepared to go as far as the Constitutional and Legislative Affairs Committee's recommendation, and therefore accepted the amendment in group 16, I'm not prepared to go beyond it, and I think these amendments do just that.

Finally, I cannot support amendment 73. There's just a simple difference of view between what the committee thinks should be done and what the Government has consistently done in the making of legislation. The making of commencement Orders has not normally been subject to any procedure and the transitory, transition and saving procedures that would be caught by this amendment can only be used to bring into force what the National Assembly has already approved. I cannot see a reason, therefore, to deviate from the current convention in relation to commencement Orders, and I ask Members to reject all the amendments in this final group.

Rwyf eisiau dod at welliant 70 nesaf. Unwaith eto, hoffwn ailadrodd fy safbwynt nad yw'n ofynnol i'r weithdrefn gadarnhaol gael ei chymhwyso at adran 124 (5). Mae'r adran honno'n ymdrin â'r unigolion hynny sy'n cael eu hatal rhag cyflawni ymchwiliadau addasrwydd i ymarfer. Mae'r pŵer i wneud rheoliadau yn galluogi pobl i gael eu hychwanegu at y rhestr o unigolion na allant gynnal ymchwiliad. Nid yw'n caniatáu i Weinidogion Cymru dynnu i ffwrdd o'r rhestr honno. O ganlyniad, bydd y gwahaniad rhwng archwilio a dyfarnu sy'n ofynnol gan erthygl 6 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol bob amser yn cael ei gynnal, heb ystyried a yw'r rheoliadau yn cael eu gwneud ai peidio. Mae'r weithdrefn a fabwysiadwyd yn y Bil, rwy'n meddwl, eisoes yn gymesur â dibenion yr adran hon, ac nid wyf yn credu bod yr achos dros newid yn cael ei wneud.

Dirprwy Lywydd, rwyf wedi ymrwymo i ddiwygio'r nodiadau esboniadol o ran adrannau 44, 45 a 51 er mwyn gweithredu argymhelliad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y dylai'r weithdrefn uwchgadarnhaol fod yn berthnasol i'r adrannau hyn. Bydd y weithdrefn uwchgadarnhaol honno, yn dilyn yr hyn a nodir yn adran 33 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), yn wir yn cael ei rhoi ar waith gan y Llywodraeth. Nid wyf yn derbyn bod nodiadau esboniadol yn cuddio unrhyw beth. Cyfeiriwyd atyn nhw nifer o weithiau'r prynhawn yma yn ystod dadl Cyfnod 3. Mae'n parhau yn fwriad gennyf y bydd hyn yn cael ei wneud pan fydd y nodiadau esboniadol yn cael eu cwblhau, os bydd y Bil yn llwyddo yng Nghyfnod 4. Tra'r oeddyn yn grŵp 16 yn gynharach y prynhawn yma derbyniais welliant gan Suzy Davies yn yr un modd. Y broblem yma yw bod ei gwelliannau 71 a 72 hi yn mynd hyd yn oed ymhellach na'r weithdrefn uwchgadarnhaol a gynigiwyd gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol. Yn grŵp 16, dywedodd Suzy Davies ei bod wedi meddwl am enwi unigolion penodol y dylid ymgynghori â hwy fel rhan o'r weithdrefn uwchgadarnhaol, ond ei bod wedi tynnu yn ôl o hynny; ond yma, yng ngwelliannau 71 a 72, rydym yn gweld, yn wir, fod deiliaid swyddi penodol wedi'u henwi gennyf y byddai'n rhaid ymgynghori â nhw. Nid yw'r gwelliannau'n syml yn gosod y weithdrefn uwchgadarnhaol ar wyneb y Bil. Maent yn ceisio cynnal y drefn hefyd. Er fy mod yn barod i fynd cyn belled ag argymhelliad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, ac felly wedi derbyn y gwelliant yn grŵp 16, dydw i ddim yn barod i fynd y tu hwnt iddo, ac rwy'n meddwl bod y gwelliannau hyn yn gwneud hynny.

Yn olaf, ni allaf gefnogi gwelliant 73. Nid oes ond gwahaniaeth barn syml rhwng yr hyn y mae'r pwyllgor yn credu y dylid ei wneud a'r hyn y mae'r Llywodraeth wedi'i wneud yn gyson wrth lunio deddfwriaeth. Nid yw gwneud Gorchmynion cychwyn fel rheol wedi bod yn destun unrhyw weithdrefn, ac ni ellir ond defnyddio'r gweithdrefnau dros dro, trosiannol neu arbed a fyddai'n cael eu dal gan y gwelliant hwn i roi grym i'r hyn y mae'r Cynulliad Cenedlaethol eisoes wedi'i gymeradwyo. Ni allaf weld rheswm, felly, i wyro oddi wrth y confensiwn cyfredol mewn cysylltiad â gorchmynion cychwyn, a gofynnaf i'r Aelodau wrthod yr holl welliannau yn y grŵp olaf.

18:35

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Suzy Davies to reply.

Suzy Davies i ymateb.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Suzy Davies [Bywgraffiad Biography](#)

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Thank you, Minister. I do appreciate the time that you've taken to consider the amendments that were included in this group. I think, in my intervention, I expressed my reservations as to your conclusions regarding amendment 69 and I was a little concerned when you said that a principle could be thrown up in some cases and not thrown up in other cases when you're trying to justify the inclusion of some new provisions, as we were trying to in this case. A principle is a principle and the principle that this place is the legislature and you're the Government is a fundamental principle of this Assembly. It's not one to be treated with any levity, regardless of the views on whether amendments being introduced are, in the Government's view, technical or minor in nature. So, I'm sure that you weren't seeking to undermine that principle in your response to the debate, but I thought I perhaps should reiterate the point on that.

I appreciate the responses that you've put forward in the other parts of the debate. I was just a little concerned with the issue of precluding anyone from the list, bearing in mind the issues we've faced in this place before about disqualifications and so forth. I appreciate we're not quite in the same ball game with this, but when somebody is precluded from doing something, I think this Assembly, perhaps, should have the presumption of a right to decide whether that's a good idea or not.

In terms of your willingness to include a commitment in explanatory notes, I do appreciate that that's happening. I don't mean to undermine that that's not an important step, but it is also a principle that could have appeared on the face of the Bill itself. I'm still not convinced that putting something into explanatory notes, which don't form part of the law is as good as putting something on the face of the Bill.

Finally, on the issue of commencement Orders, you referred to a current convention. That's a current convention in another part of the UK, of course, Minister. I think the Constitutional and Legislative Affairs Committee has spent a considerable amount of time hoping that Government doesn't create its own convention on the issue of commencement Orders. When you say that you wouldn't normally apply a procedure to a commencement Order, it really is not for the lack of trying of a committee of this Assembly. I would be grateful if all Government Ministers would perhaps consider this afresh every time we bring it forward, because I suspect we will continue to bring it forward until the point is well and truly made that the legislature has the final say on scrutiny and not the Government. Thank you.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Diolch yn fawr, Weinidog. Rwy'n gwerthfawrogi'r amser yr ydych wedi ei gymryd i ystyried y gwelliannau a gafodd eu cynnwys yn y grŵp hwn. Rwy'n meddwl fy mod wedi mynegi, yn fy ymyriad, fy amheuon ynghylch eich casgliadau ynglŷn â gwellant 69 ac roeddwn braidd yn bryderus pan ddywedasoch y gellid cyflwyno egwyddor mewn rhai achosion ond nid mewn achosion eraill pan fyddwch yn ceisio cyfiawnhau cynnwys rhai darpariaethau newydd, fel yr ydym yn ceisio ei wneud yn yr achos hwn. Egwyddor yw egwyddor ac mae'r egwyddor mai'r lle hwn yw'r ddeddfwrfa a chi yw'r Llywodraeth yn un o egwyddorion sylfaenol y Cynulliad hwn. Dyw hi ddim yn un i gael ei thrin gydag unrhyw ysgafnder, beth bynnag yw'r safbwyntiau ynghylch p'un a yw'r gwelliannau sy'n cael eu cyflwyno, ym marn y Llywodraeth, yn dechnegol neu'n ddibwys eu natur. Felly, rwy'n siŵr nad oeddech yn ceisio tansellio'r egwyddor honno yn eich ymateb i'r ddatl, ond roeddwn yn meddwl efallai y dylwn ailadrodd y pwynt ar hynny.

Rwy'n gwerthfawrogi'r ymatebion yr ydych wedi'u cyflwyno mewn rhannau eraill o'r ddatl. Roeddwn yn poeni braidd am y mater o rwystro unrhyw un rhag cael eu cynnwys ar y rhestr, gan gadw mewn cof y materion yr ydym wedi eu hwynebu yn y lle hwn o'r blaen ynghylch gwaharddiadau ac ati. Rwy'n gwerthfawrogi nad ydym yn hollol o'r un farn ar hyn, ond pan fydd rhywun yn cael ei atal rhag gwneud rhywbeth, rwy'n credu y dylai'r Cynulliad hwn, efallai, gael y rhagdybiaeth o'r hawl i benderfynu a yw hynny'n syniad da ai peidio.

O ran eich parodrwydd i gynnwys ymrwymiad yn y nodiadau esboniadol, rwy'n gwerthfawrogi bod hynny'n digwydd. Dydw i ddim yn bwriadu tansellio'r ffaith nad yw hwnnw'n gam pwysig, ond mae hefyd yn un o'r egwyddorion a allai fod wedi ymddangos ar wyneb y Bil ei hun. Nid wyf wedi fy argyhoeddi o hyd bod rhoi rhywbeth i mewn i nodiadau esboniadol, nad ydynt yn rhan o'r gyfraith, cystal â rhoi rhywbeth ar wyneb y Bil.

Yn olaf, ar fater Gorchmynion cychwyn, cyfeiriasoch at gonfensiwn cyfredol. Confensiwn cyfredol mewn rhan arall o'r DU yw hwnnw, wrth gwrs, Weinidog. Rwy'n meddwl bod y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Ddeddfriaethol wedi treulio cryn dipyn o amser yn gobeithio nad yw'r Llywodraeth yn creu ei chonfensiwn ei hun ar fater Gorchmynion cychwyn. Pan ydych yn dweud na fydddech fel arfer yn cymhwyso gweithdrefn i Orchymyn cychwyn, nid yw hynny oherwydd diffyg ymdrech gan bwyllgor y Cynulliad hwn. Byddwn yn ddiolchgar pe byddai pob Gweinidog Llywodraeth efallai yn ystyried hyn o'r newydd bob tro y byddwn yn ei gyflwyno, oherwydd rwy'n amau y byddwn yn parhau i'w gyflwyno hyd nes bydd y pwynt wedi ei wneud o ddifrif mai gan y ddeddfwrfa y mae'r gair olaf ar graffu ac nid y Llywodraeth. Diolch.

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad Biography](#)

The question is that amendment 69 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We'll have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 26, there voted against 26. I cast my vote against the amendment, which falls.

Y cwestiwn yw bod gwellant 69 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Fe gawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 26 o blaid, pleidleisiodd 26 yn erbyn. Rwy'n bwrw fy mhleidlais yn erbyn y gwellant, sy'n methu.

Gwrthodwyd gwelliant 69: O blaid 26, Yn erbyn 26, Ymatal 0.

Amendment 69 not agreed: For 26, Against 26, Abstain 0.

Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.

As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 69](#)

[Result of the vote on amendment 69](#)

18:38 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Suzy Davies, amendment 70. Suzy Davies, gwelliant 70.

Cynigiwyd gwelliant 70 (Suzy Davies).

Amendment 70 (Suzy Davies) moved.

18:38 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Cynnig. I move.

18:38 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
The question is that amendment 70 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We will have an electronic vote. Open the vote. Close the vote, there voted in favour 26. There voted against 26. I cast my vote against the amendment, which falls. Y cwestiwn yw bod gwelliant 70 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Fe gawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais, pleidleisiodd 26 o blaid. Pleidleisiodd 26 yn erbyn. Rwy'n bwrw fy mhleidlais yn erbyn y gwelliant, sy'n methu.

Gwrthodwyd gwelliant 70: O blaid 26, Yn erbyn 26, Ymatal 0.

Amendment 70 not agreed: For 26, Against 26, Abstain 0.

Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.

As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 70](#)

[Result of the vote on amendment 70](#)

18:39 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Lindsay Whittle, amendment 102. Lindsay Whittle, gwelliant 102.

Cynigiwyd gwelliant 102 (Lindsay Whittle).

Amendment 102 (Lindsay Whittle) moved.

18:39 **Lindsay Whittle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Formally move. Cynnig yn ffurfiol.

18:39 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
The question is that amendment 102 be agreed. Does any Member object? Then amendment 102 is agreed. Y cwestiwn yw bod gwelliant 102 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Yna caiff gwelliant 102 ei dderbyn.

Derbyniwyd gwelliant 102 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Amendment 102 agreed in accordance with Standing Order 12.36.

18:39 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Suzy Davies, amendment 71. Suzy Davies, gwelliant 71.

Cynigiwyd gwelliant 71 (Suzy Davies).

Amendment 71 (Suzy Davies) moved.

18:39	<p>Suzy Davies Bywgraffiad Biography</p> <p>Cynnig.</p>	I move.	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
18:39	<p>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>The question is that amendment 71 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We will have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 26, there voted against 26. I cast my vote against the amendment, which falls.</p> <p><i>Gwrthodwyd gwelliant 71: O blaid 26, Yn erbyn 26, Ymatal 0.</i></p> <p><i>Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.</i></p> <p>Canlyniad y bleidlais ar welliant 71</p>	<p>Y cwestiwn yw bod gwelliant 71 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Fe gawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 26 o blaid, pleidleisiodd 26 yn erbyn. Rwy'n bwrw fy mhleidlais yn erbyn y gwelliant, sy'n methu.</p> <p><i>Amendment 71 not agreed: For 26, Against 26, Abstain 0.</i></p> <p><i>As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.</i></p> <p>Result of the vote on amendment 71</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
18:40	<p>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>Suzy Davies, amendment 72.</p> <p><i>Cynigiwyd gwelliant 72 (Suzy Davies).</i></p>	<p>Suzy Davies, gwelliant 72.</p> <p><i>Amendment 72 (Suzy Davies) moved.</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
18:40	<p>Suzy Davies Bywgraffiad Biography</p> <p>Cynnig.</p>	I move.	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
18:40	<p>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>The question is that amendment 72 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We will have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 26, voted against 26. I cast my vote against the amendment, which falls.</p> <p><i>Gwrthodwyd gwelliant 72: O blaid 26, Yn erbyn 26, Ymatal 0.</i></p> <p><i>Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.</i></p> <p>Canlyniad y bleidlais ar welliant 72</p>	<p>Y cwestiwn yw bod gwelliant 72 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Fe gawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 26 o blaid, pleidleisiodd 26 yn erbyn. Rwy'n bwrw fy mhleidlais yn erbyn y gwelliant, sy'n methu.</p> <p><i>Amendment 72 not agreed: For 26, Against 26, Abstain 0.</i></p> <p><i>As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.</i></p> <p>Result of the vote on amendment 72</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
18:40	<p>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>Suzy Davies, amendment 73.</p> <p><i>Cynigiwyd gwelliant 73 (Suzy Davies).</i></p>	<p>Suzy Davies, gwelliant 73.</p> <p><i>Amendment 73 (Suzy Davies) moved.</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
18:40	<p>Suzy Davies Bywgraffiad Biography</p> <p>Cynnig.</p>	I move.	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

18:40	<p>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>The question is that amendment 73 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We will have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 26, voted against 26. I cast my vote against the amendment, which falls.</p> <p><i>Gwrthodwyd gwelliant 73: O blaid 26, Yn erbyn 26, Ymatal 0.</i></p> <p><i>Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.</i></p> <p>Canlyniad y bleidlais ar welliant 73</p>	<p>Y cwestiwn yw bod gwelliant 73 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Fe gawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 26 o blaid, pleidleisiodd 26 yn erbyn. Rwy'n bwrw fy mhleidlais yn erbyn y gwelliant, sy'n methu.</p> <p><i>Amendment 73 not agreed: For 26, Against 26, Abstain 0.</i></p> <p><i>As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.</i></p> <p>Result of the vote on amendment 73</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
18:40	<p>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>Minister, amendment 36.</p> <p><i>Cynigiwyd gwelliant 36 (Mark Drakeford).</i></p>	<p>Weinidog, gwelliant 36.</p> <p><i>Amendment 36 (Mark Drakeford) moved.</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
18:40	<p>Mark Drakeford Bywgraffiad Biography</p> <p>Move.</p>	<p>Cynnig.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
18:40	<p>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>The question is that amendment 36 be agreed. Does any Member object? Then amendment 36 is agreed.</p> <p><i>Derbyniwyd gwelliant 36 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.</i></p>	<p>Y cwestiwn yw bod gwelliant 36 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Yna caiff gwelliant 36 ei dderbyn.</p> <p><i>Amendment 36 agreed in accordance with Standing Order 12.36.</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
18:40	<p>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>Lindsay Whittle, amendment 76.</p> <p><i>Cynigiwyd gwelliant 76 (Lindsay Whittle, gyda chefnogaeth Mark Drakeford).</i></p>	<p>Lindsay Whittle, gwelliant 76.</p> <p><i>Amendment 76 (Lindsay Whittle, supported by Mark Drakeford) moved.</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
18:40	<p>Lindsay Whittle Bywgraffiad Biography</p> <p>I formally move.</p>	<p>Cynigiau yn ffurfiol.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
18:40	<p>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>The question is that amendment 76 be agreed. Does any Member object? Then amendment 76 is agreed.</p> <p><i>Derbyniwyd gwelliant 76 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.</i></p>	<p>Y cwestiwn yw bod gwelliant 76 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Yna caiff gwelliant 76 ei dderbyn.</p> <p><i>Amendment 76 agreed in accordance with Standing Order 12.36.</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
18:41	<p>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>We have reached the end of our Stage 3 consideration of the Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Bill. I declare that all sections of and Schedules to the Bill are deemed agreed. That concludes Stage 3 proceedings and today's proceedings of the Assembly. Thank you.</p>	<p>Rydym wedi dod i ddiwedd ein hystyriaeth Cyfnod 3 o'r Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru). Rwy'n datgan yr ystyrir bod pob rhan ac Atodlen o'r Bil wedi'u derbyn. Dyna ddiwedd trafodion Cyfnod 3 a thrafodion y Cynulliad heddiw. Diolch.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

Barnwyd y cytunwyd ar bob adran o'r Bil.

All sections of the Bill deemed agreed.

Daeth y cyfarfod i ben am 18.41.

The meeting ended at 18.41.